

Mat 29

August Matheson.



PEDEIR KEINC Y MABINOGI

ALLAN O
LYFR GWYN RHYDDERCH

GAN
IFOR WILLIAMS, M.A.



CAERDYDD
GWASG PRIFYSGOL CYMRU
1930

CAERDYDD :
WILLIAM LEWIS (ARGRAFFWYR) CYF.
MCMXXX.



Rhagair

YN Nhachwedd, 1928, gofynnodd Bwrdd Gwasg y Brifysgol i mi baratoi llawlyfr ar y Pedair Cainc i ddsbarthau'r Brifysgol, a hynny cyn gynted ag y bai modd, gan fod angen testun hylaw gyda nodiadau ar yr iaith. Cyn i mi gael ond prin gychwyn, cafodd ein hadran ym Mangor ddyrnod drom yn afiechyd a marwolaeth Syr John Morris-Jones : bu farw fore cyntaf term yr haf. Bu raid gohirio'r gorchwyl nes gorffen y flwyddyn goleg, a phrysuero wedyn yng nghanol trafferthion eraill i ddwyn y gwaith i ben.

Er mwyn byrder, a chan dybio bod ein myfyrwyr eisoes yn defnyddio'r llawlyfrau ar *Freuddwyd Maxen*, *Lludd a Llefelys*, *Seith Doethon Rufein*, a Gramadeg Syr John Morris-Jones, yn lle ail adrodd ac ail brintio, ymfodlonais ar gyfeirio at y manau yn y llyfrau hyn lle ceid trafodaeth lawnach. Bwriadwn roi crynodeb o hynodion iaith a gramadeg y testun fel atodiad i'r nodiadau, ond wrth weld y llyfr yn ymestyn dan fy nwylo, bernais mai doeth ymatal. Caiff y myfyriwr gymorth nid bychan yn ysgrifau'r Athro Henry Lewis ar gystrawennau'r Mabinogi yn y *Bulletin* a gyhoeddir gan Fwrdd Gwybodau Celtig y Brifysgol. Am drafodaeth ar darddellau *Math*, gweler llyfr yr Athro W. J. Gruffydd.

IFOR WILLIAMS.

PORTHAETHWY,
Mawrth 5, 1930.

Cynnwys

	<i>Tud.</i>
RHAGAIR	iii
RHAGYMDRODD	vii
PWYLL PENDEUIC DYUET	1
BRANWEN UERCH LYR	29
MANAWYDAN UAB LLYR	49
MATH UAB MATHONWY	67
NODIADAU	93
DARNAU O'R MABINOGI	305
BYRFODDAU	309
MYNEGAI I'R NODIADAU	315
GEIRFA FERR	333

Rhagymadrodd

§1. Y TESTUN.

Gan fod Argraffiad Rhydychen o'r Mabinogion yn rhoi'r testun yn union fel y digwydd yn y llawysgrifau, ac felly yn cyfarfod â gofyn yr ysgolhaig, bernais mai gwell mewn llawlyfr fel hwn oedd golygu peth arno er mwyn helpu'r ieuainc a'r dibrofiad yn yr hen orgraff. Cymerais Lyfr Gwyn Rhydderch fel safon, a newid cyn lleied byth ag y medrwn ar ei destun; pan dybiwn fod gair neu frawddeg ar goll, rhois hwy i mewn rhwng bachau petryal, a phan newidiwn air yma ac acw, rhois ddarlleniad y llawysgrif ar waelod y ddalen. Ar y cyfan, dilynais yr atalnodi yn y gwreiddiol, ond nid ym mhobman; a gwahenais eiriau oddiwrth ei gilydd yn null orgraff heddiw, gan ddefnyddio'r arwyddion arferol i nodi geiriau'r llefarwr. Felly gyda phrif lythrennau mewn enwau personau a lleoedd. Rhois hefyd yr englynion yn null ein hoes ni o brintio mydr. I arbed cost a thrafferth ofer wrth argraffu, ni cheisiais ddynwared amrywiadau'r llawysgrif yn null *w, r, s*; na chwaith roi'r defnydd linell am linell a cholofn am golofn. Ond rhois rif y golofn i mewn bob tro rhwng bachau petryal. Yn y manau hynny lle ceid bylchau ar ymyl y dalennau, dilynais Argraffiad Rhydychen sy'n cyflawni'r cyfryw ddiffyg o Lyfr Coch Hergest.

Ceir copi cyflawn o'r Pedair Cainc mewn dwy llawysgrif, a dau ddarn byr mewn un arall. Yr olaf sy'n rhoi'r testun hynaf, sef Peniarth 6; amserir gan y

Dr. Gwenogvryn Evans tua 1225. Perthyn y rhan o Llyfr Gwyn Rhydderch, lle digwydd y testun, i tua 1300-25 yn ôl yr un awdurdod : a'r rhan gyfatebol o Llyfr Coch Hergest i'r cyfnod rhwng 1375 a 1425. Cedwir Peniarth 6, a Llyfr Gwyn Rhydderch (Pen. 4 a 5) yn y Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth, a'r Llyfr Coch o Hergest yn y Bodleian yn Rhydychen.

§2. PERTHYNAS Y LLAWYSGRIFAU.

Sut y mae'r tair llawysgrif hyn yn perthyn i'w gilydd? Medrir cymharu y pedwar tudalen sydd yn aros o'r testun yn Pen. 6 â'r ddwy arall. Galwer Pen. 6 yn P; y Llyfr Gwyn yn W; a'r Llyfr Coch yn R.

Heb gyfrif mân wahaniaethau mewn orgraff, ceir oddeutu cant o wahanol ddarlleniadau lle'r amrywia W oddiwrth P yn y pedwar tudalen hyn; yn y rhain dilyn R yn rheolaidd destun W o ran trefn geiriau, eithr amrywia ychydig mewn orgraff, a rhydd weithiau ffurf ddiweddar yn lle'r hen, neu newidia air dieithr am un mwy cyffredin. Nid yw byth yn cytuno â P yn erbyn W, ond ar ddamwain mewn pwynt o orgraff (ac unwaith neu ddwy mewn treigliad). Cyll weithiau hefyd air neu ddau o destun W, ond os bydd W wedi colli gair o P, ni welir mono chwaith yn R.

Rhof i ddechrau enghreifftiau o'r amrywio mewn ffurf gair, ac aralleirio :—

P.	W.	R.
diarhebir	diharebir	diaerebir
byrywd	byrwyd	byrywyd
mallolwch	matholwch	matholwch
brenninaeth	brenhinaeth	brenhinyaeth

P.	W.	R.
ar	at	att
o dowch en ehegyr gerdassant racdunt	o dowch yn ehegyr gyrchyssant racdu	a dowch yn ebrwyd gyrchassant racdu
ny ennis	ni enghis	nyt eigwys
ar y neill stlys	yn y neill parth	yn y neill parth
gwrhaa	gwra	gwrha
gannei	ganhei	geinghei
gymyrth	gymerth	gymerth
a rac	ac rac	ac rac
efnyssyn	efnyssyen	efnyssyen
arwyllt	orwyllt	orwyllt
eny gafas	hyt ban gauas	hyt pan gauas
× vreithell	× ureichell	× vreithell
wnaei	wnai	wnaey
ant	aant	aant
e gaer en unyawn	yr gaer yn uuan	yr gaer yn vuan
gaei gan	gaffei ef y gan	gaffei ef y gan
gyrchus	gyrchwys	gyrchawd
Gwelei hagen	Ef a welei	Ef a welei
y kyfranc	uygkyfranc	vyng kyfranc
ac ar y traws	ac y traws	ac yr artal

Mewn rhai brawddegau ceir geiriau yn P nas ceir yn WR. Nodaf hwy mewn italig. Td. 1, *Ac* ar henny; y mae mallolwch *hep wy*; estynnu *itaw*; ditheu *arglwyd*; *Ie arglwyd* hep wy (WR *Je heb wynteu*). Td. 2, ar bop *un or gwanasseu* (WR ar bop *gwanas*). Td. 3, ygei y gwyr *arnaw*; torrei y gyuarth. Td. 4, y kyfranc *ar damwein*. Prin iawn yw'r enghreifftiau i'r gwrthwyneb, lle ceir geiriau yn WR neu yn R ei hun heb fod yn P. Td. 2, y dagnefet a gyweirwd; W, E tagneued a gyweirwyt; R, Y dagneued *honno* a gyweirwyt. Td. 3, PW, *nessau* parth ar berth pan *nessaant*; R, *nessau* parth ar berth

a wnaethant: P, o benn gorsset ; W, o ben *yr* orssed ; R, o benn *yr* orsed: P, y bydynt ny clywynt *yr* un oeu kwn ; WR, y bydynt *yuelly* (R, uelly) ny chlywynt un or cwn. Td. 4, P, uod y gaer ; WR, uot y *gwr ar* gaer.

Pwysicach yw'r amrywio a'r cyd-daro yn nhrefn geiriau :—

P.	WR.
y lu ef drwod ar y draws ef	y luoed ef ar y draws (W. ef) drwod
na haethei namyn da arnaw ef	na haedei arnaw (W. ef) namyn da
o hynn hyd hynny ny chewch chwi y gennyf i atdeb eny del gennwch amgen noc a doeth	o hyn (R. hynn) hyt ban (R. pan) del amgen ny cheffwch y genhyf i atdeb
nyd oes id gygor arglwyth heb wy	Arglwyd heb wy nyt oes it (R. itt) gynghor (R. gyghor)
Gwna di heb wy oe anrydet ef ty y ganno	gwna ty heb wy (W. oy anryded ef) y ganho (R. geingho)
a doethant ar y gennadwri honno ar	a doethant (R. aethant) ar gennadwri honno gantunt at (R. att)
y ty a wnaeth ac arganfod ^e y byly crwyn	y ty. Ac arganuot y bolyeu crwyn a wnaeth
edrych ac emwarandaw ar kwn a wnaethant	edrych a wnaethant ac ymwarandaw ar cwn
nyth dwc dy gygor y uyned yr gaer. <i>ny welsam ni y gaer</i> honn ema eiroed	nyt da dy gynghor uynet yr gaer honn yma eiryoet (R. honn nys gweleist eiryoet)
cauc <i>evr en rwymedic urth bedeir cadwyn a hynny</i> uch ben llech ouaen marmor ar	cawg (R. <i>kawc</i> , ac <i>eur</i> wedi ei chwaneagu uwch ben y llinell) uch benn llech o

P.

kadwyneu en kyrchu ar awyr a diben *eny byd* ny welei arnadt. Gorfynaw ar wnaeth enteu wrth deced er eur . . . a dyfod yn yt oet ac emafael ac ef. Ac gygd ac yt emafael . . . wrth y llech yt oet yn sefyll arnei a dwyn y leferyt y ganthaw.

WR.

uaen marmor. A chadwyneu yn kyrchu yr awyr a diben ny welei (R. nys gwelei) arnunt. Gorawenu a wnaeth ynteu wrth decket yr eur . . . A dyuot a wnaeth yn yd oed y cawc ac ymauel ac ef. Ac y gyt ac yd ymeuil (R. Ac ual yd ymauelawd) . . . wrth y llech yd oed (R. y *kawc*) yn seuyll arnei a dwyn y lywenyd y gantaw

Oddiwrth yr amrywiadau a'r cyd-drawiadau a ddosbarthwyd uchod, daw perthynas y llsg. yn weddol glir. Nid oes dim yn R i awgrymu bod ei wreiddiol ef yn amrywio oddiwrth W. Newid air neu ffurf yma ac acw wrth ei fympwy, ond copi tebyg i W oedd o'i flaen hyd yn oed o ran atalnodi, fel y prawf rhai o'r enghreifftiau a ddyfynnwyd uchod. (Chwaneger atynt, o td. 1, P, y urenhinaeth ac aduyt; W, y urenhinaeth. Ac aduyd; R, y vrenhinyaeth. Ac atuyd). Ple bynnag y neidiodd W dros air neu eiriau, dilynodd R y testun amherffaith; ond yn y ddwy enghraifft olaf yn y daflen, gan fod darlleniad W yn amharu ar y synnwyr, ceisiodd ei ddiwygio, eithr nid trwy adfer yr hen destun cyflawn, ond trwy ystumio peth ar y testun llwgr. Diddorol hefyd yw gweld y modd y mae W ac R wedi troi *nyr welsynt* (td. 3) yn *ny welsynt*, ac *ar wnaeth*, *er wnaeth* (td. 4) yn *a wnaeth*, gan ddileu'r geiryn *ry* ddwywaith. Nid yw R chwaith yn hoffi'r frawddeg enwol, td. 3, *nessau parth ar berth*; rhaid iddo gael chwanegu *a wnaethant*, ond

nyr welsynt *nyr welsynt*, *er wnaeth*, *er wnaeth*, *nyr welsynt*, *nyr welsynt*
diwygio *correct*, *deleted*, *improve*, *deleted*

gadawsai W hi fel yr oedd yn yr hen destun. Arfer gyntefig oedd defnyddio berf yn yr amser presennol *bywiog* gyda *pan*, am ddigwyddiad yn y gorffennol; ceidw PW *pan nessaant*, ond try R y ferf i *nessaysant*. Ceidw PW *ehgyr*; rhydd R *ebrwyd* yn ei le; a rhoes *artal* am *traws* yn ei hen ystyr. Ond ar bwnc orgraff, gwell gan R yr hen weithiau, a rhydd ffurf farw fel *gwnaey* am *gwmai* (td. 3); *gwrha* am *gwra* (td. 2), ac mae'n boenus o hoff o ddyblu cytseiniaid mewn amser ac allan o amser.

Ond ni fedraf gredu mai P oedd gwreiddiol W, gan na fedraf gredu y buasai neb mor gibddall a darllen *nyth dwc* yn P fel *nyt da*; neu *leferyt* fel *lywenyd*; neu *mallolwch* fel *matholwch*. Gweler hefyd yr amrywiad ar *O hynn hyd hynny* (td. 1); a *gwna di* (td. 2) a drowyd yn *gwna ty* yn W. Yn y copi oedd o flaen W ceid *leueryd* neu *lyueryt*; *guna ti*, etc., ond yr oedd y testun, serch hynny, yn agos ryfeddol at destun P. Ond W, neu gopi llythrennol ohono, oedd gwreiddiol R i'r Pedair Cainc, ac ymddengys i mi ei bod yn deg casglu, iddo drin y gweddill o'r Mabinogi, yn ôl yr un *egwyddorion* ag a welir iddo eu dilyn, yn y darn o W a etyb i'r pedwar tudalen yn P. Gweler y nodiadau am y prif wahan-iaethau yn nhestun W ac R.

§3. IAITH AC ORGRAFF.

Yr oedd y gwahanol straeon a asiwyd ynghyd yn y Ceinciau hyn yn bod ganrifoedd lawer, fe ddichon, cyn i ryw gyfarwydd eu cyfuno, a'u golygu nes gwneud un chwedl ohonynt. A oes modd darganfod pa bryd y cyfansoddwyd hi ganddo, yn gyfanwaith llenyddol tebyg i'r hyn sydd yn ein dwylo? Rhaid dechrau gyda manylu ar iaith ac orgraff i gael defnydd i drafod y cwestiwn, yna rhaid astudio'r cynnwys.

Cymerer orgraff i gychwyn. Hynodrwydd amlycaf orgraff y Llyfr Coch, tua 1400, yw arfer *t* ar ddiwedd gair am *d*, a *d* am *dd*; ond fel yr eir yn ôl deuir at waith ysgol hŷn o ysgrifenwyr sy'n arfer *d* am *d*, a *t* am *dd*, ac yn y canol rhyngddynt bydd llsg. cymysg. Cytuna Llyfr yr Ancr, 1346, â'r Ll. Coch: felly Ll. Taliesin, 1275, Ll. Aneirin, 1250 (gan mwyaf); cymysglyd ryfeddol yw'r Llyfr Du o'r Waun, 1200, ond y mae Llyfr Du Caerfyrddin, tua 1180 i 1200, yn bendant iawn yn perthyn i ysgol y *t=dd*. Eto ni fedrwn yn deg gyfrif pob llsg. lle ceir *t=dd* fel cyfoeswyr â'r olaf, gan fod enghreifftiau da o waith yr ysgol hon rhwng 1200 a 1250. Ac wrth gwrs, gall copïwr diweddarach ddewis dilyn yn fanwl orgraff hen lsg. sydd o flaen ei lygaid ar y pryd. Os eir y tu draw i'r Llyfr Du, derfydd am batrwm o lsg. Gymraeg, gan mai ef yw'n llsg. Gymraeg hynaf, h.y. yr hynaf sydd wedi aros hyd ein dyddiau ni.

Ceir, mae'n wir, ddarnau o ryddiaith Gymraeg i nodi terfynau tir yr Eglwys yn Llyfr Llandaf, tua 1140, ond gan eu bod yn honni rhoi hen freinlenni Llandaf, prin y medr neb bwysu arnynt fel tystiolaeth i orgraff 1140. Gallant fod yn gopi llythrennol a gonest o bob iod a thipyn yn y freinlen wreiddiol, a bod honno'n perthyn i'r seithfed neu'r wythfed ganrif; neu gallant roi'r cynnwys yn onest ond diweddarau peth ar yr orgraff; neu gallant fod yn ffug. Fy marn i yw eu bod yn dystiolaeth werthfawr i'r Hen Gymraeg, ond bod yr orgraff yn gymysg braidd, fel y dengys enwau personau. Sut bynnag, ni fedrir eu defnyddio i benderfynu amseriad llawysgrif. Anodd credu y buasai orgraff mor unffurf ag a geir yn y Terfynau yn bosibl ym mhob breinlen o ddyddiau Teilo Sant i lawr i Urban Esgob, 1133.

Darganfuwyd ychydig flynyddoedd yn ôl ddernyn o draethawd ar seryddiaeth (*Computus* Caergrawnt, B. iii, 256), 23 llinell, mewn orgraff ddigon tebyg i un Llyfr Llandaf. Amserir y *Computus* yn bur bendant yn gynnar iawn yn y ddegfed ganrif; arferir ynddo *t* ar ddiwedd gair am *d*, a *d* am *dd*, fel y Llyfr Coch bum can mlynedd yn ddiweddarach! Ond dwg nodweddion hynafol yn ei *i* am *y*; *m* am *f*; *-ou* am *-eu*; *oi*, *oy* am *oe*; *u* am *w*; *ui* am *wy*, etc. Cytuna yn y pethau hyn â glosau Cymraeg y nawfed ganrif.

Efallai y bydd y bras nodion hyn yn awgrym sut yr helpa orgraff i brofi amseriad, er bod llw o bwyntiau eraill a ddylesid eu rhoi cyn y gellid trafodaeth gyflawn.

Yn awr, cymerer y testun o'r Mabinogi sydd yn y Llyfr Coch, tua 1400. Cyson ryfeddol yw ei orgraff, eto llwyddodd yr Athro Loth (cyn iddo weld llsgr. hŷn o'r chwedl) i ddarganfod yn 1889 ddigon o brofion mai copi ydoedd o lsg. hŷn, efallai'n perthyn i oes Llyfr Llandaf, neu'n well fyth i gyfnod y Llyfr Du o'r Waun, a rhoes ddiwedd y ddeuddegfed ganrif neu ddechrau'r drydedd ar ddeg, fel amcan am ei adeg.¹

Cyhoeddodd Dr. Evans destun Llyfr Gwyn Rhydderch yn 1907, a dyna sylfaen newydd i adeiladu arni, gan fod hwn wedi ei ysgrifennu tua 1300-25, ac yn bwysicach na hynny, yn waith copiwr llai gofalus am gysondeb nag un y Coch. Ei orgraff reolaidd yw'r un un a'r olaf, ond brithir y llsgr. gan ffurfiau hŷn, *t* am *dd*, *d* am *d*, *w* (ac weithiau *ff*) am *f*, *e* (*i*) am *y*, *u* am *w*, etc. Os wyf yn iawn wrth ddal mai copïo testun y Ll. Gwyn a wnaeth y Coch, nid yw'r nodweddion hynafol a

¹*Les Mabinogion*, 1889, 17-8.

ddarganfu Loth ynddo, amgen na'r pwyntiau lle digwyddodd iddo, o drugaredd, fetu a diweddar'u gyson. Ond yn y Llyfr Gwyn ceir toreth o olion copïo hen lsg., a phroffion bod honno'n perthyn i gyffiniau 1200. Bellach, ni raid aros chwaith i brofi hynny, gan fod Dr. Evans wedi darganfod ac argraffu y dernynnau yn Pen. 6 sydd yn tystio bod testun ysgrifenedig tua 1225.¹

A oes dichon mynd yn ôl eto? Ymddengys i mi, ar ôl cymharu Pen. 6 a'r Ll. Gwyn, fod yr olaf wedi defnyddio llsgr. oedd yn debycach o ran orgraff i Lyfr Du Caerfyrddin, ac y gallai fod genhedlaeth yn gynharach na Pen. 6. Rhy fân bron yw'r pwyntiau i'w nodi yma, a phrin fuasai'r budd. Enwaf un: yn y Ll. G. ceir rhai enghreifftiau o arfer *t* ar ddiwedd gair am *th*. Dywed Dr. Evans (R. i, 359) wrth drafod Pen. 29, y copi Cymraeg hynaf o gyfreithiau Hywel Dda, er mai tua 1200 yr ysgrifennwyd ef, fod ambell ffurf ynddo, megis *pet* am *peth*, yn tystio mai copi yw yntau o lsg. hŷn o gryn ysbaid. Gan fod olion orgraff debyg wedi goroesi yn y Gwyn (gw. isod, td. 125, ar 11, 7), teg yw casglu bod ei gynsail yntau yn gynharach na 1200, neu fod ei wreiddiol ef yn seiliedig ar y cyfryw.

Eithr buddiolach yw craffu ar P. 6; yno ceir stlys, stryw am ystlys, ystryw. Y mae'r y anorganig o flaen *s* + cytsain ar ddechrau gair yn rheolaidd yn Ll. D. C.² hyd yn oed yn y rhan gyntaf, sy'n perthyn i ddechrau teyrnasiad Henry II (Evans, L.L. xix); bu ef ar yr orsedd o 1154 hyd 1189,—dyweder ynteu tua 1160 am y

¹Gw. isod, td. 305.

²B.B.C. 19, *isscaud*; 21, *istedlit*; 45, *ysprid*; 81, *yscolheic*, *yscawin*; 83, *ystarn*.

rhan hon o'r llsg. Profir gan farwnad Cynddelw i Fadawg ap Maredudd yn 1160, ei fod ef yn arddel ysgwyd fel dwy sillaf.¹ Troer i Lyfr Llandaf sy'n gynharach wedyn na'r Du, a cheir *strat* am ystrad, td. 63, 179, ond *istrat* 32, *estrat* 43, 188. Ni fedrir amseru L.L. cyn 1120²: credaf fod Dr. Evans yn iawu wrth ddeall y cyfeiriad at Esgob Urban, td. 85, fel prawf ei fod eisoes yn ei fedd³,—felly rywbyrd ar ôl 1133 y cyfansoddwyd y llyfr. Awdur Buchedd Teilo ynddo, medd Vesp. A. 14, oedd Sieffre (*Galfrid*), brawd yr esgob, a neidiodd y golygydd i'r casgliad mai'r enwog Sieffre o Fynwy ydoedd. Dangosodd Loth, fodd bynnag, fod Galfrid wedi ei esbonio fel Stephan⁴ yn y llsg., ac ni raid aros mwyach ar y syniad arall. Os brawd Urban, gŵr a fu'n esgob o 1107 hyd 1133, yw'r awdur, medrir derbyn 1135–40 fel adeg y cyfansoddi neu'r cwblhau. Cofier bod Urban yn 62 oed pan gysegrwyd ef yn 1107. Beth oedd oed y brawd ynteu? Rhaid bod ei olwg wedi cadw'n dda, hyd henaint! Sut bynnag, os yw *Strat* ac *Istrat* yn L.L. a ffurfiau fel *ystrad* yn Ll. D. C., tra ceir *stryw*, *stlys* yn P. 6, teg yw rhoi cysail P. 6 yn hanner cyntaf y ganrif. Yn Harl. 3859, a ysgrifennwyd tua 1100, ceir *strat* (A.C. 894)⁵—awgrym i'r un cyfeiriad.

¹105, 4, *iscvd*.²Gw. L.L. 84.³*uir bonae memoriae*.⁴R.C. xv, 369.

⁵Nid wyf yn dyfynnu *Llyfr Aneirin*, 30-8, oherwydd bod problem yr orgraff yno yn gofyn traethawd ei hun. Dwg y rhan hon o B.A. brofion diymwad ei bod yn gopi o lsg. o'r nawfed neu'r ddegfed ganrif. Yno ceir *scuyt* am ysgwyd, 34, 9; *scuitaur* am ysgwydawr, 35, 10; *stre* am ystre, 34, 7, a'r cyffelyb. Ni feiddiais chwaith ddyfynnu fawr ar ffurfiau Cymraeg Cyfreithiau Hywel yn Lladin, gw. A.L. II, 749-907.

Eithr gan fod Gerallt Gymro yn 1188 yn ysgrifennu *Stratflur* ni wiw pwyso gormod ar hyn : geill *strat* mewn llyfr neu gronicl *Lladin* fod yn ffrwyth gwybod *Lladin*, dylanwad *strata*. Pwysicach i'm dadl i yw bod *ystrad* yn ddwy sillaf yn L. D. C. 74, 5, mewn moliant i Hywel ap Goronwy, a chan na laddwyd mo Hywel hyd 1106¹, dengys hyn safon y beirdd Cymraeg oddeutu 1100, a dweud y lleiaf. Yr oedd y yn 1100, nid yn unig i'w chlywed yn aneglur o flaen *str*, ond yn ddigon pendant i gyfrif fel sillaf, mewn barddoniaeth Gymraeg. Ar bwys hyn, gellid tybio bod modd i gynsail P. 6 darddu o gyfnod *cyn* 1100.

Fel yn chwedlau Iwerddon digwydd hefyd yn y Mabinogi bod nifer o englynion ynghanol y rhyddiaith, a sylwyd gan amryw fod orgraff ac iaith y rhain yn dangos eu bod yn tarddu o gyfnod hyn na'r rhyddiaith sydd ôl a blaen iddynt. Perthynant i ffurf gynharaf y chwedl. Pan luniwyd hwy, cydweddai eu harddull â'r cyfarwyddyd a addurnent : nid oedd un yn fwy hynafol na'r llall. Nid Gwydion a gant yr englynion ar ddiwedd Math ! Lluniwyd hwy gan y cyfarwydd a adroddai'r stori : a chan eu bod mewn mesur, diogelid eu ffurf am ganrifoedd mewn modd na ellid cadw'r rhyddiaith a roddai hanes yr achlysur o'u canu. Gwelsom eisoes fod traddodiad llenyddol wedi cadw'r rhyddiaith yn bur ddi-newid am ddwy ganrif o leiaf. Eto troes, *cyrchus* 1200 yn *cyrchwys* yn 1300, ac yn *cyrchawd* yn 1400. Ni allai newid o'r fath ddigwydd yn odlau englyn heb dorri'r mesur. Pa faint bynnag fyddai'r diweddarau o oes i oes, arhosai'r hen destun yno beth bynnag, yn dyst i hyn-

¹H.W. 406 n. 21, 416.

B

Cydweddai accord, agree, compare

afiaeth ffurf gyntefig y chwedl ryddieithol. Rhydd hyn bwys neilltuol ar yr englyn, td. 90, lle'r odli'r *ua-es* fel gair deusill, â *borthes*, *gyffes*. Pan ganwyd ef, yngenid *maes* fel *ma-es*. Buasai'n rhaid i ieithydd dybio bod hynny wedi bod yn wir rywdro, hyd yn oed pe na wyddai am enghraifft *ar glawr*, canys tarddair yw o *ma*, "lle, gwastadedd," a'r terfyniad *-es* (**mag-est-*, cf. Gw. *magh*). Ond ceir enghreifftiau eraill ohono yn ddeusill:—

Pan alwer ynys von tiryon vaes

Gwyn eu byt wy gwleidon Saesson ar *tres*.—B.T.
33, 18.

Ac ef digones. bud coet a maes.—41, 1.

Ny nodes na maes na choedyd

tut achles dy ormes pan dyuyd.—56, 19.

Per goreu gormes ym plymlwyt maes.—25, 14.

Digwydd pob un yn y canu hynafol a alwn yn hengerdd. Yn ddiweddarach cywasgwyd *maes* yn unsill. A'r hyn sydd o bwys yn awr yw bod y cywasgiad wedi digwydd erbyn canol y ddeuddegfed ganrif, yn wir *ymhell* cyn hynny. Fy sail dros hynny yw bod y Gogynfeirdd cynharaf yn trin *maes* yn rheolaidd fel gair unsill, gw. M.A. 141 b 48, deusill yw *faessyt* gan Feilyr yn 1137: cad fawr *Faes* Garned, 145a, llinell bumsill, gan Walchmai; felly Cynddelw, 154, b, 155a, pum enghraifft o *maes* yn unsill; 167 b, Namwyn bleit *maes* moesawc hael (ll. 7 sillaf): Seissyll Bryfwrch yn ymryson â Chynddelw am benceirddiaeth Madog ap Maredudd, dyry *maes* yn *proestio* â *trais*, *hoes*, mewn llinell seithsill, 154a, Gweilch cadau yn cadwyd *maes*: Llywarch ap Llywelyn, 200, a 23, unsill; yn canu i Lywelyn Fawr, 215a, b, *cyrch-odli uaes* a *dilaes*. Y cwbl sydd raid ei

ddweud ar hyn yw, os oedd beirdd swyddogol yr hanner olaf o'r ddeuddegfed ganrif, yn arbennig Cynddelw, yn cydnabod *maes* fel unsillaf i bwrpas cerdd, yna medrwn ymdawelu yn y gred ei fod o leiaf dros gant oed yn 1150 ! Petasai taid neu hendaidd Cynddelw yn seinio'r gair fel *ma-es*, diau mai *ma-es* fuasai'r unig ffurf gywir mewn barddoniaeth yn ôl y Ceidwadwr ystyfnig hwnnw. Ond gan na wyddai'r pencerdd tua 1150-60 am y ffurf honno, neu, os gwyddai, fod hyd yn oed y Prydydd Mawr yn *petruso* ei defnyddio gan mor hen oedd, yna y mae gennym dystiolaeth dra phwysfawr i wir hynafiaeth yr englyn *Dar a dyf yn ard fa-es*; ac ynglŷn â hynny, i hynafiaeth y bedwaredd gainc o'r Mabinogi.

Ategir hyn ymhellach gan a ganlyn : ysgrifennwyd Llyfr Llandaf tua 1140, ac ynddo ceir *mais*, td. 79, unsill yn ddiau, cf. *mail* (mael) y gair nesaf ato. Amserir Harl. 3859 tua 1100 : yno, yn yr *Annales Cambriae*, cronicl sy'n diweddu yng nghanol y ddegfed ganrif, ceir dan 817, *lannmaés*, gydag acen ar ail sillaf *ma-es*,¹ ond ysgrifennir *iudhail* dan 848. Hefyd dan 902 rhoir *maes* osmeliavn, ct. *Cy. ix, 183, Osmail, docmail, Cair* (caer). Amlwg yw bod yr ysgrifennydd yn gwahaniaethu rhwng y ddipton *ai* (ae) ac *a-e* (dwy lafariad heb gywasgu'n ddipton). Cytuna orgraff Llyfr Llandaf ag ynganiad Cynddelw o'r gair, yng nghanol y ddeuddegfed ganrif, a gellir derbyn Harl. 3859 fel tyst i'r sain cyn 1100, efallai fel tyst i iaith y cronicl a orffennwyd yng nghanol y ddegfed ganrif. Copiwyd Cotton Vesp. A. xiv tua

¹Hyd heddiw acennir *Llan-faes* ym Môn ar yr ail elfen, atgo o'r cyfnod pan oedd yr enw yn drisill, ct. *Llangoed, â'r acen ar y sill gyntaf.*

1200, gan ŵr na wyddai Gymraeg, medd Phillimore, o lawysgrif na fedrir ei hamseru yn ddiweddarach na'r unfed ganrif ar ddeg. Ynddi gwelais Lann *Maies*.¹ Ni fedraf brofi pa bryd y daeth y ffurf unsill yn safonol mewn barddoniaeth, gan nad oes llsg. Cymraeg o'r cyfnod i'w cael.² Ar amcan yn unig, wrth gofio am Gynddelw, cynigiaf nad cyn 1075-1100.

O'r Wyddeleg *maccoemh* cafwyd *macwy* am was ieuanc yn y llys : lluosog *mackweyit*,—felly yn y Ll. Coch. Rhydd y Ll. Gwyn, fodd bynnag (gw. isod td. 10) yr unigol fel *makwyf*, llu. *makwyueit*, gan gadw'r *f* a etyb i'r *mh* mewn Gwyddeleg. Yn M.A. 183a, odli'r *maccuy* gan Gynddelw ag *ovuy* (ofwy), *vynnuy*, *garuy*, etc. ; a dengys hynny fod yr *f* ar y diwedd wedi colli cyn 1150. Sut, felly, ond o lsg. hŷn nag 1150 y cafwyd y ffurf gyflawn yn y Ll. Gwyn ? Haws deall sut y cadwyd yn Harl. 1796, A.L. ii, 894, iuuenes, i. *machuiueid*: 895, *macuiueid*; amserir y llsg. rhwng 1200 a 1250 (R. ii, 951), a pherthyn i draddodiad a dardd o'r ddegfed ganrif. Felly Llyfr Du'r Waun, gw. Lewis, G.M.L. 210. Nid yw'r pwynt yn rymus iawn wrtho'i hun, ond gorffen y triawd orgraffyddol, sy'n dangos bod ôl traddodiad llenyddol yn y Mabinogi sy'n hŷn na safonau beirdd 1150.

¹Cy. vii, 105-6 ; C.B.S. 272 ; Wade-Evans, Br. Br., 13.

²Unsill, hyd y sylwais, yw yn B.B.C., gw. 67, 14 ; (69, 20) ; 106, 7 (ond ? 59, 8). Ceffid mesur rheolaidd yn *Armes Prydein*, Sk. ii, 126, wrth ddarllen *yg koet ym ma-es [ym mro] ym bryn*; amserais y gân hon ers talm yn niwedd y nawfed ganrif.

§4. CRYNODEB O'R CHWEDL.

Cyn chwilio am brofion yn y defnydd o amser ei chyfansoddi, gwell crynhoi prif bwyntiau'r chwedl, i ddangos sut y cysylltwyd ei rhannau ynghyd.

Cainc I. Pwyll, Pendefig Dyfed, yn cyfarfod Arawn, Brenin Annwfn; y modd y daethant yn gyfeillion, ac anfon anrhegion i'w gilydd. Rhaid wrth hyn i egluro sut y daeth y moch yn y Bedwaredd Gainc o Annwfn i Ddyfed. Pwyll yn ennill Rhiannon yn wraig iddo, ond ar y neithior yn camdrin Gwawl fab Clud. Dielir ar ei fab Pryderi, ac ar Riannon yn y drydedd Gainc. Geni Pryderi, ei golli, a'i gael fel Gwri Wallt Eurin yng Ngwent, yn gyswynfab Teirnon. Egluro ei enw. Pendaran Dyfed yn dadmaeth iddo. Dilyn ei dad fel arglwydd ar Ddyfed, gyda saith gantref Seisyllwch fel tir cynnydd.

Cainc II. Brân fab Llyr, brenin Prydain, ond yn byw yng Ngwynedd! Llys yn Harlech, ei briflys yn Aberffraw. Brawd mwyn, Manawydan; hanner brawd rhyfelgar, Efnysien; chwaer dlos, Branwen. Priodas Matholwch, brenin Iwerddon, â Branwen. Direidi Efnysien trwy sarhau Matholwch yn dwyn cosb ar Franwen. Dial Brân ar Iwerddon, wedi i Efnysien unwaith eto, trwy ladd Gwern fab Matholwch, beri bod tangnefedd yn annichonadwy. Llwyd ddirindr lluoedd Iwerddon a Phrydain, ag eithrio seithwyr o'r Cymry, yn eu plith Pryderi a Manawydan, a gwas y Cynweisiaid a adewsid ar ôl, sef Pendaran Dyfed. Helynt y daith i gladdu Pen Brân. [Pam y gelwir talaith yn Iwerddon yn *Bumed*.]

Cainc III. Pryderi yn rhoi ei fam Rhiannon yn wraig i Fanawydan, a saith gantref Dyfed gyda hi, gan fod Caswallawn fab Beli wedi meddiannu Prydain. Hud ar Ddyfed gan Lwyd fab Cilcoed. Cosbi Rhiannon a Phryderi am y camdrin a fu ar Wawl. Manawydan yn eu rhyddhau.

Cainc IV. Math fab Mathonwy yn arglwydd Gwynedd. Cariad ei nai Gilfaethwy fab Dôn at droedawg Math, Goewin. Gwydion fab Dôn yn peri rhyfel rhwng Gwynedd a Dyfed i roi cyfle

iddo ei chael; yr achlysur, dwyn moch Annwfn o'r deau. Treisio Goewin. Lladd Pryderi. Y gosb ar Gilfaethwy a Gwydion. Prawf ar Aranrod ferch Dôn fel troedawg newydd; geni Dylan; geni Llew Llaw Gyffes. Tair tynged Aranrod ar Leu. Gwydion, er ei gwaethaf, yn cael (1) enw, (2) arfau, (3) a gwraig iddo, sef Blodeuwedd. Honno'n caru Gronwy Bybyr o Benllyn. Lladd Llew, neu ei droi'n Eryr. Gwydion yn ei ddadrithio. Dial ar Flodeuwedd a Gronwy.

Cafwyd defnydd y Gainc Gyntaf yn Nyfed a Gwent; yr Ail yng Ngwynedd (ac Iwerddon); y Drydedd yn Nyfed; a'r Bedwaredd yng Ngwynedd, ond bod Taith y Moch yn cydio Ceredigion, Powys, a Gwynedd. Asiwyd neu iaswyd hwy ynghyd gan hanes Pryderi. Helynt ei eni sydd yn y gyntaf; yn yr ail cysylltir ef a Manawydan, er mwyn cael gwaredwr iddo o garchar Llwyd yn y drydedd; ac yn y bedwaredd, rhoir hanes y digwyddiadau a arweiniodd i'w angau, dan law Gwydion. Y tebyg, gan hynny, yw mai gŵr o Ddyfed oedd y cyfarwydd a wnaeth un Mabinogi o chwedlau y Gogledd a'r De. Nid y camysgrifennu ar enwau personau a lleoedd yng Ngwynedd sy'n profi hyn,—gall hynny fod yn fai copiwyd o'r De—ond brogarwch y cyfeiriad at Ddyfed, td. 49-50, a'r cydymdeimlad amlwg â gwŷr y Deau, td. 73,¹ heb sôn am le Pryderi, arglwydd Dyfed, ym mhob un o'r pedair cainc.

§5. CYFNOD Y CHWEDL.

Pa bryd bynnag y lluniwyd y stori, amserai'r chwedlydd ei digwyddiadau yn y gorffennol. Nid am gyfoeswyr dychmygol yr oedd yn sôn, ni waeth faint o liw ei oes sydd arnynt, ond am hen drigolion y wlad, yn yr

¹Anwyl, Z.C.P. i, 282, 284.

chwarae teg iddo = sympathy to him / see with
admit that.

amseroedd a fu. Nid oes Sais na Norman i'w weld yn unman, eithr Brân yn frenin ar yr holl ynys, â choron Llundain ar ei ben. Nid yw'r Rhufeiniaid chwaith wedi cyrraedd—ond y maent yn ymyl. Pan oedd Brân yn Iwerddon, goresgynnwyd yr ynys gan Gaswallawn fab Beli,—atgo am *Cassivellaunos*,¹ brenin y Brython, a wrthwynebodd Iwl Cesar c.c. 54. Cyfnod y Mabinogi, felly, ym meddwl y cyfarwydd, ydoedd y cyfnod yn union o flaen dyfodiad cyntaf y Rhufeiniaid i'r ynys. Tipyn o gymysgedd a wnaeth awdur *Breuddwyd Maxen* (R.M. 88) wrth wneud Beli a'i feibion yn gyfoeswyr â'r Ymerawdwr Maxen (Maximus) a laddwyd yn niwedd y bedwaredd ganrif ar ôl Crist (388)²: ond eto, cadwodd yntau beth o'r traddodiad, Beli a'i feibion oedd yn teyrnasu yma pan ddaeth y Rhufeiniaid gyntaf i'r ynys. Gan hynny, gwyddai chwedlydd y Mabinogi mai am y cyfnod paganaidd *cyn* Crist yr oedd i sôn, a chwarae teg iddo, llwyddodd yn burion i gadw Cristnogaeth allan o'i ddeunydd. Methodd, serch hynny, rai troeon. Tynga ei gymeriadau i'w *cyffes i Dduw*; gwneir y gwaew i ladd Llew, pan fyddid *ar yr aberth duw Sul* (td. 86); daw *yscolheic* (61) *offeiraf* (62) ac *escob* (63) at Fanawydan, a gofyn yntau am eu bendith: rhoir enw adeg bedydd hefyd, ond yma cofiodd chwanegu, mai'r bedydd a wneid y pryd hwnnw ydoedd (150-1). Eto os methodd yn y pwyntiau hyn, medrodd gadw Rhufeiniad, Sais, a Norman allan o'i chwedl. Synna rhai awduron am nad oes sôn am Arthur o gwbl ganddo. Ond buasai mwy o achos i synnu a rhyfeddu a beio, petasai wedi dwyn Arthur i mewn. Gwyddai pob cyfarwydd mai'r arwr a

¹Rhys, W.P. 41, 90.²Lloyd, H.W. 93.

and bedydd Christian name

glawr & lard, dis-bark
Lari dignity, honour, cogne

ac hysbys
ymladdodd yn erbyn y Saeson oedd Arthur Frenin, a sut y medrid cael lle iddo mewn chwedl am frodorion Cymru yn y cyfnod cyn hyd yn oed i'r Rhufeiniaid lanio? Nid yw absenoldeb Arthur o'r darlun yn profi ddarfod cyfansoddi'r chwedl cyn i'r stori am Arthur ddyfod i fri, mwy nag y mae'r distawrwydd am y Saeson yn profi ei chyfansoddi cyn 400 A.D. Y cwbl a brofir ydyw bod y chwedlydd, yn hyn o leiaf, wedi bod yn gyson â'i syniad ef am y cyfnod yr oedd ei gymeriadau yn byw ynddo. Ond pwy sy'n gyfrifol am y dyfyniadau o'r Trioedd yn y Pedair Cainc? Medrir dangos y gwyddai hwnnw ryw gymaint am Arthur hefyd.

cyfeirir, gwyddai

§6. Y TRIOEDD.

Hoffai'r Cymry, fel y Gwyddydd, ddsbarthu chwedlau a ffeithiau yn drioedd, a gellid cynnig amryw resymau dros y ffigiwr. Yn ôl Meyer,¹ fe wnaethpwyd casgliad o rai Gwyddelig rhwng 850 a 900—dyna'i farn ef, er nad yw'r llawysgrif hynaf sy'n ei gynnwys yn hŷn na diwedd y bedwaredd ganrif ar ddeg—a chyfeiria at hen rai ar wasgar yn y llên gyntefig. Ceir trioedd yn y llawysgrif Gymraeg hynaf sydd ar glawr,² ond i bwrpas deall y Mabinogi, y casgliad pwysicaf yw'r un yn y Llyfr Gwyn (neu ran ohono, Hengwrt 202),³ a'r Llyfr Coch.⁴

¹*The Triads of Ireland*, td. xi.

²B.B.C. 27, Trioedd y Meirch.

³*Y Cymmrodor*, vii, 123, 126-32; *Reports*, i, 324, ar Pen. 12.

⁴R.M. 297-308. Tybed a oes angen rhybuddio ysgolheigion bellach rhag defnyddio testun llwgr trydedd gyfres y Myvyrian? Y mae'r nodyn yn M.A. 400a, "gennyf fi Iolo Morganwg", yn ddigon o rybudd ei hun.

Ymlyn
ceir

X one of the three happy marriages
o " " " " unhappy marriages

RHAGYMADRODD

Ni ddyfynnir o'r Trioedd ym Mabinogi Pwyll: yn y tair cainc eraill digwydd amryw gyfeiriadau:—

1. Branwen yn drydedd prif rieni, 31, 32 (165).
2. Cradawg fab Brân, y trydydd dyn a dorres ei galon o anifyged, 46 (218). *st. ... , ... , ...*
- X 3. Claddu pen Brân, y trydydd matgudd, 47 (223).
- o 4. Datguddio pen Brân, y trydydd anfad ddatgudd, 47 (224).
- o 5. Palfawd Branwen, trydedd anfad palfawd, 48 (226). *st. ...*
6. Manawydan yn drydydd lleddf unben, 49 (227). *st. ...*
7. Manawydan yn drydydd eurgydd, 54 (236).
8. Lladd Dylan, y trydydd anfad ergyd, 78 (272).
9. Gwydion u. Don, yn drydydd eurgydd, 81.
10. Teulu Gronwy Bebyr yn drydydd Anniwair Deulu, 92 (302-3).¹

I ddeall perthynas y P.C. a'r Trioedd, rhown y drefn hon i lawr: i ddechrau, rhaid bod stori neu straeon am dri pheth neu dri pherson cyffelyb; yna daw'r Triodwr i wneud triawd; yna daw golygydd neu gopiwr i roi'r cyfeiriad at y Trioedd yn nhestun y Mabinogi. Mae'r stori ei hun yn fwy cyntefig na'r Trioedd, ond rhaid bod y testun ohoni a ddaeth i ni yn ddiweddarach na'r Trioedd. Credaf fod hyn yn dilyn hefyd, gan fod ffurf y triawd yn sefydlogi'r traddodiad, wedi i dri gael eu cydio ynghyd, arhosant ond odid felly; ² a theg yw casglu,

¹Y mae trioedd eraill yma, megis tair crefft Manawydan, tri chynnig Llwyd, tri mab Gilfaethwy, etc., ond nis gelwir yn drioedd yn y testun.

²Rhaid cydnabod bod eithriadau, cf. *Trioedd y Meirch* yn B.B.C. 27-8, a'r rhestr yn *Y Cymmrodor*, vii, 130-1, lle ceir cryn amrywiaeth.

st. ...
st. ...
st. ...
st. ...
st. ...

N.B.
perhaps

10. 'one of the three Deological ...
unfaithful

pan fo gŵr yn cyfeirio at berson neu ddigwyddiad fel un o dri, y gŵyr am y ddau arall hefyd. Cymerer Rhif 4 uchod, a gw. isod, td. 224 am y triawd llawn. Pwy bynnag a alwai ddatguddio pen Brân yn un o'r tri anfad ddatguddiadau, fe wyddai'n burion mai Arthur yn ei falchder a oedd gyfrifol am y datgudd. Felly am Rhif 5 (gw. 226) : y balfawd gyntaf a enwir yw'r un a drawodd "Matholwch Wyddel ar Franwen ferch Lŷr". Eithr yn ôl ein testun ni, nid Matholwch ond y cigydd (td. 37) a roddai fonclust i Franwen. Pan ffurfiwyd y triawd, nid oedd y chwedl yn hollol fel y mae gennym ni bellach, neu ynteu y mae cigydd wedi colli o destun y Trioedd o flaen Matholwch. Yr ail "a drewis Gwenhwyfach ar Wenhwyfar, ac o achaws hynny y bu Waith Cad Gamlan wedi hynny". Pwy bynnag a roes yn y Mabinogi y cyfeiriad at y Tair Anfad Balfawd, fe wyddai hwnnw am Arthur, a Gwenhwyfar, Medrawd, a Chamlan.

Sylwer ymhellach nad oes sôn am Wenhwyfach yn unman ond yma, yn ôl Rhys¹ ; eithr yn y Triawd nesaf un (R.M. 301), *Teir drut heirua*² Ynys Prydain, dywedir yn eglur fod Medrawd wedi taro balfawd ar Wenhwyfar, "pan doeth medrawt y lys arthur yg kelli wic yg kernyw, nyt edewis na bwyt na diawt yn y llys nys treulei. a thynnu gwenhyuar heuyt oe chadeir urenhinyaeth. Ac yna y trewis paluawt arnei". Credaf yn sicr y dylid rhoi enw Medrawt i mewn yn y Triawd blaenorol yn lle Gwenhwyfach, ac yna ceffid grym ac yna y trewis paluawt arnei yn y Triawd hwn sy'n dilyn. Y trais ar Wenhwyfar a arweiniodd i Gad Gamlan.

¹Arth. Leg. 15. Ond cf. R.M. 112, Y am wenhwyuar . . . a gwennhwyach y chwaer.

²heirfa, gwastraff, difa bwyd a diod yn llwyr.

Ymhellach, y mae geiriad y Triawd olaf yn atgoffa cyfieithiad y Llyfr Coch o Frut Sieffre o Fynwy, gw. R.B.B. 229, am Fedrawd yn goresgyn yr ynys, "*A thynu gwenhwyuar vrenhines oe riein gadeir*". Nid yw hyn yn y lleill a welais, M.A. 470a, 545b, 596; San Marte, H.R.B., td. 154¹; ac felly gall fod yn chwanegiad o'r Trioedd at y Brut.

Cyfyd Rhif 10 broblem arall, gw. td. 303. Y trydydd teulu, yn ôl y llsgr., oedd "teulu *ar lan fergan* a ymadawsant ac eu harglwyd yn lledrat y ar y fford yn mynet *gamlan*", ond yn Skene ii, 460 (o Hengwrt 536) rhoir *Alan Fyrgan*. Yn ôl Loth, cyfeiriad cymysglyd yw hyn at *Alan Fergant* neu *Fergent*, sef Alan VI, Duc Llydaw, 1104-19; ac felly hefyd yn R.M. 107 (yn hanes Culhwch ac Olwen), Ysperin m. *fflergant brenhin llydaw*.² Anodd deall beth oedd Duc Llydaw 1104-19 yn ei wneud ar y ffordd i Gamlan yn 537; a phwy, tybed, oedd tad y Saint, a elwir *Llonio* neu *Llonyaw* fab *Alan Fyrgan* (neu *Ffergan*) ab Emyr Llydaw? Yn ôl Bonedd y Saint, yr oedd yr Alan Ffergan hwn yn ewythr i Badarn, Tydecho, Trunyaw, etc.³ Nid wyf yn gredwr, ysywaeth, yng ngeirwiredd bucheddau'r Saint, ond sut bynnag, cawl go ryfedd yw hyn oll, ac nid oes lawer o sicrwydd hanesyddol i'w dynnu ohono.

I bwrpas hyn o drafodaeth, pe tybiem ddarfod i Gymro glywed yr enw Alan Fergant ar bennaeth Llydaw

¹reginamque Ganhumaram, violato jure nuptiarum, eidem nefanda Venere copulatam esse.

²Gw. R.C. xxxii, 436; *Les. Mab.*² i, 209n; *Chrest. Bret.* 204; Bruce, *The Evolution of Arthurian Romance*, i, 70.

³M.A. 416b; 427a; C.B.S. 268; L.B.S. iii, 377; cf. hefyd R.B.B. 130, 246.

yn 1104–19, ac iddo ymhellach ddychmygu bod gŵr o'r un enw yn Llydaw yn cyfoesi yn y chweched ganrif ag Arthur Frenin, golygai hynny fod yn rhaid i ni amseru'r Triawd hwn yn nechrau'r ddeuddegfed ganrif; a golygai hefyd na ellid rhoi'r cyfeiriad at y Triawd i mewn yn y Pedair Cainc hyd ymhell ymlaen yn y ganrif honno. Os yw Rhif 5 yn profi cydnabyddiaeth â Brut Sieffre yn Gymraeg, setlir mai yn ail hanner y ganrif y bu hynny. O'r ochr arall, tyst cadarn yw *maes* yn ddeusill i Fabinogi Math oddeutu 1050; ac y mae dichon egluro tebygrwydd Rhif 4 a 5 i'r Brut trwy ddal eu bod hwy yn seiliedig ar y chwedlau am Arthur a gefnid yng Nghymru cyn i Sieffre ysgrifennu.¹ Tebyg yw'r naill i'r llall nid oherwydd benthgyl uniongyrchol, ond oherwydd eu bod yn tarddu o'r un fan. Nid ar y Brut yn unig, ac nid ar y Mabinogi yn unig, y gweithiai'r Triodwr. Cymerer y *tri eurgrydd*, sef Caswallawn (-*awc*) fab Beli, "pan aeth i geissaw Flur hyt yn Ruuein"; Manawydan, a Llew Llawgyffes (td. 236). Yn y Mabinogi, *Gwydyon* a roir yn drydydd, nid Llew (td. 81). Ond o ble y cafwyd y chwedl am Gaswallon yn mynd i Rufain i geisio Fflur, ac yn cymryd arno waith crydd? Rhaid bod stori ar gael go debyg i *Freuddwyd Maxen*, ymchwil gŵr am ei gariad. Gwyddai ysgrifennydd y Llyfr Du amdani, a rhoes enw march "Caswallawn mab Bely", sef *Melynlas*²; ond *Meinlas* medd y Llyfr Gwyn.³ A chawn ddarn arall ohoni yn y Trioedd⁴:—

¹Cf. yr amrywiaeth yn y llsg. Cymraeg o'r Brut; mewn un teulu ceir *Cyfranc Lludd a Llefelys* wedi ei chorffori yn y testun; yn y llall, nis ceir.

²B.B.C. 28. ³Y *Cymmrodor*, vii, 130.

⁴Ibid, 127; R.M. 302.

Tri anuat gyghor ynys brydein rodi y ylkessar a gwyr ruuein lle karneu blaen eu meirch ar y tir ym pwyth¹ meinlas. Ar eil gadel hors a heigyl (heyngyst) a ronwen yr ynys hon. Ar trydyd rannu o arthur y wyr teirgweith a medrawt yg kamlan.

Dengys y trydydd cyntaf fod chwedl, na cheir moni yn Sieffre, am y Brython yn gadael i'r Rhufeiniaid laniu er mwyn cael Meinlas. Collasai Caswallon ei farch, a'r fargen oedd gadael lle i flaen carnau meirch y Rhufeiniaid ar y tir am ei gael yn ôl; neu ynteu, dyma'r adeg y cafwyd gyntaf y "rhoddedig farch" hwn. Nid o Sieffre chwaith y cafwyd y trydydd olaf, am y rhannu milwyr yng Nghamlan. Dengys hyn mai anturus yw tybio bod tebygrwydd i'r Brut yn profi benthg o'r Brut, a'i fod yn profi hefyd ddiweddarwch.

Y casgliadau sy'n ymddangos yn deg ar hyn yw, fod y chwedlau am Bryderi, teulu Llŷr, Math a Gwydion, yn hŷn na'r Trioedd. Mewn cyfnod diweddarach, ar ôl iddynt ymsefydlu yn ffafr y cyfarwyddiaid, rhoddyd peth o'u defnydd ar ffurf Trioedd, yn gymysg â defnydd a gymerwyd o hen chwedlau a hanesion eraill a aeth bellach ar ddifancoll, megis y stori am Gaswallon yn ceisio Fflur. Oherwydd poblogrwydd y Trioedd hyn, darfu i ryw gopiwr neu olygydd wrth gopiō, neu ryw gyfarwydd wrth adrodd y Mabinogi, gymryd arno ei hun dynnu sylw atynt yma ac acw, pan roddai'r defnydd gyfle iddo. A dyna'r testun a drosglwyddwyd i lawr i ni.

¹ym pwyth, "in return for". Cymerodd Loth hyn fel enw lle, *Les Mabinogion*, ii, 253, wrth ddilyn Iolo Morganwg yn M.A. 406a, ond cf. y defnydd cyffredin, talur pwyth, M.A. 198b, yn hal pwyth; D.G. xxxiii, 31, ym mhwyth (Pen. 49, 148a).

Yn yr un modd, pan ddaeth rhyw gopiwr at hanes treisio Gwenhwyfar yn y Brut, cyflawnodd yr hanes drwy roi i mewn y frawddeg o'r Trioedd a ddywedai i Fedrod ei thynnu o'i rhiain-gadair. Chwanegiadau diweddarach yw'r cyfryw. Felly, hyd yn oed pe profid mai *Teulu Alan Fergan* yw'r darlleniad cywir yn y Trioedd, a bod y Triawd am yr Anniwair Deuluoedd o'r achos yn ddiweddarach nag 1100, nid yw hynny'n profi o gwbl oll fod y Mabinogi hefyd yn ddiweddarach nag 1100, eithr yn unig mai yn y ddeuddegfed ganrif y chwanegwyd y frawddeg arbennig hon at y chwedl.

Medrid rhoi cromfachau am bob dyfyniad o'r Trioedd yn y *Pedeir Keinc*, a'u trin yn union fel glosau, oddieithr dau yn unig; y cyntaf yw, pan elwir Branwen yn drydedd prif rieni (td. 32), a hynny gan Fatholwch ei hun; a'r llall yw pan ddyfynna Pryderi y triawd am y lleddf unbyn wrth Fanawydan (td. 49). I mi ymddengys y ddau yn hollol annaturiol fel rhan o'r stori gyntefig.

Swm a sylwedd hyn oll yw mai methiant fu fy nghais i gael prawf pendant o amser cyfansoddi'r Mabinogi wrth fanylu ar y Trioedd a gynhwysir ynddo. Chwanegiadau diweddarach ydynt.

§7. BYWYD CYMDEITHASOL.

A digon tebyg yw ffrwyth yr ymchwil i'r arferion cymdeithasol a bortreadir yma. Ceir darlun diddorol o fywyd pendefigaidd Cymreig, bywyd llys, nid bywyd castell. Ni cheir *castell* ond yn yr enw Mur Castell (td. 84), ac ar fai am *y stafell* yn R.M. (gw. ar 52, 6, td. 232). Difyrir yr amser trwy wleddoedd, lle'r

eirchiad suitor, suppliant
mab aillt a serf (lik. toussured youth)

RHAGY MADRODD

xxxii

adroddir chwedlau a chyfarwyddyd; hela ceirw, cylchu'r wlad, rhyfela. Cyntefig yw'r arferion priodasol —nid oes wasanaeth crefyddol mewn eglwys, ond dechreua'r pâr gyd-fyw mewn neithior.¹ Anrhegir eirchiaid a cherddorion ar y wledd; yn wir, rhoir lle pur amlwg i'r beirdd. Sonnir am dai, a gwisgoedd, arfau a chrefftau, llongau a chorygau, moch a meichiaid, a cheir cipolwg ar y mab aillt. Ond anodd yw darganfod amseriad hyn oll.

Cyfyd un pwynt go bwysig, sef, A oes olion ffiwdaliaeth ym mherthynas yr arglwydd a'i wyrda? Gwyddys mai gyda Wiliam y Concwerwr y daeth y gyfundrefn lawn i Loegr, a buasai profi ei bod yn ffynnu yng Nghymru'r Mabinogi yn gadarn o blaid y ddeuddegfed ganrif fel adeg y cyfansoddi, gan nad ymledai ar drawiad amrant drwy gymdeithas a sylfaenesid fel un Gymru ar y llwyth neu'r tylwyth. Wele'r cyfeiriadau. Td. 6, Wedi i Bwyll orchfygu Hafgan, ef yw brenin Annwfn oll, a dywedir mai dyled pawb o'r herwydd yw bod yn wŷr iddo, a chymer yntau wrogaeth y gwŷr. Td. 24, Gŵyr Teirnon sut un yw Pwyll o ran pryd a gwedd, "canys gwr uuassei idaw kynn no hynny". Td. 41, 43, Estynnir brenhiniaeth Iwerddon i Wern fab Matholwch. Td. 50-1, Pryderi yn hebrwng ei wrogaeth i Gaswallon hyd yn Rhydychen. A ydym i roi llawn ystyr homage, vassal, investiture, i'r termau hyn? Ac os felly, ai ar ôl dyfodiad y Norman y rhoddwyd termau cyffelyb yng nghyfreithiau Hywel Dda? Ni fedrir ateb, gan nad oes un copi Cymraeg na Lladin sy'n hŷn na diwedd y ddeuddegfed ganrif. Pe gwyddem yn sicr

¹Gw. T. P. Ellis, *Y Cymmrodor*, xxxix, 122-36.

X cf. Anarawd p. 173 (< L. Honoratus through Honoratus?)

ac yn fanwl beth oedd cyfraith Hywel yn nechrau'r ddegfed ganrif, buasai gennym safon wedyn i gymharu'r Mabinogi â hi. Ond gan fod pob copi ar glawr yn cynnwys profion ynddo'i hun o newid a diweddarau cyfraith Hywel, diffanna'r maen prawf oddi yma eto. *touchstone*
Y gwir yw bod syniadau ffiwdal yn gormesu ar yr hen syniadau llwythol ers cenedlaethau cyn 1066, ac yn ennill tir yn gyson. Beth oedd y term Cymraeg am waith Hywel yn ymostwng i Edward yn 918, neu Anarawd i Alfred yn niwedd y ganrif o'r blaen? ^X Efallai bod gwerogaeth yn derm na chlywyd mono ar enau Cymro nes i'w glust glywed homage, ond pa bryd y bu hynny, nis gwn. Ymddengys rhodd ac estyn yn anos byth i'w anseru.

Y cwbl a ddywedaf ar hyn yw, os derbynnir y rhain fel termau ffiwdal (at hynny y tueddaf i), ac os mynnir mai'r Norman a'i dug i Gymru, rhaid rhoi amser iddynt ymledu, gyda'r safbwynt newydd o edrych ar berchenogaeth tir, a dwg hyn ni i ddiwedd y ddeuddegfed ganrif, o leiaf i tua 1150. Erbyn hynny, buasai Ffrangeg yn dra hysbys yn y Deheubarth a Gwynedd. Yn sicr, disgwyliem y buasai lliaws o eiriau Ffrangeg ar dafod leferydd⁹ beirdd Morgannwg, a grwydrai o lys i gastell, ac o gastell i lys. Yn ôl Gerald (Desc. Camb. vi), rhagorai Cymraeg y Gogledd ar Gymraeg y De, oherwydd

⁹H.W. 328, 333. Cf. 327-8, lle dywedir i Hyfaidd, Elise, etc., eu rhoi eu hunain dan nawdd Alfred, "and became the *vassals* of a monarch", etc. "Wales came formally under the supremacy of Wessex . . . the basis was laid of the *homage* which in later ages was regularly demanded from all Welsh princes by the English crown".

cf. Ver Bangor Dist. p. 348: dəsgy an davod
leveryd 'to learn by heart.'

owydre to wander, stray, roam.

bod llai o estroniaid yng Ngwynedd. Dyna'r safle erbyn diwedd y ddeuddegfed ganrif. Deheuwyr yn ddi-os a olygodd y Pedair Cainc. Pa faint o ddylanwad Ffrangeg a welir ar ei iaith? Yn ôl Loth, effaith y Ffr. *gentilshommes* a welir yn *dynyon mwyn* (gw. td. 150). Ffrangeg yw *pali* (107) yn ddiddadl. Rhydd Mühlhausen yn ei eirfa y rhain hefyd fel Ffr. sef *cenniad* (*coniat* = *congé*), *cordwal* (cordouan), *enneint* (enoint?), *neges* (*négoce*), *pryssur* (Ll. pressura neu Ffr. pressure), *swmer* (Ffr. somier, neu'r S. somer) *yspardun* (Hen Saes. spora, neu Ffr. esperon). Gan fod *gadu*, *caniadu* yn golygu "permit", ni raid esbonio *caniad* "permission" fel Ffrangeg: rhaid gwrthod yn bendant esbonio *neges* fel benthg o *négoce*, eithr yn hytrach o'r Ll. *necesse*. Ansicr yw Mühlhausen ei hun o'r lleill, ag eithrio *cordwal*. Y tri thebycaf i mi yw *pali*, *cordwal*, *swmer*. Gall yr olaf ddyfod trwy'r Saesneg: am *cordwal*, gydag *l*, rhyfedd yw bod y ffurf yn absennol o Eiriadur Godefroy o'r Hen Ffr. (lle ceir *Cordoan*, *-ant*, *cordouan*) ac o un Honorat o'r Profensal, ac o un Saesneg Murray (N.E.D.): y peth tebycaf iddo yw *Corduellun* (petrusgar yw Du Cange) mewn Lladin Canol. Ond ceir *pali* mewn Ffrangeg a Phrofensal.¹ A derbyn y tri fel Ffrangeg, pa sicrwydd sydd na roddwyd hwy i mewn yn y chwedl wrth gopïo fel y troes y Ll. Coch *traws* yn *artal*?² Pe tybid eu bod yn y chwedl o'r cychwyn, beth a brofir am ei hamseriad? Ym Mreuddwyd Rhonabwy, na all fod yn gynharach na chanol y ddeuddegfed ganrif oherwydd y cyfeiriad ynddi at Fadog ab Maredudd o Bowys, cefais oddeutu

¹Godefroy: *paile*, *paille*, *pali*, etc., "riche drap d'or ou de soie rayée"; Honorat, "*pali*, drap de soie".

²Gw. isod, 246, am *pynfeirch* yn *ffeirio* â *sumereu*.

indubitable,
doubtless

X

X

to barter exchange

dwsin o eiriau Ffrangeg mewn 16 tudalen o R.M., sef *cordwal*, *baw*, *pali*, *swmer*, *swrcot*, *bwckram* (*ystandard* ?), *cwmsallt* (?), *syndal*, *lattwm*, *lactwn*, *cristal*, *asur*, *Gwilim*. Yn ôl cyfarfaledd, disgwylid pum gwaith y nifer mewn 80 td. o'r Mabinogi. Yn lle hynny, rhyw dri.¹ Dengys hyn ei bod yn deg amseru'r Mabinogi ar ddechrau'r gyfathrach rhwng Cymro a Ffranc, ac nid yn 1066 y dechreuodd honno. Yr oedd planhigfa o Normyn yn Henffordd, dan nawdd Edward y Cyffeswr, pan ruthrodd Gruffudd ab Llywelyn arnynt yn 1052.² A Henffordd yw'r lle y prynodd Manawydan gordwal! Mwy na hynny hefyd, gallai Sais a Chymro gael geiriau fel *pali* a *cordwal*—termau moeth—trwy fasnach, fel y ceid gwin o Ffrainc cyn 1066. Felly llasar.³

Ceir tri chyfeiriad yn y Mabinogi at gylchaw neu gylchu gwlad. Yn ôl td. 25, âi Pwyll ei hun i gylchaw Dyfed, ac felly ei fab Pryderi (td. 51), ond ni allai Math gylchu Gwynedd, eithr âi ei neiaint a'r teulu yn ei le (td. 67). Dywed Dr. Lloyd yn bendant nad oes gyfeiriad yng Nghyfreithiau Hywel at gylch o'r fath gan y brenin ei hun, eithr yn unig gan y frenhines, ac aelodau o'r llys, ond efallai fod y brenin mewn rhyw oes wedi arfer teithio felly.⁴ A ellir maen prawf o hynafiaeth o hyn ?

¹Cymharer y llifeiriant Ffrengig yn *Ystoria De Carolo Magno* yn niwedd y drydedd ganrif ar ddeg.

²Lloyd, H.W. 363, Round, *Feudal England*, 317-26.

³Fel y dywed Mühlhausen, perthyn calch llasart yn y Cyfreithiau yn nes i'r ffurf Berseg *lazvard* na'r hyn a geir yn Ell. a Ffr.

⁴Gweler nodyn, td. 156, a chymharer A.L. i, 346 ; ii, 604, 606, 785, 868. Gelwir cylch y frenhines (cum pueris et puellis) yn *rhieingylch*, ac ni ddyly neb hynny ond y frenhines a'r "rhiein freinyoc", sef merch y brenin, pan fo'r brenin "yn llyudd gor-

planhigfa
- Henffordd

llasar

pe. y nesi,
neftaw

flood

Rhoi'n goren to give up, to cease.
hanu = hanfod to issue, to be demanded or derived, to proceed

RHAGYMDRODD

xxxv

Yma eto, ein hanffawd yw na wiw i ni ystyried y Cyfreithiau sydd gennym fel disgrifiad manwl o arferion dechrau'r ddegfed ganrif. Fel y newidiai'r oes, newidid y cyfreithiau, ac y mae'r ffurf arnynt mewn llawysgrifau tua 1200 yn bur ddiwerth fel tystiolaeth i arferion (dyweder) 1000, neu 1050. Eto medrir mynd cyn belled a hyn, os collodd pob cyfeiriad o'r Gyfraith at gylch gan y brenin ei hun, ac os ceir cyfeiriadau diamheuol yn y Mabinogi at arglwyddi Dyfed yn cylchaw Dyfed fel peth cyffredin yn eu hanes, rhaid ynteu fod y Mabinogi yn perthyn i gyfnod cynharach lawer na 1200.

Pa bryd y gellid tybio i arglwyddi Dyfed a Gwynedd roi'r gorau i'r cylchu? Ymddengys i mi mai mewn cyfnod pan nad oeddynt yn hanu o'r hen linach frenhinol, eithr wedi meddiannu'r orsedd drwy drais. Enbyd fuasai iddynt mewn cyfwng felly eu rhoi eu hunain yng nghyrraedd uchelwyr fyddlon i'r hen arglwyddi. Dyna adeg naturiol i dorri'r hen ddefod, ac anfon y "teulu" yn unig. Sylwer ar eiriau Dr. Lloyd, am ddechrau'r unfed ganrif ar ddeg:—

escape, peddle
trav force,
violence
reach
usage, custom

ancient
crisis

What is most noteworthy in the period now reached is the success of men who were out of the direct line of succession from Rhodri the Great in seizing royal authority in Gwynedd and Deheubarth.¹

wlad", neu "y maes oe tir ehun". Petasai W.M. ac R.M. yn galw Branwen yn prif riein (gw. td. 165), hawdd fuasai cyfieithu hynny i "royal lady, queen", yng ngolau'r term hwn, rhieingylch. Sut bynnag, cf. *Cy.* vii, 126, Teir prif riein arthur. Gwenhwyuar verch gwryt gwent. A gwenhwyuar uerch vthyr ap greidiawl. A gwenhwyuar verch ocuran gawr.

¹H.W. 346.

enbyd dangerous, perilous, fearful

Noda Aeddan (lladdwyd yn 1018): Rhydderch ab Iestin, brenin Deheubarth 1023-33: Llywelyn ab Seisyll (bu farw 1023). Cwmpodd Hywel ab Edwin, arglwydd Dyfed, mewn brwydr yn erbyn Gruffudd ab Llywelyn yn 1044. Yn 1047, lladdodd uchelwyr Ystrad Tywi 140 o "deulu" Gruffudd.¹ Cymharer hefyd yr hyn a ddigwyddodd i "deulu" Gruffudd ab Cynan pan oedd yntau yn newyddian: lladdodd gwŷr Llŷn 52 ohonynt yn eu llestau hyd nos.² Nid adeg oedd hon i'r arglwydd dieithr llestu ymhell o'i briflys!

Peth arall a roddai achlysur i dorri'r hen arfer fuasai i arglwyddiaeth ymledu dros rannau helaeth o Gymru. Buasai cylch dan y telerau newydd bron yn amhosibl. Medrai Pryderi gylchu Dyfed yn yr hen ddull: ni allai gylchu Dyfed, Seisyllwg, a Morgannwg, yn rheolaidd, ond yn unig roi tro achlysurol drwyddynt i ddangos ei awdurdod.

§8. AMSER Y BENTHYG O IWERDDON.

Y mae'r Ail Gainc yn honni rhoi hanes digwyddiad yn Iwerddon, sef poethi'r tŷ haearn am ben Llassar a'i deulu. Ceir peth tebyg yn y chwedl Wyddelig *Mesca Ulad*, eithr nid yn y ffurf hynaf arni, medd Thurneysen, ond yn y ffurf a olygwyd tua 1100-25.³ Hefyd yn *Orgain Dind Ríg*, ond ni wn pa bryd yr amserir y chwedl honno. Yn ôl Stokes,⁴ fe'i ceir yn *Llyfr Leinster* (tua 1160 ?)⁵; a Rawlinson B. 502, llgr. o'r ddeuddegfed

¹H.W. 361.

²H.W. 382; H.G. C. 118.

³Gw. isod, td. 180; Thurneysen, *Die irische Helden- und Königsage*, 1921, td. 473, 481.

⁴Z.C.P. iii, 1.

⁵Thurneysen, op. cit. 34-5.

ganrif ; a chyfeiria Tigernach (bu farw yn 1088) yn ei gronicl at laddfa Dind Ríg, eithr ni ddywed mai mewn tŷ haearn "y llosgwyd Cobthach a deg brenin ar hugain gydag ef".¹ Ond diogel yw credu y gwyddid am y chwedl yn Iwerddon yn hanner olaf yr unfed ganrif ar ddeg, beth bynnag am gyfnod cynharach. Nid amseriad y llawysgrifau o anghenraid yw amser poblogrwydd y stori. A allasai gyrraedd Cymru yn weddol gynnar ? Ganed Sulien tua 1010, bu'n esgob Tyddewi 1072-8, 1080-5, a bu farw yn 1091. Yn ôl cân iddo gan ei fab Ieuan, bu am addysg yn yr Alban am bum mlynedd, ac yn Iwerddon am dair blynedd ar ddeg.² Heblaw hyn, yr oedd Tyddewi ar lwybr saint Iwerddon ar eu ffordd i'r Cyfandir, a diau i Ddyfed fanteisio ar ddysg yr ysgolheigion hyn, ac o bosibl ar eu gwybodaeth o'r hen chwedlau Gwyddelig. Agos hefyd oedd y gyfathrach rhwng Gwynedd ac Iwerddon, fel y dengys hanes Gruffudd ap Cynan a'i dad. Ganed Gruffudd yn Nulyn yn 1054-5,³ ac nid ei dad ef oedd yr unig alltud a groesawyd dros y môr. Eithr hysbys ddigon yw cysylltiadau Gwynedd ag Iwerddon yn oes Gruffudd (bu farw 1137) fel na raid aros ar hyn.

*

§9. CRYNHOAD O'R AWGRYMIADAU HANESYDDOL.

Ar ôl palfalu yma ac acw, efallai mai doeth fyddai crynhoi'r awgrymiadau at ei gilydd i weld pa gyfnod sy'n addas i'r mwyafrif ohonynt. Ar bwys ffurfiau fel mackwvf, *stlys*, *stryw*, ac yn arbennig *maes*, ymddengys

to feel, yrepe

¹*Revue Celtique*, xvi, 374-8.

²Lloyd, H.W. 459-61.

³*Ibid* 379.

Cynnwrf Commotion, stir, tumult, trouble, disturbance,
agitation, excitement

xxxviii

RHAGYMADRODD

1150–1200 yn rhy ddiweddar : tebycach yw 1050–1100,
ac o bosibl 1050. Ni raid ystyried oed y Trioedd ;
atodiadau diweddarach ydynt at y testun. Ceir
awgrymiadau at arferion a syniadau ffiwdal, efallai ;
geill y rhain gyfeirio at y cyfnod yn union cyn dyfod
y Norman, neu'n union wedyn. Digwydd ychydig o
eiriau Ffrangeg yn y testun : gan leied eu nifer, profant
fod diwedd y ddeuddegfed ganrif yn anhygoel fel adeg
y cyfansoddi. Gallant darddu o gyffiniau Henffordd
tua 1050, neu o iaith masnach cyn 1066, neu o ddechrau'r
cyfnod Norman, 1066–1100. Nid oes sôn am frenhin-
gylch ym mrawdlyfrau 1200 : tarddant o frawdlyfr
Hywel Dda (bu farw 949), ond erbyn 1200, newidiasai'r
arferion gymaint, fel nad tystiolaeth yw'r eiddynt, ag
eithrio i'w hoes eu hunain. Gan fod cylch o'r fath yn
beth naturiol i'r cyfarwydd a gyfansoddodd y Mabinogi,
ac yn rhan o'i fyd, a bod pob cyfeiriad ato wedi colli
o frawdlyfrau 1200, er eu bod yn gopiâu o lawysgrifau
cynharach, rhaid rhoi cyfansoddi'r Mabinogi yn ddigon
cynnar i'r cylch hwn ddiffannu o gof a chadw. Y mae
1150 yn rhy ddiweddar : prin y buasai 1050 yn ddigon
cynnar, onibai am gynnwrf y brwydro â'r Norman.
Rhaid llunio'r Mabinogi mewn lle ac oes o gyfathrach
ag Iwerddon, er mwyn deall sut y cafwyd geiriau fel
mackwyf, brat, Llinon, yr esboniad ar daleithiau
Iwerddon, a'r chwedl am y Tŷ Haearn, a'r Tŷ Mawr yn
Tara. Ni wyddys pa bryd y daeth y stori am y Tŷ
Haearn yn boblogaidd gyntaf yn Iwerddon : yr oedd
yn hysbys rhwng 1100 a 1125—pan gorfforwyd hi yn
y Mesca Ulad, ac efallai yn yr unfed ganrif ar ddeg yn
amser Tigernach. Yn Nyfed, yr oedd Tyddewi yn
borth agored i'r Gwyddel, ac yn yr ail ran o'r unfed

addition

incredible

X

+ better
combat

to form shape,
fashion
= Shannon

v.p. 200

X

ganrif ar ddeg, ceid yno deulu ysgolheigaidd, Sulien a'i feibion, ymroddedig i lenyddiaeth, y tad wedi treulio ysbaid hir dan addysg yn Iwerddon; Rhygyfarch, un o'r meibion, yn awdur Buchedd Ddewi Sant, ac felly yn hyddysg yn nhraddodiadau'r genedl. Yng nghanol yr un ganrif, yr oedd etifedd gorsedd Gwynedd yn alltud yn Nulyn, a thrwy briodas mewn cyfathrach â'r Gwyddyl a'r Llychlynwyr.

Gan mai buchedd Pryderi sy'n dolennu'r Pedair Cainc ynghyd, diogel yw credu mai gŵr o'i wlad ef a gyfansoddodd y Mabinogi, h.y. a asiodd chwedlau Gwynedd, Dyfed, a Gwent yn un cyfarwyddyd. Dyfed oedd piau Hywel Dda, y gŵr a unodd arferion Cymru yn un Gyfraith. A awgrymodd hynny i gyfarwydd o Ddyfed uno ei chwedlau? Petasai wedi gwneud hynny cyn 950, pan oedd Hywel yn frenin Cymru oll, anodd credu y cawsem y darlun o wŷr Dyfed yn cilio'n orchfyg-edig o Wynedd. Gwelwyd meibion Hywel yn 954 yn llyyddu hyd yng nghadernid Gwynedd; ac ar ôl colli'r dydd mewn brwydr ger Llanrwst yn Nyffryn Conwy yn ffoi yn ôl i'r De, a gwŷr Gwynedd yn eu herlid hyd Geredigion.¹ Gwraig Hywel Dda oedd Elen, merch Llywarch, mab Hyfaidd, arglwydd Dyfed. Yn yr *Annales*, rhoir ei enw fel *Himeyd*, *Hiemid*. Ai atgo am hwn sydd yn enw tad Rhiannon?² Teithia Pryderi yn ddirwgnach i hebrwng gwrogaeth i frenin Llundain. Ymostyngodd Hywel i Edward yn 918; i Athelstan yn 926-7: llofnododd ddwsin o freinlenni Seisnig rhwng 928 a 949. Ei brif gynorthwywr yn nhrefniant

¹H.W. 344.

²Gw. td. 129, ar yr ansicrwydd ynglŷn â ffurf ei enw.

dirwgnach unumwring, ungrudwig

hebrwng to bring, lead, conduct, convey, accompany, escort.

(hebrwng gwrogaeth render homage?)

"to tender homage"

devoted

well versed,
learned
erite

to form a ring,
to keep

retreat, flee

perish

sign
an agreement

y Gyfraith oedd Blegywryd, gŵr o *Went*,¹ cf. y cyswllt agos rhwng Pwyll, Pryderi, â Theirnon o *Went*. Ond y mae uchafiaeth Dyfed ar Wunedd yn rhy gyson yn ei oes ef i roi'r cefndir gofynnol i'r Mabinogi, heblaw bod y geiriau Ffrangege, etc., yn awgrymu'r ganrif nesaf.

Y cyfnod addasaf, hyd y medraf i weld, yw'r adeg pan oedd Gruffudd ap Llywelyn ap Seisyll yn ei fri. Daeth i orsedd Gwynedd yn 1039: gorchfygodd Hywel ab Edwin, arglwydd Dyfed, yn derfynol yn 1044. Cododd Gruffudd ap Rhydderch ab Iestin faner y De a llwyddodd am ysbaid, ond lladdwyd yntau yn 1055, ac o hynny hyd 1063 teyrnasodd Gruffudd ap Llywelyn ar Wunedd, Powys, Deheubarth, Morgannwg, gan gynnwys Gwent Is Coed. Daliai'r olaf hyd ddydd ei farwolaeth. Yn ôl Domesday, yno yr oedd ei fardd, *Berddig*, yn trigo ar y tir a roesai Gruffudd iddo.²

|| Rhwng 1055 a 1063 dyma gyfle i feirdd o Forgannwg, a chyfarwyddiaid o Ddyfed, deithio mewn heddwch drwy Wunedd oll i glywed hanes Llew, a gweld Caer Aranrod, Bedd Pryderi, Dinlleu, Bedd Branwen. A bardd brenin Gwynedd, o'r tu arall, yn berchen tir yng Ngwent Is Coed, lle gallai ddysgu am Deirnon Dwryf Lliant a Gwri Wallt Eurin. A mwy eto, tystia'r Dr. Lloyd na fu Morgannwg a Gwent erioed, ag eithrio'r ychydig flynyddoedd hyn o dan Ruffudd ap Llywelyn, yn rhan o deyrnas lydan Gymreig. Rhwng diwedd y Gainc Gyntaf a dechrau'r Bedwaredd, daeth Pryderi i feddiant o saith gantref Morgannwg, a chynhwysai hynny'r ddwy *Went*. Yr oedd ei orchfygwr ef, felly, yn arglwydd ar Gynru gyfan. Addawsai Pwyll i

¹H.W. 340.

²Am ei hanes, gw. H.W. 357-71.

cynnal to hold, uphold, support, sustain, bear, maintain
cyfoeth power, dominion, territory, opulence, riches, wealth

RHAGYMDRODD

xli

Deirnon (td. 26) y cynhaliai ef a'i gyfoeth, tra gallai gynnal yr eiddo ei hun. Y teyrn annibynnol olaf ar Went Is Coed oedd Edwin fab Gwriad (tua 1020 ?)¹. Cytunodd ef â Meurig, brenin Morgannwg, trwy lw ar grair o flaen Joseph Esgob Llandaf, i gynorthwyo'i gilydd yn erbyn Sais a Chymro, ond torrodd Meurig y cyngrair (tua 1040 ?), carcharodd Edwin, a thynnodd ei lygaid. Melltithiwyd ef gan yr Esgob, ac i gael maddeuant a gollyngdod, rhoes yntau i Dduw a Theilo, ymhlith tiroedd eraill, un o'r enw *Lann tiuauc*² ym Mhenychen, enw sy'n helpu i ni ddeall sut yr aeth Maen Twrog yn Maen *Tyuyawc* dan law Deheuwyr.³ Y Meurig hwn neu ei fab oedd arglwydd Gwent Is Coed, pan feddiannodd Gruffudd ap Llywelyn hen gyfoeth Teirnon.⁴ Ac ni allai Arglwydd Dyfed y pryd hwnnw gynnal ei arglwyddiaeth ei hun yn erbyn Gruffudd, chwaethach achub Gwent o'i law.

absolute

much less

theory

Y ddamcaniaeth sy'n ateb i'r ffeithiau hysbys i mi, felly, yw ddarfod i w'r o Ddyfed uno hen chwedlau Gwent, Dyfed, a Gwynedd oddeutu 1060, pan oedd y tair gwlad yn un. Chwanegwyd y cyfeiriadau at y Trioedd yn ddiweddarach. Barn Nutt yw bod y Pedair Cainc yn gynnyrch cyfnod Gruffudd ap Cynan (1075-1137), a Rhys ap Tewdwr 1070-93: ni allant fod yn hŷn nac yn ddiweddarach nag ail hanner y ddeuddegfed ganrif, medd yr Athro Loth. Ond nid yw'r naill gyfnod na'r llall yn gweddu cystal a thymor bri Gruffydd ap Llywelyn.

¹H.W. 348.

²Lib. Land. 255-7; H.W. 362.

³Gw. isod, td. 265.

⁴H.W. 367.

crair relic; object of worship or veneration; gem, jewel, token, curio

cyngrair compact, alliance, league, treaty, covenant, truce

cynnyrch produce, yield, product

§10. MABINOGI.

Defnyddir yr enw *Mabinogi* yn unig am y chwedlau hyn, a gelwir pob un ar ei phen ei hun yn *gainc*, neu gangen, o'r Mabinogi. Nid oes deitl ar y dechrau yn y Llyfr Gwyn, ond yn y Coch ceir *llyma dechreu mabinogi*. Ar derfyn y *gainc* gyntaf (td. 27), dyma a geir yn Ll.G. :—

lydan. uab cassnar wledic o *dyledogyon* yr ynys hon. Ac yuelly y teruyna y geing hon yma or *mabynnogyon*.

Gan na ddigwydd *mabynnogyon* mewn unrhyw hen destun hysbys i mi oddieithr yma ac yn y Llyfr Coch (R.M. 25), a bod y gair yn dilyn mor fuan ar ôl *dyledogyon*, dichon mai bai'r ysgrifennydd yw, adlais o'r terfyniad *-ogyon* yn ei glust yn peri iddo orffen *mabynnogi* neu *mabinogi* yn gyffelyb. Teitlir y lleill yn R.M. 26.44, 59, fel hyn :—

llyma yr eil geinc or mabinogi.
llyma y drydedd geinc or mabinogi.
honn yw y bedwared geinc or mabinogi.

Nid oes deitlau yn y Llyfr Gwyn, ond ar ddiwedd yr ail, ceir *y geing honn or mabinyogi* (R.M. *mabinogi*); ar ddiwedd y drydedd, *y geing honn yma or mabinogy* (R.M. *mabinogi*); ar ddiwedd yr olaf yn y ddau lyfr, *y geing honn or mabinogi*. Cyferbynnir hyn ag R.M. 92, Ar *chwedyl* hwnn a elwir Breudwyt maxen; 99, Ar *chwedyl* hwnn a elwir kyfranc llud a lleuelys; 161, Ar *ystorya* honn a elwir breidwyt ronabwy; 192, *chwedyl* iarlles y ffynnawn; 244, *ystorya* gereint uab erbin. Ar ddiwedd Math (isod, 92) rhydd y chwedlydd ei awdurdod dros ddal i Leu Llaw Gyffes fod yn arglwydd ar Wynedd,

sef, herwyd y *dyweit* y *kyuarwydyt*, cf. R.M. 232, gwledychwys peredur . . . *megys* y *dyweit* yr *ystorya*. Ni elwir yr un yn *fabinogi*.

Y mae mwyafrif yr enghreifftiau o blaid darllen *-in-* yn yr ail sillaf o'r enw, a'r terfyniad fel *-ogi*, *-iogi*, nid *-ogyon*. Petasai mwy o awdurdod dros *mabynnogyon*, gellid ei esbonio fel lluosog *mabynnogi* yn yr un dull ag y deallir *beichogyeu* yn R.M. 94 fel lluosog *beich(i)ogi*. Yn erbyn hynny, fodd bynnag, y mae diwedd y ceinciau eraill: dangosant nad pedwar mabinogi sydd yma, ond un yn bedair cainc. Y ceinciau sy'n lluosog, nid y mabinogi. Oherwydd hyn, er bod cyfieithiadau Lady Charlotte Guest, a'r Athro J. Loth, wedi lledaenu'r term *Mabinogion*, gwell efallai ei osgoi bellach, ac arfer y ffurf fyrrach heb *-on*. Gan mai o'r De y daeth ein copïau, ni ellir bod yn hollol sicr rhwng *-ogi*, a *-iogi*, fel terfyniad. Nid diogel yw dal, gan fod Deheuwy'r yn tueddu i golli'r *i* gytsain mor aml, y dylid ynteu roi mwy o bwys ar yr un enghraifft o *-yogi* yn y Ll.G. nag ar y lliaws yn *-ogi*: y mae tuedd weithiau yn llawysgrifau'r De i roi *i* i mewn lle nad oes mo'i hangen. Gan nad oedd y dafodiaith yn gyfarwyddyd diogel iddynt yn hyn o beth, gwthient hi i mewn ar eu cyfer megis. Y mae enwau fel *Eithinog*, *Clynnog*, *Rhedynog*, a geiriau fel *drycinog*, yn Arfon, yn ddigon i ddangos na raid i *-iog* ddilyn *-in-*, *-yn-* bob amser, ct. *Peuliniog*, *miniog*, etc.

A derbyn *Mabinogi*, ynteu, beth yw ei ystyr, a pham y cyfyngir ef i'r chwedlau hyn? Amrywiol yw'r atebion: nodaf rai ohonynt yn unig. Ni raid aros gydag un Thomas Stephens, "tales written to wile away the time of young chieftains" (*Lit. of the Kymry*, 411); neu "Juvenile Tales" (417). Disodlwyd hynny gan

avoid

safe

surely made
as it were

sufficient

against
ourselves.

tw lidy, neat, smart

gynnig Rhys, a dilynwyd Rhys gan Loth, Nutt, ac eraill : wele eiriau Nutt, gan eu bod yn rhoi'r dehongliad hwn yn glir a chryno :—

The literary class in Wales, the Bards, formed a close corporation, admission to which was only gained by a long apprenticeship. The bardic apprentice was styled a *Mabinog*, the traditional material—mythical, heroic, genealogical—which he had to acquire, *Mabinogi*, that is, appertaining to the craft of the *Mabinog*.¹

Seilir hyn oll ar yr *Iolo MSS*, 211-3, lle disgrifir yn dwt ac yn daclus y Mebinog Ysbyddaid, y Mebinog Gorddyfnaid, a'r Mebinog Braint, a phopeth amdanynt ! Gwyddom bellach drwy brofiad chwerw beth oedd gallu Iolo Morgannwg i greu ffugdraethiadau fel sydd yno. Gwyddom na ellir dibynnu ar ddim oll a ddaeth o'i law ef, oni cheir ateg annibynnol yng ngwaith gŵr gonestach nag oedd ef. A chan na ddarganfu neb hyd y dydd hwn enghraifft hen o'r gair *mabinog* yn unman ond yn llsgr. Iolo, nac unrhyw gyfeiriad at *fabinogion* fel prentisiaid o feirdd ond yn yr un cruglwyth, rhaid cefnu'n ddiseremoni ar esboniad Rhys heb wastraffu amser i'w drafod. Gresyn yw gweld ysgolhaig fel yr Athro Loth, oherwydd ei gred yn Iolo, yn ymdraffullio gyda geiriau fel *mebindawd* "coleg, prentisiaeth", *mebydd* "profesor" ; *cynfebydd* "prifathro"² ; ac wedyn ysgolheigion eraill

¹*The Mabinogion*, 330 ; R.M. viii.

²*Les Mabinogion*,² i, 13-5 ; R.C. xxxii, 423 ; cf. Lhuyd, *Arch. Brit.* 262b, Hoc vocabulum [*Mabinogi*] quid sibi velit, hodie non constat.

heap, pile

part
to waste,
-bottle

to make
test

ludo to charm, allure, beguile, entice, deceive, seduce; to produce
by magic

RHAGYMATRODD

xlv

oherwydd eu parch i Loth yn cerdded yn syth i'r un sigldonnen.* A gresyn dwbl mai twyll Cymro a'u hudodd yno. deceit, grand

Cynigiodd yr Athro J. Lloyd-Jones¹ fod *Mabinogi* yn tarddu o'r enw Gwyddelig *Mac ind óc* ar Oengus mab y Dagda : y Cymro yn Cymreigio'r *mac* yn *mab*, ac yn cadw gweddill yr enw Gwyddeleg, i wneud *mab-in-og*, a rhoi *-i* ar ei ôl fel enw ar straeon am Oengus i ddechrau, yna am "y dosbarth o chwedlau neu draddodiadau hafal i'w hanes ef". Diau bod geiriau lledryw i'w cael, a phetasai *Mabinogi* yn digwydd yn unig fel enw ar chwedlau fel y rhai am Oengus, buasai'n rhaid ystyried hyn yn fanylach.² Ond gan fod enghraifft ohono am draethawd hollol wahanol, lle nad oes modd meddwl am berthynas bosibl â'r *Mac ind óc*, gorfodir fi i wrthod yr esboniad cywrain hwn. like, similar hybrid
obliged, forced, compelled
skilful, accurate, curious

Yn ôl Dr. Gwenogvryn Evans,³ daw *mabinogi* o *maban*, bachigyn o *mab*, ac esbonia *mebin* yn B.B.C. 13, 11 fel lluosog *maban*. Ond nid oes rym yn y terfyniad *-ogi* i droi *maban-ogi* yn *mabinogi*: ac nid lluosog yw *mebin*, ond unigol. Cymwynas Dr. Evans yw ddarfod iddo dynnu sylw at y ffaith dra awgrymiadol fod *Mabinogi* yn digwydd yn Peniarth 14 (116) fel cyfieithiad o'r Lladin *infantia*. Yno ceir *llyma vabinogi Iesu Grist* uwch ben cyfieithiad i'r Gymraeg o'r Efengyl Apocryff-aid *De Infantia Jesu Christi*, cf. y teitlau eraill, lle sonnir am *vabolyaeth* an hargluyd ny iessu grist (Pen. 5, xiv) : *mabolaeth* yessu grist (Pen. 14, 58) ; a'r testunau

¹Y *Beirniad*, iv, 106-11.

²Rhois fy marn ar hyn yn weddol lawn yn *Y Beirniad*, vii, 189-90.

³W.M. xxvi.

cyflawn gan Dr. Mary Williams.¹ Felly cyfystyron yw *mabolaeth*, *mabolyaeth*, a *mabinogi*, am febyd a hanes mebyd, a chyfeiria Dr. Evans yn briodol iawn at yr enw *enfances* mewn Ffrangeg-Norman ar yr hanesion am febyd Perceval (Peredur). Iddo ef mabinogi yw, "any narrative which treats of early life"²; a chwanega y gellid ei ledu i gynnwys *Enfances* Peredur, *hanes* Taliesin, neu'r cyffelyb, ac efallai chwedl Culhwch ac Olwen.

Rhydd amseriad ysgrifennu Pen. 14, 116, fel 1325-50, h.y. ychydig diweddarach, os rhywbeth, na'r Mabinogi yn Llyfr Gwyn Rhydderch, a hŷn na Llyfr Coch Hergest. Felly, yn y bedwaredd ganrif ar ddeg, arferid Mabinogi am y Pedair Cainc, a hefyd am Hanes Plentyndod Iesu Grist.

Ceir enghraifft dda ohono, er wedi ei gamgopïo yn *mamynogi*, mewn englynion o waith Prydydd y Moch i Lywelyn ab Iorwerth yn ei ieuenctid—ysbaid cyn 1200. Ganwyd Llywelyn yn 1173: enillasai fri mawr fel rhyfelwr llwyddiannus cyn bod yn bymtheng mlwydd oed, ac fel "gŵr yn oed gwas"³ y cyferchir ef gan y bardd.³

Mabolaeth fy rhwyf yw rhywoli cad.

meddai amdano ar ddechrau un englyn. Yna daw

Mabddysg yw i'm llyw llu rif ser . . .

Torri heb noddï heb ner.

¹*Reports*, i, 309, 331, 332; *Rev. Celt.* xxx, 207, 208, 238; hefyd Pughe, 1832, *Mabinogi*, "Juvenility, juvenile instruction; the amusement of youth; the title of some ancient tales; *Mabinogi Iesu Grist*, The infancy of Jesus Christ, the title of one of the spurious gospels".

²Felly Gruffydd, *Math*, 334, "a tale of a hero's youth".

³*Myv. Arch.* 217b.

* cf. *Beth y Gwern*: Gredyf gwr oed gwas

Mamynogi draig drud yw ei gymwyll . . .

Lladr ryfu a rhannu¹ golud.

Mebyd rhwyf gwrhyd rhwydd fu ei gynrif

I'w² gynnygn bu tramgwydd

Pen dragon draig yn ddengmlwydd

Pobl dŵr, neud gŵr yn eu gwydd.

Ei *fabolaeth* oedd rheoli cad : ei *fabddysg* oedd torri dros derfynau'r gelyn : ei *famynogi* oedd lladd, a rhannu'r ysbail : ei *febyd* oedd chwarae rhan *cadfridog*, ac yntau ond dengmlwydd oed. Mewn *cyfres* fel hon, *anorfod* yw'r casgliad mai bai copŵr yw *mamynogi* yn y trydydd englyn am *mabinogi*. Etyb i'r dim i'r termau eraill ; a gwelwyd eisoes fel y sonia'r llsg. am *fabinogi* a *mabolaeth* fel cyfystyron am *infantia*. Yn niwedd y ddeuddegfed ganrif dyma i ni dystiolaeth werthfawr i ystyr y gair y pryd hwnnw, sef ieuencid i ddechrau, yna hanes ieuencid, fel y mae *infantia* neu *enfance* yn golygu i ddechrau y cyfnod ei hun, yna hanes y cyfnod ym mywyd rhyw arwr. Hanes plentyndod Iesu Grist yw ei *fabinogi* ef ; *mabinogi* Llywelyn oedd *cyfres* o frwydrau *ffyrnig* i ennill gorsedd Gwynedd.

Ffurfiwyd bachigion o *mab*, megis *maban*,³ *mabyn*⁴, *mebyn*, *mebin*⁵ ; yr olaf sydd i'w dybio yma, cf. *dynin*,⁶

¹Yn M.A. *channu*.

²*ny*, yn y testun, bai am *uy* hen ffurf *i'w* mewn orgraff ddiweddar. *cynnygn*, "dyledwyr, gelynion".

³B.B.C. 48, 12 ; 51, 12 ; 61, 5 ; B.A. 3, 9 ; cf. Gw. *macan*, A.C.L. iii, 24, *maccán*, Windisch, W.

⁴R.C. xxxiii, 186-7, 192, sef Pen. 14, 116 ; y *mabyn* bychan yessu ; yr *uy* mot yn *uabyn* bychan ; *yesu* yn *uabyn* ; y *mabyn* hwn.

⁵B.B.C. 13, 11, ryvel *vebin* (nid *professeur de guerre*, fel Loth, R.C. xxxii, 423).

⁶B.A. 18, 4.

no
mabin
anorfod

Series

fierce

X 4

o *dyn*, gyda'r un terfyniad, er mai *dynan* sydd fwyaf cyffredin. Defnyddir *mebin* am fachgen ieuanc, megis yn M.A. 149b (?); B.B.C. 13, 11 (proestio ag *-en* ?) : haws cael enghraifft ohono yn golygu geneth ieuanc, megis yn M.A. 142b, caru caerwyd (amr. *kaerwys*) *febin* (cf. 143a, caraf Gaerwys *fun*) : 198, Gwladus wetus wyl *uebin vab wreic* : ac am ferch y canwyd y llinell, *Mabineit* lunyeit lawn gweteitruwt (M.A. 199b), a gelwir hi hefyd *mabwreic*, cf. Gw. *ban-macc* "a girl" (C.I.L. 177). Efallai y dylid pwysleisio yma nad yw *maban* mor gyfyng ei ystyr â *baban*, ond gall olygu bachgen ieuanc mewn oed i ryfela, ac felly ceir *mebin* am ferch a oedd yn ddigon hen o leiaf i Hywel ap Gwyddeles ei charu. Dengys hyn y gall y tarddair *mabinogi* olygu "youth", nid "infancy" yn unig ; cf. Gw. *maccdacht* "the second stage of human life, reckoned from the age of seven to fifteen"¹ : T.W. *adolescens*, "glaslangc o 12 oed i 21" ; *adolescentia*, "mabolaeth, maboed". Lluniwyd *mabinogi* trwy roi'r terfyniad dwbl *-ogi* at *mabin*, *mebin*, fel y lluniwyd *Cristionogaeth* trwy roi'r terfyniad dwbl *-ogaeth* at *Cristion* ; nid oes angen *mabinog* mwy na *Christionog* i esbonio'r ffurfiau. A dengys ystyron *mebin*, a'r modd yr etyb *mabinogi* i *infantia* a *mabolaeth*, y gallwn bellach droi at y Pedair Cainc i edrych a oes ynddynt rywbeth

¹Windisch, W. 674, ingen *maccdacht*, ein junges, mannbares Mädchen ; cf. I.G.E. 239, lle rhennir oes dyn i *fabolaeth*, *gwrolaeth*, *henaint*. Ceir *mebiniauw* yn Pen. 7, 239, lle rhydd Pen. 5 eu meithrin . . . ac y tyfu yn oetran, cf. R.P. 19b, mab ny mat anet, *mabineid* dynghet, a D. ar *Mabanaidd*. Gweler hefyd Holder, A.C.S. ii, 413-4, ar *Mapinius*, Esgob Reims yn 549 ; Mabon, *Maponos*, Apollo'r Celtiaid.

meithrin to nourish, nurture, nurse, rear, foster, cherish
troseddu to transgress, trespass, offend

RHAGY MADRODD

xlix

i gyfiawnhau'r fath deitl arnynt hwy, ac arnynt hwy yn unig. *to justify*

Uchod, §4, rhois grynoded o'r cynnwys. Yno gwelir mai hanes mabolaeth Pryderi, a hanes mabolaeth Llew yw'r ddwy elfen bwysicaf ynddynt. Prin y mae mabolaeth Gwern druan yn cael chware teg, er bod i'r mebyn hwnnw le go bwysig yn yr Ail Gainc. Eto nid Tri Mabinogi sydd gennym, medd ein testunau, ond pedair cainc o un. Pa un yw hwnnw? Yn sicr y cyntaf, a'r mwyaf sylfaenol, yr un sydd ar ddechrau y cyfarwyddyd yn ei ffurf bresennol, a'r un y mae cryn le i gasglu oedd yn bod fel chwedl gyfan yn Nyfed cyn i neb feddwl am gydio ynghyd chwedlau De a Gogledd, y chwedl am eni Pryderi, ei golli, ei gael, ei feithrin hyd oed gwreica (ei anturiaethau fel meichiad i'w dadmaeth Pendaran?). Dyna fabinogi yn ystyr fanylaf y gair. A chredaf mai'r chwedl hon a roes enw i'r cyfan. Sylwer ar yr hyn a wnaeth y golygydd, y cyfansoddwr, neu'r cyfunwr. Cyflawnodd fabinogi Pryderi trwy chwanegu hanes ei ladd trwy ddichell Gwydion o Wynedd. Ni ellid deall y sôn am foch o Annwfn, achlysur y lladd, oni cheid rhagymadrodd i egluro cyswllt Pwyll, tad Pryderi, ag Annwfn. Yn neithior Pwyll a Rhiannon troseddir yn erbyn Gwawl, ac yr oedd chwedl ddifyr ar gael am y modd y dialodd Llwyd gam ei gyfaill, ac yr achubwyd Pryderi a Rhiannon o'i afael trwy gyfrwystra Manawydan. Er mwyn dwyn hynny hefyd i mewn, rhaid oedd gweu i'r cyfansoddiad chwedl arall o Wynedd am y lladdfa fawr yn y tŷ mawr yn Iwerddon, ond Pryderi a Manawydan yn dianc yn fyw. Erbyn hyn y mae'r Mabinogi gwreiddiol wedi tyfu yn gyfarwyddyd hir, a ddiwedda gyda marw Pryderi. Naturiol oedd

adventures

wild track, trail, guile

cunning

to weave, knit

D

difyr pleasant, agreeable, diverting, amusing, entertaining

x gawdel, gyrdd ha mor, mallet, sledge-hammer, bat
batle, churn-staff, knocker.

mynwair (harness) collar

1

RHAGYMADRODD

gorffen hwnnw drwy atodi ato nid yn unig y gosb ar Gwydion a'i frawd, ond hefyd Fabinogi enwog yng Ngwynedd, sef Mabinogi Llew mab Gwydion, y modd y ganed ef, y magwyd ef, y cafodd enw, arfau, gwraig, a'r helynt ynglŷn â hi. Dosbarthwyd y chwanegiadau hyn stem, trunk oll yn drefnus fel tair cainc yn tyfu o'r un cyff, ein cainc gyntaf ni, a chan mai'r Mabinogi gwreiddiol oedd honno (ag eithrio ychydig ar y cychwyn), galwyd y cwbl ar ei henw hi, *Mabinogi*. Wedyn, gan fod cainc ar arfer am ran gyflawn ynddi ei hun o stori hwy,¹ naturiol oedd dyfod i alw'r pedair chwedl yn bedair cainc o'r Mabinogi. Lap

Erys un pwynt heb ei gyffwrdd hyd yn hyn, sef bod diwedd y drydedd gainc (td. 65), ar ôl disgrifio'r modd y carcharwyd Pryderi a Rhiannon gan Lwyd fab Cil Coed, yn chwanegu, "Ac o achaws y carchar hwnnw y gelwit y kyuarwydyt hwnnw *Mabinogi Mynweir a Mynord*", canys dull y carcharu, meddir, oedd rhoi yrdd^x porth y llys am wddf Pryderi, a mynweiriau'r esyn am anes wddf Rhiannon. Nid oes modd treisio *mabinogi* yma i olygu *infantia*, na hanes maboed, ond dangosir yn eglur ei fod wedi magu ail ystyr o chwedl neu stori yn gyffredinol. Cymharer hanes cyfranc: fel y prawf y gair Gw. *comrac* "an encounter, meeting, combat, confluence",² ei ystyr gyntefig oedd "cyfarfod", yna "brwydr"; wedyn daeth i olygu "hanes y frwydr", ac yna "stori" yn hollol agored. Ceir enghraifft wych ohono yn yr ystyr lacaf isod, td. 23, ll. 6. Ond nid yw hyn yn dileu y posibilrwydd o'i arfer o hyd yn ei ystyron manylach, a mwy cyntefig.³ I gael y meddwl, rhaid

¹Gw. Gruffydd, *Math.* 324-5, am ystyr *cainc*.

²C.I.L. 451.

³Gw. Silvan am enghreifftiau.

Cyfranc 1) meeting > 2) battle > 3) history of
the battle > 4) story

dibynnu ar y cyd-destun. Felly hefyd mabinogi. Ei ystyr gyntaf oll yw mebyd, ieuenctid: yr ail,² hanes mabolaeth¹; y drydedd,³ stori neu chwedl.

Yn awr, troer at y teitlau yn y Llyfr Coch. Y teitl cyntaf yw, *llyma dechreu mabinogi*, nid y *mabinogi*. Nid enw priodol arbennig yw i'r ysgrifennydd, eithr enw cyffredin fel cyfarwyddyd neu chwedl, fel pe dywedai, "llyma dechreu *cyfarwydyt*". Ar ddiwedd pob cainc rhydd fannod o'i flaen, *o'r mabinogi*, fel pe dywedai, "Dyma ddiwedd y rhan hon *o'r stori*".

Pam, felly, na cheir *Mabinogi* fel enw ar stori Peredur? Y mae honno'n dechrau gyda'r hyn a ellir ei alw yn fabinogi yn ystyr gyntaf y gair, ond wedi tyfu i gynnwys hanes cyfran helaeth o fywyd yr arwr. Os lledwyd *mabinogi Pryderi* nes mynd yn deitl ar y Pedair Cainc, pam na ddigwyddodd peth tebyg i fabinogi Peredur? Ni welaf reswm yn y byd yn erbyn i hynny ddigwydd. Hwyrach, petasai ystoria Peredur gennym yn ei ffurf gyntefig Gymreig, y cawsem fod mabinogi wedi bod yn enw arni, neu ar ran ohoni. Ond bu *Peredur, Arglwyddes y Ffynnon*, a *Geraint* am dro ym Mharis, a daethant yn ôl i Gymru wedi diosg peth o'u gwisg Gymreig, a gwisgo dillad Ffrengig yn eu lle! Brethyn cartref sydd am y Pedair Cainc. Y mae teitl fel *Mabinogi Iesu Grist* yn cadarnhau'r posibilrwydd. Ond

¹Petasai gofod, hoffwn gymharu cynnwys y chwedl Wyddeleg am fabolaeth Finn, gw. *Mac- Ghníomhartha Fhinn*, neu "The Youthful Exploits of Finn", David Comyn, 1904. Yno priodolir i Finn y penillion canu natur sy'n dechrau gyda *Cettemain cain ree*, y ceir adlais ohonynt yn Llyfr Du Caerfyrddin (B.B.C. 33), *kintevin keinhaw amsser*.

nid oedd enwau'r chwedlau hyn yn hollol sefydlog, e.e. dywed Llywelyn Fardd (M.A. 247b) :—

Handwyf huawdyl was a wys yn llys
Val ymarwar llut a lleuelys.

copied from

Canodd Llywelyn i Lywelyn Fawr, a fu farw yn 1240. Yn ei gyfnod ef diau bod rhai yn galw *Cyfranc Lludd a Llefelys* yn *Ymarwar*; ond nid *Ymarwar* yw'r enw a gawn ar y stori honno yn y Llyfr Coch eithr *Cyfranc*. Aethai'r enw arall o'r ffasw'n. Dengys Llyfr Taliesin (B.T. 54) fod stori am Bwyll a Phryderi a Gweir na ddaeth i lawr i ni o gwbl :—

bu kyweir karchar *gweir ygkaer sidi*
trwy Ebostol Pwyll a Phryderi.
neb kyn noc ef nyt aeth idi.
yr gadwyn trom las kywirwas ae ketwi.
a rac preideu *annwfy'n* tost yt geni

Deallaf *ebostol* yma i olygu *ystorya*, chwedl, cyfarwyddyd, ar bwys nodyn Powel ar *Ebostol y Sul*,¹ lle dengys fod *Apostolus* wedi mynd mewn rhai cysylltiadau yn gyfystyr ag *Epistola*, yna homili. Gan fod *Ebostol* ar arfer am ryddiaith a ddarllenid yn un rhan o'r offeren, gwelir fod

¹Y *Cymmrodor*, ix, 199. "Usually *Ebostol* means Apostle. But the word *Apostolus* was used in the Latin Church . . . to denote collectively the book of the Epistles of Saint Paul, and then the portion of these epistles read at the Mass. Thus *Apostolus* became in this connection equivalent to *Epistola*, as is shown by the quotation from Hincmar in Du Cange . . . *statim post Apostolum, id est, post Epistolam* . . . In its present use in Welsh the term is extended from the Epistle to the 'admonition' or homily, which immediately followed it".

*

modd deall y gair yn y gân uchod am ddarn o ryddiaith, h.y. cyfarwyddyd (yn ei hen ystyr). Am y defnydd o *trwy*, cf. B.T. 19, 3, *trwy* ieith taliessin : 20, 3, *trwy* ieith talhayarn. Ceir cyfeiriad arall at yr un chwedl, B.T. 34 :—

ys kyweir vyg kadeir yg *kaer sidi*.
 nys plawd heint a heneint a uo yndi.
 ys gwyr *manawyt a phryderi*.

A dylid cofa, wrth gwrs, fod Taliesin, yn ôl y Pedair Cainc, yn un o'r *ysbydawt* yng Ngwales, gyda Manawyd-an a Phryderi, heb heneiddio am bedwar ugain mlynedd. Cadwyd cymaint a hynny o'r hen *ebostol* i ni yn yr ail gainc, eithr diflannodd *Gweir*, onid erys yn yr enw *Mynweir* ar ddiwedd y drydedd. Y mae'r awgrymiadau hyn yn ddigon i gyfiawnhau cynnig, o leiaf, fod *ebostol* yn deitl gynt ar ffurf gyntefig chwedl am Bwyll, a Phryderi, Manawyd-an, a Gweir, yng Nghaer Sidi, neu Siddi, yn Annwfn,— rhan o'r deunydd a oedd wrth law cyfansoddwr y Pedair Cainc. Dengys hefyd ansefydlogrwydd teitlau'r chwedlau hyn. Glynodd *Mabinogi* wrth y Pedair Cainc, er nad oedd yn addas bellach ond mewn ail ystyr, oherwydd traddodiad Dyfed a fynnai edrych ar y cyfarwyddyd hir fel ymhelaethiad ar fabinogi Pryderi. X

§11. CYFFREDINOL.

Aeth y gyfrol hon yn hir eisoes, a rhaid tewi heb gyffwrdd â llu o broblemau sydd ynglŷn â'r testun. Ni pherthyn i mi mewn llawlyfr fel hwn olrhain y Pedair Cainc i'w gwreiddiau cyntefig, petai hynny o fewn fy

Llên. *Genom* folklore
addefedig admitted, acknowledged, confessed

ngallu : gorchwyl myfyrwyr Llên Gwerin yw dadansoddi a chymharu straeon gwerin fel y rhain. Y mae yma chwedlau enwol a lleol i esbonio enwau personau a lleoedd : atgofion hanesyddol ; gweddillion chwedlon-iaeth am deulu Dôn, yn arbennig Manawydan, a Llew ; a benthyciadau addefedig o lèn y Gwyddyl. Am drafodaeth ar y pethau hyn, gweler llyfrau Rhys, er bod ei brif ddamcaniaeth bellach yn chwilfriw : erthyglau Anwyl¹ ; cyfrol yr Athro W. J. Gruffydd ar *Math* am awgrymiadau gwerthfawr o safbwynt newydd ; llyfrau Nutt², yn arbennig ei nodiadau godidog ar ddiwedd ei argraffiad o gyfieithiad Lady Guest, lle crynhoir i fyr eiriau ei farn aeddfed ar berthynas y Mabinogi â'r rhamantau, a dosbarthiad hwylus o'r cyfan. Saif problem Arthur o'r naill du braidd. Gwir na ellir deall honno chwaith heb astudio'r Pedair Cainc, er mwyn cymharu, pe na bai am ddim arall, ond ni raid astudio'r chwedlau am Arthur *cyn* trafod y Mabinogi. Dylid nodi yma y gyfres fach boblogaidd, *Popular Studies in Mythology, Romance, and Folklore*, yn arbennig Rhif 1, a

to analyse

task job, business

mythology

broken, scattered

excellent

ripe, mature, convenient

¹*Zeitschrift f. C. Phil.* i, 277 ; ii, 124 : iii, 123.

²Gweler yn arbennig *The Voyage of Bran*, dwy gyfrol, gan Kuno Meyer ac Alfred Nutt : Mac Dougall, *Folk and Hero Tales*, rhagymadrodd Nutt, xiii-xxix ; Campbell, *The Fians*, xiv-xxxviii, a chyfrolau eraill y *Waifs and Strays of Celtic Tradition* ; ac wrth gwrs, *Studies on the Legend of the Holy Grail*, y rhannau lle cyfeirir at y Mabinogi. Methaf ei ddilyn yn ei ymgais (*Folk-Lore Record*, Vol. V) i brofi benthg ym *Mranwen* o'r chwedlau Teutong ; ceir lladdfâu yn straeon Iwerddon, a chreulonder fel barbareiddiwch Efnysien at y meirch ym muchedd Cadog Sant, etc. Nid yw ffyrnigrwydd yn nodwedd cyfyngedig i Deutoniaid.

Rhif 11 : yn yr olaf ceir crynodeb clir o'r damcaniaethau ar darddellau r Mabinogi gan Ivor B. John, llyfryn tra hwylus, a thrafodaeth synhwyrol. Gwnaeth Campbell ymgais i gymharu'r chwedlau Cymreig â'r rhai Albaneg yn ei *Popular Tales of the West Highlands*, iv, 270-99; ond os am gymharu o ddifrif, rhaid gweithio ar y testunau a geir yn y *Revue Celtique* (gweler yn arbennig drafodaeth Loth ar y chwedlau Arthuraidd); *Zeitschrift f. Celtische Philologie*; *Irische Texte*, Windisch; rhai o gyfrolau'r *Irish Texts Society*; *Eriu*; *Silva Gadelica* O'Grady; catalog llawysgrifau Gwyddelig yn yr Amgueddfa Brydeinig, gan O'Grady a Robin Flower; a'r gyfres hir o destunau a olygwyd gan Whitley Stokes, a Kuno Meyer, heb sôn am ysgolheigion eraill. Nid teg fyddai anghofio cyfraniad Dr. Mary Williams i astudiaeth *Peredur*, ond nid oes obaith enwi degwm o'r gweithwyr a'r llyfrau yn y maes hwn. Digon yw'r uchod i'r neb a fo'n cychwyn.

Rhydd Thurneysen yn ei *Die irische Helden- und Koenigsage*, 703-6, restr hir o destunau a theitlau chwedlau Gwyddelig y cyfeiria atynt: erys mewn llawysgrifau restrau hwy. Dengys *Culhwch ac Olwen* fod lliaws gynt o chwedlau Cymreig hefyd yn hysbys ddigon i'r cyfarwyddiaid. Tlawd iawn ydym bellach, a chan hynny dylem werthfawrogi'n fwy yr ychydig sy'n aros. Y cam cyntaf yw ceisio penderfynu ystyr fanwl y chwedlau sydd gennym, ac o'r safbwynt hwnnw teilynga cyfieithwyr y Mabinogi deyrnged o ddiolch. Ar ben y rhestr daw Lady Charlotte Guest, gyda'i chyfieithiad a gyhoeddwyd yn 1838-49. Troes y rhamantau oll i Saesneg, gyda nodiadau eglurhaol. Yna daw'r Athro J. Loth, gyda'i gyfieithiad manylach i

sensibile
h. a. t. m. a. s.

in earnest

to do

revel,
about

tribute

revised Ffrangeg, yn 1889; ail argraffiad diwygiedig yn 1913; rhagymadrodd llawn, a nodiadau. Y llynedd cyhoeddwyd cyfieithiad newydd i'r Saesneg gan T. P. Ellis a John Lloyd, gyda rhagymadroddion byr, a nodiadau. Cyhoeddodd Mühlhausen yn 1925 destun y Pedair Cainc yn unig, gyda geirfa gyflawn, lle trosir y Gymraeg i'r Ellmyneg. Teilynga Foulkes hefyd ei enwi yma; a J. M. Edwards a amcanodd droi'r chwedlau i Gymraeg diweddar. Y cymwynaswyr pennaf parthed cywirdeb *as appears* testun fu Syr John Rhys a'r Dr. Gwenogvryn Evans, yn eu hargraffiad gwych o'r chwedlau yn y Llyfr Coch o Hergest; a'r olaf ei hun biau'r clod am gyhoeddi testun y Llyfr Gwyn a llawysgrifau eraill o gasgliad Peniarth.

Efallai ei bod yn deg i mi ddweud wrth orffen, i mi, er mwyn cwtogi, orfod gadael allan o'm nodiadau y cyfeiriadau at bwyntiau tebyg yn chwedlau Iwerddon a'r Alban, y digwyddodd i mi daro arnynt, ac o'r rhagymadrodd bopeth ond a berthynai i gwestiwn amseru'r Mabinogi, ac egluro ei enw.

Cwtogi to shorten, curtail, abridge, abbreviate

Pwyll Pendeuic Dyuet.

PWYLL, Pendeuic Dyuet, a oed yn arglwyd ar seith cantref Dyuet. A threigylgweith yd oed yn Arberth, prif lys idaw, a dyuot yn y uryt ac yn y uedwl uynet y hela. Sef kyueir o'y gyuoeth a uynnei y *part, direction* hela, Glynn Cuch. Ac ef a gychwynnwys y nos honno o Arberth, ac a doeth hyt ym Penn Llwyn Diarwya, ac yno y bu y nos honno. A thrannoeth yn ieuengtít y dyd kyuodi a oruc, a dyuot y Lynn Cuch i ellwng e gwn dan y coet. A chanu y gorn a dechreu dygyuor yr hela, a cherdet yn ol y cwn, ac ymgolli a'y gydymdeithon. Ac ual y byd yn ymwarandaw a llef yr erchwys, ef a glywei llef erchwys arall, ac nit oedynt unllef, a hynny yn dyuot yn erbyn y erchwys ef. Ac ef a welei lannerch yn y coet o uaes guastat ; ac ual yd oed y erchwys ef yn ymgael ac ystlys y llannerch, ef a welei carw o ulaen yr erchwys arall. A pharth a pherued y *middle* llannerch, llyma yr erchwys a oed yn y ol yn ymordiwes ac ef, ac yn y uwrw y'r llawr.

Ac yna edrych ohonaw ef ar liw yr erchwys, heb hanbwyllaw edrych ar y carw. Ac o'r a welsei ef o helgwn y byt, ny welsei cwn un lliw ac wynt. Sef lliw oed arnunt, claerwyn [2] llathreit, ac eu clusteu yn gochyon. Ac ual y llathrei wynnet y cwn, y llathrei cochet y clusteu. Ac ar hynny at y cwn y doeth ef, a

glade

concup

Mod. W. lwy, lwynt.

stronger than the abstr. noun. This is the equative = extraneous whiteness

gyrru yr erchwys a ladssei y carw e ymdeith, a llithyaw y erchwys e hunan ar y carw.

Ac ual y byd yn llithiau y cwn, ef a welei uarchauc yn dyuot yn ol yr erchwys y ar uarch erchlas mawr ; a chorn canu am y uynwyl, a gwisic o urethyn llwyt tei amdanaw yn wisic hela. Ac ar hynny y marchawc a doeth attaw ef, a dywedut ual hynn wrthaw, " A unben," heb ef, " mi a wnu pwy wytti, ac ny chyuarfach i well it."

" Ie," heb ef, " ac atuyd y mae arnat o anryded ual nas dyliei." " Dioer," heb ef, " nyt teilygdawt uy anryded a'm etteil am hynny." " A unben," heb ynteu, " beth amgen ?" " Y rof i a Duw," hep ynteu, " dy anwybot dy hun a'th ansyberwyt." " Pa ansyberwyt, unben, a weleist ti arnaf i ?" " Ny weleis ansyberwyt uwy ar wr," hep ef, " no gyrru yr erchwys a ladssei y carw e ymdeith, a llithiau dy erchwys dy hun arnaw ; hynny," hep ef, " ansyberwyt oed : a chyn nyt ymdialwyf a thi, y rof i a Duw," heb ef, " mi a wnaif o anglot itt guerth can carw."

[3] " A unbenn," heb ef, " o gwneuthum gam, mi a brynaf dy gerennyd." " Pa delw," hep ynteu, " y pryny di ?" " Vrth ual y bo dy anryded, ac ny wnn i pwy wytti." " Brenhin corunawc wyf i yn y wlat yd hanwyf oheni." " Arglwyd," heb ynteu, " dyd da itt ; a pha wlat yd hanwyt titheu oheni ?" " O Annwuy'n," heb ynteu. " Arawn urenhin Annwuy'n wyf i." " Arglwyd," heb ynteu, " pa furyf y caf i dy gerennyd di ?" " Llyma wyd¹ y kyffy," heb ynteu. " Gwr yssyd

¹ wyd, W., yr wed, R.

it is possible

it is not the dignity of my rank that presents me with respect to that

can wrong

M.W. gwedd.

lord

boorishness

gyuerbyn y gyuoeth a'm kyuoeth inheu yn ryuelu arnaf yn wastat. Sef yw hwnnw, Hafgan urenhin o Annwuyn. Ac yr guaret gormes hwnnw y arnaf, a hynny a elly yn haut, y keffy uygherennyd." "Minnheu awnaf hynny," heb ynteu, "yn llawen. A manac ditheu y mi pa furyf y gallwyf hynny." "Managaf," heb ynteu. "Llyna ual y gelly; mi a wnaaf a thi gedymdeithas gadarn. Sef ual y gwnaf, mi a'th rodaf di y'm lle i yn Annwuyn, ac a rodaf y wreic deccaf [4] a weleist eiroet y gyscu gyt a thi beunoeth, a'm pryt innheu a'm ansawd arnat ti, hyt na bo na guas ystauell, na swydawc, na dyn arall o'r a'm canlynwys i yroet, a wyppo na bo miui uych ti. A hynny," heb ef, "hyt ym penn y ulwydyn o'r dyd auory. An kynnadyl yna yn y lle hon." "Ie," heb ynteu, "kyt bwyf i yno hyt ympenn y ulwydyn, pa gyuarwyd a uyd ymi o ymgael a'r gwr a dywedy di?" "Blwydyn," heb ef, "y heno, y mae oet y rof i ac ef, ar y ryt. A byd di i'm rith yno," heb ef. "Ac un dyrnaut a rodych di idaw ef; ny byd byw ef o hwnnw. A chyt archo ef yti rodi yr eil, na dyro, yr a ymbilio a thi. Yr a rodwn i idau ef hagen, kystal a chynt yd ymladei a mi drannoeth." "Ie," heb y Pwyll, "beth a wnaaf i y'm kyuoeth?" "Mi a baraf," hep yr Arawn, "na bo i'th gyuoeth na gwr na gwreic a wyppo na bo tidi wwyf i. A miui a af i'th le di." "Yn llawenn," hep y Pwyll, "a miui a af ragof." "Dilesteir uyd dy hynt ac ny russya dim ragot, yny delych y'm kyuoeth i: a mi a uydaf hebryngyat arnat." *guide, conductor*

*remove, read
one of*

*every night
wanderlain*

taken

*form,
substance*

hindered

[5] Ef a'y hebryghaud yny welas y llys a'r kyuanedd. "Llyna," hep ef, "y llys a'r kyuoeth i'th uedyant. A chyrch y llys. Nit oes yndi nep ni'th adnappo; ac wrth ual y guelych y guassanaeth yndi, yd adnabydy uoes y llys." Kyrchu y llys a oruc ynteu. Ac yn y llys ef a welei hundyeu ac yneuadau, ac ysteuyll, a'r arduin teccaf a welsei neb o adeiladeu. Ac y'r neuad y gyrchwys y diarchenu. Ef a doeth makwyueit a gueisson ieueinc y diarchenu, a phaup ual y delynt kyuarth guell a wneynt idaw. Deu uarchauc a doeth i waret i wisic hela y amdanaw, ac y wisicaw eurwisic o bali amdanaw.

444
diarchenu
remove

A'r neuad a gyweirwyt. Llyma y guelei ef teulu ac yniuroed, a'r niuer hardaf a chyweiraf o'r a welsei neb yn dyuot y mywn, a'r urenhines y gyt ac wynt, yn deccaf gwreic o'r a welsei neb, ac eurwisic amdanei o bali llathreit. Ac ar hynny, e ymolchi yd aethant, a chyrchu y bordeu a orugant, ac eisted a wnaethant ual hynn—y urenhines o'r neill parth idaw ef, a'r iarll, deby[6]gei ef, o'r parth arall. A dechreu ymdidan a wnaeth ef a'r urenhines. Ac o'r a welsei eiryoet wrth ymdidan a hi, dissymlaf gwreic a bonedigeidaf i hannwyt a'y hymdidan oed. A threulaw a wnaethant bwynt a llynn a cherdeu a chyuedach. O'r a welsei o holl lyssod y dayar, llyna y llys diwallaf o uwyt a llynn, ac eur lestri, a theyrn dlysseu. *llws, pl. llyssen, jewel, precious object*

"most unaffected"

v. p. 254
(68,10)

lacking
nothing

Amser a doeth udunt e uynet e gyscu, ac y gyscu yd aethant, ef a'r urenhines. Y gyt ac yd aethant yn y guely ymchwelut e weneb at yr erchwyn a oruc ef, a'y

geuyn attei hitheu. O hynny hyt trannoeth, ny dywot ef wrthi hi un geir. Trannoeth, tirionwch ac ymdidan hygar a uu y ryingthunt. Peth bynnac o garueidrwyd a wei y rungthunt y dyd, ni bu unnos hyt ym pen y ulwydyn amgen noc a uu y nos gyntaf.

Treulaw y ulwydyn a wnaeth trwy hela, a cherdeu, a chyuedach, a charueidrwyd, ac ymdidan a chedymdeithon, hyt y nos yd oet y gyfranc. Yn oet y nos [7] honno, kystal y doi y gof y'r dyn eithaf yn yr holl gyuoeth yr oet [ac idaw ynteu]. Ac ynteu a doeth i'r oet, a guyrda y gyuoeth y gyt ac ef. Ac y gyt ac y doeth i'r ryt, marchawc a gyuodes y uynyd, ac a dywot wal hynn, "A wyrda," heb ef, "ymwerendewch yn da. Y rwng y deu wrenhin y mae yr oet hwnn, a hynny y rwng y deu gorff wylldeu. A fob un o honunt yssyd hawlwr ar y gilyd, a hynny am dir a dayar. A ssegur y digaun pawb o honawch uot, eithyr gadu y ryingthunt wylldeu."

hwy iel dau
safe

Ac ar hynny y deu urenhin a nessayssant y gyt am perued y ryt e ymgyuaruot. Ac ar y gossot kyntaf, y gwr a oed yn lle Arawn, a ossodes ar Hafgan ym perued bogel y daryan yny hyllt yn deu hanner, ac yny dyrr yr arueu oll, ac yny uyd Hafgan hyt y ureich a'e paladyr dros pedrein y uarch y'r llawr, ac anghewawl dyrnawt yndaw ynteu. "A unben," heb yr Hafgan, "pa dyllyet a oed iti ar uy anghew [8] i? Nit yttoydwn i yn holi dim i ti. Ni wydwn achos it heuyt y'm llad i; ac yr Duw," heb ef, "canys dechreueist uy llad, gorffen." "A

= hwyd oni
thynn
spear-shaft

right

† 2nd part of V. 1.
'to be'

o = mod chwraith 'either'

Cruifer

lord

unbenn," heb ynteu, "ef a eill uot yn ediuar gennyf gwneuthur a wneuthum itt. Keis a'th lado; ni ladaf i di." "Vy ngwyrda kywir," heb yr Hafgan, "dygwch ui odyma: neut teruynedic angheu y mi. Nit oes ansawd y mi y'ch kynnal chwi bellach." "Vy ngwy[r]da innheu," heb y gwr a oed yn lle Arawn, "kymerwch ych kyuarwyd, a gwybydwch pwy a dylyo bot yn wyr ymi."

'it is'; v. Morris Jones p. 426.

since... not.

"Arglwyd," heb y gwyrda, "pawb a'y dyly, canyt oes urenhin ar holl Annwuyn namyn ti." "Ie," heb ynteu, "a del yn waredauc, iawn yw [y] gymryt. Ar ny del yn uuyd, kymmeller o nerth cledyueu." Ac ar hynny, kymryt gwrogaeth y gwyr a dechreu guereskynn y wlat. Ac erbyn hanner dyd drannoeth, yd oed yn y uedyant y dwy dyrnas.

upudd 'humble'
cladd - ybau
nu.
claddau sq.
claddyf }
f.

goresgyn

Ac ar hynny, ef a gerdwys parth a'y gynnadyl, ac a doeth y Lynn Cuch. A phan doeth yno, yd oed [9] Arawn urenhin Annwuyn yn y erbyn. Llawen uu pob un wrth y gilid o honunt. "Ie," heb yr Arawn, "Duw a dalo itt dy gydymdeithas; mi a'y kygleu." "Ie," heb ynteu, "pan delych dy hun i'th wlat, ti a wely a wneuthum i yrot ti." "A wnaethost," heb ef, "yrof i, Duw a'y talo itt."

log. bag

Yna y rodes Arawn y furuf, a'y drych e hun y Pwyll, Pendeuic Dyuet, ac y kymerth ynteu y furuf e hun a'y drych. Ac y kerdaud Arawn racdaw parth a'y lys y Annwuyn, ac y bu digrif ganthaw ymw[e]let a'y eniuer ac a'y deulu, canis rywelsei ef [wy ys blwydyn]. Wynteu hagen ni wybuyssynt i eisseu ef, ac ni bu

M. W.
+ bagddo 'before'
iim
since
Team)

M. W.
jantic
ganddo

newydach ganthunt y dyuodyat no chynt. Y dyd hwnnw a dreulwys trwy digrifwch a llywenyd, ac eisted ac ymdidan a'y wreic ac a'y wyrda. A phan uu amserach kymryt hun no chyuedach, y gyscu yd aethant. Y vely a gyrchwys, a'y wreic a aeth attaw. Kyntaf y gwnaeth ef ymdidan a'y [wreic], ac ymyrru ar digriwwch serchawl a charyat arnei. A hynny [10] ny ordifnassei hi ys blwydyn, a hynny a uedylywys hi. "Oy a Duw," heb hi, "pa amgen uedwl yssyd yndaw ef heno noc ar a uu yr blwydyn y heno?" A medylyaw a wnaeth yn hir. A guedy y medwl hwnnw, duhunaw a wnaeth ef, a farabyl a dywot ef wrthi hi, a'r eil, a'r trydyt; ac attep ny chauas ef genthi hi yn hynny. "Pa achaws," heb ynteu, "na dywedy di wrthyf i?" "Dywedaf wrthyf," heb hi, "na dywedeis ys blwydyn y gymmeint yn y kyfryw le a hwnn." "Paham?" heb ef. "Ys glut a beth yd ymdidanyssam ni." "Meuyl im," heb hi, "yr blwydyn

y neithwyr o'r pan elem yn nyblyc yn dillat guely, na digrifwch, nac ymdidan, nac ymchwelut ohonot dy wyneb attaf i, yn chwaethach a uei uwy no hynny o'r bu y rom ni." Ac yna y medylywys ef, "Oy a Arglwyd Duw," heb ef, "cadarn a ungwr y gydymdeithas, a diffleeis, a geueis i yn gedymdeith." Ac yna y dywot ef wrth y wreic, "Arglwydes," heb ef, "na chapla di uiui. Y rof i a Duw," heb [11] ynteu, "ni chyskeis inheu gyt a thi, yr blwydyn y neithwyr, ac ni orwedeis." Ac yna menegi y holl gyfranc a wnaeth idi. "I Duw y dygaf uy nghyffes," heb hitheu, "gauael gadarn a geueist ar gedymdeith yn herwyd ymlad a frouedigaeth y gorff, a

"he gave himself
up to the
delights of love."

H. W. dehuo.

H. W. deff.

mod. dyblyg.

= mod. 9

359. Part. of
dywedaf.

I bring

temptation

12. Imperf.
of Dyaf.

†
H. W. dehuo.

keep faith with
 chadw kywirdeb wrthyt titheu." " Arglwydes," heb ef,
 " sef ar y medwl hwnnw yd oedwn inheu, tra deweis
 wrthyt ti." " Diryued oed hynny," heb hitheu.

then
 Ynteu Pwyll, Pendeuic Dyuet, a doeth y gyuoeth ac
 y wlat. A dechreu ymouyn a gwyrda y wlat, beth a
 uuassei y arglwydiaeth ef arnunt hwy y ulwydyn honno
 y wrth ryuuassei kynn no hynny. " Arglwyd," heb wy,
 " ny bu gystal dy wybot; ny buost gyn hygaret guas
 ditheu; ny bu gyn hawsset gennyt titheu treulaw dy da;
 ny bu well dy dosparth eiroet no'r ulwydyn honn."
 " Y rof i a Duw," heb ynteu, " ys iawn a beth iwch chwi,
 diolwch y'r gwr a uu y gyt a chwi, a llyna y gyfranc ual
 y bu"—a'e [12] datkanu oll o Pwyll. " Ie, Arglwyd,"
 heb wy, " diolwch y Duw caffael o honot y gydymdeithas
 honno; a'r arglwydiaeth a gausam ninheu y ulwydyn
 honno, nys attygy y gennym, ot gwnn." " Nac attygaf,
 y rof i a Duw," heb ynteu Pwyll.

*(?) 1 pl. for of
 case of, shall get
 atwyn 'take
 back' (295 p. Ind.)
 (atwyn < ad-ddwyn)*

Ac o hynny allan, dechreu cadarnhau kedymdeithas
 y ryingthunt, ac anuon o pop un y gilid meirch a milgwn
 a hebogeu a fob gyfryw dlws, o'r a debygei bob un
 digrifhau medwl y gilid o honaw. Ac o achaws i drigiant
 ef y ulwydyn honno yn Annwuyn, a gwledychu o honaw
 yno mor lwydannus, a dwyn y dwy dyrnas yn un drwy y
 dewred ef a'y uilwraeth, y diffygywys y enw ef ar Pwyll,
 Pendeuic Dyuet, ac y gelwit Pwyll Penn Annwuyn o
 hynny allan.

*unite
 milwriaeth*

A threigylgueith yd oed yn Arberth, prifflys idaw, a

gwled darparedic idaw, ac yniuerod mawr o wyr y gyf
 ac ef. A guedy y bwyta kyntaf, kyuodi y orymdeith a
 oruc Pwyll, a chyrchu penn gorssed a oed uch llaw y
 llys, a elwit Gorssed Arberth. "Arglwyd," heb [13] un
 o'r llys, "kynnedyf yr orssed yw, pa dylvedauc bynnac
 a eistedo arnei, nat a odyno heb un o'r deupeth, a'y
 kymriw neu archolleu, neu ynteu a welei rywedawt."
 "Nyt oes arnaf i ouyn cael kymriw, neu archolleu, ym
 plith hynn o niuer. Ryuedawt hagen da oed gennyf
 pei ys guelwn. Mi a af," heb ynteu, "y'r orssed y
 eisted." Eisted a wnaeth¹ ar yr orssed. Ac wal y
 bydynt yn eisted, wynt a welynt gwreic ar uarch canwelw
 mawr aruchel, a gwisce eureit, llathreit, o bali amdanei,
 yn dyuot ar hyt y prifford a gerdei heb law yr orssed.
 Kerdet araf, guastat oed gan y march ar uryt y neb a'y
 guelei, ac yn dyuot y ogyuuch a'r orssed. "A wyr," heb
 y Pwyll, "a oes ohonawchi, a adnappo y uarchoges?"
 "Nac oes, Arglwyd," heb wynt. "Aet un," heb ynteu,
 "yn y herbyn y wybot pwy yw." Un a gyuodes y
 uynyd, a phan doeth yn y herbyn y'r ford, neut athoed
 hi heibaw. Y hymlit a wnaeth ual y gallei gyntaf o
 pedestric. A fei mwyaf² uei y uryys ef, pellaf uydei hitheu
 e wrthaw ef. A phan welas [14] na thygyei idaw y
 hymlit, ymchwelut a oruc at Pwyll a dywedut wrthaw,
 "Arglwyd," heb ef, "ni thykya y pedestric yn y byt e
 hymlit hi." "Ie," heb ynteu Pwyll, "dos y'r llys, a
 chymer y march kyntaf a wpych, a dos ragot yn y hol."

¹ *wnath*, W. ² *mwyf*, W.

culinary

around
heart

lord

thyfaddod

pale, grey
3 Pl. Pres.

90-94 vowel

i fynydd:
4f.
3 Pl. Pres. of af.
+ swiftest

ei: her
(aspirated
vowels).

dw. Hm.
eibio past.

um.

Rymarth:
(t-) Aorist 3sg.
of cyumaraf,
of Ekeo.

steer, bullock
change

rig; now sow
fritch

"Ie," heb ynteu, "ba furuf y keffir wy y gantaw ef?"
 "Mi a af ar uyn deudecuet, yn rith beird, Arglwyd, y
 erchi y moch." "Ef a ry eill ych necau." heb ynteu.
 form, semblance
 "He may
refuse you"

(X) "who [is it] to whom they belong?" W. 9. 357-8
 piewynt (piew-ynt) 3 Pl. Pr. of pian
 (But v. note where Williams suggests, inter alia
 it might be 3 Pl. Imperf.)

"Nit drwc uyn trawscwyd i, Arglwyd," heb ef. "Ny doaf i heb y moch." "En llawen," heb ynteu, "kerda ragot."

plan

Ef a aeth, a Giluathwy, a deguyr gyt ac wynt, hyt yg Keredigyawn,¹ yn y lle a elwir Rudlan Teiui yr awrhon; yd oed llys yno y Pryderi; ac yn rith beird y doethant ymywn. Lawen uuant wrthunt. Ar neillaw Pryderi y gossodet Guydyon y nos honno. "Ie," heb y Pryderi, "da yw [84] genhym ni cahel kyuarwydyt gan rei o'r gwreinc racco." "Moes yw genhym ni, Arglwyd," = gwyr ieuainc heb y Guydyon, "y nos gyntaf y delher at wr mawr, dywedut o'r penkerd. Mi a dywedaf gyuarwydyd yn llawen."

Ynteu Wydyon goreu kyuarwyd yn y byt oed. A'r nos honno, didanu y llys a wnaeth ar ymdidaneu digrif a chyuarwydyt, yny oed hoff gan paub o'r llys, ac yn didan gan Pryderi ymdidan ac ef.

till he was praised

Ac ar diwed hynny, "Arglwyd," heb ef, "ae guell y gwna neb uy neges i wrthyt ti no mi uu hun?" "Na well," heb ynteu. "Tauawt lawn da yw y teu di." "Llyna uy neges inheu, Arglwyd, ymadolwyn a thidi am yr anieileit-a anuonet it o Annwuyn." "Ie," heb ynteu, "hawssaf yn y byt oed hynny by na bei ammot y rof a'm gwlat amdanunt; sef yw hynny, nat elont y genhyf yny hilyont eu deu kymeint yn y wlat." "Arglwyd," heb ynteu, "minheu a allaf dy rydhau ditheu o'r geireu hynny. Sef ual y gallaf, na dyro im y moch heno, ac [na]

v. note on gender of t. to beg

hilyant to breed

¹ ygheredigyawn, W.

rithaw, rithyaw to change the form, to form by magic

nacaha ui ohonunt. Auory minheu a dangossaf gyfnewit amdanunt wy.”

A'r nos honno yd aethont ef a'y gedymdeithon y'r lletty ar y kynghor. “A wyr,” heb ef, “ny chawni y moch oc eu herchi.” [85] “Ie,” heb wynte, “pa draws-cwyd y keir wynteu?” “Mi a baraf eu cael,” heb y Guydyon. Ac yna yd aeth ef yn y geluydodeu, ac y dechreuawt dangos y hut, ac yd hudwys deudec emys, a deudec milgi bronwyn du pob un o honunt, a deudec torch, a deudec kynllyuan arnunt, a neb o'r a'[e] guelei, ni wydat na bydynt eur; a deudec kyfrwy ar y meirch, ac am pob lle y dylvei hayarn uot arnunt, y bydei gwbyl o eur; a'r frwyneu yn un weith a hynny.

A'r meirch ac a'r cwn y doeth ef at Pryderi. “Dyd da it, Arglwyd,” heb ef. “Duw a ro da it,” heb ef, “a graessaw wrthyt.” “Arglwyd,” heb ef, “llyma rydit yti am y geir a dywedeist neithwyr am y moch, nas rodut ac nas guerthut. Titheu a elly gyfnewit yr a uo guell. Minheu a rodaf y deudeg meirch hynn ual y maent yn gyueir, ac eu kyfrwyeu, ac eu frwyneu, a'r deudec milgi ac eu torcheu ac eu kynllyuaneu, ual y guely, a'r deudec taryan eureit a wely di racco.” (Y rei hynny a rithassei ef o'r madalch). “Ie,” heb ynteu, “ni a gymernw gynghor.” Sef a gaussant yn y kynghor, rodi y moch e Wydyon, a chymryt y meirch a'r cwn a'r taryaneu y gantaw ynteu.

Ac yna y kymeryssant wy ganheat, ac y dechreussant gerdet a'r moch. “A geimeit,” heb y Guydyon,

“an exchange”

“to take counsel”

“he betook him to his arts”
stallions
(cf. arnws)

collar

bridles

v. note
“for that which is better”
“all caparisoned as they are”

toadstool

pl. of celfydd

leash

gwarthaf top, height, summit

lluysddo to muster, marshal, set in battle array

[86] "reit yw in gerdet yn bryssur. Ny phara yr hut namyn o'r pryt pwy gilyd." A'r nos honno y kerdysant hyt y gwarthaf Keredigyawn, y lle a elwir etwa o achau hynny Mochtref. A thrannoeth y kymeryssant eu hynt; dros Elenit y doethant. A'r nos honno y buant y rwng Keri ac Arwystli, yn y dref a elwir heuyt o achau hynny Mochtref. Ac odynd y kerdysant radunt, a'r nos honno yd aethant hyt yg kymwt ym Powys, a elwir o'r ystyr hwnnw heuyt Mochnant, ac yno y buant y nos honno. Ac odyndha y kerdysant hyt yg cantref Ros, ac yno y buant y nos honno y mywn y dref a elwir etwa Mochtref.

"from one day till the morrow"

v. note on Gender

"Ha wyr," heb y Gwydyon, "ni a gyrchwn kedernit Gwynet a'r anieileit hynn. Yd ys yn lluydaw yn an ol." Sef y kyrchysant y dref uchaf o Arllechwoed, ac yno gwneuthur creu y'r moch, ac o'r achaws hwnnw y dodet Creuwryon ar y dref. Ac yna guedy gwneuthur creu y'r moch y kyrchysant ar Uath uab Mathonwy, hyt yg Kaer Tathyl.

"fastness"
"There is a marching of hosts in pursuit of us"

A phan doethant yno, yd oedit yn dygyuori y wlat. "Pa chwedleu yssyd yma?" heb y Gwydyon. "Dygyuor," heb wy, "y mae Pryderi yn ych ol chwi un cantref ar ugeint. Ryued uu hwytret y kerdysawchi." "Mae yr anieileit yd aethawch yn eu hwysc?" heb y Math. "Maent [87] guedy gwneuthur creu udunt yn y cantref arall issot," heb y Gwydyon. Ar hynny, llyma y clywynt yr utkyrn a'r dygyuor yn y wlat. Ar hynny guiscaw a wnaethant wynteu, a cherdet yny uydant ym Pennard yn Aruon.

A'r nos honno yd ymhwelwys Gwydyon uab Don a

returned

gwysg m. track, trail, wake. yn wysg ei hen, headlong
yn wysg ei gefn, backwards yn eu hwysg, after them

plands"

sty

slow

utgarn
trumpet

Chiluathwy y urawt, kyt yg Kaer Dathyl. Ac yguely¹ Math uab Mathonwy dodi Giluathwy a Goewyn uerch Pebin y gyscu y gyt, a chymell y morynyon allan yn amharchus, a chyscu genti o'y hanuod y nos honno.

Pan welsant y dyd drannoeth, kyrchu a wnaethant parth a'r lle yd oed Math uab Mathonwy a'y lu. Pan doethant, yd oed y guyr hynny yn mynet y gymryt kynghor ba tu yd arhoynt Pryderi a guyr y Deheu. Ac ar y kynghor y doethant wynteu. Sef a gaussant yn eu kynghor, aros yg kedernit Gwyned yn Aruon. Ac yghymherued y dwy uaynawr yd arhoed, Maynawr Bennard a Maynawr Coet Alun.

A Phryderi a'y kyrchwys yno wynt; ac yno y bu y gyfranc, ac y llas lladua uawr o pop parth, ac y bu reit y wyr y Deheu enkil. Sef lle yd enkilyssant, hyt y lle a elwir etwa Nant Call; a hyt yno yd ymlidywyd. Ac yna y bu yr ayrua diuessur² y meint. Ac [88] yna y kilyssant hyt y lle a elwir Dol Penmaen. Ac yna clymu a wnaethant, a cheissaw ymdangneuedu, a gwystlaw a wnaeth Pryderi ar y tangneued. Sef a wystlwys, Gwrgi Guastra, ar y pedwryd ar ugeint o ueibyon guyrda.

A guedy hynny, kerdet o honunt yn eu tangneued hyt y Traeth Mawr; ac ual y gyt ac y doethant hyt y Uelen Ryd y pedyt ny ellit eu reoli o ymsaethu, gyrru kennadeu o Pryderi y erchi guahard y deulu, ac erchi gadu y ryngtaw ef a Guydyon uab Don, canys ef a baryssei hynny. At Math uab Mathonwy y doeth y

¹ Y guelei uath, W. ² diueuessur, W.

X "and sought to bring about a truce and Pryderi gave hostages against the truce. He gave Gwrgi Gwastra and three-and-twenty sons of noblemen as hostages."

O "could not be restrained from shooting at each other"

8 h/

to the Council

"districts"
(but v. note)

middle

"rallied"

"the men on foot"
v. note
(prob. = the two hosts)

genhat. "Ie," heb y Math, "e rof a Duw, os da gan Wydyon uab Don, mi a'e gadaf yn llawen. Ni chymellaf inheu ar neb uynet e ymlad, dros wneuthur ohanam ninheu an gallu." "Dioer," heb y kennadeu, "teg, med Pryderi, oed y'r gwr a wnaeth hynn idaw ef o gam, dodi y gorf yn erbyn y eidaw ynteu, a gadu y deu lu yn segur." "Dygaf y Duw uyg kyffes," [heb y Guydyon], "nat archaf i y wyr Gwyned ymlad drossof i, a minheu uy hun yn cael ymlad a Phryderi. Mi a dodaf uyg korf yn erbyn y eidaw yn llawen."

= yn lle

= ordeal by combat

A hynny a anuonet at Pryderi. "Ie," heb y Pryderi, "nit archaf inheu y neb gouyn uy iawn namyn my hun." E gwyr hynny a neilltuwyt, ac a dechreuwyt gwiscau amdanunt, ac [89] ymlad a wnaethant. Ac o nerth grym ac angerd, a hut a lledrith, Guydyon a oruu, a Phryderi a las, ac y Maen Tyuyawc, uch y Uelen Ryd y cladwyt, ac yno y may y ued.

"to seek my redress"

"o big dint of strength & valour"

^ ^

Gwyr y Deheu a gerdassant ac argan truan ganthunt parth ac eu gwlat, ac nit oed ryued; eu harglwyd a gollyssynt, a llawer oc eu goreuguyr, ac eu meirch, ac eu harueu can mwyaf. *for the most part*

v. note

Gwyr Gwyned a ymchweles dracheuyn yn llawen orawenus. "Arglwyd," heb y Guydyon wrth Uath, "ponyt oed iawn ynni ollwng eu dilyedauc y wyr y Deheu, a wystlyssant in ar tangneued? Ac ny dilywn y garcharu." "Rydhaer ynteu," heb y Math. A'r guas hwnnw, a'r gwystlon oed gyt ac ef, a ellyngwyd yn ol guyr y Deheu.

exulting

Enteu Math a gyrchwys Caer Tathyl. Giluaethwy uab Don a'r teulu a uuassynt gyt ac ef, a gyrchysant y gylchaw Gwyned mal y gnotayssynt, a heb gyrchu y llys. Enteu Uath a gyrchwys e ystauell, ac a beris kyweiraw lle idaw y benelinyaw, ual y caei dodi y draet ym plyc croth y uorwyn. "Arglwyd," heb y Goewyn, "keis uorwyn a uo is dy draet weithon. Gwreic wyf i." "Pa ystyr yw hynny?" "Kyrch, Arglwyd, a doeth am uym penn, a hynny yn diargel, ac ny buum distaw inheu. Ny bu yn y llys nys guypei. Sef a doeth, dy nyeint ueibon dy chwaer, [90] Arglwyd, Gwydyon uab Don a Giluaethwy uab Don. A threis arnaf a orugant a chywilyd y titheu, a chyscu a wnaethpwynt genhyf, a hynny i'th ystauell ac i'th wely." "Ie," heb ynteu, "yr hyn a allaf i, [mi a'e gwnaf]. Mi a baraf iawn y ti yn gyntaf, ac yn ol uy iawn y bydaf inheu. A thitheu," heb ef, "mi a'th gymeraf yn wreicim, ac a rodaf uedyant uyg kyuoeth i'th law ditheu."

"to recline"
(penelinyaw)

"an assaunt
was made
upon me"

"rape"

"dishonor"

"near"

Ac yn hynny ny doethant wy yng kvuyl y llys, namyn trigyaw y gylchaw y wlat a wnaethant nny aeth guahard udunt ar y bwyt a'y llyn. Yn gyntaf ny doethant wy yn y gyuyl ef. Yna y doethant wynteu attaw ef. "Arglwyd," heb wynt, "dyd da it." "Ie," heb ynteu, "ay y wneuthur iawn ymi y doethauch chwi?" "Arglwyd, i'th ewyllus yd ydym." "Bei uy ewyllwys ny chollwn o wyr ac arueu a golleis. Vyg kywilyd ny ellwch chwi y dalu y mi, heb angheu Pryderi. A chan doethauch chwitheu y'm ewyllus inheu, mi a dechreuaf boen arnawch."

"to make me
amends"

"let alone"

"until a ban on their meat & drink went out
against them"

Since you are allied together, I will make you live together, and be mated together "fane"

note

Ac yna y kymmerth e hutlath, ac y trewis Giluathwy nny uyd daran ewic; ac achub y llall a wnaeth yn gyflym, kyt mynhei dianc nys gallei, a'y taraw a'r un hutlath nny uyd yn garw. "Canys ywch yn rwymed-igaeth, mi a wnaf ywch gerdet y gyt, a'ch bot yn gymaredic, ac yn [91] un anyan a'r gwyduilot yd ywch yn eu rith, ac yn yr amser y bo etiued udunt wy, y uot ywchwithheu. A blwydyn y hediw, dowch yma ataf i."

ewic luid,
deer, doe

"to be
coupled"
nature

prose

Ym penn y ulwydyn o'r un dyd, llyma y clywei odorun adan paret yr ystauell, a chyuarthua cwn y llys am penn y godorun. "Edrych," heb ynteu, "beth yssyd allan." "Arglwyd," heb un, "mi a edrycheis. Mae yna carw, ac ewic, ac elein gyt ac wynt." Ac ar hynny, kyuodi a oruc ynteu a dyuot allan. A phan doeth, sef y guelei y trillydyn; sef trillydyn oedynt,¹ carw, ac ewic, ac elein cryf. Sef a wnaeth, dyrchauael e hutlath. "Yr hwnn a uu o honawch yn ewic yrllyned, bit uaed coed yleni. A'r hwnn a uu garw o honawch yrllyned, bit garnen eleni." Ac ar hynny, eu taraw a'r hutlath. "a wild bear" "a wild sow"

"fawn"

for the
or year
this year

"Y mab hagen a gymeraf i, ac a baraf y ueithryn a'y uedydyaw." Sef enw a dodet arnaw, Hydwn. "Ewch chwitheu, a bydwch y lleill yn uaed coed, a'r llall yn garnen coet. A'r anyan a uo y'r moch coet, bit y chwitheu. A blwydyn y hediw bydwch yma ydan y paret, ac ych etiued y gyt a chwi."

Ym penn y ulwydyn, llyma y clywyn kyuarthua cwn dan paret yr ystauell, a dygyuor y llys y am hynny am

"besides"

¹ eodynt, W.

"in answer to them"
 eu penn. Ar hynny, kyuodi a oruc [ynteu] a mynet allan. A phan daw [92] allan, trillydyn a welei. Sef kyfryw lydnot a welei, baed coed, a charnen coet, a chrynlldwyn da y gyt ac wy. A breisc oed yn yr oet oed arnaw. *"And it was long for its age"*

"a well-grown young one"
 "Ie," heb ef, "hwnn a gymeraf i attaf, ac a baraf y uedydyaw,"—a'y daraw a'r hutlath, yny uyd yn uab braswineu telediwi. Sef enw a dodet ar hwnnw, Hychdwn. "A chwitheu, yr un a uu baed coet o honawch yrllyned, bit bleidast yleni, a'r hwn a uu garnen yrllyned, bit uleid yleni." Ac ar hynny eu taraw a'r hutlath, yny uydant bleid a bleidast. "Ac anyan yr anieileit yd ywch yn eu rith, bit y chwitheu. A bydwch yma blwydyn y'r dyd heddiw ydan y paret hwnn."

"she-wolf"
"wolf"
 Yr un dyd ym penn y ulwydyn, llyma y clywei dygyuor a chyarthua dan paret yr ystauell. Ynteu a gyuodes allan, a phan daw, llyma y guelei bleid, a bleidast, a chrubothon cryf y gyt ac wynt. "Hwnn a gymeraf i," heb ef, "ac a baraf y uedydyaw, ac y mae y enw yn parawt. Sef yw hwnnw, Bleidwn. Y tri meib yssyd y chwi, a'r tri hynny ynt:—

champion
 Tri meib Giluaethwy enwir, *"false"*
 Tri chenryssedat kywir,
 Bleidwn, Hydwn, Hychdwn Hir."

Ac ar hynny, yn y taraw wynteu yll deu a'r hutlath yny uydant yn eu cnawt eu hun. "A wyr," heb ef, "o *if* gwnaethauch gam ymi, digawn y buawch ym poen, a chywilyd mawr a gawssawch, bot [93] plant o bob un o

honawch o'y gilid. Perwch enneint y'r gwyr, a golchi eu penneu, ac eu kyweiraw." A hynny a berit udunt. *prepare clothes for them, array, equip*

A guedy ymgueiraw ohonunt,¹ attaw ef y kyrchysant. "A wyr," heb ef, "tangneued a gawsawch, a cherennyd a geffwch. A rodwch im kynghor pa uorwyn a geisswyf." "Arglwyd," heb y Guydyon uab Don, "hawd yw dy gynghori. Aranrot uerch Don, dy nith uerch dy chwaer."

Honno a gyrchwyt attaw. Y uorwyn a doeth ymywn. "A uorwyn," heb ef, "a wyt uorwyn di?" "Ny wnn i² amgen no'm bot." Yna y kymerth ynteu yr hutlath a'y chamu. "Camha di dros honn," heb ef, "ac ot wyt uorwyn, mi a ednebydaf." Yna y camawd hitheu dros yr hutlath, ac ar y cam hwnnw, adaw mab brasuelyn mawr a oruc. Sef a wnaeth y mab, dodi diaspat uchel. Yn ol diaspat y mab, kyrchu y drws a oruc hi, ac ar hynny adaw y ryw bethan ohonei; a chyn cael o neb guelet yr eil olwe arnaw, Guydyon a'y kymerth, ac a droes llen o bali yn y gylch, ac a'e cudyawd. Sef y cudyawd, y mywn llaw gist is traed y wely. *"dropped a small something" (v. note)*

"Ie," heb [Math uab³] Mathonwy, "mi a baraf uedydyaw hwn," wrth y mab brasuelyn. "Sef enw a baraf, Dylan." Bedydyaw a wnaethpwyd y mab, ac y gyt ac y bedydywyd, y mor a gyrchwys. [94] Ac yn y lle, y gyt ac y doeth y'r mor, annyan y mor a gauas, a chystal y nouyei a'r pysc goreu yn y mor, ac o achaws hynny y gelwit Dylan Eil Ton. Ny thorres tonn adanaw eiryoet.

¹ ohonut, W. ² ni, W. ³ mab, W.

A'r ergyt y doeth y angheu ohonaw, a uyrwys Gouannon y ewythyf. A hwnnw a uu trydyd anuat ergyt.— *v. note on gender.*

Val yd oed Wydyon diwarnawt yn y wely, ac yn deffroi, ef a glywei diaspat yn y gist is y draet. Kynny bei uchel hi, kyuuch oed ac y kigleu ef. Sef a oruc ynteu, kyuodi yn gyflym, ac agori y gist. Ac ual y hegyr, ef a welei uab bychan yn rwyuaw y ureicheu o blyc y llen, ac yn y guascaru. Ac ef a gymerth y mab y rwng y dwylaw ac a gyrchwys y dref ac ef, lle y gwydat bot gwreic a bronneu genti. Ac ymobryn a wnaeth a'r wreic ueithryn y mab. Y mab a uagwyt y ulwydyn honno. Ac yn oet y ulwydyn hof oed gantunt y ureisket bei dwy ulwyd. A'r eil ulwydyn mab mawr oed, ac yn gallu e hun kyrchu y llys. Ynteu e hun Wydyon, wedy y dyuot y'r llys a synnywys arnaw. A'r mab a ym-geneuinawd ac ef, ac a'y carawd yn uwy noc un dyn. Yna y magwyt y mab yn y llys nyny uu pedeirblwyd. A hof oed y uab wyth [95] mlwyd uot yn gynureisket¹ ac ef. A diwyrnawt ef a gerdawd yn ol Gwydyon y orymdeith allan. Sef a wnaeth, kyrchu Caer Aranrot a'r mab y gyt ac ef. Gwedy y dyuot y'r llys, kyuodi a oruc Aranrot yn y erbyn y raessawu, ac y gyuarch guell idaw. "Duw a ro da it," heb ef. "Pa uab yssyd i'th ol di?" heb hi. "Y mab hwnn, mab y ti yw," heb ef. "Oy a wr, ba doi arnat ti, uyg kywilydaw i, a dilyt uyg kywilyd, a'y gadw yn gyhyt a hynn?" "Ony byd arnat ti gywilyd uwy no meithryn o honaf i uab kystal a hwnn, ys bychan a beth

¹ aneglur.

Cywilydd masc.

v.p. 98

"And that was one of the Three Unhappy Felows"

"thrusting"

"opening it apart"

"he made a bargain"

"they wd. have remarked his great size"

"grew used to him"

"what came over thee?"

"to keep it as long as this"

day

x Seeing thou art what thy thou art : v. note

Jones & Jones translate : 'And thou', said he, 'tis because of him thou art angry, for that thou art not called maiden. Never again shalt thou be called maiden!'

uyd dy gywilyd di." " Pwy enw dy uab dy ? " heb hi. " Dioer," heb ef, " nit oes arnaw un enw etwa." " Ie," heb hi, " mi a dynghaf dyghet idaw, na chaffo enw yny caffo y genhyf i." " Dygaf y Duw uyg kyffes," heb ef, " direit wreic wyt, a'r mab a geiff enw, kyt boet drwc genhyt ti. A thitheu," heb ef, " yr hwnn yd wyt ti, ac auar arnat am na'th elwir y uorwyn, ni'th elwir bellach byth yn uorwyn."

"I will swear on him a destiny"
"even tho' it be vexations to thee"
= yn (v. p. 122)

Ac ar hynny, kerdet e ymdeith drwy y lit a wnaeth, a chyrchu Caer Tathyl, ac yno y bu y nos honno. A thrannoeth kyuodi a oruc, a chymryt y uab gyt ac ef, a mynet y orymdeith gan lann y weilgi rwng hynny ac Aber Menei. Ac yn y lle y guelas delysc a morwyal, hudaw llong a wnaeth. Ac o'r guimon a'r [96] delysc hudaw cordwal a wnaeth, a hynny llawer, ac eu brithaw a oruc hyt na welsei neb lledyr degach noc ef. Ac ar hynny, kyweiraw hwyl ar y llong a wnaeth, a dyuot y drws porth Caer Aranrot, ef a'r mab yn y llong. Ac yna dechreu llunyaw esgidyeu, ac eu gwniaw. Ac yna y harganuot o'r gaer.

"sea-fiddle" *laminaria*
"put colours on"
"to the entrance"
= stetch = eu (v. note)

Pan wybu ynteu y arganuot o'r gaer, dwyn¹ eu heilyw e hun a oruc, a doddi eilyw arall arnunt, ual nat adnepit. " Pa dynyon yssyd yn y llong ? " heb yr Aranrot. " Crydyon," heb wy. " Ewch y edrych pa ryw ledyr yssyd ganthunt, a pha ryw weith a wnant." Yna y doethpwyt, a phan doethpwyt, yd oed ef yn brithaw cordwal, a hynny yn eureit. Yna y doeth y kennadeu, a

"he took away their own semblance"

¹ dwy, W.

brithaw to colour, to give various colours to

menegi idi hi hynny. "Ie," heb hitheu, "dygwch uessur uyn troet, ac erchwch y'r cryd wneuthur esgidyeu im." Ynteu a lunywys yr esgidyeu, ac nit wrth y messur, namyn yn uwy. Dyuot a'r esgidyeu idi. Nachaf yr esgidyeu yn ormod. "Ryuawr yw y rei hynn," heb hi. "Ef a geiff werth y rei hynn, a gwnaet heuyt rei a uo llei noc wynt." Sef a wnaeth ef, gwneuthur rei ereill yn llei lawer no'y throet, a'y hanuon idi. "Dywedwch idaw, nit a ymi un o'r esgidyeu hynn," heb hi. Ef a dywetpwyt idaw. "Ie," heb ef, "ny lunyaf esgidyeu idi nny welhwyf y throet." A hynny a dywetpwyt idi. "Ie," heb hi, [97] "mi a af hyt attaw."

Ac yna y doeth hi hyt y llong. A phan doeth, yd oed ef yn llunyaw, a'r mab yn gwniaw. "Ie, Arglwydes," heb ef, "dyd da it." "Duw a ro da it," heb hi. "Eres yw genhyf na uedrut kymedroli [ar wneuthur¹] esgidyeu wrth uessur." "Na uedreis," heb ynteu. "Mi a'y medraf weithon."

Ac ar hynny, llyma y dryw yn seuyll ar wwrđ y llog. Sef a wnaeth y mab, y uwrw a'y uedru y rwg giewyn y esgeir a'r ascwrn. Sef a wnaeth hitheu, chwethin. "Dioer," heb hi, "ys llaw gyffes y medrwys y Llew ef." "Ie," heb ynteu, "aniolwch Duw it. Near gauas ef enw. A da digawn yw y enw. Llew Llaw Gyffes yw bellach."

Ac yna difflannu y gueith yn delysc ac yn wimon.

¹ ar wneuthur, R.

"The boy aimed at it, and hit it between the sinews of its leg and the bone"

"'Faith,' said she, 'with a deft hand has the fair one hit it.'" [with a skilful hand]

"too big"
(formod excess,
too much)

"not one of these
shoes will go
on me"

eres wonderful,
strange
v. note

"a wren"
(v. note)

"God's curse
on thee"
enough

"g
man"

A'r gueith ny chanlynwys ef hwy no hynny. Ac o'r achaws hwnnw y gelwit ef yn drydyd eur gryd.

"Dioer," heb hitheu, "ni henbydy well di o uot yn drwc wrthyf i." "Ny buum drwc i etwa wrthyf ti," heb ef. Ac yna yd ellyngwys ef y uab yn y bryt e hun, ac y kymert hwy y furyf e hun. "Ie," heb hitheu, "minheu a dyghaf dyghet y'r mab hwnn, na chaffo arueu byth yny gwiscof i ymdanaw." "Y rof a Duw," heb ef, "handid o'th direidi di, ac ef a geif arueu." Yna y doethant wy parth a Dinas Dinllef. Ac yna meithryn Llew Llaw Gyffes yny allwys marchogaeth pob [98] march, ac yny oed gwbyl o bryt, a thwf, a meint.

"persuad"
"then will fare none the better for being bad to me"
"he released"

"this springs from thy wickedness" (2 notes)

"till he was perfected in"

Ac yna adnabot a wnaeth Gwydyon arnaw y uot yn kymryt dihirwch o eisseu meirch ac arueu, a'y alw attaw a wnaeth. "A was," heb ynteu, "ni a awn, ui a thi, y neges auory. A byd lawenach noc yd wyt." "A hynny a wnaeth inheu," heb y guas.

wretchedness ("that he was pining for")

Ac yn ieuengtitt y dyd trannoeth, kyudi a wnaethant, a chymryt yr aruordir y uynyd parth a Brynn Aryen. Ac yn y penn uchaf y Geuyn Clutno, ymgueiraw ar ueirch a wnaethant, a dyuot parth a Chaer Aranrot. Ac yna amgenu eu pryt a wnaethant, a chyrchu y porth yn rith deu was ieuieinc, eithyr y uot yn prudach pryt Gwydyon noc un y guas.

"they changed their semblance"

"more staid" [older & wiser]

"E porthawr," heb ef, "dos ymywn, a dywet uot yma beird o Uorgannwc." Y porthawr a aeth. "Graessaw Duw wrthunt. Gellwng y mywn wy," heb hi. Diruawr leuenyd a uu yn eu herbyn. Yr yneud a

"Let them in"

"there was a bustling to and fro and trumpets and clamour throughout the country"

cynwair to go to and fro, to frequent [hurrying to and fro]
deffain v. to cry, weep; n. cry

gyweirwyd ac y wwyta yd aethpwyt. Guedy daruot y bywta, ymdidan a wnaeth hi a Guydyon am chwedleu a chyuarwydyt. Ynteu Wydyon kyuarwyd da oed.

"when it was time to leave off the Carousal"

"at early cock-crow"

Guedy bot yn amser ymadaw a chyuedach, ystauell a gweirwyt udunt wy, ac y gyscu yd aethant. Hir bylgeint Guydyon a gyuodes. Ac yna y gelwis ef y hut a'y allu attaw. [99] Erbyn pan oed dyd yn goleuhau, yd oed gyniweir ac utkyrn a lleuein yn y wlat yn gyngan.

throughout the whole country

Pan ydoed y dyd yn dyuot, wynt a glywynt taraw drws yr ystauell, ac ar hynny Aranrot yn erchi agori. Kyuodi a oruc y guas ieuanc, ac agori. Hitheu a doeth y mywn, a morwyn y gyt a hi. "A wyrda," heb hi, "lle drwc yd ym." "Ie," heb ynteu, "ni a glywn utkyrn a lleuein, a beth a debygy di o hynny?" "Dioer," heb hi, "ni chawn welet llyw y weilgi gan pob llong ar torr y gilyd. X Ac y maent yn kyrchu y tir yn gyntaf a allont. A pha beth a wnawni?" heb hi. "Arglwydes," heb y Gwydyon, "nyt oes in gynghor, onyt caeu y gaer arnam, a'y chynhal yn oreu a allom." "Ie," heb hitheu, "Duw a dalho ywch. A chynhelwch chwitheu; ac yma y keffwch digawn o arueu."

colour

to close, shut

Ac ar hynny, yn ol yr arueu yd aeth hi. A llyma hi yn dyuot, a dwy uorwyn gyt a hi, ac arueu deu wr gantunt. "Arglwydes," heb ef, "gwisc ymdan y gwryanc hwinn. A minheu, ui a'r morynyon, a wiscaf ymdanaf inheu. Mi a glywaf odorun y gwyr yn dyuot." "Hynny a wnaf yn llawen." A 'guiscaw a wnaeth hi amdanaw ef yn llawen, ac yn gwbyl. "and at all points"

= four ieuanc of .p. 69

X "for all the ships thronging together"

o godorun "uproar", "noise" v. p. 75

"A derw," heb ef, "wiscaw amdan y gwryanc hwnnw?" "Deryw," heb hi. "Neu deryw y minheu," [100] heb ef. "Diodwn yn arueu weithon; nit reit ynn wrthunt." "Och," heb hitheu, "paham? Llyna y llynghes yng kylch y ty?" "A wreic, nit oes yna un llynghes." "Och!" heb [hi], "pa ryw dygyuor a uu o honei?" "Dygyuor," heb ynteu, "y dorri dy dyng-hetuen am dy uab, ac y geissaw arueu idaw. Ac neur gauas ef arueu, heb y diolwch y ti." "E rof a Duw," heb hitheu, "gwr drwc wyt ti. Ac ef a allei llawer mab colli y eneit am y dygyuor a bereisti yn y cantref hwnn hediw. A mi a dynghaf dynghet idaw," heb hi, "na chaffo wreic uyth, o'r genedyl yssyd ar y dayar honn yr awr honn." "Ie," heb ynteu, "direidwreic uuost eiroet, ac ny dyliei neb uot yn borth it. A gwreic a geif ef ual kynt."

"Is the arming of that youth completed"

"Let us now doff our arms"

"mustered"

"to break thy destiny concerning"

"And many a lad might have lost his life through"

"all the same"

Hwynteu a doethant at Math uab Mathonwy, a chwynaw yn luttaf yn y byt rac Aranrot a wnaethant, a menegi ual y paryssei yr arueu idaw oll. "Ie," heb y Math, "keisswn ninheu,¹ ui a thi, oc an hut a'n lledrith, hudaw gwreic idaw ynteu o'r blodeu," Ynteu yna a meint gwr yndaw ac yn delediwhaf guas a welas dyn eiroet.

superl. of glad fervent, earnest

"and he then a man in stature"

Ac yna y kymeryssant wy blodeu y deri, a blodeu y banadyl, a blodeu yr erwein, ac o'r rei hynny, asswynaw yr un uorwyn decaf a thelediwaf a welas dyn eiroet. Ac y bedydyaw [101] o'r bedyd a wneynt yna, a dodi Blodeued arnei.

o meadowsweet

"they used at that time"

¹ inheu, W.

o created, fashioned

"called forth" (?)

"After they had slept
together over the
feast"

"to maintain
himself"

"where he set
up a court"

Gwedy y kyscu y gyt wy ar y wled, "Nyt hawd." heb y Guydyon, "y wr heb gyuoeth idaw ossymdeithaw."¹ "Ie," heb y Math, "mi a rodaf idaw yr un cantref goreu y was ieuanc y gael." "Arglwyd," heb ef, "pa gantref yw hwnnw?" "Cantref Dinodig," heb ef. A hwnnw a elwir yr awr honn Eiwynyd ac Ardudwy. Sef lle ar y cantref y kyuanhedwys lys idaw, yn y lle a elwir Mur Castell, a hynny yg gwrthtir Ardudwy. Ac yna y kyuanhedwys ef, ac y gwledychwys. A phawb a uu uodlawn idaw, ac y arglwydiaeth.

"upland"

"she was
stirring about
the court"
"a spent
stag"

Ac yna treigylgueith kyrchu a wnaeth parth a Chaer Dathyl e ymwelet a Math uab Mathonwy. Y dyd yd aeth ef parth a Chaer Tathyl, troi o uywn y llys a wnaeth hi.² A hi a glywei lef corn, ac yn ol llef y corn llyma hyd blin yn mynet heibaw, a chwn a chynydyon yn y ol. Ac yn ol y cwn a'r kynydyon, bagat o wyr ar traet yn dyuot. "Ellyngwch was," heb hi, "e wybot pwy yr yniuer." Y gwas a aeth, a gouyn pwy oedynt. "Gronw Pebyr yw hwnn, y gwr yssyd arglwyd ar Benllyn," heb wy. Hynny a dywot y guas idi hitheu. Ynteu a gerdwys yn ol yr hyd. Ac ar Auon Gynnwael gordiwes yr hyd a'y lad. Ac wrth ulingyaw [102] yr hyd, a llithyaw y gwn, ef a uu yny wascawd y nos arnaw.

"huntsman
crowd,
"troop"

said, told

bluing yaw,
flaying, cutting
up
decline
(adfectio decays,
moulder, dilapidate, fade)

= Mod ein
v. note
(= pryd - hwn)

A phan ytoed y dyd yn atueilaw, a'r nos yn nessau, ef a doeth heb porth y llys. = heibio, past

to lampoon, defame

"Dioer," heb hi, "ni a gawn yn goganu gan yr unben o'e adu y prytwn y wlat arall, onys guahodwn."

¹ ossymdeithawc, W. ² wnaet hi, W. gwahodd, to invite, bid

X llithyaw, to flesh (the dogs), bait, feed v. p. 96

o "he was busied till the night closed in on him" (gwasa, to press)

| "Faith" said she, 'we shall be ill-spoken of by the chieftain for letting him go at this hour to another domain, if we do not ask him in'

"Nor did they delay longer than that night ere they embraced each other"

"Dioer, Arglwydes," heb wy, "iawnhaf yw y wahawd." Yna yd aeth kennadeu yn y erbyn y wahawd. Ac yna y kymmerth ef [y] wahawd yn llawen, ac y doeth y'r llys, ac y doeth hitheu yn y erbyn y graessawu, ac y gyuarch well idaw. "Arglwydes, Duw a dalho it dy lywenyd," [heb ef]. Yndiarchenu, a mynet y eisted a wnaethant. Sef a wnaeth Blodeued, edrych arnaw ef, ac yr awr yd edrych, hit oed gyueir arnei hi ny bei yn llawn o'e garyat ef. Ac ynteu a synywys arnei hitheu; a'r un medwl a doeth yndaw ef ac a doeth yndi hitheu. Ef ny allwys ymgelu o'e uot yn y charu, a'e uenegi idi a wnaeth. Hitheu a gymmerth diruawr lywenyd yndi. Ac o achaws y serch, a'r caryat, a dodassei pob un o honunt ar y gilyd, y bu eu hymdidan y nos honno. Ac ny bu ohir e ymgael o honunt, amgen no'r nos honno. A'r nos honno kyscu y gyt a wnaethant.

"welcome"
v. p. 105

"there was no part of her"

uveal

v. p. 172

A thrannoeth, arouun a wnaeth ef e ymdeith. "Dioer," heb hi, [103] "nyt ey y wrthyf i heno." E nos honno y buant y gyt heuyt. A'r nos honno y bu yr ymgynghor ganthunt pa furu y kehynt uot yg kyt. "Nyt oes gynghor it," heb ef, "onyt un; keissaw y ganthaw gwybot pa furu y del y angheu, a hynny yn rith ymgeled amdanaw." "o that under pretence of lovrip care for him"

"he sought to depart"

v. p. 113

v. note

Trannoeth, arouun a wnaeth. "Dioer, ni chyghoraf it hediw uynet e wrthyf i." "Dioer, canys kynghory ditheu, nit af inheu," heb ef. "Dywedaf hagen uot yn perigyl dyuot yr unben bieu y llys adref." "Ie," heb hi, "auory, mi a'th ganhadaf di e ymdeith." "I will give thee leave to depart"

however

ymgeleddu to cherish, succour, nourish

lledid to hinder, prevent, obstruct, impede, forbid

x | " & that under pretence of importance of love of him "

"and she did not
prevent him"
"speak closely
with him"
"draw from
him"

Trannoeth, arouun a wnaeth ef, ac ny ludywys
hitheu ef. " Ie," heb ynteu, " coffa a dywedeis wrthyt,
ac ymdidan yn lut ac ef ; a hynny yn rith ysmalawch
caryat ac ef. A dilyt y gantaw pa ford y gallei dyuot y
angheu." x

"but meantime
not one word
did he get from
her"
= worry ("I am
troubled about")
"loving care"

Enteu a doeth adref y nos honno. Treulaw y dyd
a wnaethant drwy ymdidan, a cherd, a chyuedach. A'r
nos honno y gyscu y gyt yd aethant. Ac ef a dywot
parabyl, a'r eil wrthi. Ac yn hynny parabyl nis cauas.
" Pa derw yti," heb ef, " ac a wyt iach di ? " " Medyl-
yaw yd wyf," heb hi, " yr hynn ny medylyut ti amdanaf
i. Sef yw hynny," heb hi, " goualu am dy angheu di, ot
elut yn gynt no miui." " Ie," heb ynteu, " Duw a dalho
it dy ymgeled. Ony'm [104] llad i Duw hagen, nit hawd
uy llad i," heb ef. " A wney ditheu yr Duw ac yrof inheu,
menegi ymi ba furu y galler dy lad ditheu ? Canys guell
uyghof i wrth ymoglyt no'r teu di." " Dywedaf yn
llawen," heb ef. " Nit hawd uy llad i," heb ef, " o ergyt.

for taking care

o | A reit oed uot blwydyn yn gwneuthur y par y'm byrhit i
ac ef, a heb gwneuthur dim o honaw, namyn pan uythit
ar yr aberth duw Sul." " Ae diogel hynny ? " heb hi. *certa*
" Diogel, dioer," heb ef. " Ny ellir uy llad i y mywn ty,"
heb ef, " ny ellir allan ; ny ellir uy llad ar uarch, ny ellir
ar uyn troet." " Ie," heb hitheu, " pa delw y gellit dy lad
ditheu ? " " Mi a'e dywedaf yti," heb ynteu. " Gwneu-
thur ennein im ar lan auon, a gwneuthur cromglwyt uch
benn y gerwyn, a'y thoi yn da didos wedi hynny hyhitheu. *"I want
hard water
tight
(dorsic)*
A dwyn bwch," heb ef, " a'y dodi gyr llaw y gerwyn, a

bath
cerwyn f. tub,
nat
he-goat

o | " And one must needs be a year making the spear wherein
I should be smitten without making anything of it save when
folk were at Mass on Sunday "

x/ "No sooner had she heard this statement than she sent it to Gronw Pebyr."

dodi ohonof uinheu y neill troet ar geuyn y bwch, a'r¹ llall ar emyl y gerwyn. Pwy bynnac a'm metrei i yuelly, ef a wney uy anghau." "Ie," heb hitheu, "diolchaf y Duw hynny. Ef a ellir rac hynny dianc yn hawd."

"Whoever shd. smite me when so"
"That can be avoided easily."

Nyt kynt noc y cauas hi yr ymadrawd, noc y hanoes hitheu at Gronw Pebyr. Gronw a laurywys gueith y guayw, a'r un dyd ym penn y ulwydyn y bu barawt. A'r dyd hwnnw y peris ef idi hi guybot hynny. [105] "Arglwyd," heb hi, "yd wyf yn medylyaw pa delw y gallei uot yr² hynn a dywedeisti gynt wrthyf i. Ac a dangossy di ymi pa furu y sauut ti ar emyl y gerwyn a'r bwch, o faraf uinheu yr enneint?" "Dangossaf," heb ynteu.

v. note
"That selfsame day"

^{ysgod chade,} Hitheu a anuones at Gronw, ac a erchis idaw bot yg kyscawt y brynn a elwir weithon Brynn Kyueryr; yglan Auon Kynuael oed hynny. Hitheu a beris kynnullaw a gauas o auyr yn y cantref a'y dwyn o'r parth draw y'r³ auon, gyuarwyneb a Bryn Kyueryr.

"under the lee"
"all the goats she found"
"to the far side of the river"

A thrannoeth hi a dywot, "Arglwyd," heb hi, "mi a bereis kyweiraw y glwyt, a'r ennein, ac y maent yn barawt." "Ie," heb ynteu, "awn eu hedrych yn llawen." Wy a doethant trannoeth y edrych yr enneint. "Ti a ey y'r ennein, Arglwyd?" heb hi. "Af yn llawen," heb ef. Ef a aeth y'r ennein, ac ymneinaw a wnaeth. "Arglwyd," heb hi, "llyma yr anieueileit a dywedeisti uot bwch arnunt." "Ie," heb ynteu, "par dala un ohonunt, a phar ydwyn yma." Ef a ducpwyt. Yna

hurdle, "frame"
"he bathed himself"
"have one of them caught & have it fetched here"

¹ a. W. ² yn. W. ³ y. W.

of "thou didst speak of as being called he-goats"

neidio to leap, jump, spring

y kyudes ynteu o'r ennein a guiscaw y lawdyr amdanaw, ac y dodes y neilltroet ar emyl y gerwyn, a'r llall ar geuyn y bwch.

Ynteu Gronw a gyuodes e uynyd o'r brynn a elwir Brynn Kyuergy, ac ar benn y neill glin y kyudes, ac a'r guenwynwayw y uwrw, a'y uedru yn y ystlys, yn [106] neita y paladyr ohonaw, a thrigyaw y penn yndaw. Ac yna bwrw ehetuan o honaw ynteu yn rith eryr, a doddi garymleis anhygar. Ac ny chahat y welet ef odynd y maes. ? = i maes 'out' (W.G. 437)

Yn gyn gyflymet ac yd aeth ef e ymdeith, y kyrch-yssant wynteu y llys, a'r nos honno kyscu y gyt. A thrannoeth kyuodi a oruc Gronw, a gueskyn Ardudwy. Guedy gwreskyn y wlat, y gwledychu a wnaeth yny oed yn y eidaw ef Ardudwy a Phenllyn.

Yna y chwedyl a aeth at Math uab Mathonwy. Trymuryt a goueileint a gymerth Math yndaw, a mw Wydyon noc ynteu lawer. "Arglwyd," heb y Guydyon, "ny orffwyssaf uyth, yny gaffwyf chwedleu y wrth uy nei." "Ie," heb y Math, "Duw a uo nerth yt." Ac yna kychwynnu a wnaeth ef, a dechreu rodyaw raddaw, a rodyaw Gwyned a wnaeth, a Phowys yn y theruyn. Guedy rodyaw pob lle, ef a doeth y Aruon, ac a doeth y ty uab eillt, ymaynawr Bennard.

Diskynnu yn y ty a wnaeth, a thrigyaw yno y nos honno. Gwr y ty a'y dylwyth a doeth ymywn, ac yn diwethaf y doeth y meichat. Gwr y ty a dywot wrth y meichat, "A was," heb ef, "a doeth dy hwch di heno

Trousers (pl. llodran)

"aimed -- and smote him" "so that the shaft started out of him" "horrid scream" anhygar, dreadful

"subdued" (v. note) →

"heaviness & grief"

rest (v. note on l. 14) "May God be thy strength"

"and the length & breadth of Powys" "willein"

"He alighted at the house" [lodged] Swirleherd v. p. 256

side shaft "then he flew up"

v. p. 150

v. note (p. 150 for mutation)

"Sow"

y mywn ? ” “ Doeth,” heb ynteu, “ yr awr honn y doeth at y moch.” “ Ba ryw gerdet,” heb y Guydyon, “ yssyd ar yr hwch honno ?” “ Ban a[107]gorer y creu beunydyd a allan. Ny cheir crاف arnei, ac ny wybydir ba ford yd a, mwy no chyn elei yn y daear.” “ A wney di,” heb y Guydyon, “ yrofi, nat agorych y creu nyny uwyf i yn y neillparth y’r creu y gyt a thi ? ” “ Gwnaf yn llawen,” heb ef. Y gyscu yd aethant y nos honno.

"No one can keep in touch with her"

"on one side of the sty"

A phan welas y meichat lliw y dyd, ef a deffroes Wydyon, a chyuodi a wnaeth Gwydyon, a guiscaw amdanaw a dyuot y gyt [ac ef] a seuyll wrth y creu. Y meichat a agores y creu. Y gyt ac y hegyr, llyma hitheu yn bwrw neit allan, a cherdet yn braf a wnaeth, a Guydyon a’y canlynwys. A chymryt gwrthwyneb auon a wnaeth, a chyrchu nant a wnaeth, a elwir weithon Nantllew, ac yna guastatau a wnaeth, a phori. "and there she stowed and fed"

strough i.e. quickly (crاف?) valley

Ynteu Wydyon a doeth y dan y prenn, ac a edrychwys pa beth yd oed yr hwch yn y bori ; ac ef a welei yr hwch yn pori kic pwdyr a chynron. Sef a wnaeth ynteu, edrych ym blaen y prenn. A phan edrych, ef a welei eryr ym blaen y prenn. A phan ymyskytwei yr eryr, y syrthei y pryuet a’r kic pwdyr o honaw, a’r hwch yn yssu y rei hynny. Sef a wnaeth ynteu, medyl yaw y mae Llew oed yr eryr, a chanu englyn :—

"rotten flesh & maggots"

"shook himself"

v. notes on 35, 8; 49, 14 on gender

"darkly shadowed" (?) v. note

“ Dar a dyf [108] y rwng deu lenn,
Gorduwrych awyr a glenn.
 Ony dywedaf i eu,
O ulodeu Llew ¹ ban yw hynn.”

< geu, lie "it is from --- that it is"

¹ Llew, W.

pwdyr putrid

she leapt forth and she put stream settle

ymellwng: of ymollwng to let oneself go, sink, drop,
give way, collapse.

"let himself
down"
middle Sef a wnaeth ynteu yr eryr, ymellwng yny oed yg
kymerued y pren. Sef a wnaeth ynteu Wydyon, canu
englyn arall:—

Rain does not wet it (but
v. note) Translated p. 298

"Dar a dyf yn ard uaes, "on upland plain" (?)
Nis gwlych glaw, mwy¹ tawd nawes.
Ugein angerd a borthes.
Yn y blaen, Llew² Llaw Gyffes."

Ac yna ymellwng idaw ynteu, yny uyd yn y geing issaf
o'r pren. Canu englyn idaw ynteu yna:—

Translated
p. 300

"Dar a dyf dan anwaeret, slope, declivity
Mirein modur³ ymywet.
Ony dywedaf i [eu]
Ef dydau Llew² y'm arfet." arfed lap

fell, "alighted"
"sight" Ac y dygwydau ynteu ar lin Gwydyon; ac yna y
trewis Gwydyon a'r hudlath ynteu, yny uyd yn y rith
e hunan. Ny welsei neb ar wr dremynt druanach hagen
noc a oed arnaw ef. Nit oed dim onyt croen ac ascwrn.

in less than a
year, "long before
the year's end"

"he cannot
continue thus,
withholding thy
redress"

Yna kyrchu Caer Dathyl a wnaeth ef, ac yno y
ducpwynt a gahat o uedic da yg Gwyned wrthaw. Kyn
kyuyl y'r ulwydyn, yd oed ef yn holl iach. "Arglwyd."
heb ef, wrth Math uab Mathonwy, "madws oed y mi
caffael iawn gan y gwr y keueis ouut gantaw." "Dioer,"
heb y Math, "ny eill ef ymgynhal, a'th iawn di gantaw."
"Ie," heb ynteu, "goreu yw genhyf i bo kyntaf y
caffwyf iawn."

"high ten
v. p. 134"

Yna dygyuoryaw [109] Gwyned a wnaethant, a
chyrchu Ardudwy. Gwydyon a gerdwys yn y blaen, a
chyrchu Mur Castell a oruc. Sef a wnaeth Blodeuwed,

¹ nis mwy, W. ² Llew, W. ³ medur, W.

x | "But through fear they could not proceed save with their faces looking backwards"
Pres. Subj. 2 of beiddiau, to dare

MATH UAB MATHONWY.

91

clybot eu bot yn dyuot, kymryt y morynyon gyt a hi, a chyrchu y mynyd; a thrwy Auon Gynuael kyrchu llys a oed ar y mynyd. Ac ni wydyn gerdet rac ouyn, namyn ac eu hwyneb tra eu keuyn. Ac yna ni wybuant yny syrthysant yn y llyn ac y bodyssant oll eithyr hi e hunan. x
except

Ac yna y gordiwawd Gwydyon hitheu, ac y dywot wrthi, "Ny ladaf i di. Mi a wnaf yssyd waeth it. Sef yw hynny," heb ef, "dy ellwng yn rith ederyn. Ac o achaws y kywilyd a wnaethost ti y Lew Llaw Gyffes, na ueidych ditheu dangos dy wyneb lliw dyd byth, a hynny rac ouyn yr holl adar. A bot gelynyaeth y rynghot a'r holl adar. A bot yn anyan udunt dy uaedu, a'th amherchi, y lle i'th gaffant. Ac na cholych dy enw, namyn dy alw uyth yn Blodeuwed."

"dishonour"
"nature"

"I will let thee go"
"thou art never to dare show thy face in the light of day"
"to stir or molest thee"

Sef yw Blodeuwed, tylluan o'r ieith yr awr honn. Ac o achaws hynny y mae digassawc yr adar y'r tylluan; ac ef a elwir etwa y dylluan yn Blodeuwed. owl
"hostile"

Ynteu Gronwy Pebyr a gyrchwys Penllyn, ac odyno ymgynnatau¹ a wnaeth. Sef kennadwri a anuones, gouyn a wnaeth y Lew Llaw Gyffes, a uynnei [110] ae tir ae dayar, ae eur, ae aryant, am y sarhaet. "Na chymeraf, y Duw dygaf uyg kyffes," heb ef. "A llyma y peth lleiaf a gymeraf y gantaw; mynet y'r lle yd oedwn i ohonaw ef, ban im byryawd a'r par, a minheu y lle yd oed ynteu. A gadel y minheu y uwrw ef a phar. A hynny leiaf peth a gymeraf y gantaw." "injury"
"when he aimed at me with the spear"

from there he
at enogys"

Hynny a uenegit y Gronw Bebyr. "Ie," heb ynteu,

¹ ymgynnatau, W., ymgennattau, R.

amherchi to dishonour, insult

baeddu to beat, strike, thump, buffet, man, pound; to soil. [beat, ill-treat]

gomedd to refuse, deny; to omit

dioddef to suffer, bear, abide, endure; to curb one's impatience, to wait

necessary inevitable "war-band" dir yw ymi gwneuthur hynny. Wy gwyrda kywir, a'm teulu, a'm brodyr maeth, a oes ohonawch chwi, a gymero yr ergyt drossof i? "Nac oes, dioer," heb wynt. Ac o achaws gomed ohonunt wy diodef kymryt un ergyt dros eu harglwyd, y gelwir wynteu, yr hynny hyt hediw, trydyd Anniweir Deulu. "one of the Three Disloyal War-bands"

"from the day to this"

"Ie," heb ef, "mi a'e kymeraf." Ac yna y doethant yll deu hyt ar lan Auon Gynuael. Ac yna y seui¹ Gronwy Bebyr, yn y lle yd oed Llew Llaw Gyffes ban y byryawd ef, a Llew yn y lle yd oed ynteu. Ac yna y dyuot Gronwy Bebyr wrth Llew, "Arglwyd," heb ef, "cansys o drycystryw gwreic y gwneuthum yti a wneuthum, minheu a archaf yti, yr Duw, llech a welaf ar lan yr auon, gadel ym doddi honno y rynghof a'r dyrnawt." "Dioer," heb y Llew, "ni'th omedaf o hynny." "Ie," heb ef, "Duw a dalho it." Ac yna y kymmerth Gronwy y llech ac y dodes [111] y rynthaw a'r ergyt. Ac yna y byryawd Llew ef a'r par, ac y guant y llech drwydi, ac ynteu drwydaw, yny dyrr y geuynn.

said (v. note) "wiles"

stone rock

"I will not refuse thee that" (v. note)

v. p 211

Ac yna y llas Gronwy Bebyr, ac yno y mae y llech ar lan Auon Gynuael yn Ardudwy, a'r twll drwydi. Ac o achaws hynny ettwa y gelwir Llech Gronwy.

Llech Gronwy (note)

"And as the tale tells"

Ynteu Llew Llaw Gyffes a oreskynnwys eilweith y wlat, ac y gwledychwys yn llwydanhus. A herwyd y dyweit y kyuarwydyt, ef a uu arglwyd wedy hynny ar Wyned.

Ac yuelly y teruyna y geing honn o'r Mabinogi.

¹ seui ..., seuis, R.

drycystryw < drwg evil, mischief etc. + ystryw, subtle, craft, craftiness, cunning, guisse, strategem, trick, ruse, wile.

d. p. 43 gwant 3sg. Aor. of gwanaf, I wound, pierce, thrust, stab (W.G. 372)

Ŋodiadau.

Td. ll.

- 1 1 **Pendeulc**, Arglwydd, cf. B.T. 40, 4, 14, Golychafi wledic *pendefic* gwlat hed (am *Dduw*).
- Dyuet**. Ar derfynau Dyfed, gw. Lloyd, H. W. i, 261 ; Phillimore, *Cy*. xi, 56-7. Cynhwysai Sir Benfro, a rhan o Sir Gaerfyrddin : ei saith gantref oedd *Cemais* yn y gogledd, o enau Teifi i Aber Gwaun ; *Pebidiog*, i'r gorllewin o Gemais hyd Dyddewi ; *Rhos*, i'r de o Bebidiog hyd Aberdaugleddyf ; *Penfro* i'r de o Ros ; a *Deugleddyf* i'r dwyrain ; *Emlyn* i'r dwyrain o Gemais ac i'r de o Afon Deifi ; *Cantref Gwarthaf* i'r de o Emlyn hyd y môr.
- 2 **treigylgweith**, ryw dro ; gw. Ch. O. 33-4 ; *treigl*, tro ; *gwaith*, amser ; cf. W.M. 193a, *treilgweith*.
- 3 **Arberth**, heddiw *Narberth* ; saif yng ngogledd Cantref Penfro.
- prif lys**, cf. td. 8, 27 ; 51, 17 ; W.M. 83a.
- yn y uryt ac yn y uedwl**, cyfystyron yw *bryd* a *meddwl* ; hoffai'r hen ryddieithwyr gyplysu'r cyfryw, megis *hoedl ac einioes, tir a daear*.
- 5 **Glynn Cuch**. Rhed Afon Cuch i'r gogledd-orllewin i ymuno â Theifi, a ffurfia ran ogleddol ffin siroedd Penfro a Chaerfyrddin.
- 6 **Penn Llwyn Diarwya**. Nid oes sicrwydd ple'r oedd y Llwyn, nac am ystyr yr enw. Y tebyg yw ei fod yng nghyffiniau Glyn Cuch, ar y ffordd o Arberth tuag yno. Cynnig Rhys, *Arth. Leg.* 283, *Diar, Dear*, enw afon, a *Vwya*, treigliad o enw'r Gwyddel a flinodd Ddewi Sant, *Boya*, Ll. A. 108.
- 8 **ellwng**. Ceir *go-llwng, di-llwng*, ac *e-llwng*, yr un ferf gyda rhagddodiaid gwahanol, a chymysgir y rhagddod-

Td. ll.

iaid hyn, nes rhoi *gillwng*, *gellwng*. Yn W.M. 242b, dywedir am fab Alun Dyfed, "*ellygywr da yw*", wrth nodi pam yr oedd raid wrtho i hela Twrch Trwyth : yn R.M. 125, ysgrifennwyd hyn fel *gell'llyngwr*. Yna enwir dau filgi, "ny *ellyngwyt* eiryoet ar lwdyn (W.M. *mil*) nys ledynt" (W.M. *lladwynt*). Un o greffteiriau hela oedd *ellwng* am ollwng y ci o'i gynllyfan "leash", a'i yrru ar ôl anifail.

- 1 9 **dygyuor**, cf. *td.* 13, 18 ; 19, 13 ; 30, 26 ; 36, 2 ; 37, 24 ; 38, 20 ; 71, 19, 20, W.M. 193a ; gw. B. iv, 138. Amryw-ia'r ystyr, weithiau "casglu ynghyd", weithiau "codi" ; yma golyga beri i'r hela gychwyn, trwy ganu'r corn. Pan ganai hwnnw, dechreuai pawb "symud". Sylwer ar y gadwyn o ferf-enwau.
- 10 **ymgolli a**. Dilynir berf gyfansawdd yn *ym-gan ac, a*, cf. *ll.* 11, *ymwarandaw a*, *ll.* 15 *ymgael ac*, *ll.* 17 *ymordiwes ac*.
- 12 **erchwys**. Yn R.P. 5a, odli'r â *dyrys, crys* ; yn M.A. 247b, â *vegys*, ac felly y sain ydoedd *erchwys* : ysgrifennir ef fel *irchwys* yn D.N. 30 : *iyrchwys* yn L.G.C. 284 (ond nid lluosog *iwrch* yw !), B. iii, 272. Yr un gair yw *erwis* yn B.B.C. 52, lle cynghorir y mochyn i gladdu rhetgyr iddo'i hun mewn lle dirgel "rac *erwis*" Rhydderch Hael. (Nid oes a wnêl hwn ag *ermaissiu* mewn Gwyddeleg, er gwaethaf Loth, R.C. xxxviii, 177, cf. B.B.C. 53, *rac kinytion* mordei : 57 na chlat imprisc *rac* dyuod Riderch hael *ae cwn kyfruys*.) Daw efallai o *er-* (*are-*) a *-gwys* ail ran *cyfr-wys* "trained" (cf. A.L. i 280, 498, gellgy brenin punt en *kefruys*, chueugeynt en *agkefruys*), a golyga "a pack of (*trained*) hounds", cŵn yn *gwybod* eu gwaith. Am ymglyfnewid rhwng *-chw-* ag *-w-*, cf. *damchwain, damwain* ; *chware, gware, darware*.
- 13 **hynny**, y rhai hynny, sef y cŵn dieithr. Defnyddid *hyn* a *hynny* yn y rhif lluosog gynt, yn ogystal ag yn unigol

Td. ll.

fel heddiw, cf. 19, 15 ; 37, 7 ; Ll.A. 167, auon . . . o vein, a *hynny* yn redec megys dwfyr.

- 1 15 **ymgael ac**, cyrraedd, cf. y ferf syml yn W.M. 125b, am farch, "ae vw(n)g a *gaffei* y llawr : hefyd cf. W.M. 118b, nyt *ymgaffei* owein ae vaedu ar cledyf. Yn 3.17 "dyfod o hyd", neu "cael gafael ar", megis R.M. 204, yny *ymgaffwyf* ar gwr hir : 258, ac arthur a *ymgauas* ac ef, cf. Y.C.M. 7, ll. 22 ; gw. hefyd Lewis, G.M.L. 296, pa le bennac ed *ymkafoent* er efeyryat ar dysteyn ar enat ena byt breynt e llys, "wherever they find themselves, wherever they are".

- 20 **hanbwyllaw**. Yn ôl D. "memorare, mentionem facere" : R. "to mention, make mention" ; G. "stay-ing" ; L. i, 84, 379 "songer à, réfléchir à, délibérer". Etyb, fodd bynnag, i'r dim i'r Ll. *curo* "to care for, to be solicitous for, to look or attend to, trouble oneself about", cf. M.A. 470a, ac nit *ambwyllwys* Arthyr yna am bericlady y wyr (cf. *hambwyllont* W.M. 119a) ; R.B.B. 231. ny *hanbwyllwys* Medrawt yna gohir wrth gladu y laded-igyon (S.M. qui deinde non multum *curans*) ; Havod 1, 96: ny *handynwys* arthur yna goir wrth gladu y cylaned, M.A. 546a, ny *handenws* A. ena peri kladu i wyr : Hav. 2. 184, *heb dydorbot* pa wed e kledyt e kelaned ; W.M. 243a, y trywyr a ganant eu kyrn, ar rei ereill oll a doant y diaspedein. hyt na *hanbwylllei* neb pei digwydei y nef ar y dayar : Pen. 14, 43, bwrw y garyat ae serch a oruc arnei hyt na *hanbwylllei* ef oe uyw : W.M. 119a, R.P. 75b 11, M.A. 196b, 218a. Cyfystyron yw *hanbwyllaw*, *handenu* (= *hamdden-u*) *dydorbot* (*di-ddawrbod*), a chynorthwyant ni i gael y meddwl yn fanylach, rhywbeth fel "teimlo diddordeb, gofalu am, ymdrafferthu". Yn y testun, "Pwyll did not trouble himself to look at the stag", nid oedd iddo ddim diddordeb yn y carw, gan faint ei ddiddordeb yn y cŵn.

Td. ll.

o'r a welsei, *o* arddodiad "of"; *r*, rhagenw dangos, "those"; *a*, rhagenw perthynol.

- 1 23 **llathrei wynnet**. Treiglir cytsain gyntaf y goddrych, pan ddêl yn ddigyfrwng ar ôl yr amherff. 3ydd unig. neu'r gorberffaith. Ni ddangosir y treigliad yn *llathrei cochet*, ond cf. 8, 20, debygei *bob* un, etc. Am y lliwiau, cf. A.L. i, 346, Breint arglwyd Dineur yw caffel dros y sarhaet gwarthec *gwynnyon clust gochyonn*; gw. isod ar 2, 4.

- 2 1 **llithyaw**, G. "set his own dogs upon it", L. "et appela ses chiens à la curée". Ond yr ystyr yw *mettre en curée* "to flesh the dogs, to feed them". Felly Lewis, G.M.L. 209 "to bait, feed"; A.L. i, 286, 492, a *llithiet* y kwn o'r kic; B.B.C. 103, yn lluthauc in *llithiaw* brem; B.A. 8, 21 ef *llithyei* wydgnw oe anghat; M.A. 202b *llithyaw* branhes; 271a, Gwae lwth oi *lithiaw* yngwenerau (= R.P. 31a); W.M. 228b, *llith* yth gwn ac yd yth uarch; R.P. 151a, lladawd a hi *llith* adar. Dengys yr enghreifftiau hyn fod llithio ar arfer am fwydo â chig, nid fel heddiw yn Arfon, pan ddywedir *llith i'r lloi* am laeth enwyn, llefrith, â blawd, neu heb flawd; *llith i'r ceffylau* "mash, bait".

Am y modd y daeth *llithio* i olygu "allure" (felly D.W.S.) megis yn Iago i, 14, cf. ystyron "bait" yn S, hudir anifail trwy gynnik bwyd iddo. Ond bwydo ar gig y carw yw'r ystyr yn y testun; canys arferid gwobrwyo'r cŵn trwy roi iddynt beth o gig yr ysglyfaeth.

- 4 **erchlas**, G. "light-grey", L. "gris-fer". Yn hytrach, brychlas, "dapple-grey". Disgrifir meirch yn M.A. 149a, Lliaws llwyd a llai/Lliaws *erch* erfai; 203a, neirch canneid, Yn erchlyfyn yn *erchliw gleissyeid*; cf. R.P. 171a, gwydueirch eirch erchlyfyn *erchliw* crychrawn.

Rhydd O'Clery (R.C. iv, 408) "*earc*, i. breac, no ní breac 'speckled or a speckled thing'. *earc* .i. dearg

Td. ll.

'red'. *earca iuchna* .i. cenél bho 'a kind of cow', .i. ba fionna ó deargha .i. cluais dearga 'white cows with red ears.'" Cymharer lliw y rhain ag eiddo'r cŵn uchod. Rhydd Dinneen *earc* hefyd am "a trout, a salmon", cf. uchod *erchliw gleissyeid* (*gleisiad* "salmon"), a'r enw *brithyll* "trout" (gw. *breac* speckled, *breac* trout). Hefyd Afon *Erch* yn Eifionydd, yn ymyl Afon *Wen*.

- 2 5 **o vrethyn llwyd tei.** Am y marchog yr oedd gwisg o frethyn llwyd, ond nid brethyn garw cyffredin eithr brethyn addas i arglwydd yn ei lys; brethyn *tai* ydoedd, cf. A.L. i. 308, lle'r arferir "dinesig" yn gyffelyb am fantell, capan, a phais, o ddeunydd da. Yma pwysleisir mai brethyn *tai* oedd am y marchog yn wisg *hela*.

8 **cyuarch**, gw. Ch. O. 50-1.

- 9 **ae atuyd**, cf. 41, 15, "perchance", gw. W.G. 440, B. iii, 271, ac S.E., ar *agatfydd*, *agatoedd*, *atoedd*. Anodd egluro twf yr ystyr; amhosibl yw esboniad S.E. (*a-gad-bydd*), ac anturus yw'r un yn W.G. (*ag a atvydd* "with what will be"), canys fe'i ceir heb *ac*, td. 50, 1. Cedwid grym y 3ydd pres. wrth gyfieithu "it is possible", a deuai *y mae* yn naturiol ar ôl hynny.

o anryded. Dealler gair fel *cymaint* o flaen *o*. Yn ll. 18 gellir cymryd bod *o anglot* yn dibynnu ar *guerth can carw*; yma gadewir y meddwl yn ben agored. Eglurir ef, fodd bynnag, yn y frawddeg nesaf, *teilygdawt* uy anryded.

- 10 **nas dyliei.** Gwrthrych y ferf yw'r *s* yn *nas*, a chyfeiria'r rhagenw hwn at *cyfarch gwell*; goddrych y ferf yw (*cymaint*) *o anryded*. Yn R.M. ceir cystrawen symlach, *ual nas dylly*, a'r ferf yn yr ail berson presennol. Yn ôl y cyntaf, "perhaps thy rank is so high that it ought not to do it"; yn ôl yr ail, "that it would not befit thee to do so".

Td. ll.

- 2 11 **teilygdawt**, "dignity, honour, worthiness, right", urddas, cf. M.A. 519a, e dylyvt rody ymy ae dinas arpennyg ae enteu kastell megys ym gwelyt en *anrydedus* ym plyth e tywysogyon ereyll, kanys *teilyngdawt* a *dylyet* tewyssawc a deleyt y rody y tewyssawc : 477a anian pob kaeth yw ucheneidiaw ar y rydyt, ac ymchwelyt ar y hen *deylyctawt* ; 632a (disgrifir ymrafael rhwng Arch-egobion Caint a Chaer Efrog, pwy ddylai eistedd ar law ddehau'r Cardinal) amrysson yg gwyd yr holl lys am y *teilygdodeu*. Yn y testun, gydag *anryded* gellir cyfieithu "It is not the dignity of my rank that prevents me", h.y. nid oherwydd bod ei safle yn uwch nag un Pwyll.
- 11 **a'm etteil** (R.M. *am hetteil*), cf. 45, 18, o'm achaws. Weithiau ceir *h-* ar ôl 'm, weithiau nis ceir, gw. W.G. 279-80. *etteil*, 3ydd pers. pres. *ataliaf*.
am hynny, "with respect to that".
- 12 **y rof i a Duw**, llw, "by God ! " ; llyth. "between me and God".
anwybot, sef na wyddai sut i ymddwyn : defnyddid *gwybod* am gwrteisi, boneddigeiddrwydd, cf. W.M. 195b, 64b, 65a, 113a, L. i. 380. Ceryddir Marsli yn Y.C.M. 82 am ei *drycwybot* wrth gennad.
- 13 **ansyberwyt**, anghwrteisi, taeogrwydd, "boorishness". Daw *syberw* (heddiw *syber*) o'r Ll. *superbus* ; o *superbitas* cefiid *syberwed* ; er bod modd i *-we-* gymysgu a *-wy-* (cf. *gwyrthfawr*, *gwerthfawr*), gwell cymryd *syberwyd* fel ffurfiad newydd yn Gymraeg, rhoi'r *-yd* sydd yn *clef-yd*, etc., at *syberw*. Am yr ystyr, cf. Y.C.M. 38, gweithret *an-syberw* a wnaethosti llad uy march heb achaws.
- 14 **ny weleis ansyberwyt uwy**. Pan ddeuai gradd gymharol ansoddair mewn brawddeg negyddol, neu mewn cwestiwn y disgwyliid ateb nacaol iddo, treiglid i'r feddal, hyd yn oed ar ôl enw gwrywaidd, neu enw lluosog ;

*

Td. ll.

cf. 10, 8, ny wydwn i varch *gynt*; 30, 1, na welsynt . . .
llongeu *gyweirach*.

ar wr, "on any man".

- 2 17 **cyn nyt**. Defnyddid *cyd* "though", a *cyn ni* "though not". gyda'r ferf yn y modd dibynnol, gw. W.G. 446-7. *subjective*
- 21 **dy gerennyd**, cf. 77, 5, tagneued a gawssawch, a *cherennyd* a geffwch; B.B.C. 88, 15; Llyd. *karantez*; Cern. *cerense* "cariad. cyfeillgarwch".
- 22 **vrth ual y bo dy anryded**, yn ôl dy safle. Penderfynid *sarhaed* dyn, neu'r iawn a delid iddo am ei sarhau, yn ôl y Cyfreithiau Cymreig, gan ei safle gymdeithasol.
- 23 **corunawe** (R.M. *corunawc*). O'r Ll. *corōna*, gan fod *ō* yn rhoi *u* yn Gymraeg, cafwyd *corun* (C. Ll. Ll., 20); daeth *coron* o'r Saesneg Canol *corone*. Cedwir *corun* o hyd am "crown of the head": *gynt golygai gorun eilliedig y gŵr eglwysig*, "tonsure", cf. td. 29, 2, lle ceir *corunawc* . . . o *goron*; W.M. 193a, *brenhin corunawc*.
- 24 **dyd da itt**. Heddiw, yng Ngwynedd o leiat, ni ddywedir *Dydd da!* ond wrth ffarwelio. Am y defnydd fel cyfarchiad ar ddechrau ymddiddan, cf. D.G. ccx, cxcvi, hefyd uchod 74, 23.
- 25 **Annwuy**n, Annwfn, hefyd *Annwn*, 16, 3; 21, 9; 24, 17; 27, 18; 68, 23. Daethpwyd i'w arfer am uffern, cf. W.M. 242b, guynn mab nud ar dodes duw aryal *dieuyl annwuy*n yndaw; D.G.G. 67, mwg ellyldan o *Annwn* (am y niwl): ond pan ddywed yr Haf, D.G.G. 74, "I ochel awel aeaf / I *Annwfn oddwfn* ydd af", nid uffern yw, ond "byd arall" y Cymry cyntefig. Gan fod y defnydd paganaidd yn hŷn o angenrheidrwydd na'r defnydd Cristnogol, prin y dylid esbonio *An-nwfn* fel "di-waelod", fel y gwneir yn W.G. 160. Nid i'r pydew diwaelod yr â'r Haf yn y gaeaf: nid o uffern y daeth y brenin hwn, mwy na'r moch. td. 68. Yn Llan. 4,507, sonnir am y chwedlyddion yn dychmygu "pan yw

Td. ll.

Margan *dwywes o annwfn* ae rygudyassei ef [sef Arthur] yn ynys auallach i jachau oe welioed". Ar *Morgan la Fée*, gw. Rhys, *Arthurian Legend*, 391 : etyb *dwywes o annwfn* i *la Fée*, a gallwn gymryd hyn fel awgrym mai gwlad y Tylwyth Teg oedd Annwfn pryd na chymysgid ag uffern. Teg y cyfieithir Annwfn yn *Faery*, Nutt. *Voyage of Bran*, ii. 13. Mewn Gwyddeleg, ceir nid yn unig yr ansoddair *domain* "dwfn", ond yr enw *domun* "byd" : etyb yr olaf i ran gyntaf yr enw Galeg, *Domno-rix*, *Dubno-rix*, *Dumno-rix*, cf. *Bitu-riges*, *Albio-rix* (*elfydd* "byd") : hefyd efallai *Dubno-vellaunos* (Dyfn-wallon) *Dumno-valos* (Dyfnwal), gw. Holder, A.C.S. am y ffurfiau, beth bynnag am yr ystyron. Ni raid ceisio esbonio An-nwfn, gan hynny, fel pe cynhwysai *dwfn* "deep" : gall fod o *dwfn* "byd". Ond beth yw'r *an-*? Tybiais gynt mai *an-* negyddol ydoedd, a bod An-nwfn yn gyfystyr â "Not-world" : felly hefyd Pokorny (R.C. xxxv, 253, *Zeit. f. Verg. Sprach.* xlvii) a Stern (Z.C.P. iii. 184). Yn erbyn hyn, tery'r cyfeiriadau hen at Annwfn fel byd o *dan* y ddaear, cf. B.T. 20, yn annwfn *is eluyd* yn awyr uch eluyd : yma cyferbynnir annwfn â'r awyr, y mae un is law'r byd, a'r llall uwchlaw iddo. Gweler hefyd D.G.G. 74, lle ceir *a. oddwfn* ; yn D.G. clxxxii, 44, sonia'r bardd am y llwynog, "Nid hawdd i mi ddilid hwn / I'w dy annedd hyd *annwn*", gan gyfeirio at ddyfnder ffau'r creadur yn y ddaear. Tuedda hyn fi bellach i ddeall *an-* ynddo fel yn golygu "i mewn, *in*", a deall yr holl air fel "In-world", a chan fod popeth sydd *yn* y ddaear *odditanom*, yna "Under-world", cf. Gw. *sid*, preswylfod y *side* ; yn ôl Windisch, W. 774, bodau dwyfol oedd y *side*, a ymddangosai i ddynion mewn rhith dynol. Yn Ll. Armagh, fe'u gelwir *Dei terreni* ; credid eu bod yn trigo y tu mewn i fryniau ; neu ym Mag Mell, ynys a gyrhaeddid mewn llong wydr neu efydd. Yn B.T. 54,

Td. ll.

sonnir am breiddiau Annwfn, a Chaer *Sidi* (*Siddi* ?) a gyrhaeddid yn y llong Prydwen ; cf. B.T. 26, annwfn llifereint. Rhaid edrych ar Orsedd Arberth yn y Pedeir Ceinc, fel *síd*. Bro y *dei terreni* yn y ddaear, o dan y ddaear, fuasai Annwfn, os yw'r esboniad yn gywir, a hawdd fuasai'r trawsgyweiriad i'r ystyr o uffern mewn, oes ddiweddarach.

- 2 27 **pa furyf**, cyfystyr â *pa delw* ll. 22, pa sut.
- 28 **wyd** (R.M. *wed*), un ai ymgyfnewid rhwng *gwydd* a *gwedd*, neu'r copïwr yn rhoi *y* am *e* yn ddifeddwl, am ei fod yn arfer troi *e* yn y copi oedd o'i flaen i *y* yn ei orgraff ef, cf. isod, 305-8, *enys*, *we*, *endaw*, *enteu*, *henny*, *thrwe*, *en*, *ema*, am *ynys*, *wy*, *yndaw*, etc. Felly yn y gair nesaf, *kyffy* am *keffy* ; 17, 27, *gynnym* am *gennym* ; 22, 1, *Wynt* am *Went*.
- 3 1 Dylid darllen *yssyd* o flaen *yn ryuelu* i gael y meddwl.
- 3 **guaret . . . y arnaf**, cf. R.B.B. 214, molyant yr gwr a *wardassei* y ryw ormes hwnnw *y ar* y wlat (*liberaverat patriam*) ; 200, pob kyfryw glefyt . . . ef ae *gwaretei* ; A.L. ii. 234, kyn *gwaret* or yfeiriad y wisc [i] amdano : M.M. 8, y *gwaredei* y tonn : R.P. 24 b 3 ; W.M. 220a. Ystyr *gwared* [odd] i ar yw "symud ymaith, remove, rid one of". Yn 4, 10, daw dau farchog i *waret* gwisg Pwyll *y am danaw* (oddiamdano) : 12, 11, Rhiannon yn *gwaret* y llen oedd am ei hwyneb : 63, 28, *gwaret* yr hut ar lledrith *y ar* seith cantref Dyuet.
- 4 **haut**. Ceir amryw enghreifftiau yn y Llyfr Gwyn o *t ar* y diwedd yn lle *d* (= *dd* heddiw), ac o *d*, lle disgwyliid *t* yn ôl ei orgraff arferol ; olion yw'r rhain o gopïo llawysgrifau hŷn, heb gofio diweddarau eu horgraff, neu weithiau profion ddarfod ysgrifennu llsg. mewn cyfnod pan oedd yr orgraff heb ei chwbl newid, mewn cyfwng rhwng dwy ysgol.



Td. ll.

3 5 **manac.** Cedwid *a* yn y ddwy sillaf, ond pan ddeiai -i neu -y ar eu hôl. Felly'r pres. myn. 1 oedd *managaf* (ll. 7), ond y berf-enw *menegi*, 60, 1. Gan fod yr acen ar yr ail sillaf, rhoes yr olaf *mynegi*; yna ffurfiwyd berf newydd, *mynegaf*, o hwnnw, gydag *e* yn yr ail sillaf drwodd. Cedwir yr *a* yn goleu-fynag.

7 **cedymdeithas**, cf. 51, 9, cyfeillgarwch arbennig (ystyr arall yn W.M. 59a, "cwmni"), cf. W.M. 846, o achaws eu *ketyndeithas* a meint yd ymgerynt. Byrhawyd *cedymdeith* i cydymaith: *cedymdeithion* i cymdeithion: a *cedymdeithas* i cymdeithas,

8 **y'm lle**, i'm lle, yn fy lle. Defnyddid *i* gynt lle rhoddir *yn* mewn Cymraeg diweddar, cf. 3, 18, *i'm rith*. yn fy ffurf *i*; 23 *i'th kyuoeth*; 25, *i'th le*.

10 **pryt**, "shape, form", weithiau "appearance", cf. W.M. 193b. **ansawd**, dull, modd, "appearance", gw. Ch.O. 59, cf. uchod 62, 4, pryf a welaf ith law di *ual llygoden*; ll. 22, pryf . . . *ar ansawd llygoden*; 24, 17, kyn *debycket* a'r mab *y Pwyll* . . . *Ansawd Pwyll* hyspys oed gantaw ef. Ond cf. ar 6, 4.

13 **ym penn y ulwydyn o'r dyd auory**: yr oedd y newid pryd i bara am flwyddyn a diwrnod, tymor cyffredin mewn cyfraith; gw. Brewer, *Dict. of Phrase and Fable*, dan *Year*. Ar *undydd a blwyddyn* yng nghyfraith Hywel, gw. Lewis, G.M.L. 37.

14 **kynnadyl**, cf. 6, 15, man cyfartod trwy gytundeb; Gw. *com-dâl* "a meeting, trust", Meyer C.I.L. 437. Daeth *oed* i olygu'r un peth, ond yn fanwl, yr amser penodedig i gyfarfod yw hynny, cf. 13, ll. 4, 6; M.A. 521b, Ac yr *oet dyd* y daethant yr *lle* yd oed eu *kynnadyl*. Felly B.B.C. 55 in aber deu eu *kinatlet* (cynadledd).

y lle hon: gwrywaidd yw *lle* bellach, ond amrywiol gynt, cf. W.M. 214, or *llehon*; 119a, B. v. 12, *lleon*; Pen. 14, 8, ene *lle honno*; 126 or *lle honn*, ond td. 29, 83,

demonstration

Td. ll.

lle *hwnnw*; 113, lle ydwyt *yndaw*; M.A. 546b, e lle *hono*; Havod 1, 97b, y lle *hwnnw*; R.B.B. 233, mwyaf *lle* . . . a garei ef oed *hwnnw*; A.L. ii, 150, ene lle *hon*. 730, yn y lle *honno*, W.M. 300b. Benywaidd yw *safle* eto, gan anlaf. Gw. ar 38, 18.

- 3 15 **cyuarwyd**. Heddiw ansoddair yw, "well informed, expert," ond defnyddid gynt fel enw, "story-teller", megis uchod 69, 13, Ynteu Wydyon goreu *kyuarwyd* yn y byt oed; R.M. 161, na wyr neb y vreidwyt na bard na *chyfarwyd* heb lyuyr. Felly *cyfarwyddyd* gynt, "stori, hanes". Yma ystyr arall sydd iddo, fel Gw. *com-arde*, *comartha*, Meyer, C.I.L. 433, "a mark, sign, token". Nes yw i ystyr *arwydd* yn syml, neu i ystyr ddiweddar *cyfarwyddyd*. Nid yw'r meddwl mor glir, *td.* 6, 7.
- 18 **un dyrnaut**, cf. S.G. 330, Arglwyd, heb hi . . . ef a dywedir na ledir ef onyt ar *un dyrnawt*, ae vedru heuyt yn un lle, dyeithyr ny wn i pa le arnaw ef.
a rodych, cf. 16, 10, pres. dibynnol 2. unig, gyda grym gorchymyn, fel y *Jussive Subjunctive* yn Lladin, ct. W.G. 329 (mayest give); W.M. 228b, A chyueisted a *wnelych* yn y lle a dewissych.
- 19 **o hwnnw**. Dengys hyn fod *dyrnaut* yn wrywaidd, cf. hefyd R.M. 230, W.M. 82a *dyrnawt maur*.
- 20 **yr a ymbilio**, y cymal a *ymbilio* yw gwrthrych yr ardd. yr "er". Felly *yr a rodwn*.
- 21 **hagen**. Fel rheol "but, moreover", cf. Llyd. *hogen*; Cern. *hagen*; yma y mae mwy o rym iddo, rhywbeth fel "further, in addition".
- 23 **kyuoeth**, nid "golud", ond y diriogaeth oedd yn ei feddiant, ei wlad, cf. 52, 11, rodyaw y *wlat a'r kyuoeth*, gw. ar 1, 3.
- 26 **russya**. Y mae amryw ystyron i *rhusio* heb eu cofnodi yn y geiriaduron; yr ystyr yma yw "lluddio, rhwystro", cf. D.G. civ, i'r Lleuad (cywirwyd wrth Pen. 54, 24);

Td. ll.

Llan. 6, 22), Pynciau afrwydd drwy'r flwyddyn / A roes Duw i *rusiaw* dyn. / Nid eiddaw serchawg diddim, Nos yn rhydd, na dydd, na dim! h.y. y mae dydd golau a nos olau, y naill fel ei gilydd yn rhwystr ar ffordd y carwr. Felly T.W. ar *restito*, "mynych attal, rhagod, *rhwystro ffordd*, attal, *Rhuso*". Yn D.G. xliii, 27, gelwir cae bedw am fron y bardd yn *rylon rus*, "caethiwed hyfryd!" Yn ôl L.G.C. 500, ail goronwyd Harri vii, "Braint Gŵyl yr Holl Saint rhag *rhus* y blaned", h.y. rhag i'r blaned ddwyn anffawd iddo. Clywais ddefnyddio *rhus* (*rhîs*) yn Arfon am fath o wallgofrwydd sydyn, byr ei barhad, dyn ar ganol cynhaeaf, yn gollwng ei bladur ac yn rhuthro drwy'r gwrychoedd, ar draws corsydd, etc. heb fod modd ei atal: dyn *rhislyd* yw dyn â golwg gwyllt dychrynedig arno; ceffyl neu fuwch yn *rhusio*, un yn gwylltio neu'n cael braw ac yn rhedeg i fwrdd. Ond yn B. ii. 21, cyfystyr yw *na russya* i *na phedrussa*, td. 31 (ne dubites), cf. S.G. 403. Mewn manau eraill, y meddwl yw "dychrynu rhag, osgoi", cf. R.P. 97b, 20, 147 a 15, ac ystyron *shy* yn S. fel berf ac ansoddair, gw. R.C. xli, 404 am gynnig Loth arno.

4 2 **i'th uedyant**, yn dy law, o dan dy awdurdod. **A chyrch y llys**, dos i'r llys.

3 **ni'th adnappo**. G. "who will know thee", yn hytrach, "who will fail to recognise thee". Buasai pawb yn ei gymryd fel Arawn.

wrth ual y guelych, yn ôl fal y gwelych. Wrth weld sut y cyflawnid popeth yno, deuai i adnabod *moes* neu arfer y llys.

4 **yndi**: benywaidd oedd *llys* gynt; gw. 15, 25.

6 **hundyeu**, ll. hundy, ystafell i gysgu ynddi. Am *-tyeu* fel ll. *ty*, cf. *lletyeu* (*lled-tyeu*).

yneuadau: tueddid i fagu *y* (*e*, *a*) o flaen *n* ar ddechrau gair (cf. yr *y* sydd wedi tyfu o flaen *s* ar ddechrau geiriau

Td. ll.

benthyg o'r Lladin), ond nid yw'n sefydlog, cf. isod ll. 7, y'r *neuad*; 12, a'r *neuad*; 13, ac *yniueroed* a'r *niuer*; 10, 16 *yr yniuer*.

- 4 6 **ardurn** (R.M. *adurn*), ffurf gymysg o *addurn* (o'r Ll. *adorn-*) a gair o gyffelyb ystyr, *arddun*. Yn y Brutiau, meddylia Emrys am anrhydeddu beddrod y gwŷr a laddesid gan Hengest, gan farnu bod y lle yn deilwng o foliant ac "*ardurn* tragywydawl", felly M.A. 585, n. 442 : "o tragywydawl *enryded*" R.B.B. 165 : yn M.A. 524b, darperir "gwneuthur yno *adurn* parhaus tragywydawl tec anrydedus" : 459b, "*adyrn* ethrylithys", 460, *ardyrniau* y lle hwnw . . . o odidawc *adyrn*" : 525a wrth *adurnaw* y lle honno o odidawc *adurn*. Yn B.B.C. 77 ceir *artuniant* (sef *ardduniant*, gan fod *t* am *dd* yno) : Llan. 2, 238. yno y gwyr a *ardunyant* eu gwallt ac eu pennau megys gwraged yngwladod ereill o eur a mein : Pen. 7, 54, gwelit y *ardunyant* ay anryded : R.P. 19 a 6, 26b 28 *ardunyant* cor kerd rinwedu : 169 a 29, mal yd *ardunyaf* yd *ardunyiv*, . . . *ardunyant* molyant. Dengys yr enghreifftiau hyn fod y syniad o "ornament", ac "honour" yn ymdoddi i'w gilydd, cf. ystyron y Ll. *decus*, "ornament, splendour, glory, honour".

- 7 o **adeiladeu**: cymerer gydag *a(r)durn*. Cyfystyr yw ag *adeiladau addurnedig*, cf. B.Cwsc, 23, "a phob ryw *lendid o Feibion a Merched*", h.y. pob math o feibion a merched glân.

y **gyrchwys**: gwell yw R.M. y *kyrchwys*, gan mai'r gytsain gysefin sy'n dilyn y. Ond y tebyg yw mai *ry gyrchwys* oedd yng ngwreiddiol W.M., gw. ar 31, 25.

- 8 y **diarchenu**, gw. B. iv, 186 (ch) ar y gwahaniaeth ystyr rhwng y ddau y *diarchenu*. Yn yr ail, golyga y "i'w" ; saif am yr arddodiad *i* a'r rhagenw mewnol *i*. Golyga'r Llyd. *arc'henn* esgidiau, "foot-gear" ; felly'r Cern. *orchinat* (= *calciamentum*, Corn. Voc.) ; Llyd. *diarc'henn*

Td. ll.

“troednoeth”. Llawnach yw'r ystyr yn Gymraeg, e.e. R.M. 103, Gwerth trychan mu o eur . . . oed yn y *archenat* ae warthafleu . . . o *benn y glun hyl ym blaen y vys*, cf. S. hose. Dyry T.W. *calceāmen* esgid, archen; felly *calceamentum*, *calceatus* “esgidiau, archenad”; *calceus* esgid . . . archen. Ond “gwisg” yw yn Mostyn 158 (Evans, *Wales and the Wars of the Roses*, 87, A'r vrenhines a gymerth *archennad* i llaw vorwyn). Felly D. “*vestis*, *vestitus*, *amictus*”, er ei fod yn gwybod am yr ystyr fanylach. Gw. yr enghreifftiau sydd gan Lewis, G.M.L. 23-4. Tynnu esgidiau yw ystyr gyntaf *diarchenu*, ac felly yn y testun; rhydd D. enghraifft o Fuchedd S. Edm. “Rhuglo ei draed a'i esgeiriau wrth yr ysgrin heb *ddiarchenu*.” Daeth i olygu, fodd bynnag, “diosg arfau”, neu wisg yn gyffredinol, y rhan yn sefyll am y cyfan, cf. S.G. 16, ae *diarchenu* a orugant, ac a dugassant idaw *dillat ereill*; 86, y goruc ef *ymdiarchenu oe arneu*; R.M. 285, *diarchenu* a oruc pawb onadunt, ac erchi a oruc y iarll y enit *ymdiarchenu*, a chymryt gwisg arall ym danei. Ond yn y testun gwahaniaethir rhwng y *diarchenu* manwl a'r newid gwisg, macwyaid sy'n tynnu esgidiau Pwyll, a dau farchog yn gwared “i wisc hela y amdanaw”.

4 8 ef a doeth, a'r goddrych lluos. *makwyueit*. Sylwer ar y defnydd o *ef* a fel geirynd cadarnhaol o flaen y ferf.

* **makwyueit**, sef macwyfeit. Nid yw'r *f* yn R.M. Benthlyg yw *macwyf* o'r Gw. *mac-coemh* “bachgen” (*mac* “mab”, *coemh* “cu(f)”), cf. y modd y glynodd *cu* wrth yr enwau yn *tad-cu*, *mam-gu*, gan roi ystyr arbennig “grand-father, grand-mother”. Cyfystyron yw *makwyueit* a *gueisson ieueinc* yn y testun am “youthful attendants, pages”. Diddorol yw'r modd y benthyciodd y Cymro enwau estron ar fechgyn a genethod, e.e. *herlod*, *herlodes* (o hen ystyr *harlot*); *hogyn*, o'r S. *hog* “dafad ieuanc”; *hocrell*, S. *hoggerel* “dafad ieuanc”: y mae'r S.

cf. EWGP
pp. 39, 67

cf. p. 85

Td. ll.

boy, cwb (cub), lad, lads, los (lass) yn dra chynefin yn y tafodieithoedd. Felly y cafwyd *yswain* o "swain": *paets* "page" (Card. 6 ar bach bychan yn *bayts* gidag ynte). Am esboniad arall ar *maccoem* gw. Lewis, *Glossary*; 210 (*coem*=Ll. *comes*, yn ôl Vendryes).

4 9 **a phaup ual y delynt.** Ceir berf unigol a lluosog gyda *phawb*; gw. W.G. 307, ond unigol gwrywaidd yw yn fanwl; cf. td. 6, 8, pawb a'y *dyly*; 13, 23, pawb ual y bei y enryded (nid *eu henryded*): 17, 11, *Pawb* ual y *delei*, a *ouynnei*; ond R.M. 197, sef a *orugant* pawb or teulu gostwng *eu* penneu.

11 **eurwisc o bali:** dengys Loth, i, 87, n, fod "silk brocade" ar arfer yn yr unfed ganrif ar ddeg a'r ddeuddegfed a elwid *paile alexandrin*, am mai Alexandria oedd y prif le amdano, a bod *palis* a *pali* yn ffurfiau eraill ar yr enw Ffrangeg, Quicherat, *Hist. du costume*, 153. Rhoesai *paile* hefyd *pali* yn Gymraeg, gw. Ch.O. 61. Mewn brocêd addurnir y defnydd ag edafedd aur neu arian; saif *eurwisc* yma am y math drutaf.

12 **a'r neuad a gyweirwyt:** ystyr cyweirio neuadd oedd gosod byrddau, a meinciau yn barod i wledd. Defnyddid cyweirio am baratoi yn gyffredinol, gw. S.E. ac ar 10, 26, a cheir *cyweir* fel ansoddair, "equipped, accoutred, arrayed", cf. ll. 13, *cyweiriaf* "best equipped".

teulu (o *tei-lu*, llu tŷ, cf. Gw. *teglack*), y milwyr a fyddai gyda'r arglwydd yn wastad, "war-band". Yn ôl y Gyfraith, dull Gwynedd, dylai "kedymdeythas" y brenin gynnwys 36 o farchogion, sef y pedwar swyddog ar hugain, Penteuulu, Offeiriad, Distain, Hebogyydd, Brawdwr Llys, Pen-gwastrawd, Gwas Ystafell, Bardd Teulu, Gostegwr, Pen-cynydd, Meddydd, Meddyg, Trulliad, Drysawr, Cog, Canhwyllydd; ynghyd â Distain y Frenhines, ei Hoffeiriad, Pen-gwastrawd, Gwas Ystafell,

*

Td. ll.

Llawforwyn, Drysawr, Cog a Chanhwyllydd ; a deuddeg gwestai. Heblaw hynny, ei *deulu*, a'i wyrda, a'i weision, a'i gerddorion, a'i anghenogion, a hynny a elwir *goskorth* y brenin, A.L. i, 8 ; yn ôl dull Dyfed, ar ôl y 12 gwestai, rhoir "ae *teulu* ae vchelwyr ae vaccwyeit ae gerdoryonn ae redusson (*rheidusion*)", A.L. i, 348. Yma defnyddir *gosgordd* am y cwbl gyda'i gilydd, cf. td. 92 isod, "wy gwyrda kywir, *a'm teulu*, a'm brodyr maeth" ; crynhoir y rhain eto, ll. 6, dan y teitl Anniweir *Deulu*, gw. R.M. 137, 170, 197, 211, ac isod ar 8, 10. Yn y Trioedd enwir y Tri Diwair *Deulu*; y trydydd yw *teulu* "gwendoleu ab keidyaw yn arderyd a dalyassant yr ymlad pythewnos a mis gwedy llad eu harglwyd. Sef oed eiryf pob un o'r teuluoed un kan wr ar hugeint". Dyna *deulu* o 2,100 o ryfelwyr ! Ond gormodiaith sydd yno yn ddiau, cf. isod td. 64, trowyd *teulu* Llwyd fab Cil Coed yn llygod ; chwanegwyd gwragedd y llys atynt, ac yn ôl td. 60, yr oedd cynifer ohonynt nes bod llygoden am bob gwelltyn yng nghrofft Manawydan. Dengys hyn fod *teulu* ar arfer weithiau am nifer mawr iawn, fel *llu* yn union, cf. W.M. 80a, y neb a uyrfei y *thrychanhwr teulu* hi. Aml dro ym Môn clywais gyfarch *mintai* o wŷr gyda'r geiriau, "Sut ydach chi, *deulu* ?" a sonnir am *deulu'r fan a'r fan*, "the people of such and such a place, chapel, village", etc. lle dywedid *pobl* yn Arfon, fel rheol.

Defnyddid *nifer* yn gyfystyr â *teulu*; cf. isod, td. 18, "y neuad . . . a gyweirwyt y Pwyll a'e *niuer*, ac *yniuer* y llys y am hynny" ; td. 17, ll. 2, llyma y *teulu* am penn y llys (sef y 99 marchog a ddaeth gyda Phwyll). Carcharant *nifer* Gwawl, a phan ddelai pob un o *nifer* Pwyll i mewn (ll. 6) camdrinient Wawl. Fel term milwrol golygai'r Llad. *numerus* "a division of the army, a troop, band" ; a gwedda'r ystyr "troop" yn dda i aml enghraifft o *nifer* yn Gymraeg ; yn y lleill "retinue", fel *teulu*.

comparing

Td. ll.

- 4 16 **ymolchi**: am y dull gw. S.G. 345, Yna y marchawc a erchis roi dwfyr y ymolchi, ar wreic a gymerth y kawc ar lafwr ac ae kennigyawd yr marchogyon. Yna kymryt y dwfyr a wnaethant y gan y wreic, ar gwr ae gossodes y eisted; W.M. 113b, nachaf kawgeu aryant a dwfyr y ymolchi yndunt a thweleu o wliant gwyn a rei gwyrdd, ac ymolchi a orugam a mynet y eiste yr bwrdd. Yn W.M. 117b, sonnir am ganu corn ymolchi, cyn myned i fwyta.
- 17 **bordeu**: cf. 13, 20 ll. *bord*, fel yn *Y Ford Gron*, cf. R.M. *byrdeu* "byrdddeu" ll. *bwrdd*.
- 20 **wrth ymddidan**: i ymddiddan.
- 21 **i hannwyf**, ei natur. Dibynna'r enw ar yr ansoddair yn y gystrawen hon, a dengys ym mha beth yr oedd yr ansawdd sydd yn yr ansoddair i'w gael (cf. *Abl. of Respect* yn Llad.). Daw *annwyd* "nature" o *nwyd* "passion" a'r rhagddodiad *an-* "mewnol", a welir yn *Annwfn*, *anian*; ond daw *annwyd* "cold", o *an-negyddol*, a *nwyd* yn yr ystyr syml o "heat".
- 27 **y gyt ac**: "as soon as".
- 28 **e weneb** (R.M. *y wyneb*); gw. ar 2, 28, ôl copïo llsg. lle ceid *e* am *y*.
- 5 1 **dywot** (R.M. *dywawt*), gw. W.G. 338, 369, "dywedodd".
- 3 **hygar** (R.M. *hegar*), cf. 8, 9 *hygaret* (R.M. *hegaret*); *anhygar* 88, 9 (R.M. *anhegar*), cf. ar 4, 28. Yma profir gan R.M. ymgyfnewid rhwng *y* ac *e* fel yn *ynnill*, *ennill*.
- 4 **y rungthunt**: gwell darll. yr *u* gyntaf fel *w*, megis yn 4, 4, *guelych*, *guassanaeth*, 4, 8, *gueisson*, 9 *phaup*, na thybio bod yr *y* yn *ryngthunt* (gw. 5, 3) wedi troi yn *u* o flaen *-unt*, tel *i* yn *iddunt*, *udunt* 4, 26.
- 5 **ni bu - - amgen**, gw. ar 85, 15.
- 8 **yd oet y gyfranc**: yn *oet* saif *t* am *dd*, gw. ar 3, 4. Ar *cyfranc*, gw. C.Ll.Ll. td. 9, "meeting, fight, adventure, story". Y mae'r ddwy ystyr gyntaf yn bosibl yma. Awgryma darlleniad R.M. (*yd oed oet*), fodd bynnag, fod

Td. ll.

W.M. wedi neidio dros y gair cyntaf: pe felly, *oet y gyfranc* yw'r adeg benodedig i'r frwydr rhwng y ddau frenin.

- 5 8 **yn oet y nos honno**, pan ddaeth y nos honno a'r amser penodedig, cf. B.B.C. 41, erbin *oed y dit* y del paup oe Bet.
- 9 **kystal**. Nid oes dim i orffen y meddwl yn W.M. nac yn R.M. Rhaid tybio fod *ac idaw ynteu* wedi colli o wreiddiol y ddau, neu fod hwnnw'n darllen *ac [idaw] ynteu, ynteu a doeth*, a bod yr ysgrifennydd wedi gadael allan un *ynteu*.
- 13 **wal hynn**, fal hyn; am *w=f*, gw. ll. 4, *wei fei*, ll. 14 *wrenhin* frenhin, a llu o enghreifftiau eraill; cf. hefyd y Llyfr Du o Gaerfyrddin drwodd.
ymwerendewch, affeithiad dros ddwy sillaf.
- 15 **wylldeu**, (h)wy yll deu (R.M. *ell deu*), gw. W.G. 275-6.
- 16 **hawlwr**, "claimant", gw. Lewis, G.M.L. 187, ac isod ar ll. 26, *holi*.
ssegur, o'r Ll. *securus* "unconcerned, quiet, untroubled, serene", yna "safe". Defnyddir i ddisgrifio geni Crist, R.P. 98a, ganedigaeth dec *segur* o veir; hefyd am gŵn hela nad yw eu perchennog gyda hwy, A.L. ii, 6, 7; am y diog B.B.C. 84, syberu a *segur* dolur ar eu knawd; 89, *segur* yscuid ar iscuit hen, "heb ddim i'w wneud"; cf. isod 73.7; S.G. 354, M.A. 478 a 2.
- 20 **gossot**, trawiad, cf. ymosodiad, S. *onset*, Y.C.M. 92, A phymthec *gossot* a oruc ae wayw, a chelein a ladod ar bop *gossot*; B.B.C. 21, mal *gossod* amrant, "fel trawiad amrant". Yn ll. 21, *gossodes ar* "trawodd".
- 22 **bogel y daryan**, "the boss of his shield", cf. Y.C.M. 59 taryan drom . . . a deunaw hoel o eur coeth penllydan yn hardhav kylch y *bogel*, felly *bogel* Y.C.M. 34, 65; ond *bogeil* 46, cf. Hen Ffr. *bocte*, Ffr. *boucle* (S. buckle) "boss". Ceir *begel*, *begil* mewn Llydaweg, R.C. xxxiv, 165 (cf. glos. yn Eut. *becel* "bulla") ac yn Gymraeg y tardd-

Td. ll.

- eiriau *bogelyn* "bubble", a *boglyn*, M.M.114, R.P. 118 a 14, 129 a 32, D. a T.W. ar *umbilicus*, *vmbo*.
- 5 22 **yny dyrr**, hyd oni thyrr. Sylwer bod y treigliad gynt yn wahanol.
- 26 **holi**, y berfenw a etyb i'r enw *hawl* "claim", cf. L.I.D.W. 52, O deruit yr *haulur* mennu *holi* tir . . . deuhet ar er argluit y erchi did y guarandau y *haul*. Heddiw *hawlio* "to claim", *holi* "to question".
- 27 **heuyt**, lle dywedir yn awr *chwaith* "either".
achos (R.M. *achaws*), cf. Ch.O. 49.
- 28 **canys dechreueist**: gan fod *canys* yn cynnwys yr arddodiad *can(t)* a'r ferf *ys* "it is", arferid yn rheolaidd o flaen enw neu ansoddair, ond *can*, gan, o flaen berf, gw. W.G. 443, cf. 14, 18, a *chan derw* yt; 63, 14, *can doethwyf*. Eithr dengys y testun fod *canys* eisoes wedi dechrau disodli *can* fel cysylltiad, cf. S.G. 279, *kanys oed*; h.y. collwyd ystyr *ys* (fel y gwneir yn *os* "if" heddiw o flaen berf, yn lle *o*, *od*); cf. 27, 2.
- 6 2 **a'th lado**. Y cymal i gyd yw gwrthrych *keis*. Felly hefyd dibynna a *wneuthum* ar *gwneuthur*, ac ni raid deall yr *hyn*, neu'r cyffelyb.
- 4 **teruynedic**, wedi ei gwblhau.
ansawd, modd, ystad, gw. ar 3, 10, cf. 30, 2; S.D.R. 27, yn yr *ansawd* honno y para byth=in uno *statu*.
- 5 **bellach**, "further, any more, henceforth", gw. ar 25, 13.
- 7 **kyuarwyd**, gw. ar 3, 15, cf. W.M. 93b (Pen. 16) ni a vydun *gyvarwyd* yt . . . ar gwyr henne en *gyvarwydyeit* udunt=Pen. 4, ar gwyr hynny yn *gyfarwyd* vdunt. Yma defnyddir *cyfarwydd* yn gyfystyr a *chyfarwyddiaid*, gw. Llyfr St. Chad, L.L. xlv, lle'r enwir *cimarguithieit* fel awdurdod ar faint teyrnged Treb Guidauc, cf. L.L.D.W. 42, druy audurdaud e *keuarhuidyt*; R.M. 268, yna y kerdawd gereint eithauoed y gyuoeth a *chyvarwydyt* hyspys gyt ac ef *o oreugwyr y gyuoeth*, cf. W.M. 208a

Td. ll.

(Pen. 4) 208 (Pen. 6). Yn y testun, dywed Pwyll am i wyrda Annwfn chwilio am hysbysrwydd, neu wŷr hysbys a allai benderfynu gydag awdurdod, pwy oedd gwir ddeiliaid Arawn.

gwybydweh, "find out, learn".

yn wyr, deiliaid, rhai'n talu *gwrogaeth* (ll. 12), termau ffiwdal, cf. 24, 19; 50, 28.

- 6 8 **canyt**, gan nid, gan nad. Gan fod yr arddodiad *cant* yn treiglo (cf. tan, dan; gwrth, wrth; gwar, ar) ac *nt* yn rhoi *nnh*, *nn*, cafwyd *gan*. Yma cydiwyd ato y negydd *nid*, a disgwyliem *cannid*; ond gan fod yr acen ymlaen (gw. W.G. 443) ni chlywid y ddwy *n* ynddo. Felly *canis*, ll. 27, "gan nas"; 11, 6, *cany welas*, gan na welodd; 63, 18, *kanys gollyngy*.

- 10 **yn waredauc**, yn waraidd, cyfystyr ag *uuyd*, ll. 11, nid o *gwared*, ond o *gwar* (cf. A.L. ii, 106, a vo *gwar* neu *anwaredauc*) a'i darddair *gwaredd*, cf. M.A. 308b, Llydwawg *gwareddawg* llydw *gweryddon* (lle cynganedda â *gweryddon*); 314b, Lle *gwaredawc*, Llu *gwerydon*; 317a, Clot Ion *gwerydon gwaredawc* ffer.; 351a, Mynawg *gwareddawg* y gwiw *raddeu*. Am yr ystyr, gw. Llan. 2, 323, Ac val yd oed Jessu yn dyuot y mywn y gostyngawd yr ystondardeu ac y[d]adolassant idaw val *gwyr gwaredawc* yd y harglwyd; Pen. 14, 12, en vuyd *waredauc*. Yn R.B.B. 86 etyb *oen gwaredawc* i'r Ll. *mitis agnus*, a *gwaretogrwyd* i *blandiciis*. Ceir esboniad Loth arno yn R.C. xli, 387.

ar ny del: yma ceir y rhagenw llawn *ar* a ragdybir yn *o'r a* 1, 20; gw. W.G. 298. Cynhwysir y negydd a'r rhagenw perthynol yn *ny*, "he who comes not".

- 11 **uuyd**, ufydd (R.M. *vuud*, ufudd), gw. Ch. O. 29 ar yr amrywiaeth ystyr a ffurf. Cafwyd *ufudd* o *ufydd*, gan fod yn hawdd cludo drosodd i'r ail sillaf grynder yr *u* yn y sillaf gyntaf; yn arbennig disgwyliid i hyn ddigwydd

gentle

humble

Td. ll.

ar ôl *f* wefusol Cymraeg Canol, a oedd yn nes i *w* o lawer na'r *f* wefus-ddeintiol heddiw. Am newid tebyg, cf. B.T. 17, 25, *kussyl*, ond *kussulwyr*, ll. 21; W.M. 70b, *kudygyl*, ond 299b (P. 7) *kudugul*; R.P. 6 a 6, *kudugyl*; gw. isod ar 6, 23 *furuf*, *furyf*. Yr ystyr yma, ac yn y rhan fwyaf o'r hen enghreifftiau yw "humble"; wedyn "obedient".

- 6 11 **kymmeller**, i bop pwrpas, berf oddefol, "let him be compelled"; pe bai'n amhersonol, disgwyliid *ef* i ddilyn.
- 12 **guereskynn**, goresgyn, cymryd meddiant o'r wlad; cf. 39, 12; 88, 13, 14.
- 14 **tyrnas**, cf. 8, 23; 22, 3; 27, 15; ct. 13, 27, *teyrneid*; 37, 11, *teyrndlws*; gw. W.G. 16, 162-3.
- 18 **y gilid**, ei gilydd. Tuedd *i—y* yw troi yn *i—i*, cf. 63, 5, *llinin* (lliny'n).
- 19 **kygleu**, cigleu, clywais; gw. W.G. 371, 372.
- 23 **furuf**, felly ll. 24; 68, 26; 85, 20, 22; *furu* 87, 11; ond *furyf* 2, 27; 3, 5; 14, 22. Gweler ar ll. 11 uchod, *uuyd*. Y gwahaniaeth yw fod *ufydd* yn ddwy sillaf lawn ond nad yw *ffurf* (Ll. *forma*) ond un. Ysgrifennid yr olaf fel *ffuryf* am fod rhyw sain aneglur yn glywadwy rhwng yr *r* a'r *f*, eto nid llafariad lawn. Yn ddiweddarach daeth yr *y* yn eglur, a chyfrifwyd weithiau fel sillaf (megis *llythr*, *llythyr*, ac ynganiad y De o *llyfyr* am *llyfr*). Ymdebygodd y sain fwyfwy i un y sillaf o'r blaen; felly *pobl*, *pobyl*, *pobol*; *budr*, *budyr*, *budur*; *awdr*, *awdyr*, *awdwr*; *cwrj*, *cwryf*, *cwrwj*, *cwrw*. Esbonnir *furu* trwy dybio i'r *f* wefusol golli yng nghrynder y gwefusau yn yr *u* o'i blaen. Cofier y seinid *u* Gymraeg fel *u* Ffrangeg (*i* a'r gwefusau'n grwn) hyd 1600 o leiaf.
- 26 **eniuer**, gw. ar *yneuadeu* 4, 6, am y ffurf, ac ar 4, 12 am yr ystyr.
- 27 **canis**, gw. ar ll. 8 uchod. Daw o *can*, y cysylltiad, y negydd *ni*, a'r rhagenw 's (nid y ferf *ys*).

Td. ll.

- 6 27 **ys blwydyn** (R.M. *yr ys talym*, ond gwell gennyf lenwi'r bwch o 7, 7 a 15). Yn lle cymryd *ys* yma fel arddodiad, megis y gwna W.G. 411, deallaf ef fel y ferf "it is". Etyb *ys guers* "ers tro" yn W.M. 244a, i'r Llydaweg *gwers so* (*so*=sydd) lle ceir berf yn ddios, Loth, R.C. xxxvii, 53. Ac mae'r Gymraeg ei hun yn dwyn tystiolaeth i'r un perwyl, gan fod *oedd* ar gael mewn cystrawen hollol gyffelyb, W.M. 62a, y corr . . . ar doethoed *oed blwydyn* kyn no hynny y lys arthur (=288 a dodoed yno *yr ysblwydyn*). Sylwer ymhellach ar yr anwadalu yn 7. 7 *ys*, R.M. *yr ys* ; ll. 9 *yr*, R.M. *ys* ; ll. 15, *ys*, W.M. ac R.M. ; 17 *yr*, R.M. *yr ys*. Yn ddiweddarach cywasgwyd *er ys* yn *ers* (cf. *canys*, *cans*), ond clywir *es* o hyd hefyd am yr hen *ys*.
- 7 3 **amserach**, mwy amserol, "more timely".
- 4 **vely**, wely ; cf. *vreic* ll. 5, *v=w*. Ni wahaniaethid rhwng *u* a *v*, a chan fod *u* ar arfer am *w* (cf. 6, 25 *kerdaud*) gellid rhoi *v* hefyd am yr un sain. Safai *u* a *v* hefyd am *f*, a cheir *w* am *f* yn ll. 6, *digriwwech*, yr *w* gyntaf (ct. ll. 2, ll. 19), *rywedawt*, 9, 7, etc.
- 6 **ymyrru ar**, cf. 54, 11 ; Deut. ii, 5, 19 ; Diar. xvii, 14 ; A.L. ii, 58, ynteu e hun a eill *ymyrru ar* y genedyl ; S.G. 255, dy varchogyon di a *ymyrrasant ar* gewilyd mawr ; 278, a minneu vy hun a *ymyrraf ar* hynny. Ceir hefyd *ymyrru y gyt ac*, cf. 27, 6 ; A.L. i, 190, Pen kenedyl . . . a dyly *ymyrru y gyt* ay gar ym pob reynt a del arnaw ; W.M. 248a, nyt *ymyrrwys* kei yn reit *gyt ac* ef o hynny allan ; A.L. ii, 314, a mynet y gereint yg kyrch y dial eu kar a bot yn vychan ganthunt eu niuer a dyuot estrawn ac *ymyrry gyt ac* wynt ar vreint car a dywedut mi a af gyt a chwi y dial awch kar. Hefyd *ymyrru* ei hun, cf. R.B.B. 19 ; S.G. 205 ; ac *ymyrru yn*, gw. 61, 5. Yn I Pedr iv, 15, ceir y berfenw *ymyrraeth*. Etyb yr hen ystyron i rai'r Ffr. *se mêler*, Ell. *sich mengen* ; a *meddle* yn Saesneg,

Td. ll.

“to mingle, to join oneself to, trouble oneself about, interfere, take part in, engage in, touch, handle”. Ond heddiw yr ystyr gyffredin yw “interfere, meddle with”. Yn y testun hwn, “he gave himself up to the delights of love”.

- 7 7 **ny ordifnassei** (R.M. *nys gorddyfnassei*), o *gorddyfnu* “be accustomed to”. Am *dyfnu*, gw. R.P. 167b 32, 33; 170 a 36; *dynfu* yn B.B.C. 22, 87 (*dinwassute, dinwas-sune*) ond 63, ny *ortywnassint*; 84 *gortywneid*, cf. R.P. 10b 37, 38a, 25. Am y traws-osod, cf. *Llyfni, Llynfi*. Dengys *ordifnassei* ôl orgraff hŷn na'r un arferol yn W.M.
- 9 **noc ar a uu**. Dilynir *amgen* “other, different”, gan *noc* oherwydd ei ystyr gymharol, gw. S.E. Yr un *ar sydd* yma ag uchod, 6, 10, “yr un, yr hwn, y rhai” (R.M. *noc ar y uu*), cf. cystrawen gyffelyb 21, 14, mor anwedus *ac ar y wnaethoed*, h.y. mor anwedus *a'r un* a *wnaethai*.
- 11 **duhunaw** (R.M. *dyhunaw*), o *dihunaw*; *i yn troi'n u* o flaen *u*, cf. 4, 26. *udunt* (iddunt).
a farabyl: gw. Ch.O. xix; daw *parabl* o'r Ll. *parabola*, nid yn uniongyrchol eithr trwy'r Hen Ffr. *parable* (heddiw *parole*).
- 12 **trydyt**: *t* am *dd*, gw. ar 3, 4.
- 13 **pa achaws**, achos pa beth? gw. ar 32, 22.
- 15 **na dywedeis**, = am na *dd.*, gw. ar 61, 25.
y gymmeint, sef cymaint ag a ddywedaf yn awr.
- 16 **ys glut a beth**, “assiduously, continually”; *ys* “it is” *glut*, dyfal, parhaus, cf. 86, 3; *a*, heddiw “o”; cf. 8, 11' *ys iawn a beth*. Yr un *a sydd* yn ll. 22, cadarn *a ungrw*.
- 17 **meuhl im**, “Shame upon me!” Cydier wrth ll. 20, *or bu yrom ni*, “Deued gwarth arnaf, *os bu*, etc.”; gw. ar 47, 10 cf. Gw. *mebol*.
- 18 **yn nyblye**, cf. B.B.C. 97m, in *tri diblic*; Y.C.M. 92, mwy no llein yn *vn dyblic*; A.L. ii, 438, 614, camlwrw

Td. II.

deuddyblyc. Amlwg yw fod *plyg* a *dyblyg* yn gyfystyr, "fold". Rhoesai *plica* nid *plyg* ond *pleg*; ac felly rhaid esbonio *plyg* fel ad-ffurfiad o *plyg*-af (Ll. *plic-o*). Daw *dyblyg* o'r Ll. *duplic-* (*duplex*, *duplic-is*, "two-fold"), ond deallwyd y *dy-* ynddo fel *dy-*, rhagddodiad cryfhaol, nid fel *dau*, *dwbl*. I gael *two-fold*, rhoddwyd *dau-* o'i flaen, *dau-ddyblyg*; *three-fold*, *tri-dyblyg*, etc. Yma ceir treigliad trwynol, am mai enw yw *dyblyg*; petasai'n ansoddair cawsid yn *d(d)yblyc*. Y meddwl yw "from the time we were wrapped up in the bed-clothes".

- 7 20 yn **chwaethach**, gw. C.Ll. Ll. 17. Yn W.M. 91b, rhoir o Pen. 16 *yg kyuoethach* i ateb *anoethach* yn P. 4; *yghwaethach* R.M. 85, y cwbl yn yr un frawddeg, ac yn golygu'r un peth. Credaf mai ffurf gymharol *cyfoeth*, *cywaeth*, sydd yma, ac i'r ystyr ddatblygu o rywbeth fel "yn gryfach byth".

o'r bu: *o* os; *r* gweddill *ry*, geiryn cadarnhaol a rydd rym perffaith i ferf yn yr amser gorffennol, "if there has been".

- 22 **ungwr**, ct. y defnydd o'r Gw. *óen-fer* (Windisch, W. 718-9) am un dyn yn wrthgyferbyniol i liaws, neu ynteu dyn â rhyw arbenigrwydd arno, gw. hefyd Dinneen ar *aonar*, cf. *aonduine* "undyn". Yn y testun "dyn ar ei ben ei hun", S. "unique" (eto cf. B.Cwsc 30, gwaetha *ungwr*, lle na olygir mwy na gwaethaf *undyn* "anyone"). Arbenigrwydd hwn oedd ei ffyddlondeb dihafal i'w gydymaith, h.y. ei gydymdeithas.
- 23 **diflleis** (R.M. *diffleis*). Daw *ffleis* o'r Ll. *flexus* "a bending, turning, an artful turning" (cf. *Nennius*, arg. Mommsen, 206, llysenw Eadfered neu Eadlfered yw *Flesaur*, yn llsg. K. *flesaur*; *e=ei* mewn hen orgraff; felly *ffleisawr* "Artful Dodger!"). Gyda'r *di-* negyddol Gymraeg, *di-ffleis*, "heb wyro ar y dde na'r aswy, (rhwymo) yn dynn ddiogel fel na ellir syflyd", cf. C.Ch. 7;

Td. ll.

- Y.C.M. 96, ae rwymaw wrth brenn yn *difflais*: Llan. 116 (Lewis, 97); B.B.C. 86 dewys d., cf. Iago i, 17; M.A. 372a, Cristiawn d.; Pen. 7, 91, dwyvil o varchogyon *difflais* ganthaw, h.y. rhai y medrai ddibynnu arnynt; gw. hefyd uchod, 50, 25.
- 7 24 **na chapla**, na feia, cf. perthynas *blame* a *blaspheme* yn S. Aeth *cabledd* bellach yn derm diwinyddol, ond eto cadwn yr hen ystyr i *gabl*; pan fo pawb yn beio dyn dywedwn ei fod *dan gab(a)l*. Am *cablu*, beio, gw. R.M. 85; A.L. i, 474; yn Y.C.M. 15 etyb cabl i'r Ll. *culpa*, Ffr. *ablaser*.
- 29 **yn herwyd**, "as regards", cf. 24, 16, yn herwyd gueleddigaeth, gw. W.G. 414-5. Camddeallodd Loth y frawddeg (et dans les combats, et dans les épreuves du corps) heb weld fod *a* yn mynd gydag *ymlad*, sef *ymladd à phrofedigaeth* ei gorff, h.y. ffrwyno ei chwant, cf. R.B.B. 178 (am *wr* a fethai a bod yn ddiwair) na allaf ochlyt *perigyl uyghorf*. Dilynwyd camgyfieithiad Loth gan Ellis-Lloyd, i, 15.
- 8 2 **tra deweis**, cf. 18, 27, tra *parhao*; ond 19, 3, tra *barhaud*; 26, 26, tra *parhawyf*, ond 26, 27, tra *allwyf*; 34, 24, tra *barhawd*. Y rheol yw'r treigliad meddal o *p*, *t*, *c*, ar ôl *tra*, cysylltiad; ac ni ddylid pwysu ar y manau lle na ddengys yr ysgrifennydd hynny. Pwysicach yw'r lleill.
- 3 **diryued**, nid rhyfedd, "unmervaylouse", meddai D.W.S. Anghywir yw *passing strange* Ellis-Lloyd, cf. Pen. 3, ii, 38, d. yw kaffael drwc or nep ay haedo: C.Ch. 140, ynteu a fwytaawd . . . megys dyn disynwyr, a ffeth *diryued* oed hynny . . . hir y buassei heb vwyt.
- 4 **y gyuoeth ac y wlat**, *y=i i*, yr arddodiad *i* "to", a'r rhagenw *i* "his".
- 6 **arglwydiaeth**, felly isod, ll. 15; gan mai *y* sydd arferol yn W.M. am *i* gytsain, rhaid mai'r llafariad sydd yma,

Td. ll.

h.y. *arglwydd-ï-aeth*, gw. W.G. 230, a cf. *marsiandïaeth*.
arnunt hwy: fel rheol *wy* yw'r rhagenw, cf. ll. 8, heb *wy*.
 Ai ar ôl *-nt* y ceir *hwy*? cf. R.M. *arnadunt hwy*, ond heb *wy*
 yn y llinell nesaf.

8 7 **y wrth**, "as compared with".

8 **gystal, gyn hygaret, 10 gyn hawset, well**, treigliad
 meddal ar ôl *buost, bu*.
gwybot, gw. ar 2, 12.

10 **dosparth**, yn ystyr gyfreithiol y gair, sef barnu a
 phenderfynu pynciau o gyfraith, cf. Lewis, G.M.L. 118,
 Ll. D.W. 12, Er egnat llys . . . or pan decreuho *dohosparth*
 y dadeleu kentaf eny darfo e dyguedaf; 29, Try anheb-
 kor brenynyn eu efeyryat wrth uendykiau y uuyt a kanu
 eferen ar egnat llys urth *dehospart* pop ped pedrus ay
 teulu urth y negesseu. Am y ffurf, cywasgiad yw o
dy-gwo-s-parth, cf. *dolef (dy-gwo-lef)*, *dodrefn (dy-gwo-
 trefn)*.

11 **iwch chwi**, i chwi, cf. 45, 4; 75, 5; gw. W.G. 29.

12 **diolwch**, o *di-* a *golwch*; gw. B. ii, 125.

16 **attygy**, pres. 2 un. *atwyn (ad-ddwyn)*, tynnu'n ôl, "bring
 back, take back", cf. A.L. i, 748, os cymerir merch drwy
 drais "y that a ddichawn y *hattwyn* oe hanuod"; 758, y
 tir a rodho brenhin gan iawn nys *attwc* y neb ae gwled-
 ycho wedy ef: Pen. 14, 19, ac *atygwch* e gorff er vynwent;
 M.A. 258b, nes gwaew yn adein nyt *attygit*.

ot gwnn. Cymer Loth hyn fel geiriau Pwyll, a rhydd
 gyfieithiad rhyfedd ohonynt, "autant qu' il sera en mon
 pouvoir". Yn ôl yr atalnodi yn W.M. ac R.M., perthyn-
 ant i eiriau'r gwyrd, ac etyb yr ystyr yn well felly, er
 gwaethaf y rhif. Gellir cyfrif am yr unigol un ai am mai
un o'r gwyrd, sy'n llefaru dros y lleill, neu ynteu fod y
 geiriau wedi colli pob blas o rif, fel *weldy*, td. 46, 24,
 "*weldy* racco . . . y drws ny dilywn ni y agori", cf. hefyd

Td. ll.

hanes uchod, isod. Etyb *od gwn i os gwn i* yn iaith heddiw, ac anodd yw cyfieithu'r naill a'r llall. Ar ôl ceryddu plentyn, dywedir yng Ngwynedd, "Wnei di hynna eto, *os gwn i*", lle golyga rywbeth fel "I wonder! I'm inclined to think *not!*" O flaen cwestiwn, lle bo amheuaeth, "*Os gwn i, ddaw o?*" (*I wonder if he'll come*) neu fel ateb iddo, "*Os gwn i!*" (*I wonder!*). Cf. y defnydd yn R.C. xxxiii, 227-8, diogel bot yn well gennwch *ot gwn* dyscu och mab (ct. td. 245); h.y. "*surely you prefer*"; felly D.D.G. 16, Ni ddown i oddef *od gwn* / Beunoeth gur be na'th garwn, h.y. yn *sicr* ni ddown; D.G. 117 (cywirwyd wrth Pen. 49, 69), Nid o'm bodd yr adroddwn / Arnad, od gawad, *od gwn* / Daldal dy anwadalder. "*Assuredly it is not because I should like doing it that I would reproach thee face to face with thy fickleness.*" Felly D.D.G. 24, y mae bellach . . . a Duw yn fach, rhyw gwlm serch rhom *od gwn*, rhwymedig wyf. Nid oes amheuaeth yma o gwbl, fel y prawf a *Duw yn fach*, ond yn unig yn y ffurf. Nid *os o amheuaeth* yw, ond *os o gadarnhad!* Felly yn y testun, "Ni thynni dy roddion yn ôl, *os gwn i rywbeth am danat*", h.y. yr wyf yn berffaith sicr na wnei.

- 8 20 a **fob gyfryw dlws** (R.M. *kyfryw*). Cf. B.T. 40, 4, pop *wa*, 5 pop *tra*, ct. W.G. 260.
- 23 **mor lwydannus** (R.M. *lwydyannus*), enghraifft gynnar o wrthod caledu *l-* yn *ll-* ar ôl *mor*.
- 27 **A threigylgueith**, cf. 1, 2. Gorffennwyd yr adran gyntaf o'r Gaine, a dechreuir yr ail gyda'r un geiriau bron a'r un gyntaf.
- 9 2 y **bwyta kyntaf**, cf. 10, 15, ac yn arbennig 51, 19; amlwg yw fod dau eisteddiad; yn y bwyta cyntaf eisteddai'r gwŷr anrhydeddus, ac yna, ar ôl gorffen, aent allan i *orymdeith* (cf. 51, 20, *kyuodi allan*), tra byddai'r gwasanaethwyr yn bwyta.

Td. ll.

- 9 3 **gorsedd**, bryncyn, "mound" (cf. W.M. 236b. heusawr yn cadw y deueit ar benn *gorsetua*). Dyma'r gair Cymraeg am "tumulus, barrow", gw. B. i, 356-369, am restr o'r cyfryw yn Sir Fflint, a sylwer ar yr enwau ynddi, Erw'r Orsedd, Cae'r Orsedd, Gorseddau, Yr Orsedd, Pen y Gorseddau, Pant yr Orsedd, Coitie'r Orsedd; felly mewn ardaloedd eraill, lle digwydd fel enw lle. Mewn cyfraith, golyga "tribunal, court", neu "session"; gw. Lewis, G.M.L. 161; A.L. ii, 202, 332; weithiau cyfystyr yw a *gorsaf* "a pause, stay, station", megis yn A.L. ii, 872; tair *gorsedd* arf yw "tria loca pro reponendis telis" = tri *gorsaf* cleddyf neu fwa, 584; cf. S.G. 156, lle ceir *gorssedawd* am "arhosodd", a'r Llyd. *gourzez délai*, *gourzeza différer* (Troude); gw. R.C. xxxvi, 396; B.T. 68, 19; *Cymmwr*. vii, 137; B.B.C. 11, 7; 30, 6; 34, 6, 12; 102, 8. Ystyron D. yw "sedes, sedile, tribunal"; R. "a seat, a judgment-seat, a tribunal, a court of judicature". Cyfeiria L. 92 n. at y Tynwald yn Ynys Manaw, y bryncyn lle cynhelir llys cyfreithiol ucha'r ynys. Cyfarfyddai gwŷr cantrefi Lloegr, medd Mawer, *Place-Names and History*, 23-4, nid mewn tref, ond yn y wlad, mewn lle a ddewisid am ei fod yn ganolog, neu ynteu "because of the presence of some ancient *barrow*, some cross or stone, some sacred object hallowed by time and superstition". Cyfeiria at lu o enwau'r cyfryw, rhai yn *law*, *low* o'r Hen. S. *hlaw*; rhai yn *barrow* (H.S. *beorg*), "Either of these O.E. words may be used equally well of a hill or artificial mound, whether barrow or mote-hill". Ceir cannoedd yn *haugr*, Hen. Nors, gair cyfystyr a'r uchod, ac un *Creech*, o'r Gymraeg, *crug*. Dengys hyn berthynas agos *gorsedd* "mound", a *gorsedd* "court, judicial assembly".

Gan fod Gorsedd Arberth yn ganolfan hud y Pedair Cainc, teg credu bod hynny yn atgof o gysegredigrwydd

cf. Gaelic croc

Td. ll.

y lle i'r hen frodorion. Yr oedd y bryn i gyd felly, neu efallai y "mound" arno yn unig, hen gladdfa neu wyddfa gŵr enwog. Os y cyntaf, cf. bryniau'r Tylwyth Teg yn Iwerddon (y *std*, gw. ar 2, 25, *Annwfn*); os yr ail, cf. *Nennius* (Mommsen, 217-8) ar Ryfeddodau Prydain, *bedd Anir* neu *Amir* (cf. L.L. 200) a'r bedd ar y Crug Mawr. Gw. ymhellach, Campbell, *The Fians*, 4.

- 9 5 **kynneddf**, hynodrwydd, "peculiarity", nid fel *cynneddf* "faculty" heddiw, cf. Card. 6.27, *Kynneddfav* a oedd ar dristan pwy bynag a dynai waed arno ef marw fyddai. Pwy bynag i tynai ynteu waed arno marw fyddai; hefyd W.M. 232b, 233a, 236 a 6; C.Ch. 87, Mwy . . . yssyd o volyant a *chenedueu da* ar charlymaen noc a ellei neb y dywedut=Y.C.M. 84, mwy yssyd o *gampeu da* ar Chyarlys. Etyb *deuodeu* yn Havod 1, 61, i'r *cynedueu a'r campeu* yn R.B.B. 158. Yn aml nid oes wahaniaeth rhwng *cynneddf* a *moes* neu *ddefod*, ond weithiau golyga "peculiar quality, characteristic custom", arbenigrwydd peth neu berson, gw. Pen. 50, 147, ar gynneddfau medd-dod.
- 6 **deupeth**, gw. W.G. 195 ar *deupen*, *deucant*, ôl y rhif deuol diryw; cf. hefyd W.G. 296, y peth *hyn*.
- 7 **neu ynteu**, "or else", gw. *Br. Maxen*, 26.
- 9 **hynn o niuer**, nid "y nifer hwn", ond nes i "y fath nifer, nifer mor fawr".
- da oed gennyf**, "I should like"; yr amherff., lle ceid y gorberffaith heddiw, da *fuasai*, cf. Ch.O. 31, ar 2.18; *B.Cwsc*, 5, gwyched *oedd* gael arnynt lawn olwg, h.y. gwyched *fuasai* hynny.
- 10 **pei ys** (R.M. *pei as*), heddiw *pes*; y rhagenw yw *ys* yma, gwrthrych y ferf, ac yn cyfeirio at *ryuedawt*, sydd yn y cyflwr enwedigol rhydd ar ddechrau'r frawddeg; yn llythrennol, "A wonder, on the other hand,—I should like to see *it*".

Td. ll.

- 9 14 **a gerdei.** Am ffordd, dywedem yn awr ei bod yn *mynd*, nid yn *cerdded*, ond cf. S. the road *runs*.
heb law yr orsed (R.M. *or orsed*). Gwell yw W.M. : *âi'r* ffordd *heibio'r* bryn neu'r crug. Aeth *heb-law* (cf. S. *be-side*, at *hand*) yn gyfystyr a *heb*, a chollwvd holl ystyr *llaw* (cf. *gerllaw*, *ger*) ; felly *heb yr orsedd*, gyda *heb* = "past", yr ystyr a glywir o hyd yn y ffurf amheronol, *heibio*, cf. 12, 1, *hebdaw*.
- 15 **ar uryt**, yn ôl meddwl.
- 16 **y ogyuuch** (R.M. *yn ogyfuuch*). Trwy W.M. ceir enghreifftiau o *y (i)*, sy'n gyfystyr ag *yn*, 23, 12, *uy* mot *y* ueichawc (R.M. *yn*) ; 36, 8, *y* barawt ; 38, 24, seithwyr *y* dywyssogyon ; 25, *y* benhaf ; 45, 3, *y* canu ; ll. 22, *y* kerdet ; 55, 11, kilyaw *y* gyflym ; 57, 18, Duw *y* uach it ; 79, 7, am na'th elwir *y* uorwyn. Dilynir gan *y* treigliad meddal o'r ansoddair neu'r enw sy'n ffurfio'r adferf, neu'r traethiad, ond gan *y* gysefin o'r berf-enw ; gw. W.G, 439 am *yn yn y* gystrawen hon. Am *y* modd *y* defnyddir *y (i)* fel arddodiad gydag ystyr *yn*, gw. ar 3, 8. Deuai'r march *yn ogyfuwch* a'r orsedd, h.y. gyferbyn a hi, ar ei chyfer, cf. 10, 25, a doeth *gywerbyn* ac wynt ; 25, 12, pan doethont *yn ogyuuch* a hi ; W.M. 80a, ar gwr a doeth ar *ogyfuch* ac ef, "came level with him".
- 17 **ohonawchi**, *chwi* heb acen, wedi ei gydio yn yr arddodiad, a'r *w* ynddo wedi ymgolli yn *y* cyfuniad *wch*. Dibynna'r arddodiad ar *y* cymal perthynol ; heddiw rhoem *un* neu *neb* yn *y* cymal cyntaf.
- 19 **y uynydd**, i fyny (R.M. *ynvud*, bai am *y(n) vuud*, "yn ufudd", cf. ar 6, 11, neu *iuinid*), i fyny(dd). Ar golli'r *dd* derfynol, gw. ar 10, 20.
- 20 **neut athoed**, *neut* geiryn cadarnhaol ; *athoed*, gorberff. 3ydd *myned*, "she had passed him", cf. 10, 26, *adoed*.
- 21 **ual y gallei gyntaf o pedestric**, cyn gynted a *y* medrai ar draed, h.y. heb farch ; *pedestric*, cf. ll. 25, dyn ar

Td. ll.

draed, ond 10, 6, cerddediad. Dyry D. *pedestr* a *peddestr* pedes; *pedestrig*, pedester, -tris, -tre; incessus. Yn D.G. lxxxii, 15, *Pedestr* sydd gan Llan. 6, Gwyneddon 3, ond *Peddestr* yn Pen. 54; yn *Cymmr.* xxiii, 296, helpa'r gynghanedd, "*Pedestr* mawr i hap *ydwyf*"; felly L.G.C. 341, yn *bedestr* anwybodol. Gan fod *d* Ladin yn rhoi *dd* Gymraeg, rhaid esbonio'r caledu fel yn *pedawl*, pedol, o'r Ll. *pedalis* (cf. D. *peddyd*, pedites; *trybedd*, trithroed) W.G. 160. Am ystyr *pedestic*, gw. Ch.O. 62, cf. M.A. 455a, a diengis hyt yn llydaw *herwyd y pedestic* "on foot"; Pen. 14, e crupleit a gaffant eu *pedestic*. Nid oes dim i benderfynu prun o'r ddwy ystyr sydd iddo yn ll. 21, ond gwell gennyf ei gymryd gyda 10, 6, na chyda ll. 25, canys *pedestyr* sydd gan R.M. yno; cf. hefyd W.M. 59b, o uilwryaeth a *ffedestic*, "by force, and swiftness of foot"; 195b, march "a pheedestic wastadualch ganthaw".

- 9 22 a fei mwyaf . . . pellaf. S. "the greater . . . the further".
- 23 thygyei, cf. 25, *thykya*; 10, 7, *thykya*; 9, *thygyei*; 11, 2, *thygywys*, 6 *tygyaw*, 9 *thykya*; 12, 6, *thygyei*. Tueddai i gytsain i galedu'r gytsain o'i blaen, ond ni ddaeth yn rheol, cf. *neidio* a'r hen *neitio*; ond *tycio* byth.
- 27 kyntaf, cyflymaf.
- 10 4 yr vn gerdet, cf. 11, 25, ct. 10, 21, yr un march a'r un wisc.
- 6 yn yd oed (R.M. *hyt y lle yd oed*); cf. 11, 7. Ar *yn yd* "there were", gw. W.G. 431, B. iii, 261.
- 8 varch gynt, h.y. cyflymach. Ar y treigliad yma ac yn ll. 29, gw. ar 2, 14.
- 20 eiste, ct. *eisted* 4, 17; 9, 11, gw. W.G. 180-1 ar golli'r *dd* derfynol.
- 22 bid, hŷn orgraff am *byd* "bydd" cf. 7, 7 *ordifnassei*, am *orddyfnasai*.

Td. ll.

- 10 26 **ymgueiraw** (R.M. *ymgyweiryaw*). Ar *cywair* gw. B. iii, 55, cf. Gw. *cóirigin* "I adjust, arrange, array, settle".
 27 **neu ry**. Y mae Evans yn darllen *neir ry*, ond ymddengys i mi mai *neu* yw'r gair cyntaf, eithr bod marc wedi ei chwanegu yn ofer i droi'r llinell olaf o'r *u* yn *r*. Ni rydd *neir ry* synnwyr.

cynnwll (o *cyn-* a *twll*); cf. Meyer, C.I.L. 572, Gw. *cutall* "gwag". Gan fod *twll* yn enw yn ogystal ag ansoddair, gall y cyfansoddair olygu "gwacter, lle gwag"; yna "ysbaid" (lle, ac amser); cf. S.G. 83, ef a welei *ar gynnwll* y wrthaw ty anckres; felly 259, 342; *Cy.* iv, 106, y trabluthe . . . a diskynnant *hynnwll* kyn teruin byt; R.P. 102 a 43. Esbonia S.E. ef yn gywir fel "distance, space, interval"; ond beia gynnig D. a T.W. arno; gw. D. "sudum . . . opportunitas; T.W. *sudum* hinon, hin deg, cynnwll; cf. hefyd ar *opportunitas*. Diau mai "lle gwag, twll", yw'r ystyr gyntaf; yn wir gelwir uffern yn R.P. 117 a 12, yn *fflam gynnwll*; ac yn P.B.B. 21 sonnir am gelaneddau filoedd "a heb *gynnwll* yn y byt y rydunt", heb le gwag rhwng y naill gelain a'r llall. Eto gellid yn naturiol ddatblygu'r syniad o *hin deg* i'r gair, os arferid i gychwyn am "*egwyl* o dawelwch" mewn storm, cf. *break* yn S. Os bu'n gyfystyr ag *egwyl*, yna nid oedd ond cam i ystyr *opportunitas*. Credaf fod D. a T.W. wedi cadw grym y gair ar lafar tua 1580-1620, ond bod yr ystyr gyntaf wedi colli erbyn hynny; gw. D. hefyd ar *ysgynnwll* "Os canaf i'r *ysgynnwll* | A droes y pumoes o'r pwll", Harri Hir. Onid cyfeiriad at yr *ysbaid* y bu Crist ar y groes?

- 11 1 **araued**, ôl orgraff hÿn, *d* am *d*.
 yr **ymordiweddei**, enghraifft gynnar o yr gyda'r ferf; gw. ar 31, 25, cf. W.G. 285.
 3 **auwyneu**: o'r Ll. *habēna* cafwyd *afwÿn*, yna *awen*, gw. D. a T.W. ar *habena*, *retinaculum*.

Td. ll.

- 11 3 **no chyt bei** (R.M. *no chyn bei*). Bai yw *chynt* yn W.M. ; tybiodd yr ysgrifennydd mai'r meddwl ydoedd *nes no chynt*, fel yn ll. 5 ; 12, 4, ond pan graffodd ar ei gopi, gwelodd *no chyt bei*; chwaneodd yntau *bei* ond esgeulusodd ddileu'r *n* yn *chynt*. Y mae *chyn*, darlleniad R.M. yn bosibl, cf. 49, 23, ond cywirach yw *cyt* pan na bo negydd.
- 4 **wyaf**: darllener yr *w* fel *vv*, a'r *v* gyntaf=f, a'r ail=w.
- 7 **wnaeth**, yn W.M. *wnaet*, cf. td. 24, *thriphet*, 33, 4, *gwnaetpwyt*, 84 *wnaet*. Awgryma cynifer o enghreifftiau fod *t* weithiau yng ngwreiddiol W.M. yn sefyll am *th* (yn ogystal ag am *dd*), ac atgoffa hynny orgraff LL.D.W. 37, e.e. ay huenepuert (*t=th*) ae dyllyssruyt (*t=dd*), "a'i hwynebwerth a'i dilysrwydd".
- 10 **neges**, o'r Ll. *necesse*, C.Ll.Ll. 19.
- 11 **(g)wrthpwythi** (R.M. *wrthpwyll*), treigliad y goddrych ar ôl amherff. 3ydd. un, gw. ar 1, 23. Am yr ystyr, cf. M.A. 528a, estwg er *wrpwith* pobyl hono : 681 ac y doeth gwynt *gwrpwith*, ac a yrawt y brenhin yr tir drachevyn : 492b, wrth hynny *gwrthbwythach* a glewach vuant y gwyr ; 500a, megys y galley ynteu *gwrthwynebu y[r]* *wrthpwyth* pobyl honno ; R.P. 5a, 35, disgiwen bun, *gwrth bwyth* gwas. Dengys y rhain fod *gwrthbwyth* yn golygu "obstinate, stubborn, contrary", felly *gwrthpwythi* yw "obstinacy, contrariness", ystyfnigrwydd : a chyfystyr â'r olaf yw *gwrthbwyll* "meddwl croes", er bod Loth yn petruso, L. 382. Methodd wrth gyfieithu yma (L. 95) "mais elle ne se donne pas le temps de l'exposer", gan ddilyn G. "if her *haste* would allow her to declare it". Nid cymysgu *ll* ac *th* sydd yma chwaith (cyfeiria L. at Matholwch, Mallolwch), ond newid *gwrthbwythi* am gyfystyr symlach.
- 14 **llonyd**, esmwyth, cysurus, bodlon ; cf. Y.C.M., 18, dodi karrec a oruc dan benn y kawr ual y bei *lonydach* y

Td. ll.

kysgei, h.y. iddo gysgu'n fwy cysurus. Ceir *llonyddu* hefyd am fodloni, gw. 17, 21; 18, 24, 29; W.M. 204b, y *llonydawd* arthur yr eircheit . . . o ditlawt rodyon. Yn 18, 22, cyplysyr digrifwch a llonyddwch; yn Pen. 7, c. 56, meithrin *llonydwch* ac yechyt. Y mae mwy yn y gair na'r defnydd diweddar ohono; cf. L.I.A. 71, megys ffynnawn o dwfuyr melys yn *dadebru* llauurwyr sychedic velle y mae geirieu dy enev yn *llonyddu* vy eneit i (cf. 224, meam *refocillat* animam); gw. hefyd B.B.C. 59, 2, tenev vy llen imi nyd *llonit*, cf. 61, 13; 62, 8; *Morgan Llwyd*, i, 116, Bei cawn i fwyd da a diod gref a dillad esmwyth . . . mi a fyddwn *llonydd* . . . mi fyddwn *bodlonach* nag a tum i erioed etto. Ni fedraf ddilyn Loth yn ei esboniad arno yn R.C. xxxix, 66, lle cydia ef a'r Gw. *lâne*; gwell gennyf ei roi gyda *slân*, *slánaigim*, *sláinte*. Sylwer fod *llonydd* yn enw yn ogystal ag ansoddair, gw. 37, 25, nat oed *lonyd* idaw. Yn y testun gall fod y naill neu'r llall.

- 11 15 **diuyrru y dyd.** Ystyr *difyrru* yw "byrhau", cf. R.P. 2b, eu hoes a *diuyrrer*; R.C. xxxiii, 188, mi a *diuyrraf* ywch megis y galloch gerdet yn un dyd ymdeith dec niwyrnawt ar ngeint ysyd odyma hyt yno, gw. S.E., "Awen a bair lawenydd / I ddyn i *ddifyrru*'i *ddydd*," I Br. Hir: *difyrru amser*, Dr. Davies, Llyfry Res, i, v, 18; cf. S. *pastime*. Y meddwl yw gwneud i'r dydd neu'r amser fynd heibio yn gyflym.
- 24 **hayach**, "rhyw lawer", gw. W.G. 435 "in negative clauses, meaning with the neg. 'not much, hardly at all' ". Cf. S.G. 60, peituei ymi varch. ny bydwn i yma *haeach* o *enkyt*; 122, ac nyt oes *haeach*; 158, ny didorwn i *haeach* ohonat; 169, ny by efo *haeach* yno, yny wahanawd y eneit ae gorff; Y.C.M. 81, nyt oes *hayach* heb estwg ytt. Mewn cymal cadarnhaol, golyga "almost", cf. Y.C.M. 70, ac yn goruot *hayach* arnam; D.G., td. 146, 161; R.B.B.

Td. ll.

- 45, ny orffwyssyssant yn eu llad yny darfu y distryw *hayach*. Ond "eto, hyd hynny" yw yn S.G. 159, ae gedymdeithyon or rei ny dathoedynt *haeach* adref.
- 11 24 **enkyt**, ysbaid, ennyd; cf. D.W.S. *enhyd ne enkyd* a *whyle*; T.W.S., Marc vi, ychydigin (ymyl *encyd*); *encyd* i vwyta (ymyl, *enhyt*, *arvod*); C.Ch. 184, *enkyt un awr y teruynwyt y vrwydyr*; Pen. 76, 220 (D.G., td. 126), *enkyd awr yn kyd orwedd*; R.P. 65a, *pur vncof par enkyt ym buched*.
- 26 **moes**, rho, gw. W.G. 379, 380, R.C. xxxvii, 45n.
- 12 2 **drythyll**, "well fed, high-spirited". Magodd yr ail ystyr o "lascivious, aflan", fel y S. "wanton". Ar y ffurf, sylwer mai *d* yw'r gytsain gysefin; troes yn *t*, fel y bu gyda *drem*, *drum*, *trem*, *trum*, W.G. 186. Ar yr ystyr a'r ffurf, cf. Ll.A. 71, a llyna *drythyllwch* y seint, 224 "Ecce tales sunt *deliciae* sanctorum; Y.C.M. 14, y rei yssyd yth gyloch di, heb ef, *drythyll* ynt, a *drythyllwch* a gaffant o vwyt a diawt a dillat (Ll. *felices . . . feliciter* comedunt; Caxton, "in good poynt and wel arayed"); C.Ch. 10, y gyniuer amryw *drythyllwch* a oed yno o vwyt a llynn; 185, a mawr y *drythyllwch ar llewenyd* a uu yna. Golyga *drythyllwch*, felly, fwyd da, a gwisgoedd gwych, "luxury", cf. M.A. 537a, canmolir ynys Prydein am "gyuoeth a *drythyllwch* ac amylder pob da endi". Rhy gyfyng yw ystyron D. *drythyll*, lascivus, salax, petulans, *drythyllwch* lasciuia, salacia, libido, petulantia. Rhydd ef hefyd *trythyll*, *trythyllwch*, ac enghraifft o D.G., ond cf. D.G. xcii, 38, a D.D.G. lix, 26. Rhydd T.W. *luxuria* fel "pob gormodedd o *drythyllwch* y cnawd"; gw. hefyd ar *luxurio*, *voluptuosus*; D.W.S. *drythyll* wanton. Mewn Gwyddeleg ceir *drettell*, a *tretell* (A.C.L. ii, 310, 354, O'Dav. 701, 926), "pet", cf. yn Gymraeg *moethau*, *mwythau* "luxuries", a "petting"; plentyn *mwythlyd* y Cymro yw *drettell* y Gwyddel; gw. ymhellach Pedersen,

Td. ll.

V.G. i, 160 ; Loth, R.C. xxxviii, 174 ; cyll yr olaf bwynt y ddadl am na chofiodd berthynas *drythyll* â bwyd a diod yn yr hen enghreifftiau ; cf. H.G.C. 110, gruffud etwa en vab, da y deuodeu a *drythyll* y vagyat.

- 12 8 **y gwr mwyhaf a gery**, h.y. a geri fwyaf. Wrth gyfieithu cymerir *mwyhaf* fel rhan o'r traethiad gyda'r ferf, nid fel ansoddair gyda'r enw, ond dengys 14, 9, *y wreic uwyaf a garaf*, mai gyda'r enw y deallid ef. Edrychid ar *mwyaf-a-garaf* fel petai'n un ansoddair, a threiglid ef ar ôl enw benywaidd.

arho, *arhoaf*, ll. 10 *arhos*. Ceid s yn unig yn y berfenw ; erbyn hyn ymledodd drwy'r ferf, cf. 41, 19, 20, *aro*, *arhoaf* ; 51, 4, *arhown* ; 36, 18, *arhoes* ; 72, 8, *arhoynl*.

- 9 **oed llessach**, buasai'n fwy llesol. Ar y gystrawen, gw. ar 9, 9. Felly *pei ass archut*, pes archasit.
- 10 **yr meityn** (R.M. *meittyn*). Rhydd D. "minutum temporis" fel ystyr *meityn*, ond rhy fyrr yw hynny. Yn ôl W.G. 93, yr un yw a *meitin* "bore" (Ll. *matutin*-), ond anodd gweld sut y magasai *er y bore* yr ystyr sydd i *ers meityn*. Cynigïaf mai *meidd* "lled, hanner, canol" yw'r elfen gyntaf ynddo (gw. B. i, 36-7) ; gall *-tyn* fod y gair Cymraeg a etyb i *tan* "amser" mewn Gwyddeleg, o'r un gwraidd a'r Ll. *tempus*. Ystyr *meidd+tyn* fuasai amser go fawr, ysbaid lled hir, "a considerable time".
- 11 **gwaret**, "symud ymaith" ; gw. ar 3, 3. Cododd y ferch y llen denau oedd yn cuddio ei hwyneb, "veil", yr hyn a eilw Gruffudd Hiraethog, mewn cywydd "dychanu *cadach wyneb*", yn *drwynfrat*, a *thrwynffrwyn*, "Gwain ffroen a genau a phryd". Yna ataliodd ei golwg ar Bwyll (sefydlodd ei llygad arno)—a darfu am Bwyll.
- 13 **pan**, o ba le, cf. Gw. *can*, "whence".
pa gerdet, cf. 35, 18, 19 ; 89, 2, M.A. 478b. Weithiau defnyddid y cwestiwn *Pa gerdded ?* fel y defnyddiwn ni

Td. ll.

eiriau cyfystyr, *Pa hwyl?* (*hwyl*, taith, siwrnai, rhediad, rhuthr), cf. *angherdded* "cam-hwyl, evil plight". Weithiau golyga'n syml *I ble'r ei?* ac felly yma. Etyb y ferch, *Af ar fy musnes*.

12 15 **erassaw** (R.M. *grassaw*). Anwadal yw'r ffurf, cf. 14, 1, *cressaw*; 16, 13, *cræssaw*; 61, 22, *grayssaw*; 81, 27, *graæssaw*. Am ansicrwydd cyffelyb, cf. td. 59, *croft*, *groft*; Ch.O., 28, *grēu*, *crēu*.

17 **pryt . . . o uorwyn**, "the beauty of (any) maid", cf. 4, 7. ^{x Dr}

23 **Heueyd**, felly 13, 7, 22; 17, 27; 18, 2, 4, 6; 19, 4, 6; ond *Eueyd* 13, 17; 15, 28; 64, 10; cf. *Eueyd hir* 32, 20; 33, 16; *Euehyd Hir* 39, 1. Yn ôl Loth, yr un enw yw a *Himeid* yr Annales Cambriae (939), *Hyfeidd Hir* Llyfr Aneirin: os felly, ni wyddai ysgrifenyddion W.M. ac R.M. mo hynny. Eu dull hwy ar Hyfaidd yw *hyueid*, gw. W.M. 231, R.M. 107, 159, 308, *Maeshyfeid* yn R.B.B. drwodd: yn L.L. 245 hefyd ceir *hiueid*. Gellid troi *Heueyd* yn Hyfeidd trwy gymryd yr *e* gyntaf fel hen orgraff am *y*, gw. ar 2, 28; 4, 28; ac *ey* am *ei*, ond anodd credu na buasai'r ysgrifennydd wrth gopïo'r enw drosodd a throsodd, o'r diwedd yn ei adnabod, a'i droi i'w orgraff ei hun. Yn lle hynny, dyry R.M. *eueyd* 14 o weithiau, *eueyd* unwaith, *heueyd* deirgwaith (er gwaethaf mynegai Rhys-Evans!). Pe gwnaem yr enw yn dair sillaf, *Hefëydd*, neu *Efëhydd*, esboniai hynny'r darlleniad yn 39, 1, *Euehyd*, a byddai'n haws deall yr ansicrwydd parthed yr *h* ar ei ddechrau. Ar hynny, fodd bynnag, gw. mynegai L.L. lle ceir amryw enghreifftiau o barau tebyg, ag *h* a heb *h*, *Hedilbiu*, *Edilbiu*, *Helhearn*, *Elharnn*, *Hindec* (Indeg), *Hismael*, *Ismael*. Nid yw'r ffurf heb *h*, gan hynny, yn cau allan y posibilrwydd mai copïo peiriannol ar hen orgraff o *Hyfeidd* sydd yn y P. Cainc, ond y mae'r holl bwyntiau gyda'i gilydd yn gwneud

Radnorshire
(*Maesyfed*)

N

x ∴ It is partitive genit. after 'a welsei'
'the countenance of what he had seen of maid
& woman'.

Td. ll.

Hyfeidd yn ddarlleniad petrus iawn. Ag *Efeydd*, cf. *Afaon*; â *Hefeydd* cf. *Haf-gan*, neu'r enwau Galeg yn *Samo-*.

12 24 **ny mynneis**: yn aml ni threiglid berf ar ôl *ni, na*, os *b* neu *m* oedd ei gysefin, ond gw. 46, 7.

13 2 **y mae**, mai, gw. W.G. 448.

4 **oed**, gyda *d* lle gofynnir *t* yn orgraff arferol W.M., cf. *oet* ll. 6.

10 **tric yn iach**, "farewell!" Bellach gadewir y ferf allan, cf. *canu'n iach*.

16 **ymgueiraw**, gw. ar 10, 26, yma "ymbaratoi".

ar y ganuet, yn fanwl, gyda 99 eraill, ac yntau'n ganfed, gw. L. i, 382, cf. 25, 6, ymgueiraw a oruc Teirnon ar y *drydyd* marchawc a'r mab yn *petwryyd* y gyt ac wynt: yn ôl ll. 24, 25, *dau* gydymaith oedd gan T. heblaw'r mab. Ond nid yw'r ystyr mor fanwl â hyn bob amser; gw. R.B.B. td. xxxvi, ar y *ugeinvet* or kewri (ille cum viginti gigantibus).

18 **dygyuor**, llu, "concourse", gw. ar 1, 9; cf. 30, 26; 71, 19, 20.

19 **arlwy**, paratoad, yn arbennig at wledd, cf. 14, 11, a 15, 21.

holl uaranned y llys: L. "toutes les ressources de la cour", ond yn R.C. xxxviii, 170, esbonia *marannedd* fel "troupe", ct. L. 382-3. Ni all olygu'r olaf, gan na *threulir* llu, eithr yn hytrach "trysor, cyfoeth", gw. *Cy.* ix, 332; M.A. 160 a 28, *Ugein punt* oe uot e am rotes yn rot Oe *varannet* nym ditoles: 291a, *Eur* varanned, cf. B.T. 24, 26; 13, 2; 58, 9; 63, 5; R.P. 14b, 27; 33 a 19; 41 a 17; 96b, 39 (Mair, "em morynyon vu ae *marannedd*"—felly ni ellir cymeradwyo cyfieithiad Ellis-Lloyd "supplies of food"); 103 a 16; 104 a 21; 108 a 12; M.A. 152 a 55, Oi fawrwlad morad *maraned* Ym roded rified anryfed, 198 a 38; 223 a 18; 327a. Nid

Td. ll.

mar, mor "mawr" sydd ynddo—dyna gynnig Loth, L. 383,—tebycach mai gwreiddyn y Ll. *mereo*, cf. enw'r dduwies *Rosmerta*, os duwies ffawd ac ennill ydoedd. Yr ystyr a wedda orau yn gyffredinol yw "trysorau".

13 20 **kyweiryaw**: gw. ar 4, 12; 10, 26.

23 **y am hynny**, ar ôl y rheini; cf. 18, 17; 29, 7.

28 **cynted y neuad**, cf. 16, 9. Nid y porth ydoedd y cyntedd, megis heddiw (W.G. 170, "porch"). Rhennid y neuadd ("hall") yn ddwy ran, *uwch gyntedd* ac *is gyntedd*, gw. A.L. i, 388, Pan vynho y brenhin warandaw canueu, canet y pennkerd deu ganu idaw *ygynted y neuad* . . . ar bard teulu a dyly canu y trydyd canu *is gynnied y neuad*, = A.L. ii, 901, pencherd debet cantare primo duo carmina . . . in *anteriori parte* aule, i. in e chentet: postea barth teulu debet cantare tria carmina in *posteriori parte* id est. scoru [*is corf*]: 755, in anteriori parte aule. id est *huc kyntet* . . . in inferiori parte aule, id est, hyscoret [*is corf*]. Y *corf* (neu'r *celfi*) oedd y golofn yn y canol rhwng y ddau gyntedd: dyna pam y gelwir hwy *uchcorf* ac *iscorf*, gw. Lewis, G.M.L. *keluy* 64, *coref* 77, *kyntet* 104. Yn W.M. 229b, 230a, enwir hwy *gwaelawt-ty* a *gwarthaf-dy*. Fel y prawf A.L. i, 388, cyntedd y neuadd, heb ansoddair, oedd yr uchgyntedd, y rhan lle'r eisteddai'r brenin. Gweler ymhellach R.C. xl, 223-4, 363-4, ar *cyntedd*, a'r gair cyfatebol mewn Gwyddeleg, *cétad*.

14 1 **eneit**, mewn cyfarchiad fel hyn, "friend".

dos, "go" neu "come"; gw. W.G. 366, 368, S.G. 221 (*dos yma*), R.C. xxxvii, 43. Yma "go", fel y dengys yr ateb, "Nac af" (nid "Na ddof").

2 **eirchat**, "suitor, suppliant", un sy'n *erchi*, ll. 4, h.y. "gofyn" (nid "gorchymyn" fel Matt. iv, 3). At *archrhoir -iad*, terfyniad yn golygu gweithredydd, ac affeithir a i ei gan i gytsain, cf. *datgan*, *datgeiniad*. Collir yr i

Td. ll.

hon yn nhafodiaith a llawysgrifau'r De, felly *eirchat*, ll. *eircheit* 18, 28. Cyfystyr yw *negessawl* 16, 12.

- 14 11 **darmerth**, paratodau, gw. B. i, 36, Gw. *airimbert*.
- 12 **kynhewi**, cf. W.M. 212b, L.I.A. 111, aros yn ddistaw.
cany bu, gan na bu, neu'n well, gan nad *oedd* ateb a fedrai ei roi.
- 14 **uuscrellach**, y treigliad meddal ar ôl *bu*. Disgrifir Peredur, W.M. 61b, "a chyweirdeb *muscrelleid* aghyweir" ar ei farch, h.y. "clumsy, awkward". Soniwn am hen ŵr a fo'n llusgo cerdded, bron a methu symud, ei fod yn *fusgrell* iawn; cf. T.W.S. Heb. vi, 12, Val na bythoch *fuscrell*, m. *ddiog*, anescud; D.W.S. *muscrell*, slothfull; D. "tardus, ignauus", *synwyr m.* "tardum ingenium". Felly yma, gydag *ar y synnwyr*, "slower of wit, more stupid".
- 17 **tormynnawc** (L. "belliqueux"), amrywiad orgraff am *tormennawc*; rhoi y yn ôl arfer yr ysgrifennydd, am *e* yn ei wreiddiol; cf. M.A. 146b, Mae yntau orau un *tormennawg* | *Tormennoed* anlloed an llyw tiriawg | *Torfoed* eurdorch oed am eurdorchawg; 215, *tormennawc* dyet; 299b, Gwr twr *tormennawg*; 188b, Tryliw y ysgwyd ysgydwir yn *torment*; 201b, Gogyuurt *torment* gogyfyaw *toruoet* . . . Termud *torment* . . . teruysc *torment*; B.B.C. 63, tarw *torment*; 103, Goduryw a glyuaw . . . Teulu madauc . . . Mal turuw *tormenhoet* kinon . . . Mal gawr *toryw* teulu Arthur. Dengys yr enghreifftiau fod *tormenhoedd* yn gyfystyr â *torfoedd*, ac mai lluosog *torment* ydyw, "llu, byddin". Felly, "llyuddog" yw *tormennawc*, gŵr â lluoedd o filwyr at ei alwad. (Ni raid ystyried Lhuyd, A.B. 220c, *tormynogaeth*, "nobility", nac Ellis-Lloyd, rich *in herds*.)
- 18 **derw**, deryw, darfu; W.G. 352, "gan ddarfod iti ddweud".

Gracie

Td. ll.

- 14 20 **ny allaf ui arnaf**, rhywbeth fel "I can never bring myself to do what thou sayest".
- 22 **pa furyf uyd**, cf. 85, 20, pa furu *y* kehynt ; 22, pa furu *y* del.
- 24 **yth uedyant**, yn dy allu, o dan dy awdurdod ; hen ystyr y gair, gw. B. i, 30.
nyt oes . . . hynny, nid *yw* hynny. Ni ddefnyddir *oes* bellach, ond gyda thestun amhendant ; nid *oes dim o* hynny. Eto ceir olion arfer arall, cf. nid *oes yr un*, lle mae *yr un* "the one" wedi gwanhau i olygu "any" (cf. heb *yr un*, without *the one* or the other, without *any*) : *Computus*, B. iii, 256, ll. 6, ni *hois* ir loc guac hinnith, = ni(d) *oes y lle gwag hynny* ; ll. 14, cinnit *hoys* ir loc guac hinnuith ; W.M. 235b, hyd pan dywettych ti nat *oes hi* yn y byt neu ninheu ae caffom (R.M. nat *ydiw* y uorwyn honno) ; gw. W.G. 350.
- 15 3 **reodus**, rheidus, *ei* wedi troi yn *eu* dan effaith *u a'i* dilynai, cf. *gwneuthur* o *gwneithur*; *teulu* o *teilu*.
- 6 **y seith cantref hynn**, sef Dyfed, gw. ar I, 1, fel petai llys Rhiannon yn Nyfed ! Ond isod, dychwel Pwyll oddi yno *i* Ddyfed.
- 7 **launach**, ar ôl *bydei*, felly 16, 20 ; cf. ll. 8, uyd llawn, 16, 21.
gwedy byryer : ar *gwedy* fel cysylltiad, gw. W.G. 449 ; *byryer*, bwrier ; cf. 16, 20, *uyrit*, bwrid, W.G. 178.
- 11 **rydodet ymman** (R.M. *a dodet*). Nid *oes* angen *a*, *y* rhagenw perthynol gyda *ry*. Ar *ymman*, gw. W.G. 433.
- 13 **llad glwm** : un ystyr *i lladd* oedd "taro", cf. 55, 4, *llad* tan. Felly yma, *taraw* cwlwm, clymu'n sydyn, ar drawiad, cf. 17, 1.
- 14 **ar garryeu** (R.M. *garreyeu*), cf. 17, 2, lluosog *carrai*, Ll. *corrigia*, W.G. 87, 165. *bit*, bydded, felly ll. 16.
- 17 **diskynnent**, modd gorch. 3ydd llu., "let them attack, storm", canys un ystyr *i disgyn* oedd ymosod, *disgyn am*

Td. ll.

- ben*, rhuthro ar : B.T. 15, 6, naw ugein canhwr y *discynnant*; 18 kynan yn racwan ym pop *disgyn*; 40, 2, pan *discynnwys* Owein; B.A. 31, 13, pan *esgynnei* baub ti *disgynnut*, "when everybody was retreating, thou wouldst advance to the attack", gw. *diskynneit* "attackers", 43, 6.
- 15 18 **madws**, amser, adeg, llawn bryd, cf. Dr. Morgan, Ps. cii, 13, Ti a gyfodi ac a drugarhei wrth Sion, canys *madws* yw trugarhau wrthi, oherwydd dyfod yr amser nodedig; gw. B. iv, 341.
- 23 **eidawaf** (R.M. *adawaf*); cymysgwyd dwy ferf, *gadaf*, *adawaf* "leave, let, allow", gw. C.L.L.L. 16; W.G. 381. Ffurf ar yr ail sydd yma (nid ar *addawaf* fel y deil Ellis-Lloyd); gwrthyd Rhiannon ganiatâd i roi'r darpar i Wawl.
- 24 **ynteu**, "then"; ond yn ll. 27; 16, 3, Pwyll *ynteu* "and Pwyll", neu "P. on the other hand".
- 25 **llys hon**: benywaidd oedd *llys* gynt yn y De a'r Gogledd, fel y dengys enwau lleoedd. Ceir Llys Wen ym Môn a Sir Frycheiniog.
- 16 3 **Annwn**, gw. ar 2, 26. Aeth *-wfn* yn *-wn* am fod *w* ac *f* gynt yn debycach i'w gilydd nag ydynt heddiw; cf. *dwfr*, *dêwr*.
- 5 **bratteu**: benthg yw *brat* o'r Wyddeleg. Dyry Dinneen *brat láime*, cadach poced; *bratog* "a rag", heb sôn am *brat* "mantell" (a etyb i *brath-* yn *brethyn*).
- trwm** (R.M. *trymyon*), nid "heavy" ond "wretched"; defnyddir *lle trwm* am le *trist* a digalon, tŷ galar neu'r cyffelyb.
- 6 **lloppaneu**, cf. *a'r loppaneu* 17, 4; M.A. 343b, *lloppan lleipr* = Pen. 16, lloppan lleippredic. Y peth tebycaf iddo, hyd y gwn i, yw'r Gw. *lópa*, *loipin* "a rag, a stocking without the vamp, worn without the shoe" (Dinneen), yr hyn a alwn ni *bacsiau*.

Td. ll.

- 16 7 **y bot**, enghraifft o y fel rhagenw lluosog = *eu*, cf. 21, 17 ; 46, 16.
- 10 **Duw a ro** (R.M. *rodo*), pres. dibynnol 3ydd un. *rhof*, i ddatgan dymuniad, cf. Duw *catwo* (cato) pawb ! Felly ll. 12, a *dalo*.
- 14 **kyuartal**, "moderate, modest", heb ofyn gormod ; cf. Ll. A. 42 (y rhai da) a chereddyat araf *kyfuartal* (204, in incessu *modesti*) ; (y rhai drwg) yn *agkyfartal* y chwerthinat (204, risu *immoderati*) ; Pen. 14, 11, dwyn tennyn kewarch . . . rwymaw e groth e *gyuartalu* e uwyta (rhag iddo fwyta gormod !) ; Y.C.M. 97, cledyf . . . y *kyuartalaf* y hyt ae let "best proportioned" ; B. ii, 23, keis bop peth *kyfartal* a mogel rac gormodder (quod nimium est fugito) : A.L. ii, 646, dywedut yn *gyfartal*, fal na bo rhy uchel na rhy issel.
- 20 **yr**, er, "in spite of", felly ll. 22, *yr a dotter*.
- 25 **ceimat**, "champion", o *camp-iat* (gw. ar *eirchat* 14, 2) ; o *camp* "exploit". Cymar iddo yw *camhwr*, Gw. *camper* "champion", Hen. Lyd. *camp-gur*, cf. *camhwri*, *camhawn* ; o'r un fan y daw'r Ffr. *champion*, gw. L. i, 383.
- 27 **a chyodi**. Sylwer fel y mae'r gyfres o ferf-enwau yn awgrymu sydynrwydd y symudiadau.
- 17 4 **yn y carchar e hun** (R.M. *garchar*). Dywed Loth. i, 383, "Dans l'esprit du redacteur du L. Rouge, *carchar* indique peut-être ici *le sac*", ond nid oes raid gwneud y god i ymestyn cymaint a hynny. Unigol, fel rheol, yw *pawb*, a chyfeiria *e hun* nid at Wawl ond at *bawb* (neu *bob un*) o'r nifer a ddaeth gydag ef—dyna'r gystrawen naturiol. Nid yw G. nac Ellis-Lloyd chwaith yn gywir wrth gyfieithu, "and cast them into his own prison". Nid Gwawl oedd biau'r llys. Camddeallwyd *carchar* ; yma, nid "prison" yw ond "bonds, fetters" (cf. L.L. 220, in *ferreis carceribus*), gw. Pen. 44, 6, rac trymhet e *karchar heyrn* essayd arnaw : S.G. 102, llionel y vrawt oe

Td. ll.

unbeis *yingkarchar ar gevyn hacknei* ae dwylaw yn rwym geyr y vronn : R.P. 9 a 25, a dynn vyn troet o *garchar*, cf. ll. 22 a dynn vynn troet o *gadwyn*. Felly *carhar* mewn Cernyweg weithiau, e. e. Stokes, *Beunans Meriasek* 3686, the orthys an *carharow* / prest me a den, "from thee the fetters at once I will draw", cf. A.C.L. i, 106. Defnyddir *carchar* o hyd yng Ngwynedd am fath o lyffethair. Yn y testun, daliwyd pawb o wŷr Gwawl, a rhwymwyd pob un ar ei ben ei hun, nid rhoi'r cwbl mewn cell gyda'i gilydd.

- 17 5 **yspeil**, o'r Ll. *spolium*, "croen" i ddechrau, yna'r dillad a'r arfau a dynnid oddi am elyn gorchfygedig ; cf. *spolio* "to strip, rob of clothing". Yn Pen. 14, 21 ; Ll.A. 130, 24, golyga *yspeil* groen ; *disbeilio* cleddyf yw ei noethi, ei dynnu o'r wain, Pen. 14, 114 ; M.A. 478b ; W.M. 118b. Yma defnyddir *yspeil* yn ddirmygus am y carpiâu a daflodd Pwyll ymaith, *y amdanaw* "oddi amdano".

9 **chware, gware, guarywyt**, gw. W.G. 29.

- 12 **broch yg got**. Rhydd D. dan *gwarau* yr hyn a ganlyn : "*gwarae broch* ynghod, lle y rhoe'r trechaf y llall mewn cod", eithr nid hynny'n unig yw'r *chware*, nid gwaith Pwyll, ond gwaith ei wŷr yn rhoi blaentroed neu fionnod i ddyd sydd eisoes mewn cod, gan ei alw'n froch, a chymryd arnynt mai broch ydoedd. Bygythia Dafydd ap Gwilym os daw Gruffudd Gryg i'r De, "Ti fydd . . . *Broch yng nghod*", D.G. cxxv, 46 ; ond ni ddywed beth oedd rheolau'r chware. Un dull o ddal broch ydoedd rhoi sach yng ngenau ei ffau pan fyddai allan y nos, a'i glymu pan redai'r anifail i mewn iddo. Y mae lle i gasglu mai sachaid aflonydd iawn fuasai hwnnw am ysbaid, a gellid dychmygu mai â throed ac â phastwn y ceisid llonyddu'r creadur truan ffyrnig. Dyna'r chware gwreiddiol. Mewn oes pryd y dallai tywysogion eu

Td. ll.

carcharorion (cf. R.B.B. 324, 25) nid yw'n anhygoel ddarfod i rai ddarganfod y medrid cael difyrrwch tebyg wrth roi gelyn mewn sach, a'i gystwyo, wrth iddo wingo am ryddid. Nid *badger-baiting* cyffredin (gw. Chambers *Enc.* dan *badger*) sydd yma, ond camdrin dyn fel pe bai froch. Hyn oedd anghyngor Pwyll a'i wŷr (gw. 64, 10).

- 17 16 **dihenyd:** cf. 20, 13; gw. Ll.D.W. 129, ay dyhenyd ew yn ewyllys yr argluyd nay grogy nay losgy a uynno. *Dienyddu*, neu *dienyddiaw*, oedd rhoi dyn i farwolaeth yn gyfreithiol, eto ceir enghreifftiau o *dihenydd* am farwolaeth, megis B.B.C. 19, 9; M.A. 198b, 16; D.N. 47, Na *dihenydd* ond henaint. Yn Skene, F.A.B. ii, 291, yr ystyr yw "difa", wrth sôn am aur ac arian, "mor eu diuant eu *dihenyd*"; a "ffawd" yn W.M. 68 a 31. Yma *nyt oed d. arnaf*, "it would not be a (fitting) death to inflict on me". Ar *oed* gw. ar 9, 9.

got (R.M. *cot* yn gywirach).

- 21 **perthyn arnat llonydu.** Goddrych neu destun y ferf yw *llonydu*, gw. W.G. 376, ond cyfieithir "it behoves thee to satisfy". Mewn neithior disgwylid rhoddion hael gan y priodfab, a thyrrai eirchiaid yno; cf. ar neithior Geraint ac Enid, W.M. 204b, A thrannoeth y *llonydawd* arthur yr *eircheid* dros ereint o didlawd rodyon. Wedi i Eraint gyrraedd ei gartref, llonyddir yr eirchiaid yno hefyd, 207a, b.

cerdoryon, gw. 18, 24. Yno gadewir yr *eircheit* heb eu crybwyll, am y rheswm mai'r un rhai oeddynt a'r cerddorion; cf. B.B.C. 61, A.L. ii, 18, Pop penkerd telyn a dele y kan e kerdoryon telyn guedy ed emadauoent a telyn raun a mennu bod yn kerdaur keuey[th]as ay uod en *eyrcyat* pedeyr ar ugeynt [aryant yn] y ober: ac a dele o pop dohouod or a kahoent nac o *erchy* nac o kauarus neythaur ran deuur keny bo en e lle os kouyn

Td. ll.

- sef eu kauarws neytyaur pedeyr ar ugeynt or neythaur [gyntaf a vo y wreic] a hyne yr beyrt.
- 17 23 **cedernit**, yn y frawddeg hon, "llw, wedi ei gadarnhau â meichiau".
- 27 **gynnym**, gw. ar *wyd*, 2, 28.
- 18 1 **meicheu**, llw. *mach*, "surety"; gw. A.L. i, 128.
- 6 **riuaw**, nid eu cyfrif, ond gwneud rhestr ohonynt, eu dewis erbyn eu henw. Yn H.G.C. 108, 110 (*riuaw* boned a charant), "give an account of"; yn R.P. 20 a 40 (ny *riuaf* y eillyon), 155 a 19 (gwr ny *rif* kebydyaeth) "make account of, esteem", cf. 24 a 8, 25 a 6, 168 a 20.
- 11 **ennein**, "bath". Amrywia ag *enneint*, cf. 87, 20, 22, 23, 24. Gan fod ymiro ag ennaint yn rhan o'r ymdrochi, defnyddiwyd enw'r rhan ar y cyfan, cf. *diarchenu*.
- 12 **gan dy gannyat** (R.M. *gennyat*), "with thy permission", cf. 32, 18, adaw y llys, heb ouyn, heb *ganhyat*; 85, 28, mi a'th *ganhadaf* di e ymdeith. O'r arddodiad *cant* a'r ferf *gad-u*, ceir *canh-iadu*, *can(i)adu*, Y.C.M. 76, *kanyhadu*; cf. C.Ch. 55, mi a *ganhadaf* vgykrogi. Trwy roi *-ha-u* at *caniad* (*caniad-ha-u*) cafwyd *caniatau* (cf. Y.C.M. 60, onyt ti a *ganyatta* ym yr ymlad hwnn . . . minneu a *kanyattaf* ytti) a lluniwyd *caniatâd* o'r ferf newydd. Ct. *cennattaau*, *kannattaaf*, R.M. 117, *kennattaaf* W.M. 238a, "send a message to, send for", o *cennad* "messenger". Cymysgwyd y ffurfiau drifflith draflith.
- 16 **y neuad ynteu**: gw. ar 15, 24. Gan mai benywaidd yw *neuadd*, gwelir mor wan yw grym yr *ynteu* cyn gynhared â W.M.
- 17 **y am hynny**: "besides".
- 21 **yr ystauell**: ar wahân i'r neuadd fawr lle'r oedd y gwŷr, yr oedd ystafell i'r frenhines a'i morynion. Yno yr oedd gwely'r brenin. Gwaith y *gwas-stafell* oedd gwneud gwely'r brenin, a mynd ar ei negesau rhwng y neuadd a'r ystafell, A.L. i, 32.

Td. ll.

- 18 26 **a . . . a:** "both . . . and".
- 27 **tra parhao:** ar ôl y cysylltiad *tra* ceid y treigliad meddal, megis yn 19, 3. Nis dangosir yma.
- 28 **dodi gostec,** "proclaim silence". Gwaith swyddog arbennig, y *gostegwr*, oedd "*gostecu* a tarau e post uc pen er efeyryat" yn y neuadd. Mewn gorsedd gyfreithiol, wedi i bawb eistedd, "yna y dyly y rigill *dodi gostec*, sef yw hynny, *dodi nawd*, a gwahard na wnel neb anostec na thermysc o vywn yr plas kyfreithawl", A.L. ii, 360.
- 29 **dangos.** Nid yw'r gystrawen yn glir. Berf anghyflawn yw *dangosaf*, h.y. rhaid cael gwrthrych gyda hi. Yma arferir y berfenw fel petai'n gyflawn = *ydddangos*, neu ynteu collwyd ar ei ôl rywbeth fel *beth a fynnynt*.
- 29 **a menegi udunt,** "and told them", defnydd cyffredin o'r berfenw, mewn cymal lle nad oes angen dangos rhif, person, amser, oherwydd bod y ferf yn y cymal o'r blaen (*cyfodes Pwyll*) yn gwneud hynny; felly *peri* ll. 28. Ni raid dilyn Ellis-Lloyd yma. Cododd Pwyll: parodd ddodi gosteg; a mynegodd, etc.
- 19 5 **auore** (R.M. *auory*); gw. W.G. 437.
- 6 **rwydhao ragot:** pres. dib. 3ydd un., yn datgan dymuniad, "May God make thy path easy!"; cf. C.Ch. 19, diolwch y duw vot yn *rwyd racdunt* eu pererindawt ac eu *hynt* . . . diolwch y duw bot yn *rwyd y hynt racdaw*.
- 13 **dygyuor,** gw. ar. 1, 9.
- 15 **nyt edewis Riannon.** Y goddrych neu'r testun yw *na gwr na gwreic*; a *Riannon* yw'r gwrthrych, cf. R.M. o hynny *nyt etewis riannon neb*.
heb rodi rod enwauc idaw: cf. 27, 9, nyt aeth *heb gynnhic ydaw* y tlysseu teccaf, h.y. nid aeth Teirnon ymaith heb fod y tlysau tecaf wedi eu cynnig iddo. Felly yma, nid aeth gwrda (na gwreigdda) oddiwrth Riannon heb fod rhodd wych wedi ei rhoddi iddo (neu iddi); gw. nodyn yr Athro Henry Lewis (B. iv, 186, 19 (ch)).

Td. ll.

- 19 15 **enwauc**, gwerth sôn amdano.
- 16 **cae**: amrywia'r ystyr; gw. B. i, 50-53. Yma "brooch, clasp, buckle, fibula".
- 19 **gwr kymeint a gerynt**: gw. ar 12, 8.
- 20 **brawdaueth**. "In accordance with ancient custom, royal infants were not brought up at the court, but at a very tender age were placed under the care of foster-parents, to whom they became united by lifelong ties of affection. 'Foster-father' and 'foster-brother' were terms of respect and endearment, while kings' sons who were brethren by blood grew up strangers to each other, knowing each other as brothers only by repute. Moreover, as the foster-parents were uchelwrs of wealth and influence, each one a power in his own cantref, every claimant for a share in the division of the realm had behind him the weight of the support of some locality, desirous of honour for its favourite prince", Lloyd, *History of Wales*, i, 310, cf. ii, 549-50, am enghraifft; Gir. Cambr. vi, 212 (*Descr.* ii, 4); Arg. *Everyman*, 193-4 Isod, td. 27, ar ôl dwyn Pryderi adref i Ddyfed, rhoir ef ar faeth at Bendaran Dyfed; cf. 37, rhoddi Gwern ar faeth. Yr oedd gan Bwyll frodyr maeth ymysg ei ddeiliaid, a brodyr maeth Matholwch sy'n edliw iddo ei sarhad, 37, 23; gw. isod, 25, 4, am y modd y disgwyliid i'r mabmaeth dalu'r pwyth.
- 20 **a'e dyuynnu attunt**: hawl y deiliaid oedd gorfodi'r arglwydd i ysgar a'i wraig, oni byddai plant iddi; gw. 21, 15.
- 21 **Presseleu**: cedwir yr enw ym Mynydd *Prescellly*, cadwyn o fryniau yn Sir Benfro. Efallai mai *Prys* yw'r elfen gyntaf ynddo; cf. B.B.C. 57, 15, na chlat im *prisc* (odli â *kyfruys*) = Pen. 3 (B. iv, 127) *prys*; D.N. 29, Aml dalennav prennav mewn *prys*; M.A. 154a, twrf torredwynt am *brys*. Benthyciwyd i'r Albaneg, fel

Td. ll.

preas (R.C. xlii, 372). Ei ystyr ydoedd "llwyn, coedwig", gw. D. a T.W. ar *arbustum*, a cf. *gwinllan goed* yng Ngwynedd. Rhydd Vinogradoff, *Survey of Denbigh* 96. *Prees* a *Pres*. am *Tre-brys*; *Prestlecot* (=Tre-pys-llygod! yn O. Jones, *Cymru*, map Dinbych); cf. hefyd *Pres-addfed*, *Prysaddfed* ym Môn, I.D. 48, *Prysaddfed* yn gyffredin / Mwy a *prys* am hap ar win. Am yr ail ran, *Seleu*, Selyf, Cymreigiad yw o *Salomo*, Solomon, gw. ymhellach Owen's *Pembrokeshire*, 448.

- 19 22 **ni a wdom** (R.M. *wdam*) **na bydy**. Cyfieithir gan G. ac Ellis-Lloyd, "we know that *thou art not*"; newidiodd Loth y testun i *ny wdam ni na bydy*, gan gymharu 35, 4, *ni wn na bo*; 70, 11, *ni wydat na bydynt* (R.M. *beynt*) *eur*, a chyfieithu "nous ne savons si tu vivras". Ymddengys hynny yn amhosibl, canys dengys ei enghreifftiau ef ei hun fod yn rhaid cyfieithu'r negydd yn y ddau gymal i'r frawddeg, "we do *not* know that you will *not* be", ac ni rydd hynny'r ystyr gofynnol. Y mae dwy ffordd i ddeall *bydy*: (1) fel amser dyfodol, (2) fel amser presennol arferol; yn ôl (1) "we know that you will not be". Ond sut y gwyddent hynny? Yn ôl (2) "that you are not and will not be of the same age as some in this country", h.y. awgrym cynnil bod rhai ieuangach na Phwyll i'w cael yn y wlad, ei fod yn camu ymlaen mewn dyddiau. Os derbynnir (2), ni raid newid y testun, a gellir cyfiawnhau *bydy* (ac nid *wyt*) yn y frawddeg, os cydir yn dynn gyda *cyfoet*. Nid oedd ac ni fyddai Pwyll yn gyfoed â rhai; nid am ennyd awr yr oedd y sylw'n wir, ond am ei oes.

28 **digawn**, yn ystyr *dichon* heddiw.

29 **oedwch**: cf. 20, 1, *oet*; yn union fel *adjourn*, gohirio hyd amser penodedig.

- 20 7 **hwech wraged**: gw. B.M. 21 ar *trywyr*; ceid enw lluosog gyda rhai rhifolion, megis *tridiau*, *seithwyr*, etc.

Td. ll.

20 8 **eisswys**, eisoes, "nevertheless", nid "already" fel heddiw. Am *oe* ac *wy* yn ymgynwied, cf. *moe*, yn L.I.A. am *mwy*; *moethau*, *mwythau*; yr arddodiad a'r rhagenw *oe*, *wy*, C.L.L.L. 20, W.G. 98.

12 **colles**: weithiau, fel yma, berf gyflawn yw *colli* "to be lost"; weithiau berf anghyflawn "to lose".

13 **bychan a dial oed**: bychan o ddial *fuasai*; gw. 7, 16, a hefyd 9, 9; 12, 9.

lloski, gw. ar 17, 16, cf. L.L. 79, Pepiau (Peibio), brenin Erging, yn bygwth llosgi ei ferch.

16 **gellast**. Esbonnir *gellgi* gan D. fel "canis venaticus, c. sagax, c. melitaeus, Molossus". Yn A.L. i, 38, gwahaniaethir rhwng *gellgwn* a *milgwn* (*kellky*, *kellchun*, *mylky*, *mylchun*); "covert-hounds", a "grey-hounds" yn ôl Owen, td. 39. Yn ôl A.L. i, 280-2, gwerth *gellgi* oedd ddwywaith gwerth *milgi*, ac uwch oedd braint cynydd (heliwr) gyda'r cyntaf; "Pob kynyd *gellgun* a geiff ran deubr o gynnydyon y *milgun*", i, 378. Etyb *milgi* i'r Gw. *milchiú* "greyhound", Windisch, W. 691; ond "staghound" oedd *gellgi*, gw. Lewis, G.M.L. 153; M.A. 729a, megis *gellgwn* neu *gallgwn* yn hely ac yn dilyt *carw* blin; C.Ch. 148, hen *ellgi*; W.M. 79a, clywei *ellgwn* yn kyfodi *hydgant* . . . y *gellgwn* yn kymell yr *hydod* blin or coet . . . y *milgwn* goreu . . . ar glewhaf ar *hydod*. Dengys yr enghraifft olaf fod *milgwn* yn lletach gair na'r llall. Y mae *mil* yn air digon eang i gynnwys amryw fathau o anifeiliaid a helid (cf. ystyr S. *deer* gynt). Yr elfen gyntaf yn *gellgi* yw *gell*, nid *gall*, canys er y troesai *gall* yn *gell* o dan affaith *i*, ceir *gell* hefyd heb *i* yn dilyn yn *gellast*. Nid yw *call-gi* ond ymgais i esbonio'r enw (cf. c. *sagax* D.), ac felly teg yw cydio'r *gell* hwn a'r *gell* sydd yn B.A. 13, 16, "gell e baladyr *gell gellach* e obell", lliw paladr gwayw, lliw cyfrwy; cf. Gw. *gel*

Td. ll.

(? Llyd. *gell*, Henry, L.B.M. 131). Gwell gennyf hyn na meddwl am *gallicus canis*, A.L. ii. 789, 824, gan mai *molossus* a roir yno am *gellgi*.

20 20 **taerwn arni e hun**, cyhuddwn hi ei hun o'r peth, cf. 21, 2, na yrrwch geu *arnaf*.

ni byd . . . wrth, gw. Ch.O. 36, B. i, 106, ar *bod wrth* "to yield to"; gyda'r negydd, "to oppose successfully". Ni fedrai gair moel Rhiannon wrthsefyll gair chwech, yn enwedig a'r esgyrn a'r gwaed yn dystiolaeth chwanegol i'w herbyn.

25 **na ouyn di yni y mab**, "Do not ask us about thy son"; cf. C.Ch. 141, Bown a *ofynnawd Josian idaw*. Y mae, heb ynteu, wedy y rodi y vrenhin kyuoethawc; isod., ll. 29, *na hawl ef ynni* (cf. 5, 26).

25 **namyn eleisseu**: "there is nothing of us except bruises", h.y. yr ydym yn gleisiau i gyd. *dyrnodeu*, am effaith y dyrnodiau, "briwiau".

27 **milwraeth**, gallu i ymladd, nerth; cf. W.M. 59b, o *uilwryaeth* a ffedestric ef a gymhellawd yr ewiged y gyt ar geiuyr y mywn; hefyd 61b.

29 **diffetheeist**, o *difetha + eist*, cf. *bwyte-aist*. Troes *f* yn *ff* o flaen *th*, efallai; eto ceir *ff* weithiau am *f*, cf. 21, 25, *gyffranc*, B.B.C. 26, 6, *goffalon*.

du hun, dy hun, cf. *uu hun*, 25, 14; *y* yn troi'n *u* o flaen *u* gron; cf. *mynud*, *munud*; ct. *dy* uab, heb *u* yn dilyn.

21 2 **geu**, celwydd (Gw. *gó, gáu*, G.C. 2 33), croes i'r *gwir*. Gan fod y diniwed yn cael ei gyhoeddi'n eirwir yn ei ddadl mewn llys barn, a'r troseddwr yn gelwyddog (*geu-awc*; Gw. *goach*; Cern. *guak, goc*) magodd *gwirion* a *geuog* yr ystyron "innocent", "guilty"; cf. B. ii, 29, beth vont ay *gwirion* ay *geuawc*. Yr ystyr gyntaf sydd yn Y.C.M. 22, os *gwir* dy ffyd di goruot *arnaf* i, os *geuawc*

Td. ll.

goruot arnat ti. Heddiw collwyd yr *g* gysefin, ond cf. *geuogrwydd* gwaedlyd pechod, yn *Yr Ymarfer o Dduw-ioldeb*, 1675, td. 40.

gyrru geu. Yr oedd i *gyrru*, *gyrru ar*, ystyr gyfreithiol, "to accuse of, charge with", G.M.L. 185, Ll.D. W. 79, Sew yu *gyrr* cyureythyaul llu y perchennauc ar y uot yn wyr [= *wir*] ar y dyn racu y lledrat . . . ket *gyrru* dyn ny bo perchennauc lledrat *ar* arall . . . cany dyly namyn perchennauc *gyrru* lledrat. Cf. hefyd Ch.O. 12, *honni geu* a chamwed *arnadunt*.

- 21 3 **yn eu**, yn gelwydd.
 4 **ym kyffes**, "by my confession", cf. L.G.C. 120, 'm Gwynen; 468, 'm Iago, W.G. 412, *ym*=*myn*.
 5 **drwc**, yn gyffredin "evil", weithiau "harm", cf. S.G. 115, a phan weles bwrt y vrawt yn *didrwc* "unharméd"; weithiau "blame", cf. *cael drwg* "to be blamed". Yr olaf sydd yma, "We will not take blame upon ourselves for anyone", cf. ll. 6, "you will come to no harm, by telling the truth".
 ny hunein, ein hunain; gw. W.G. 275.
 7 **y wirioned**, benywaidd gynt, bellach gwrywaidd.
 11 **y damwein hwnnw**, gw. S.E. ar yr amrywio mewn cenedl.
 13 **gwneuthur kynnadeu** (R.M. *kennadeu*), "make representations to". Anodd esbonio *cennad*, ond gw. Loth, V.V.B. 64, *cannat* glos yn Eut. ar Ll. *vas, vadis*; Cern. *cannas* "messenger"; Llyd. *kannad*. Yn y testun y mae *gwneuthur c.* fel petai'n gryfach nag *anfon c.*, ac wrth gofio mai enw benywaidd oedd *cennad* gynt, hyd yn oed pan gludai dyn y genadwri (gw. Ll.A. 111) cynigir y cyfieithiad uchod. Cyferfydd y gwyrda i ddewis cynrychiolwyr, ac yna eu hanfon at Bwyll.
 14 **cyflauan**. 1, trosedd, "crime"; cf. 43, 22; A.L. ii, 60, ny dylyir dihenydyu alltut am y *gyflauan* gyntaf.

Td. ll.

- 2, briw "injury", A.L. i, 260, *kaflauan* a unel tan dyn ar cnaut dyn arall; ii, 36, brathw dnyon new ar wneythwr *kywlawanew* ereyll, R.M. 219. 3, dyrnod "blow", A.L. ii, 576, Tair cyflafan ni ddywygir; lladd pysc, a llad dyfyrg ia lladd costoc tom; ii, 326, Teir kyflauan nyt oes sarhaet amdanunt: vn yw *dyrnnawt* mab kynn y uot yn oet kyfreithawl, a *dyrnawt* o eidiged kyfreithawl, a *dyrnawt* o anuod; R.M. 258, W.M. 75b. Ni fedraf dderbyn ystyron Loth i'w enghreifftiau yn R.C. xxxii, 305.
- 21 14 **ar y wnaethod:** gw. ar 7, 9.
- 16 **plant . . . y uot,** nid *eu bot*. Efallai bod hyn o blaid syniad Rhys y gall *plant* weithiau fod yn unigol, ond cf. W.M. 227a, kwt *ynt plant*; 227b, kelu dy *blant*, er mai am un mab y sonnir. Ceir y am *eu* uchod, 16, 7, ond y unigol sydd yma, fel y dengys y treigliad.
- 19 **athrawon a doethon,** i geisio darganfod y gwir, ond yn ofer, er gwaethaf R.B. 1139, *Athrawon* a uolir o doethineb. A chymhendawt a goruchelder kyfreitheu. A chanon a dyfynder ethrylithyr a cheluydodeu. A budugolyaeth yn amryssoneu.
- 22 1 **Wynt,** Gwent; gw. ar 2, 28. Rhennid yn ddau gantref, Uwch Coed, ac Is Coed; gw. Lloyd, *Hist. of Wales*, 278, "Gwent . . . the region enclosed by the Usk, the Wye, the Monnow and the sea. A great forest, of which a large portion still remains under the name of Wentwood, divided the low-lying tract along the Bristol Channel from the northern uplands and thus parted the realm into Gwent Iscoed and Gwent Uchcoed".
- 2 **Teirnon** (yn R.M. *teirnyon* unwaith, *teirnon* 22 o weithiau), cf. *Teyrnon* W.M. 232b, B.T. 34. Ymddengys i mi mai'r un gair ydynt, ac efallai y medrid esbonio *teirn-* fel ffrwyth copïo hen lsgr. Ar *teyrn* mewn enwau,

Td. ll.

gw. Rhys, W.Ph. 32-3. Ond nid yw hanes *teyrn* heb ei anawsterau ieithegol ; gw. W.G. 16, a *teyrnas*, *ternas*, *tyrnas* ; B.B.C. 77, *teernon*, *trisill*. Oddiwrth *Teirnon* y galwyd *Nant Teyrnon*, tua dwy filltir o Gaerleon ; yno y codwyd mynachlog *Lantarnam*, Lloyd, H.W. 600, n. 138, cf. *Nant Carfan*, *Llan Carfan*, *td.* 206, n. 52 ; L.L. 336, *Lantony*, 409a *Nant Hodni*.

- 22 2 **Twryf Uliant**, felly 24, 11, R.M. 20 ; *Toryfliant*, 27, 7, R.M. 24 *toryf uliant* ; W.M. 232b, *twr bliant* ; R.M. 109 *twryf bliant*. Amwys yw'r naill elfen a'r llall ynddo. Cymer Rhys *twryf* fel "noise, thunder", ac felly Loth, *Arth. Leg.*, 283n., L. i, 22 ; ond gall feddwl hefyd *toryf* (gw. Ch.O. 34, B.T. 3, 16 ; Y.C.M. 22, y kyuyt *twryf* y meirw), a digwydd yr enw gyda'r ffurf *toryf*. Cymer Rhys yr ail elfen fel *liant*, *lliant*, ac esbonia'r cyfan fel "Thunder-flood" neu "Thunder of the Waters", enw addas i *Indiad Coch*. Ystyr *bliant* yw math o ddefnydd tenau, hardd ; daw o'r Saesneg Canol *blhant* ; gw. S.E. am enghreifftiau da ; Parry-Williams, E.E.W. 59 ; Loth, L. ii, 7. Gwrthyd Rhys ystyried "noise of linen" fel ystyr bosibl (er bod *siffrwd sidan* yn arwydd o foeth !). Dylid meddwl hefyd am ystyr arall *twrf* ; rhoddai hynny "lu sidanog", disgrifiad fel *Gosgordd-fawr* am arglwydd arall. Ond os yw yn wir hen, anodd derbyn *bliant* fel yr ail elfen ynddo, mwy nag yn *Gwenlliant* (er W.G. 181, lle cydnabyddir yr anhawster i *nfl roi null*). Hefyd, medrir deall sut y daethai *bliant* i mewn i hen ansoddair a aethai'n dywyll ei ystyr, mewn oes yr oedd y defnydd hwnnw ar arfer. Heblaw hynny, gallai orgraff ambell lsg. helpu'r cymysgu, canys ceir *fu*, *fv* am *f* weithiau megis yn Ll.A. 106, *kyfuaruot*, 107 *dwfuyr*, *gyfuerbynn*, 137, *diodefuafi*, *diodefuei*, *diodefuawd*. Ceir olion y math hwn o orgraff yn R.M. 2, *nyfuarchaf* (bai wrth gopio *nychyfuarchaf*) 3, *kyfuanned*, etc. Hawdd, felly, fuasai

Td. ll.

camrannu *Twryfuliant*, *Toryfuliant*, a gweld ynddo'r enw cyffredin *bliant*. Nid yw *twr bliant* W.M. 232b yn cefnogi *bliant*, gan na fedrir meddwl am dŵr o'r deunydd; rhaid darllen yno *twrb-liant*, gyda *twrb* yn orgraff gwir hen am *twrf*. Ond nid wyf yn glir ar ystyr fanwl *lliant*, gw. D. arno, ond cf. B.T. 1. 18, pan daw nos *alliant*; 21, 10, *eurlliant*; 35, 7, Pwy enw y teir kaer, rwg *lliant* a lŵer; 44, 8, ar lan *lliant*; M.A. 142b, gwylain yn gware ar wely *lliant*; ceir *mor lliant* R.P. 166a, 172b, B.A. 8. Cyfystyr yw â *môr* weithiau, bryd arall, "llanw, eigion, llifeiriant". Gan mai yng Ngwent y lleolir Teirnon, gall bod yma gyfeiriad at yr hyn a ddigwydd yn Afon Wy, a Hafren, y llanw yn gorchfygu'r afon gyda *thwrf*; S. bore, *eagre*: "When a river expands gradually towards a very wide mouth, and is subject to high tides, the spring flood-tide drives an immense volume of water from the sea into the river; the water accumulates in the estuary more rapidly than it can flow up into the river; and thus there is gradually formed a kind of watery ridge stretching across the estuary and rushing up towards the river *with great violence and much noise*", Ch.E.. Felly rhuthr Teirnon yn y gad, cf. B.B.C. 75, 9.

- 22 5 **moei**, bwriai ebol; ll. 14 *moi*, y berfenw, gydag *ar* (A.L. ii, 194, a *moi* or *cassec ar* ebaul ac eboles), yn union fel *esgor ar*.

un geir, h.y. ni wyddid dim o'i hanes.

- 7 **llibin**, yn ôl L. *nonchalant*, careless; E.-Ll. "unfortunate". Ond ei ystyr arferol sydd yma, sef llesg a gwan, "listless, spiritless"; cf. R.M. 270 marchawc pendrwm go athrist . . . llibin; S.G. 222, gwas ieuanc . . . ac edrychyt ll. ganthaw ae wyneb tu ar llawr; Y.C.M. 106, eu kanlyn yn ll. (*lento gradu*); A.L. i, 782, meuhl uethyant gwr; bot yn dryc carwr ac yn *llibinwr* yn dadleu; R.B.B. 97, atnewydu y kaeroed ar kestyll

Td. ll.

yn y lle y bydynt yn *llibinaw*, h.y. gwanhau ; fel Y.C.M. 69, o dolur y dyrnawt *llibinaw* oll ; gw. Arch. Brit. 61, ar *frigidus*.

- 22 8 **yn gadu heppil** (R.M. *yn cadw eppil*). Gwell yw W.M. ; nid *cadw* yr oeddent ond colli. Ystyr *gadu* yma yw "to let go" (cf. *dyadu*, ac ystyron Ll. *mitto*, *permitto*), ac aralleirir yn *heb gaffael yr un*, gw. W.M. 216, ar 33, 13.
- 9 **peth**, pa beth, rhagenw gofynnol ; gw. W.G. 290, 311.
- 10 **dileith**, dinistr, distryw, marwolaeth, o wraidd *di-le-af* (berfenw, *dilein*, gw. V.V.B. 103 ; cf. *dwyreaf*, *dwyrein*) trwy chwanegu *-t* (cf. Ll. *reg-o*, *rect-*), cf. L.L. 144, a tempore mortalitatis, id est. y *dylyt* melen, "the yellow plague" (y *fad* felen, o *bad* "death") ; Pen. 14, 43, un am ddysgu nigromans yn cael dewis hyd y ddisgyblaeth, "os en vn nos tri ar dec yd eynt ar e rot a honno a uydei en troi adanvnt en hyt e nos. Ar trydyd ar dec [=rhyw un o'r 13] ny wybydit y *dileith* drannoeth", h.y. ni wyddai neb sut y cawsai ei ddileu. Rhydd S.E. *dileith* o dan *dyleith*, gair hollol wahanol, "barr ar ddrws" (V.V.B. 97, *delehid*, gl. ar *sera*) ; gw. B.T. 12, 21.
- 14 **telediw**, hardd, heb anaf arno i dynnu ei werth i lawr. Yn fanwl, "of full value" ; cf. A.L. i, 568. Buch a uyd *taladwy* (=714, *telediw*) oe heil llo hyt y pymhet, ych or trydet ieu hyt y whechet, h.y. yn *tal* eu llawn werth, "in their prime" ; 730, costawc . . . ny *thal* namyn pedeir keinawc cotta. Or byd bugeilgi, eidon *taladwy* a tal. Yn ôl A.L. i, 272-4 cyfyd gwerth ych o dymor i dymor nes cyrraedd ei lawn werth cyfreithiol, "ac ar hene e tryc ene *teledyruyd*", hyd y'chweched (gw. hefyd A.L. ii, 266) ; 694, Punt a hanher a telir ygwerth caeth tec *telediw*. or byd anauus hagen neu ry hen neu ry ieuanc nyt amgen no llei noc ugein mlwyd punt a tal ; 714, Ych a geidw y *telediwrwyd* o allweith hyt yn chwechet weith.

Td. ll.

- O'r ystyr gyfreithiol lledodd *telediw* i olygu "perfectly formed, complete, handsome, well-grown"; cf. 37, 14, *hwyl delediw*.
- 22 16 **twrwf** (R.M. *twryf*), *twrw*; gw. Ch.O. 34-5, "noise, tumult"; ac ar 6, 23, *-rf yn rhoi -ryf*, yna'r *y yn crynhau* ar ôl *w*, wedyn *-rwf yn rhoi -rw*, gan fod *f ac w* gynt mor debyg i'w gilydd.
- * 17 **crauane uawr** (colodd R.M. *uawr!*); *craf-*, cf. Gw. *crobh*, "a paw, claw, the hand from wrist to fingers", Dinneen; Gw. *cruibne*, enw cath, O'Dav. A.C.L. ii, 263; B.T. 23, iar *graf-rud*, "red clawed". *-anc*, cf. *anghad* "llaw", "gafael", mewn Hen Gymraeg.
- 18 **geir y uwng**, "by its mane". Ni rydd W.G. 410 yr ystyr hon i *ger*, ond dyna'r esboniad, efallai, ar *gerfydd* am *herwydd*, W.G. 188, 414.
- 19 **not yr elin**, *pen* yr elin, "elbow"; cf. T.W. ar *scopus*, "nod, y pennod y saether atto"; *meta*, "nod pen yr yrfa redeg".
- 22 **dwyn ruthyr**: cf. ll. 24 *ruthyr a duc*, Ch.O. 51 *dwyn hwyl*. Yn S. "make a rush".
- 25 **y agoret**. Yn W.M. rhoed *n uwchben* ar ôl *y*, ond nid oedd ei hangen; gw. ar 9, 16, *y ogyuuch*.
- 26 **yn y gorn**, wedi ei rwymo, "in swaddling clothes", gw. B. i, 109; ii, 48.
guedy troi llenn, â llen wedi ei throï; gw. B. iv, 186.
- 23 5 **yr hwnn ny bu**, "There is here a son for thee, if thou wilt have him, one whom thou hast never had". Gwrthrych *myunny yw'r s yn os* (er cyfieithiad Ellis-Lloyd); yna daw *yr hwnn* mewn hen gystrawen ac ystyr, fel y Ll. *qui*. Mewn glos o'r nawfed ganrif ceir *hirunn* i egluro'r Ll. *quem*, ac yn holl gyfnodau rhyddiaith Gymraeg ceir enghreifftiau cyffelyb, er eu bod bellach dan wahardd. Yn W.G. 297-8 cynigir "the one who" fel yr ystyr mewn brawddegau go debyg i'r uchod; ond yma, beth bynnag,

Td. ll.

ni welaf fod grym pendant i'r yr o flaen *hwinn* mwy nag sydd iddo yn "heb yr un", neu "nid oes yr un".

23 8 y **dadyl oll**, "the whole transaction", ystyr eithriadol i *dadyl*; eto cf. A.L. i, 710.

10 **dynyon mwyn** (*dynion*, "pobl", fel yn iaith y De), "gentlefolk, effaith y Ffr. *gentilshommes*, medd Loth, R.C. viii, 24n; gw. hefyd S.G. 30; W.M. 224a, 63a, eiryf *gwr mwyn* a uyd arnaw=292b breint *marchauc da*".

11 **mi a dygwn**: ceir yma dorr cystrawen hollol naturiol, er nas deallwyd gan y cyfieithwyr. Y mae Loth yn neilltuol o anffodus. Gwell yw E-Ll., ond nid oes sôn yn y testun am "my women", "tell them"; a phetasent eisoes wedi eu gollwng i'r gyfrinach, pa ddiben dweud y celwydd wrthynt hwy? Y frawddeg y dechreuodd y wraig arni oedd, "Digrifwch oedd [fuasai] gennyf ddwyn gwragedd yn un â mi, a dywedyd, etc.". Cyfieithiad llythrennol o'r hyn a geir yw: "It would be a pleasure and delight to me, shouldst thou wish,—I would get women to back me up, and would declare myself to be pregnant". Hawdd oedd i'r toriad ddigwydd, am fod *bei mynnut ti* wedi ei roi i mewn yn y canol. Heblaw hynny, helpa'r darlennydd i weld yr arglwyddes yn hanner petruso wrth ddatguddio ei chynllun i'w gŵr.

yn un a mi, "mewn cytundeb â mi i ddweud yr un peth"; cf. 8, 23. Buasid eisoes wedi cuddio'r plentyn yn yr ystafell, ac ymneilltuai hithau am ysbaid i'r un lle.

y ueichawe: gw. ar 9, 16.

13 **duanaf**. Os rhoir *dy-* o flaen *u*, geill droi yn *du-* yn ôl delw *du hun*, 20, 29; neu yn *de-* gan fod *dy-* a *de-* yn ymglyfnewid o flaen llafariad, megis *dear*, *dyar*; *deall*, *dyall*. Felly *du-un* a *deun*. Gyda *cyd-* ceir *cyd-du-un*, *cytuun*, *cytûn* (*d-d* yn caledu'n *t*).

15 o'r **bedyd a wneit yna** (cf. 83, 26, *wneynt*), brawddeg awgrymiadol. Teimla'r chwedlydd nad addas rywfodd

dy-un-aw
Cyd-dy-un
cyd-du-un
cytûn
cytuundeb
du (h) undebr
du (h) un

Td. ll.

oedd sôn am fedydd Cristnogol ynglŷn â phersonau fel y rhain ; rhyw atgo brith am eu hynafiaeth a barai hynny mae'n ddiâu, a'r ymdeimlad fod y cyfryw fodau yn lled-baganaidd, er bod enw Duw yn eu llwon. Ac eto, ni fedrai feddwl nad oedd rhywbeth felly yn bod yn eu hanes hwythau, neu pa bryd y caent eu henwau ! Iddo ef pennaf ystyr bedydd oedd rhoi enw ; cf. *S. christening*. Ar yr enwi y mae'r pwyslais bob tro y sonnir am fedydd, 75, 21 ; 76, 7, 19 ; 83, 26 ; ac felly yma.

- 23 16 **Gwri Wallt Euryn.** Rhaid darllen *eurin* "golden" ; gw. W.G. 257 am y terfyniad *-in*. Yn R.M. 111, 134, ceir *Gware gwallt euryn* ; ond yn W.M. 234a *Gwarae gwallt eurin*.

yr hynn a oed, yn llythrennol, "what there was of hair on his head".

- 17 **kyuelynet** (R.M. *kynuelynet*) ; gw. W.G. 245 ar *cyn-*, *cy-*, yn y radd gyfartal.
- 18 **meithryn**, ffurf gyffredin ar *meithrin* (cf. 25, 2 ; 26, 20 ; a gw. Ch.O. 61), berfenw *magaf*.
- 20 **breiscach** : cf. degach 22, 4 ; y rheol oedd cytsain feddal o flaen terfyniad y radd gymharol ; ar ôl *s*, clywid hi'n galetach ; cf. *yskynnu*, 10, 26 ; 11, 27.
- 22 **pedwryd** (R.M. *pedwyled*), cf. 25, 7 ; W.G. 259.
- 23 **ymoprau** (*ym-obr-ha-u*), bargeinio ; cf. *amobr*, yn y gyfraith, "a fee paid by the one who gave a woman away in marriage", G.M.L. 14. Y ffurf syml yw *gobr* ; gw. W.G. 267, D.N. 147, G.M.L. 155, A.L. i, 162, ii, 70, 756, 758 ; R.M. 160 ; yna *gobrawy*, â gwahanol ystyron, Ll.A. 56, 57 ; Y.C.M. 105 ; B.B.C. 86, 14 ; R.P. 27, a 4 ; cf. hefyd *dirprwy*. Ceir *gobryn-u* fel berf, "deserve, merit", Y.C.M. 75 ; R.P. 28b, 14 ; B.B.C. 56 ; B.T. 6 ; ond uchod, 78, 10, "bargain with" yw *ymobryn â*, fel *ymoprau â* yma.
- 24 **o'e dwyn**, i'w dwyn ; C.Ll.Ll. 20.

Td. ll.

- 23 27 **synnyaw wrth** (= *synyeit wrth* 24, 6), "attend to, care for"; cf. A.L. i, 34; Y.C.M. 51; ond *synyeit ar* "to look at, to notice", Ch.O. 10, 46; C.Ch. 95, Pen. 14, 35, 37; ac felly uchod am Wydyon, 78, 15. Eto, "to be astonished" yw *synnyaw arnaw* yn Ll.A. 111, etc.; ac "attend to, care for", yw *synnyait arnaw* yn S.G. 221.
- 28 **hywedu**: cf. 24, 7, *hywed*, "broken in, trained"; efallai mai ei ystyr gyntaf oedd am ych, ei arfer i ddwyn *gwedd*, sef "yoke", iau; yma am farch, "to break him in"; cf. *gwedd o ychen*, "yoke of oxen"; A.L. i, 66, anyueyl nyd el adan *guet*; 394, ych ieuanc nyt el dan *wed*; 712, Llo gwryw . . . Tranoeth y dodir *gued* arnaw, cf. Gw. *fedan* "team". Felly *gweddu*, ymostwng i'r iau, B.T. 58, Byt yn geugant itti yt *wedant* wrth dy ewyllis.
- 24 4 **y rodet**. Dull o ddechrau brawddeg oedd ar fynd o arfer, cf. 35, 3; rhydd R.M. *yna y rodet*.
- 7 **erbyn pan**. Cyfeiria Loth at A.L. i, 262, lle dywedir y dylai ebol fod yn ffrwynddof yn y drydedd flwyddyn; gan fod y mab yn codi'n bedair, yr oedd yn bryd dofi'r ebol a aned y noson y cafwyd ef.
- 8 **a chwedyl wrthaw**. Anodd gwybod sut i gymryd hyn. Yn ôl Loth, "avec ordre de la renseigner à son sujet"; Ellis-Lloyd, "and to report progress". Cynnig L. hefyd y gall mai effaith *chwedyl* yn ll. 12 sydd yma. Rhaid deall y geiriau fel rhan o'r gorchymyn, neu fel rhan o'r frawddeg *pan elei y mab*. Deallaf *wrthaw* fel y *wrthaw* yn 26, 19, pann gauas llawen *chwedyl y wrthaw*; 88, 19, yny gaffwyf *chwedleu y wrth* uy nei; *Amlyn ac Amic*, 6, yny gaffei *chwedleu* hyspys y *wrth* y gyveillt; 8, *chwedyl y wrth* Amlyn. Ym mhob un o'r rhain, golyga *chwedl y wrth* "news of". A thybio y gellid newid y testun gymaint a hyn, a darllen y *wrthaw*, y mae modd deall y cymal fel cais am newyddion am y march i'r llys, bod y gwastrodion i roi adroddiad rheolaidd am gyflwr yr

Td. ll.

ebol. Ond mae'n anodd gweld pam! Ac os hynny yw'r meddwl, lluniwyd y frawddeg yn bur aflêr. Y ffordd arall yw, y mae'r ebol i'w ddisgyblu yn barod erbyn yr adeg yr êl y mab i farchogaeth, *ac i sôn amdano*, i holi amdano. Gan fod yr ebol yn gyfoed ag ef, ac wedi ei roi iddo (ll. 4) yn barod, buasai'r bachgen ryw ddydd yn sicr o ofyn amdano, gan ei fod yn llawn awydd eisoes am drin ceffylau, 23, 23. Gan na welais *chwedl*, fodd bynnag, fel berfenw, gwell gennyf dybio bod *cheissyaw* neu *chaffel* wedi colli ar ôl *a*. Neidiodd y copïwr o *ch i ch*.

24 9 **emyse hynny**, pan oedd hyn ar dro, yr adeg honno; gw. ar 37, 13.

chwedlydyaeth: o *chwedl* ffurfiwyd *chwedlydd* (Llan. 4,506b, *chwedylydyon* y brytanyeit), ac o hwn gwnaed *chwedlyddiaeth*, cf. *hanes*, *hanesydd*, *hanesyddiaeth*.

10 **poen**, nid "pain", ond "punishment"; cf. 74, 29; 76, 26.

11 **douot**. Nid "pity" fel G., ond da heb berchen y digwydd dyn arno, "a find, a prize, treasure trove". Amrywia'r dull o ysgrifennu'r gair. Cf. A.L. ii, 116, O deruyd y dynyon caffel [*douodeu*, amr. *deuodeu*!] ar fford neu ysgrifyl ar grwydyr neu da arall hep perchennawc idaw. . . . diffeith brenhin yw pop da hep perchennawc idaw. Eglura hyn ystyr A.L. i, 94 (a gam-esboniwyd gan Owen, ac S.E.), Greyc e brenyn a heill rodhy heb canyat e brenyn trayan a del o *dohouet* [amr. *deouot*, *doouot*] yr brenyn. Y brenin biau a fwrio'r môr i'r tir, hyd y trydydd dydd; wedyn, "onys kymer y brenhin bit *doouot* yr neb ae kaffo", A.L. ii, 52. Yn A.L. i, 792, gelwir yr hyn a lyno mewn pren a syrthio ar draws afon yn *douot*. Ar 17, 20, dyfynnwyd A.L. ii, 18, lle gelwir y rhoddion (dros ben?) a gaiff telynorion yn *dohouod*. Enghraifft dda yw A.L. ii, 48, O deryd bot deu dyn

Td. ll.

yn kytgerdet a chaffel *doouot* or blaenhaf, ranhet yn deu hanner ar olof [olaf]. Hefyd gw. Lewis, Llan. 116, td. 81, Tri *dowod* yssyd ryd y dyn y kymryd yar y fford : nodwyd a phedawl a cheinawc. Yn Ll. A. 105, ceir tri *dyuot* (tria *munera*, *Cymmwr.* xxiv, 4) ; felly W.M. 210b, llyma *dyuot* da yn ni . . . pedwar meirch a fedwar arueu : = Pen. 6, *doefot* ; cf. M.A. 204a, Neud llei *dy ouod*. Daw o *dy-go-bod* ; cf. yr amrywiaeth orgraff a nodir gan Lewis, G.M.L. ar *dolef* (*doolew*), *dosparth* (*dohosparth*), ac yn enwedig *dodrefn* (*doodreuen*, *dohodreuen*, *deodreuen*) ; cf. hefyd *rhy-go-tres*, *rhyodres*, *rhodres*, W.G. 119. Am y ferf, gw. B.A. 13, 7, *dywovu* = 34, 9, *dyowu* : am yr ystyr, *dyfod* "come", *darfod* "happen".

24 14 **mynychu**, sylwer ar y gyfres o eiriau dibynnol ar ôl *cigleu*.

16 **craf**, *craff*, gw. S.E. Ansoddair sydd yma, ct. yr enw 32, 4 ; 89, 4.

yn herwyd **gueleddigaeth**, "in appearance" (nid "by reason of watching him" fel E.-Ll.).

18 **a'r mab y Pwyll**. Torr cystrawen eto ; disgwylid *kyn debycket y gilid*, neu, *na rywelsei . . . mab k. d. y dal a'r mab y Pwyll*.

20 **goueileint**, cf. 88, 17, *gofal* gyda'r terfyniad *-ieint* ; gw. D.G. xiii, 23, lxxix, 13 ; a *llifeirieint*. Cyll yr ysgrifennydd hwn weithiau *i gytsain*.

dellis (R.M. *delis*), daliodd. Ber yw'r *a* yn *dal-* o *dalg-* ; gweddill yr *g*, *gh* yw'r *-a*, *-y* yn *dala*, *daly*, a'r *i* yn *daliaf*. Felly o *dali-is*, cafwyd *deli-is* (Pen. 14, 25, e wryu a *deliis* llaw e mynach) ; ac yma *dellis*, gydag *l* ddwbl (nid *ll*).

o gamhet : yr *o* ar ôl *goueileint* ; *camhet* "how wrong", fel *truanet*, ll. 14, "how sad".

21 **ac ef yn gwybot**, "when he knew", cf. ll. 25 *a'r mab* "when the boy was really Pwyll's son".

Td. ll.

24 22 **yseualwch**, "privacy", y cyfle cyntaf a gafodd i ymddiddan â'i wraig ar ei phen ei hun, cf. C.Ch. 10, ystauell *ysgyualaf* "private room"; R.B.B. 126, galw y brenhin attaw megys ygkyfrwch yn lle *ysgyfalaf* (=quasi *secretum colloquium*); W.M. 208, karu *yscopyfalwch* oe ystauell ae wreic; Llan. 1, 119, nyver *escyvalaf* kanthaw (=privatim); C.Ch. 119, niuer *yskyuala*; Y.C.M. 6, y goelaw yn *ysgyualawch* (=ejecit sortes *secrete*); R.B.B. 138 yn *yshyuaelaf* ac y gallei o niuer=Havod 1, 50, yn *yscopyfalaf* y gallei=Havod 2, 102, en *yshyvalaf* a niver bychan gantaw (=privatim et cum paucis); W.M. 122a, *ysgyfalhau* y dref; H.G.C. 154, y le *dirgel ysgafalaf*. Gwelir fod peth cymysgu ar y ffurfiau, ond y meddwl cyntaf yw "privacy, secrecy", er bod eraill yn tarddu o hynny. Cynnig Loth, R.C. vii, 420n, 4, fod *yscafael* yn Skene ii, 163, yn golygu "facile", ond enw ydyw hwnnw a'i ystyr yw "ysbail", gw. Ch.O. 49, ac nid doeth pwysu ar *yshyuaelaf* yn R.B.B. yn wyneb darlenniadau llsg. Havod. Eto erbyn y Beibl Cymraeg, daeth *ysgajala* i olygu "at ease, off one's guard", megis Barnwyr viii, 11.

by herself
alone.

24 **ganhunt** (W.M. *ganhaw*, atgo o ll. 21). Rhaid wrth y lluosog yma, fel yn R.M. Tybed ai *gantu* oedd yn y gwreiddiol? Helpai hynny gamgymeriad W.M.

poen kymmeint, gw. Ch.O. 32, ar 3, 7. Amrywia cenedl y gair, ond cf. 25, 2, o'r *poen* y mae *yndaw*.

25 1 **elwissen** (R.M. *alwissen*), gw. Ch.O. 27-8 ar *paun*, *pawin*.

2 **diollwch**, gyda dwy *l* nid *ll*.

3 **eturyt**, berfenw *adferaf*, cf. *cymryt*, *cymeraf*. Ar ddelw *arferu*, *arfer*, ffurfiwyd *adferu*, *adfer* yn ei le.

gwr mwyn, nid yn ystyr 23, 10, ond "caredig, hynaws". fel yn 26, 22. Yn S.G. 46, 69, 95, gelwir meudwy, nigromawnswr, crefyddwr, bob un yn *wr mwyn*.

Td. ll.

- 25 4 **mab maeth.** Dyma'r ochr arall i'r arfer o feithrin meibion; gw. ar 19, 20. Talai'r mabmaeth i'w feithrinwyr.
- 7 **ar y drydyd:** gw. ar 13, 16.
- 12 **yn ogyuuch:** gw. ar 9, 16.
- 13 **bellach hynny.** Anghywir yw L. i, 385. Enghraifft sydd yma o'r radd gymharol heb *noc* yn dilyn, cf. Pen. 14, 25, nys gadws e wry *bellach henne*; Y.C.M. 31, na wna *bellach hynny* namyn dywet dy gennadwri; W.M. 68a, nyt oes oet *bellach auory*. Y mae *bellach* yma ar y ffordd i droi'n arddodiad, o'r un ystyr a'r Ll. *ultra*. Heddiw defnyddir *pell* am *le* yn unig; gynt am *amser* hefyd; ond cadwn yr ystyr amserol yn yr adferf *bellach*; cf. 6, 5, "any more, henceforth", 55, 1; 68, 7; 79, 7; 80, 25.
- 14 **uu hun:** gw. ar 20, 29.
- 16 **o hyn,** gydag ystyr luosog i *hyn*=y rhai hyn.
- 21 **cylchaw Dyuet:** cf. 51, 5; 67, 11; ny allei *gylchu* y wlat, namyn . . . y nyeint . . . a'r teulu gyt ac wy a aei y *gylchu* y wlat drostaw; 74, 3, y *gylchaw* Gwyned: 74, 20, trigyaw y *gylchaw* y wlat. Ar yr arferiad, gw. Lloyd, H.W. 312-3: "There may have been a time when the king himself went on progress among his people, . . . in the laws, however, there is no mention of a royal 'cylch' of this description, and only the members of the court appear as going on circuit. The queen, the captain of the guard with his men at arms, itinerant bards from another country, the royal horses, dogs and hawks with their custodians, were at various seasons sent round the cantrefs, to quarter themselves chiefly upon the villeins", cf. A.L. i, 16.
- 26 1 **ar y hardelw wy:** gydag y am *eu*, cf. A.L. ii, 332, ll. 6, tra vei hi ar vreint y brodyr ae chenedyl, hwynt a dylyant y chadw hitheu rac pop cam, ac wrth gaffel ò honei hi

Td. ll.

y cam hwnnw ar y *hardelw* hwy, [h.y., pan oedd ei brodyr yn honni ei hamddiffyn]. Ar ystyr *arddelw*, gw. Lewis. G.M.L. 24-5; Ellis, *Cymmr.* xxxix, 95, "warranty", Collwyd yr *-w* gytsain (fel yn syber(w), Aman(w), Ogwan o Ogfan(w)) gan roi *arddel*. Yn y testun, arddelai Teirnon a'i wraig y mab fel yr eiddynt.

26 2 **ac wely dy yna** (R.M. *ac weldy yna*), erbyn hyn "dyna". *Wely*, pres. myn. 2 bers. un., wedi ei dreiglo mewn cwestiwn (*A wely di?*); rhoes *wel* ar ei ben ei hun. Y gorchymyn oedd *gwél*; ond cyfystyr â gorchymyn yw *wel* bellach.

5 **gouut**: cf. 36, 1, *gouudyaw*. Ceir *gofud* (B.T. 13, 6; 76, 1; B.B.C. 20, 11) a *gofid* yn yr hen lsg. (B.T. 71, 21; R.P. 20b, 41; M.A. 167a, 204a, 252a).

scor?

9 **oed escor**, "I should be delivered of my trouble, were that true"; cf. R.P. 11 a 44, hir gnif heb *escor* lludet (Gw. cen *ascur* saitha, sine intermissione tribulationis, Wb. 25d, G.C.², 239); M.A. 147b, Nyt haws yth esgar ["gelyn"] *esgor* dy gosbawd; *B.Cwsc*, 11, clefydon *anescorol*. Yr un *cor* sydd yn *kyueryr*, td. 87, 88; Gw. *erchor* "throw, cast"; Gw. *ascuirim* "I throw down" C.I.L. 135 ("cast forth", A.C.L. i, 298); B.T. 42, *escorynt* wy waywawr, cf. ein defnydd ni o *bwrrw* (llo, ebol, etc.), S.E. 588, Job xxxix, 1, 3, *bwriant eu llydnod* ac ymadawant â'u gofid; hefyd, *bwrrw hiraeth* "to get rid of homesickness, longing", *bwrrw annwyd* "keep warm".

uym pryder im (R.M. *y mi*). Credaf fod y naill a'r llall wedi colli'r hen ddarlleniad, lle ceid *pryderi* fel enw cyffredin unigol. Profir y ffurf honno gan y glos Llyd. *pritiri* (R.C. iv, 335, over *iactura* is written *dampnum vel pritiri*); V.V.B. 206, cf. y ffurfiau Llyd. *perderi*, *plederi* R.C. xxv, 59. Buasai "escor vym *pryderi*" yn well sail i gynnig Pendaran Dyfed na chael *i* ar ôl *pryder* trwy

T*d.* II.

gydio ynddo *i o im*, neu *i mi*. Heddiw golyga *pryder* "anxiety"; ond gynt golygai hefyd "gofal am, care for"; cf. A.L. i, 410, *pryder* plant y lladedic a berthyn y vot ar y ryeni; 546, Pwy bynnac a gymero dylhet dyn annafus o tir, *pryderu* yr annafus hwnnw a oruyd arnaw o *vwyt a dillat* y tra vo byw; Ll.A. 77 (Mair) *ympryder* Jean y presswylawd hi (h.y. dan *ofal* Ioan). Blas arall sydd ar y gl. *preteram* "perpendo", V.V.B. 206, rhywbeth fel "anxious thought"; felly B.B.C. 41, O pechaud . . . *pryderaw* [pryderaf]; M.A. 142a, 3. Yn B.T. 79, 7, *pryderaf* *pwyllyf* pwy y hymdeith; 80, 8, lliaws a *bwyllyf* ac a *bryderaf*, gwelir mor agos yw *pwylly*, a *phryder*, o ran ystyr. Tybed nad hynny a awgrymodd y pâr, *Pryderi* fab *Pwylly*? Efallai nad teg cymharu'r enwau cellweirus yn W.M. 231a, *Digon* mab *Alar* (cf. *Eleri* Sant; haws tarddu ei enw o *Alar* nag o *Hilarius*, er gwaethaf L.B.S. ii, 428), *Nerth* m. *Kadarn*. Ond nid yw chwedl enwol fel hon yn esbonio enw; yn unig profir ganddi fod yr enw yn y traddodiad; cf. 65, 22; 80, 24; 92, 22.

- 26 II **Pendaran**, felly 39, 4; *Pendarar* 46, 9. Yn R.M. 307 daw P.D. yn un o'r Trioedd, "Tri gwr ueichyat ynys brydein. Pryderi uab pwyll penn annwn, wrth uoch *penndaran dyuet y datmaeth*. Ac ys ef moch oedynt y seithlydyn a duc pwyll penn annwnn. Ac ae rodes y pendaran dyuet y datmaeth. Ac ys ef y lle y katwei y *glynn cuch yn emlyn*. Ac ys ef achaws y gelwit hwnnw yn wrueichat, kany allei neb na thwyll na threis arnaw". Y ddau arall oedd *Drystan* fab *Tallwch*, a *Choll* fab *Callfrefwy*.

23 y **wreic**, yn y cyflwr enwedigol rhydd.

- 26 tra **parhawyf** (R.M. *barhawyf*); cf. ll. 27 tra *allwyf*.
a'th **kynhalyaf** (R.M. *gynhalyaf*); cf. ll. 27 a'th *kyuoeth* (R.M. *gyuoeth*); cf. W.M. 207 (Pen. 6), Gwr amtrwm oetyawc wyfi, heb ef. A thra *elleis* i *kynhal*

Td. ll.

kyfoeth itti ac iminheu, mi ae kynheleis . . . *kynhal dy gyfoeth* weithon.

- 27 2 **canys megeist.** Gall yr *ys* yma fod yn wrthrych y ferf, gyda'r rhagenw ôl (*ef*) yn ei ddefinio : neu gellid cymryd *canys* fel uchod, gw. ar 5, 28 ; 6, 27.
- 6 **ymyrrwys y gyt ac ef.** Nid fel G., "were sent with him", L. "partirent avec lui", ond fel E.-Ll., "joined company with him", cymdeithasu ag ef. O'r tu chwith, "he mingled with them" ; gw. ar 7, 6.
- 10 **hoffaf :** gw. B. ii, 39-41, am *hoff* "canmoladwy, clodfawr", *hoffi* "canmol", *ymhoffi* "ymffrostio". Felly yma, y cŵn hoffaf oedd y rhai â mwyaf o foli arnynt, y rhai gorau oll.
- 14 **telediwhaf :** gw. ar 22, 14.

cwplaf o bob camp da, yr un â'r rhestr gyflawnaf o gampau wedi eu meistrolï. Ar *cwbl* "complete", gw. W.G. 309 ; yma ceir y radd uchaf, *cwbl-haf*. Ar y pedair camp ar hugain gw. D. ar ddiwedd Geiriadur 1632 : "O'r 24 hyn, deg gwrolgamp sydd, a deg mabolgamp, a phedair o'r gogampau. O'r deg gwrolgamp, chwech sydd o rym corph : 1 Cryfder, 2 Rhedeg, 3 Neidiaw, 4 Nofïaw, 5 Ymafael, 6 Marchogaeth. Ac o'r chwech hyn pedair sy bennaf, ac a elwir tadogion gampau, sef Rhedeg, Neidio, Nofïo, Ymafael. A hwy a elwir felly am nad rhaid wrth ddefnydd yn y byd i wneuthur yr vn o honynt, ond y dyn fal y ganed. Y pedair gwrolgamp o rym arfau yw : 1 Saethu, 2 Chwarau cleddeu a bwccled, 3 Chwarau cleddeu deuddwrn, 4 Chwarau fionn ddwybig.

"O'r deg mabolgamp, tair helwriaeth sydd : 1 Hely â milgi, 2 Hely pysg, 3 Hely aderyn. A saith gamp deuluaidd : 1 Barddoniaeth, 2 Canu telyn, 3 Darllain Cymraeg, 4 Canu cywydd gan dant, 5 Canu cywydd pedwar, ac accenu, 6 Tynnu arfau, 7 Herodraeth. A'r

Td. ll.

- pedair a elwir gogampau yw, 1 Chwarau gwyddbwyll, 2 Chwarau Towlbwrdd, 3 Chwarau ffristial, 4 A chyweir-iaw telyn".
- 27 19 **garedic gan** "loved by" (ct. 33, 27), B. ii, 19, Car bawp or rei da val y bych ditheu *garedic* [Ll. *carus*] gan bawp.
- 20 **kynydwys**, enillodd trwy rym arfau ; gw. B. ii, 299-302, ac ar ll. 22 isod.
- trychantref Ystrat Tywi**, sef y Cantref Mawr, y Cantref Bychan, Cantref Eginog ; gw. Lloyd, H.W. 266-69. Terfynau'r cyntaf oedd y tair afon, Tywi, Teifi, Gwili ; rhedai'r ail ar hyd glan ddeheuol Tywi o Ystrad Ffin i ymyl Caerfyrddin : yn y llall yr oedd y tri chwmwd, Cydweli, Carnwyllion a Gŵyr.
- 21 **pedwar cantref Keredigyawn** : yn fras, Sir Aberteifi i gyd ; gw. Lloyd, H.W. 257-60. Seisyll oedd y brenin a gydiodd gantrefi Ystrad Tywi wrth Geredigion, tua 730, ac ar ei ôl ef galwyd y frenhiniaeth newydd yn *Seisyllwg*, neu *Seisyllwch*, cf. *Morgannwg*, G(w)lad Morgan; *Rheinwg*, gwlad Rhain, H.W. 262. Am *-wg*, ac *-wch*, cf. *tywyllwg*, *tywyllwch*, W.G. 232, Pedersen ii, 26.
- 22 **ar y kynnyd hwnnw y bu**. G., "and when he made the addition", L. "il fut occupé à ces conquêtes" ; cf. W.M. 198 a ryuelu arnaf i a *chynnydu* cwbyl or a oed ym llaw. R.M. 89, Pa amherawdyr bynnac a drickeyei yg gwladoed ereill yn *kynnydu* seith mlyned, *trickeyei ar y orescyn*. Yr oedd i aros i deyrnasu *ar y wlad a enillasai*. Gellir cymryd *ar y kynnyd* yn gyffelyb : i Bryderi deyrnasu ar ei wlad newydd, hyd ei briodas. 'Cymer Loth y geiriau, fodd bynnag, i olygu iddo fod wrthi hi'n gorchfygu'r cantrefi hyn hyd ei briodas. Nid wyf yn sicr a all *ar y cynnydd* ddal y meddwl hwnnw. Os gall, gwedda'r ystyr yn burion.
- 24 **Kieua uereh Wynn Gohoyw uab Gloyw**. Treiglir *uerch* a *uab* ar ôl y priod-enwau (cf. Arthur Frenin, etc.) ;

Td. ll.

yna treiglir enw'r tad ar ôl *uerch*, ond nid ar ôl *uab*; cf. Bendigeiduran *uab Llyr*; Branwen *uerch Lyr*. Ar ôl bod yn Iwerddon cyhyd, nid yw Pryderi yn cofio'n glir enwau teulu'r wraig. Geilw hi yn ferch *Wyn Gloyw*, 49, 22. Ar ei henw, gw. Rhys, *Arth. Leg.* 26n, lle cymherir hi i *Cichmuine* yn enw *Inber C.* yn Ulster, "who was possibly a water goddess", ac i'r enw Ogam ar ddyn; *Caicamini*, ond cf. Macalister, S.I.E. i, 31, ar hyn, a hefyd Nant *Cichmann*, L.L. 242. Nid yw *cig*, "meat, flesh" yn amhosibl, pan gofier am y *Valkyresau*, morynion Odin, oedd yn dewis y lladdedigion. Anghwrtais fai awgrymu posibilrwydd arall. Ond anodd peidio a gweld perthynas rhwng enw merch, a'r gair Gw. *cich* "breast", cf. enwau merch sy'n cynnwys *Bron*. Mynn Pedersen (i, 51), fodd bynnag, mai'r un gair yw *cig* "flesh" a'r Gw. *cich* "breast". I Gymro heddiw nid yw hyn yn taro'n hapus; *cig* i ni yw "meat", a *cnawd* yw "flesh"; eto cf. Mat. xvi, 17; Rhuf. xi, 14; a'r Llyd. *kik*; Cern. *cig* "flesh, meat"; R.P. 16 a 2, 4. Gweler ymhellach Boisacq ar y Groeg *kikus*. Dylid coffa yma y gair rhyfedd *cicwr* a geir yn R.M. 136, W.M. 250a, ac a gyfieithwyd yn "footsoldier" (oherwydd y S. *kick*!). Ymddengys i mi mai *ci* yw'r meddwl; enwir yno "a oed o *gynifywr* . . . ac a oed o *gicwr* dethol a march clotuawr";

·x· | N.B.

- 27 24 **gohoyw**: heddiw ystyr *hoyw* yw "sprightly", W.G. 234; nid felly gynt, ond "hardd, gwyh", D.W.S. "joly"; gw. Ll.A. 109, y sant *hoyw*; B.B.C. 58, 6, dillad *hoew*; 76, 9, *hoewet*; 28, 6, 11, cyferbynnir *tom* etystir; *gohoev* e., a *hoev* e.; Llan. 2, 277, nyt *hoywder* heb gledyuen;

Td. ll.

R.P. 63 a 22, y *hoew* ffrangec; 72 a 39, *hoewdir* mon; A.B. 217, *hoywi* "to garnish, or adorn"; hefyd 49, 50, 78, *como*, *concinnus*, *lenocinium*.

- 27 25 **Gloyw Walltlydan**: cf. R.B.B. 96; Mostyn 117 (R.W.M. i, 63); g. *gwlat* lydan, Rhys. *Arth. Leg.*, 365n, a'r enw *Caerloyw*, Gloucester.

Cassnar, enw anodd, gw. R.C. xlii, 79; cf. *Cy.* ix, 332, R.P. 11 b 34; M.A. 161 a 18; 161 b 26, 174 b 24, 257 b 26, 236 b 11, 247 b 37, 252 a 7, 283 b 5.

gwledic, "arglwydd", cf. B.T. 10, 11, Am Dduw, "vch nef is nef, nyt *gwledic* namyn ef. Mynn Rhys fod ystyr arbennig iddo, ac y safai am yr hen *Dux Britanniarum* a'r *Comes Litoris Saxonici*, C.B. 103, 119, 135, a chymhara'r *Ard-ri* "high-king" ymysg y Gwyddyl, 159. Gweler ymhellach Lloyd, H.W., 99-100, n. 29.

- 27 **y geing**. Ar ystyr *cainc*, gw. Gruffydd, *Math.*, 324-5.
- 29 1 **Bendigeiduran**: gw. W.G. 57; Rhys, *Arth. Leg.* 172, 261-2; *Hib. Lec.* 94.
- 2 **ardrechawc o** (R.M. *arderchawc o*); gw. Ch.O. 28 (= *ornatam*, *insigniti*); cf. hefyd D.B. td. 29, ll. 5, ynys a elwir Taphane *arderchawc o* dec dinas (decem civitatibus *in clyta*), td. 35 yn *arderchawc o* gan mil o dreui (centum millibus villarum *in clyta*).
- 3 **Lundein**, cf. A.L. ii. 48, treigledig ar ôl *coron*, gair benywaidd; cf. Eglwys Loegr.
- Hardlech**, Harddlech, heddiw *Harlech*; gw. W.G. 181.
- 4 **Ardudwy**, cf. 84, 6; gw. Lloyd, H.W. 238, y cwmwd a gyrraedd o ardal Ffestiniog i Afon Mawddach yn y de, arfordir Meirionnydd, gyda'r cefndir mynyddig.
- yn llys**: mewn llys. Arferir bellach *yn* gydag enw pendant, a *mewn* gydag un amhendant.
- 5 **y weilgi**, y môr. Dywed Lhwyd, A.B. 165, mai "torrent" oedd yr ystyr ym Mrycheiniog. Yn H.G.C.

Td. ll.

142, "moat" ydyw, "kaer a vei damgylchynedic o weilgi".

29 5 **Manawydan**: gw. B. iii, 49.

6 **broder**, ffurf ddeuol a lluosog *brawd*; W.G. 209; cf. 44, 1.

7 **Nissyen ac Efnysseyen** (R.M. *efnissyen*), cf. 43, *Nysseyen*, 43, 44, *Efnissyen*, P. 6. *Efnysseyen*, 31 *Efnysseyen*; B.B.C. 69, Oet ef *kyfnissen* y holi galanas. Ar y geiriau, gw. Rhys, *Arth. Leg.*, 393; cf. *rhywiog*, *afrywiog* am y pâr; a gwrth-nys-ig am y gwraidd. Ceir sant o'r enw *Nisien*; gw. L.B.S. iii, 321; L.L. 31, 90, *nisien* (= *Tussien* 43), *Llanishen* ym Morgannwg; rhoir terfyn *lann nissien* td. 242. Yn L.L. 186 ceir *Villa Nis*; y ffurf syml ar y gwraidd? (Enw arall sydd yn *Tynysan*, *Tanasan*, 90, 31, 43; cf. Holder, ii, 737, *Nes-anus*.) Etyb *Efnys-ien* yn burion i *efnys* "hostile, enemy"; B.B.C. 101, 9; B.T. 71, 9; Gw. *amnas*, garw, caled, Windisch, W. 362, Ped. i, 23. Am *Nysien* yn rhoi *Nisien*, cf. *brisio* ar lafar am *brysio*, *Pencaernisiog* ym Môn, am Pen *Conisiog* (o *Conws*) trwy *Conysiog*, effaith i gytsain.

10 **Euroswyd**: gw. y Trioedd, R.M. 306, Tri goruchel garcharawr ynys prydein, llyr llydeith a uu gan *euroswyd* yg karchar, etc.

oe uam ynteu: nid Euroswydd yw'r *ynteu* ond Bendi-geidfran, canys ato ef y cyfeiria'r rhagenwau *y*, *ef*, yn y cymal cyntaf. Nid llosgach sydd yma.

Penardun (nid *Penardim*) yw darlleniad amlwg W.M.; ac ysgrifennwyd *Arddyn* ar waelod y ddalen gan law ddiweddarach (Jasper Griffith?). Yn R.M., gyferbyn â td. xv, rhydd Dr. Evans lun y gair yn y Llyfr Coch; nid yw hwnnw chwaith yn ein gorfodi i ddarllen *Penardim*; cf. Cair *Colim* (= *Colun*), Z.C.P. v, 119. Am *Arddun* fel enw, cf. L.B.S. iv, 370b, Tyssilyaw . . . ac *ardun* verch pabo . . . y vam: 372, o *ardun*; i, 167, S.

*

incest

co-101/1000

Td. ll.

Arddun Benasgell; 168, *Dolarddun*, "an old manor house in the parish of Castle Caereinion". Ond beth am *mab gardun arduinic uawred* yng nghanu Cynddelw i Dysilio, M.A. 177b, R.P. 33a? Ai *Garddun* oedd enw ei fam mewn gwirionedd, a'r achau wedi camddarllen a *garddun fel ac Arddun*? Nid yw o *ardun* na *Dolarddun* yn profi dim, ond yn R.M. 306 enwir "*ardun* wreic gatcor" fel un o'r Tri Diweir Y.P. (= *Ardin*, Cy. vii, 130), ac nid yw'r ystyr yn anaddas; gw. ar 4, 6 uchod. Am ansicrwydd cyffelyb, cf. R.M. 107, a *garwyli* eil gwythawc gwyr; 139, *ac arwyli* eil gwydawc gwyr. Deallaf Penarddun fel "Pen hardd" neu "brydferth".

- 29 10 **Beli uab Mynogan**: gw. ar C.Ll.Ll. 11, enw *ffug* yn ôl Zimmer, N.V. 272-3; ond gw. Gruffydd, M. 174. fictions
- 12 **y deu lu** (cf. 72, 25). Darllen R.M. *y deulu*, "ei deulu"; ond gwell dilyn W.M. "y ddau lu"; cf. B.T. 71, 7, ny pheidwn rwg *deu lu* heb wyar; ll. 11, heb wyar rwg *deulu*. Esbonia E.-Ll. "the two factions, being the family of Llyr and the family of Euroswydd". Ond cf. ll. 13, y *rwng y deu uroder*; ni all hynny gyfeirio ond at Frân a Manawydan.
- 17 **cerdet rugyl**. Clywir hyd heddiw ar lan Afon Menai, "Mae'r llong yn cerddad yn dda". Ond defnyddir *rhugl* yn unig am lefaru'n gyflym a rhwydd. Eto ceir *rhuglo* (*rhiglo hefo rhaw*) "to clear rubbish away", arloesi ffordd, h.y. ei gwneud yn *rhwydd*. Cyfystyron yw *rugyl*, *ebrwyd*.
- 30 1 **llongeu gyweirach eu hansawd**: am yr ystyr gw. ar 3, 10; 4, 12; 6, 4; 10, 26; ar y treigliad, 2, 14.
- 2 **arwreid**, "heroic, fine"; cf. ystyr ddyblyg S. *bravery*, *dewrder*, *gwychedr*.
- 4 **nachaf**, nycha, wele, "behold" (*ynychaf* Pen. 7, c. 60). Cynnig W.G. 451, mai gradd eithaf *bôn yna* yw. Gan fod Gw. yn arfer *inn aci* (a weli di?), *ac-so* "lo here", *ac-sût* "lo yonder", *ac-sin* "lo there" (Ped. ii, 487;

*

Td. ll.

Thurneysen, H. 276 ; Meyer, C.I.L. 13) mewn modd mor debyg, buasai'n well gennyf ei esbonio fel ffurf o'r un ferf, a'r geiryn gofynnol.

- 30 6 **swch y taryan y uynyd**: cf. W.M. 116a *swch* vyn taryan ; Y.C.M. 7, ac ae daryan ar y gefyn *ae llosgwrn y vynyd* ual yd oed deuawt kenadeu yn amser ryvel. Y swch neu'r llosgwrn oedd blaen pigfain y darian (nid y *bogel* fel y tybia Loth) ; cf. swch aradr.
- 12 **pieu**, "who owns". W.G. 114.
- 14 **Matholwch**. Yn y dernyn hŷn o'r Gainc yn Pen. 6 (isod, 305) fe'i gelwir *mallolwch* ; felly yn R.P. 175 b 1 ; M.A. 200a ; Gwyneddon 3, 184a (cf. M.A. 173 a 2). Yn Cy. vii, 123, fodd bynnag, "*matholwch* wydel", fel yn R.M. 301.
- 20 **ymgyuathrachu**, o ym-cyf-athr-ach. Grym *athr-* yw *inter-* (cf. *athrywyn*, Ll. *intervenio*), a golyga'r holl air uno dau deulu (*ach*) ynghyd trwy briodas, neu fel y dywedir yn Arfon *cymysgu teulu*.
- 21 **ymrwymaw**. Sylwer ar y defnydd o *ym-* i gryfhau'r ferf, "rhwymo o bob ochr", nid "ei rwymo ei hun" ; cf. uchod, ll. 7, *ymglywynt ymdidan*.
Ynys y Kedeirn (td. 41, *Kedyrn*), Prydain.
- 25 **dygyuor**, llu ; gw. ar 1, 9.
- 27 **yn y lle**, yn y fan, "immediately".
a gahat, a gâd, a gafwyd, a benderfynwyd.
- 31 1 **tryded prif rieni**. Y mae Loth (i, 386) am i ni ddarllen *riein* "maiden" (cf. R.B.B. 229, *riein gadeir* "royal throne") ond nid felly y darllenais i W.M. beth bynnag, eithr *rieni*, â marc i nodi'r llafariad i ddwywaith. Er hawsed a hwylused y newid, rhaid dygymod â'r hen ddarlleniad, er ei anhawster. Yn ôl W.G. 221, *rhieni* "parents", used in the pl. only" ; eto cf. Ed. Samuel, H.D.D. 290, "Ac os digwydd i ryw *Rieni* a fo fel hyn yn ddrygionus *ei hun* (if any *parent*)". Nid lluosog yw, ond enw

agree with, put
up with

Td. ll.

haniaethol unigol, weithiau torfol ; cf. Lewis, Llan. 116, 58, *Rieni* dyn ynt tat a hendat a gorhendat ; A.L. ii, 426 ; A.L. i, 230, er *reeny* nyt amgen er tat ar uam ar brodyr ar chuyoryd o bydant ; ii, 781, per tres generationes, id est, teyr hoys *reheny* = A.L. i, 548, teir oes *reeni* ; Pen. 14, 41, mal y tystei e dat ae vam ae holl *reeni* ; Ll. A. 77 (Mair) y trigawd hitheu yn ty vn oe *rieni* (229 in domo parentum illius, sef Ioan) ; Ll.D.W. 60, mab yn lle y bu y tat gynt neu yn lle y bu y *ryeny* e hun gynt ; M.A. 305a, aml *rieni* ; R.B.B. 132, yn *rieni* ni ("our ancestors" = M.A. 518 b, en *ryeny*) ; M.A. 538b, vy hen *rieni* inheu gynt a oresgynasant Ruvein ; 543a, awch tadeu ac awch hen dadeu ac awch *rieni*. Mewn dull tebyg y defnyddid *etifedd*, Lewis, G.M.L. 145, "sons, grandsons and greatgrandsons, regarded collectively ; heir" ; cf. H.G.C. 128 yr *etiued* wedy *eu ryeni* ; Ll.A. 12, ae *hettiued* wynteu (181, filii eorum) ; dnyawl e. (humana propago), o'r holl e. (tota posteritas illorum) ; 13, o e. hwnnw (de cuius stirpe), cf. 14, ae holl *etiuedyon* (omne genus humanum) ; R.B.B. 50, o *etiued* priaf (ex generi Priami) ; Pen. 16, 16, *etived* henri vrenhin (*heir*). Gan fod yr hen destunau yn gyffredin yn darllen *re-eni*, *ry-eni*, ni fedraf dderbyn cynnig Gruffydd, R.C. xxxiii, 455, "rhieni, pl. of *vigan*—means in Welsh both *parents* and *ladies* ; trydydd prif *rieni* "one of the three greatest 'ladies' or 'queens'." Ni ches enghraifft o *rieni* = "ladies", er bod *Cy. ix*, yn rhoi *rieni* fel esboniad ar *llywy* ; Pen. 169 (Rep.) yn darllen "*Rhieni* a volir o bryt, etc. ; ond J. M. J. o'r Llyfr Coch, "*Riein* a uolir o bryt". Gwell gennyf ddilyn Vendryes, R.C. xxxii, 235, na Zimmer. I esbonio *rhieni* tardda'r olaf ef o *rhiain* i ategu ei ddamcaniaeth ar *Mutterrecht*, ond deillia'r cyntaf ef o *rhy-geni* "ceux qui sont nés avant" ; gan gymharu'r Groeg *progonoi*. Gweler hefyd ei nodiadau ar *tokeis*, etc. Y mae ffurf y gair gynt yn gadarn o blaid Vendryes. Ond

Td. ll.

carwn bwysleisio'r gyfatebiaeth ag *etifedd* a saif am un ac am liaws ; nid lluosog yw'r gair, ond enw torfol pan saif am lawer. Yn y testun awgryma *tryded* mai benywaidd unigol ydyw *prifrieni*, ond ni ellir pwysu gormod ar hynny, cf. 54, *tryded* eurgryd (*e* hen orgraff am *y*). Ond sylwer nad *eurgrydion* a geir yno, eithr yr unigol. Am yr ystyr dorfol neu luosog, cf. Ll. *genus* "birth, descent," "Like *gens* and *stirps*, a descendant, offspring ; collectively, descendants, posterity", Andrews. Hefyd *progenitor*, ancestor ; *progenies*, descent, lineage ; descendants, posterity (Hen. Ladin, *progeniī*, cyflwr meddiannol, Sommer, H. 430). O ran ffurf, y Ll. *progenies* yw'r nesaf i *rhyeni* ; ond gwahaniaethodd y Cymro yn gliriach rhwng *ancestry* a *posterity*, gan gadw *etifedd* i'r olaf. Deallaf y cyfeiriad yn y testun fel camddefnydd o'r Trioedd. Y mae mor anaddas ag yw i Bryderi ddyfynnu wrth Fanawydan ei hun fod y Trioedd yn ei roi yn drydydd lleddf unben, td. 49. Cynigïaf mai'r tair prif rieni oedd Rhiannon fel mam Pryderi, Branwen fel mam Gwern, ac Aranrod fel mam Llew Llawgyffes. Nid *rhieni* oedd Branwen ar y pryd, ond fel *rhieni* y cofnodid hi yn y Trioedd a ddefnyddiai golygydd y Mabinogion, a chan nad oedd yn deall y gair, rhoes yntau'r enw hwnnw arni yma,—dipyn yn rhy gynnar.

- 31 2 **Aberfraw**, ym Môn, prif lys tywysogion Gwynedd gynt.
- 3 **y kychwyn**: mewn priodas rhaid oedd cael amser apwyntiedig (ll. 2, *oed*), gwledd neu neithior, "y gyscu genti", yna cychwyn am gartre'r gŵr, ysbaid ar ôl hynny, y ferch yn cefnu'n derfynol ar ei hen gartref.
- 11 **palleu**, pebyllau ; nid "thronus" yw *pall* fel y tybiodd D. ; cf. R.P. 168 a 32 ; M.A. 198b, 306b, A *phall* syndal a phali. Geilw D.G. cxvi, 16, D.G.G. 90 y to dail ar y coed *pall* (*a*)*deildew* ; S.G. 134, gwneuthur *pall* yr ysgraff

humble lands

Td. ll.

- o syndal (Strachey, *Morte Darthur* 396, "a covering to the ship of cloth of silk"); C.Coch, 198; *Cy.* xxiii, 560, (Mair, Penrhys) a'i llun yn y *phall* a'i mab ar ei dwrn. Dengys yr olaf mai "mantell" oedd un ystyr, o'r Ll. *phalla*, "a long and wide upper garment of the Roman ladies". Ail ystyr i'r Ll. oedd "curtain", cf. *llenn* "mantell", a hefyd "curtain". Lledodd gair a olygai fantell i olygu "covering". Felly yma "tent"; cf. S. under *canvas*.
- 31 12 **ny angassei**: gw. C.Ll.Ll. 32, am ffurfiau'r ferf *genni* "to find room in, to be contained in". Pres. myn, 1, gannaf, 2 genny, 3 gein, geing (*in* yn rhoi *-ing*, cf. *prin*, *pring*; *Llading*, *eingion*); o *geing* ymledodd *eing* drwy'r ferf, ac weithiau collwyd yr *g* gysefin (fel y dengys R.M. nyt eyngassei).
- 13 **dilit**, 15 *dilyt*, *dilyn*; gw. W.G. 391; cf. erlid, erlynaf.
- 17 **a orugant pawb**, gw. ar 4, 9.
- 18 **yमारuar**. G. "to equip"; L. "à s'occuper"; yn R.C. xli, 388, dywed L. mai "l'entente réciproque (l'action concertée) de Lludd et Llevelys" yw *Yमारwar* Ll. a Ll. y chwedl a elwir Cyfranc Ll. a Ll., cf. M.A. 247b. Deallodd E.-Ll. y gair yn gywirach: ei ystyr yw "ymddiddan". Ceir *arwar* fel enw "diddanwch", ac fel berf "diddanu" (nid "console", ond "delight, entertain"). Gweler y gyfres yn M.A. 149a, yn ail *arwar* . . . awduriaeth, awen, arwyre, cerdd, yn ail gair moliant moli Owain; 181b, 183b, a. kyrt kyn lleas; 185a neum *arwar* neum car neum cyuarch; 201a, Nam arwerth yr eur y arglwyti ereill. Nym *arwar* arall yr uym perchi; 217a, a. cerddau; 210b, a. trydar ("delighting in battle"); 193a, nym a. na char na chyweith. Hefyd *cyfarwar*, 146a, Cadwaladr *cerdgar* cerdau *cyfarwar*; cf. 172b, ys car cyrdd *cyflef*. Gan mai adrodd straeon oedd (ac yw) un o ddulliau'r Cymry o ddifyrru'r amser, aeth *ymddiddan* i olygu

Td. ll.

“conversation, discussion”, ac felly *ymarwar*. Pwynt C.L.L.L. yw cyfarfyddiad y brodyr i ymddiddan am y gormesau : dyna pam y gelwid y chwedl yn *Ymarwar Lludd a Llefelys*. Yn B.T. 76, a 78, ceir dwy gân neu ddarogan, *Ymarwar Lludd Mawr*, ac Y. Lludd Bychan, un hir, ac un fer, rhywbeth fel “discourse” yw’r ystyr yno; cf. hefyd M.A. 168a Neud amrygyr kyrt *kyd ymarwar*. Yn y testun, dechran’r swyddwyr *drafod y cwestiwn* ple i roi’r meirch a’r gweision, “they began to discuss the billeting of the horses and servants”.

- 31 18 **rannyat**, “billeting, quartering”; cf. R.M. 145, y doeth ronabwy . . . y ty heilyn goch . . . yn *ran*; M.A. 186b, na *rennid ranneu* kynytion (un o freiniau gwŷr Powys oedd na chai’r arglwydd *rannu ei gynyddion* ymhlith ei ddeiliaid); A.L. i. 16, xxii.

huntsman

- 20 **Efnyssen** (R.M. *Efnyssyn*); gw. ar 29, 7.

- 21 **dywanu y**. Fel rheol ceir *dywanu ar*, “to chance upon, come to, find”; cf. S.G. 210, ef a *dywanawd ar* gyuanned yn y fforest; Y.C.M. 101, Ac yn gyntaf dyn or llu Chyarlys a *dywanod ar* rolant; C.Ch. 7, *dywanassant ar* weirglawd; R.C. xxxiii, 238, *dywanws* deu wr *atam* . . . a dywedut yn ry *dywanu* oth santolyaeth di *ar* lyuyr eurei, “two men came to us, and told us that thy holiness had chanced upon a Hebrew book”; R.M. 170, heb *dywanu* neb *arnaw*; mynet y geissaw *dywanu ar* y lle hwnnw . . . yn y diwed y *dywanawd ar* y glynn; R.P. 151 a 21, 27, 30, 33, b. 4, 7, 10, 188b, a *dywan attaf* ac atdeb, “hasten”; R.C. xxiii, 265, Cern. *dywenys* “wedi cyrraedd”; A.L. ii, 94, Pwy bynnac a *dywano* wrth lad dyn, “happen to come”; 98, Or deruyd colli peth rwg deu dyn ygkyt a dyguriaw [var. *dywanu*] o’r neill *arnaw*. Gan fod *gwanu* yn golygu “taro”, cf. *taro ar* “to happen upon, to meet by chance”. Yn y testun, cymeraf *dywanu i* yn gyffelyb, “Efnyssen on a certain day,

Td. ll.

happened upon the billets of M's horses". (Nid "made straight for", fel E.-Ll.). Ni wyddai ddim amdanynt, ond digwyddodd *daro ar y lle*.

31 22 **pioed.** W.G. 357-8.

25 **ac yr gyscwys:** cf. 4, 7, y'r neuad y gyrchwys; 32, 10, dy waradwydau *yr a wnaethpwyt*. Enghreifftiau yw'r rhain o'r modd y trowyd y geiryn *ry*, nad oedd angen rhagenw perthynol gydag ef, yn rhagenw neu eiryn perthynol o flaen berf. Yn 4, 7, nid yw W.M. wedi cofio newid y treigliad, yn ôl angen y gystrawen newydd, cf. R.M. y *kyrchwys*. Yma ceidw W.M., ac R.M. *yr a'r treigliad meddal*; cf. M.A. 198b, peth or wawd *yr geint*, "a genais". Gweler hefyd 11, 1; 49, 18.

32 1 **tremic uwy:** gwrywaidd yw t. cf. 33, 7, y tremic *hwinnw*. Am y treigliad gw. ar 2, 14.

2 **guan y dan.** Camddeallwyd gan G., L. (R.C. xxxiii, 430-1) ac E.-Ll. Am y defnydd o *y dan*, cf. 60, 7, y llygot yn *guan adan* y groft. Nid aeth y llygod o *dan* y grofft, ond rhuthro *iddi*. Felly, 54, 1, *Awn adanunt* a lladwn, "let us go for", neu "let us set upon them"; Y.C.M. 93, yna yd *aeth* Rolant . . . *y dan* y paganyeit ac eu llad, "he set upon"; C.Ch. 96, *vyg kledyf i . . . a gerda* val lluch-yaden *y dan* y pagannyeit, "will go through the paynims like lightning". Am *gwanu*, cf. R.P. 18 a 16, *gwyndyt yn gwan yr deheu*, "the men of Gwynedd making a raid (or push l) into the South"; A.L. i, 404, *Llosc yw gwan tan ymywn y peth a lloscr* (cf. *llad tan*, 55, 4), "putting fire to", 452, *kyt as gwanho ae law neu ae troet dros y gwely*, "though he push her with his hand or foot off the bed"; W.M. 62a, *gwan gwth troet yndi*, "gave her a kick"; B.B.C. 34, 5, *Seith seint a seith ugeint . . . a want* in un orsset, h.y., "they went", cf. ar *dywanu* 31, 21, ac uchod, 60, 9, *guan a'r tywys e ymdeith*, "making off with the ears of corn". Yn y testun, "he went up to the horses".

? *Tr. resaine**Td. ll.*

32 3 **rawn**: cf. R. "horsehair or the hairs of the tails of cattle"; Zech. xiii, 4, *crys o rawn*; D.G.G. 64, *wyth rownyn*; Llyd. *reun*. Gynt "cynffon"; M.A. 635a, llusgwyt wrth *rawn* meirch drwy yr heolydd; Syr D. Trefor i gaseg, "Fel rhaiin llusg i *rhawn* llwyd. Am gamdrin meirch, gw. *Vita S. Cadoci*, Rees, C.B.S. 42, 333; daeth Sawyl Benuchel a'i wŷr i fynachlog Cadog, yn ei absen, a chymryd bwyd a diod drwy drais, ac wedyn cysgu. Pan ddychwelodd y sant, archodd i'w fynaich eillio hanner barf a gwallt pob cysgadur, er gwarth iddynt, *et labra suorum caballorum auresque* pariter incidite "a thorwch yn gyffelyb weflau a chlustiau eu meirch", a bu'r saint yn ddiwyd i wneuthur felly.

*s lams, disgrace**assiduous, diligent*

4 **ae ny caei** (R.M. *ar ny chaei*). Nid y negydd *ny*, ond *ny* "yn y, lle y", er gwaethaf R.M.; cf. *ny hyl* "yn ei hyd", L.L. 134, Turch *ny hyl*; M.A. 229b, yr Unduau *nyr* [yn yr] undaut; D.G.G. 10, *ny llwyn*, "yn y llwyn".

graf, treigliad o *craff*, "gafael, grip"; cf. 89, 4; Ll. A. 12, Diawl hagen a dywat vrth y sarff megys y dyweit heddiw drwy dyn a gaffo *graff* arnaw (per obsessum hominem). Ar *craff*, ansoddair (24, 16), gw. S.E.

5 **anfuryf**, "disfigurement", gw. Ch.O. 29, 62 am *anffurfaidd*, "hyll"; isod ll. 8, *anfuruaw*, "to mutilate, to disfigure".

6 **grym**, yn yr ystyr o "use" (nid "strength" fel E.-Ll.); cf. ll. 9 *mwynyant*, yr un peth; gw. B. ii, 129, Lewis, G.M.L. 224.

8 **llygru**, "spoil" (nid "destruction" fel E.-Ll.); cf. ystyron *difetha*.

10 **yr a wnaethpwyd**. Nid yw *yr* yn R.M. a chymysgedd sydd yn W.M. o'r hen ddefnydd o *ry* (a ddigwydd hefyd fel *yr*; cf. 31, 25) gyda'r ferf, a'r defnydd diweddarach, rhoi'r rhagenw perthynol *a* yn unig o flaen y ferf.

Td. ll.

- 32 12 **kyuurd**, "of such high rank" ; gw. W.G. 251 ar ansodd-eiriau o'r radd gyfartal a ffurfir drwy roi *cyf-*, *cym-* o flaen enw ; cf. *cyfliw*, *cymaint*, *cyfoed*.
- 13 **enedyl**: nid "nation", ond "kin".
- 14 **dangos ef**. Gall hyn fod yn hen ddefnydd o *ef*, gw. W.G. 273, 430 ; neu gellid darllen (1) *y dangos ef* (*y=ei*), yr *y* wedi colli yn yr *y* sydd yn *wely*, gw. ar 46, 27 ; neu (2) fel yn R.M. *dangos mae ef*, cf. W.M. 298b, llyma *dangos yt y mae* mi ; neu (3) dybio bod *os* wedi colli ar ôl *dangos*, a darllen *dangos os ef*, cf. S.G. 349, Ae vy llad i yssyd yth vryt ti, heb y lawnslot. Ti ae gwybydy, heb ynteu, *os ef*, kynn dy vynet odyma ("if it is that") ; C.Ch. 153, Ae ryuelwyr ywchi ac a gymero da yr ryuelu, ac *os ef* ("if it is so") mi ae rodaf ywch. Os derbynnir yr olaf, y mae tri syniad ; tybia'r cyfaill cyntaf fod y gwaradwyddo'n fwriadol ; metha Matholwch a chredu hyn wrth gofio am Franwen ; yna daw'r ail gyfaill, a dweud y caiff M. brawf neu ddangosiad pellach, *os felly y mae*, ond nad oes dim i'w wneud ar y pryd eithr cilio i'r llongau. Gan y buasai colli *os* ar ôl *dangos* yn fai mor naturiol i gopiwr, tueddaf at (3).
- 16 **arounn**. Un ystyr i *arofun* yw "ceisio, to seek" ; etyb i'r Ll. *peto* mewn rhai o'i ystyron. Yma cyfystyr yw â *kyrchu* yn ll. 15 ; cf. D.N. 58, I 'rovyn y groes i Ryvain gron ; cf. B.B.C. 49, 14, Guin ev bid ve kymri or *arounn*, h.y. o'r *cyrck*. Gan na ellid gadael llys heb ofyn am ganiatâd (*canhyat*) daethpwyd i arfer *arofun* am y cais ffurfiol am ganiatâd i ymadael, weithiau gydag *ymeith*, *e ymdeith*, weithiau hebddynt, e.e. 85, 17, A thrannoeth, *arounn* a wnaeth ef *e ymdeith*, h.y. gofynnodd Gronw a gâi fynd. Gwrthodwyd ef. Felly 85, 24, Trannoeth *arounn* a wnaeth. Gwrthodwyd ef yr ail dro : 86, 1, Trannoeth *arounn* a wnaeth ef, ac *ny ludywys hitheu ef*. Camddeallwyd y defnydd hwn gan S.E., canys nid

Td. ll.

“intend” yw'r meddwl ynddo ; cf. ymhellach R.M. 236, “Trannoeth *arofun* a wnaeth peredur *ymeith*”. Yr ateb yw, “Nyt dyd hediw y neb y gerdet”. Oherwydd tebyg-rwydd yr ystyr, cymysgwyd â *gofyn*, cf. ll. 18, ac felly ceir gan D. *arofyn* “inquirere, iter intendere” ; ond ei wir berthynas yw â *gofuned*, fel y gwelodd S.E.

32 16 Datblygiad naturiol yw *arofun* “to intend” o'r un uchod ; cf. B.B.C. 82, 8, 10, 12, 14, *arowun* myned ar mor ; *a.* myned impell ; *a.* myned Ruvein. Nid yw ond cam i ystyr *gofuned*, *godduned* “vow” ; cf. Ll.A. 165, *godunet* heuyt yw gennym ni gofwy bed yn harglwyd ni. Ym Môn defnyddir *drofun* (*darofun*) yn gyffredin iawn gyda *mynd* : “Yr oeddwn ers tro yn *drofun mynd*”, h.y. yn sôn am fynd, bwriadu mynd, meddwl am fynd.

18 yn adaw : gw. ar 15, 23.

heb ouyn, heb ganhyat (R.M., *heb ovin kenyat*), “without asking, without leave”.

20 **Idie uab Anarawe** : cf. L. L. 406, *Judic.* Os yw'r *d* yma am *dd*, gall fod yn fenthyg o'r Ll. *iudic-*, neu'n darddiad Cymreig o *iudd*, *udd*, “arglwydd”. Y mae Anarawc yn debyg i gamddarllenriad o *Anarawl* (o'r Ll. *Höndvātus* ? trwy *Höndvātus* ?) ; hawdd darllen *c* am *t*, ac i'r gwrthwyneb, yn yr hen lsg.

21 **godiwawd** (R.M. *gordiwedawd*), gw. W.G. 338 ; amser gorff. *goddiweddaf*. Yn R.M. newidiwyd y rhagddodiad i *gor-*, a rhoddwyd y terfyniad *-awdd* ar ôl *gorddiwedd-*, gw. 91, 6.

darpar, bwriad, “intention”, gw. S.E. ; cf. C.Ch. 176.

22 **a pha achaws** : cf. 7, 13, “for what reason”. Sylwer ar y gystrawen : nid *pa achaws a*'i gyrasai ymaith, ond o achos *pa* beth, *yr* oedd yn mynd, cf. 2, 13, *pa* ansyberwyt *a* weleist, ond ll. 20, *pa* delw *y* pryny ; 64, 4, *pa* gyffuryf *y* doeth ; ac yn rheolaidd, *pa fodd y*, *pa sut y*.

Td. ll.

- Ystyr *pa* yn y rhain yw "in what", nid "what"; cf. *paham*, lle dilynir *pa* gan yr arddodiad *am*, nid gan enw.
- 32 23 **pei ys gwypwn ny down:** heddiw "pes gwybuaswn", neu "petaswn i'n gwybod, ni ddaethwn"; *ys* yw'r rhagenw, gwrthrych y ferf.
- 24 **cwbyl**, fel ansoddair "complete".
kyrch waeth: gw. ar 2, 14, "a more unfortunate enterprise" (nid "worse treatment" fel G. ac E.-Ll.; Loth, "subir pire attaque"). Un ystyr i *cyrch* oedd ymosodiad, gw. S.E. 1223, ac isod 74, 8; ond ni olyga yma fwy na "siwrnai, expedition", cf. ystyron *cyrchu*.
- 25 **no'r dugum** (R.M. *noc a dugum*), enghraifft eto (gw. ar 31, 25) o *ry* yn diflannu yn ffafir y rhagenw perthnasol *a* yn R.M. Ar *dugum* "dygais", gw. W.G. 338, 370.
rygyueryw: yr hen gystrawen eto, "a gyfarfu"; gw. W.G. 353, ar *cyferyw* (o *cyfarfod* fel *deryw* o *darfod*). Rhoes R.M. *rygynneryw* trwy gamddarllen *u* fel *n* a thybio bod y ferf yn gyfansawdd o *cyn-* a *deryw*, ac felly ddyblu'r *n*.
- 26 **Bronwen** (R.M. *brannwen*). Rhyfedd yw gweld y ffurf hon yn W.M. Nid yw'r llafariad gyntaf yn glir, eto tebycach yw i *o* nag i *a*. Ai ail law a ymyrrodd?
- 27 **rieni:** gw. ar 31, 1. Yma eto nid oes le i amau'r darlleniad.
- 33 2 **gwneit**, amherff. mynegol amheronol, ond ll. 3 *gwnelit*, amherff. dibynnol amheronol.
 4 **medei:** gw. B. i, 23-30, ar ystyr *meddu*; y neb a feddai'r llys oedd arglwydd y llys, ac ato ef y cyfeiria'r *e* yn *o'e* kynghor ("any one of his council"). Cywirer E.-Ll.
 7 **guare**, "trick"; cf. ein defnydd ni o *cast*. Cymerer *tremic a guare* ynghyd, "that disgraceful trick". Ar y gwaradwydd ynglŷn â'r peth, gw. ar 32, 3: gwnaeth Cadog ei gast ef "in *opprobrium* illis sempiternum".

Td. ll.

- 33 8 **eissoes**, "nevertheless".
diwaradwydau, "to take away the disgrace".
- 12 **diwedyssei**, dywedasai (R.M. *rodassei*); dengys *di-*,
 ôl copïo llgr. hÿn, lle ceid *i* am *y*.
- 13 **nyt oes ymwaret**. G. ac E.-LL., "there are no means by
 which we may prevent"; L. "il n'y a pas moyen de
 l'empêcher". Ond "deliverance" yw *ymwared*, ac nid
 dim arall; cf. Esther iv, 14, a thrwy'r Beibl. Ystyr
nid oes ymwared yw "We are undone!" Pe gedid iddo
 fynd, byddai popeth ar ben, a'r rhwyg yn gyflawn. *rupture*
- e uynet**: gwell yw R.M., *oe vynet*.
- anygneuedus**, annhangnefeddus, mewn dig. *? cf. 31, 21*
- ac nys gadwn**, G. "that we will not take"; L.
 "quand même je ne le permettrai pas". Yr ystyr, fodd
 bynnag, yw, "and we will not *let him go*". Cf. y defnydd
 o *gadu* yn 22, 8 ac yn arbennig W.M. 216, Py ham,
 vilein, heb ef, y *gadut* ti efo heb y uenegi imi. Arglwyd,
 heb ef, ny orchymyneisti euo imi. pei as gorchymynnut
nys gadwn.
- 18 **wynepwerth** (R.M. *wynabwarth*), gw. L. 127, n. Y
 ffurf yn W.M. sydd gywir, er bod *wynebwarth* i gael; cf.
 A.L. i, 46; ii, 32, 406, 644. Ond cf. L.L. 233, iudicatum
 est episcopo *pretium faciei sue* longitudine et latitudine
 in puro auro; Gw. *enech-log* "honour-price"; a dyfynna
 Loth, *enep-uvert* fel Hen. Lyd. o *Cart. Redon*. Un ystyr
 i *wyneb*, Gw. *enech*, oedd anrhydedd, "honour" (cf.
 R.M. 113, a'th *wyneb* di a dygaf i gennyf) a chan y telid
wynebwerth am sarhad a ddygai *warth* ar *wyneb*, hawdd
 oedd ffurfio *wynebwarth* trwy gydweddiad. *o/*
analogy?
- Wrth gymharu'r Cyfreithiau â ll. 19, gwelir fod yn rhaid
 diwygio'r testun. Yn ôl A.L. i, 6; L.I.D.W. 3, *Saraet* brenin
 Aberffraw oedd hyn: can buwch wrth bob cantref yn ei
 arglwyddiaeth, a *gwialen aur cyhyd ag ef ei hun*, a *chyn*
frased a'i fys bychan, a chlawr aur cyfled a'i wyneb, a

Td. ll.

nail of a husbandman?

chyn dewed ag ewin amaeth a fo amaeth saith mlynedd. Ni thelir aur namyn i frenin Aberffraw. A.L. i, 346, Dull Dyfed; Sarhaet brenin, 100 mu; *gwialen arian cyhyd ag o'r llawr hyd yng ngenau'r brenin* pan eisteddo yn ei gadair, *a chyn frased a'i hirfys*, a thri bann (=cangen) oddiarni, a thri o dani, cyn frased a'r wialen ei hun, a ffiol aur a angho (=ddalio) llawn ddiod y brenin ynddi, a chlawr aur arni cyfled ag wyneb y brenin, a chyn dewed fydd y ffiol a'r clawr ag ewin amaeth a amaethai seith mlynedd, neu blisgyn wy gŵydd. I frenhinoedd Deheubarth a Gwynedd y telir hyn; ac iddynt hwy yn unig y telir aur. Braint brenin Deheubarth, sef Arglwydd Dinefwr, yw cael gwartheg gwynion clust gochion "kymeint ac a aghont ol yn ol rwg Argoel a llys Dineuur a tharw unlliw ac wynt y gyt a phob vgeint o honunt". A.L. i, 624, dull Gwent; dywedir fod y wialen i gyrraedd hyd yn iad y brenin, a'i bod *kyureuet ae arianuys*; W.M.L. 3, *kyr refet ae aran vys* a thri ban erni a thri y deni *kyr refet* ar wyalen", cf. A.L. ii. 750, *digito medico*; 894, *medici*; 815, *medio*.

plisgen, stall

skull

x

33 19 **llathen aryant**, sef y wialen uchod.

a uo kyuref a chyhyt ac ef e hun. Wrth y dyfyniadau uchod o'r Cyfreithiau, gwelir fod rhywbeth wedi colli ar ôl *kyuref* "as thick as". Petasai'r wialen cyn frased â'r brenin ei hun, nid *llathen* "rod" a fuasai, ond boncyff! Yn ddibetrus, dylid rhoi i mewn, un ai *a'e vys bychan*, neu *a'e hirvys*, neu *a'e aranvys*, er nodyn Gaidoz, *Cy. x, 1-11*, lle delir fod yma enghraifft o "ransom by weight". Awgrym o hynny, neu olion hynny, sydd yma, ac nid y peth ei hun.

kyuref: cf. *byd-refedd* am drwch y byd gan Oronwy Owen; Gw. *remor* "thick", *com-remor* "as thick as".

[**ae uys bychan**]. Nid oes dim i brofi pa fys ydoedd. Dewisais y bys bychan am fod y Llyfr Du o'r Waun yn

Td. ll.

rhoi hwnnw fel y mesur yn sarhaed brenin *Aberffraw*, ac mai yng Ngwynedd y lleolir y digwyddiad. Eto gallasai cyfarwyddiad o'r Deau roi *hirfys* neu *aranfys* yma, yn ôl defod ei wlad ei hun. Anodd esbonio'r olaf, ond cf. R.M. 155, lle sonnir am waell aur (=brooch, pin, fibula) "kyn vrasset a *garanvys* milwr". Deallodd Zeuss G.C. 2 1055) a Loth (V.V.B. 129) hwnnw fel y bys *canol*, gan bwyso ar y glos *or garn* ar "medio"; eithr *aranfys* neu *garanfys* yw'r gair, nid *garnfys*. Os yw'r *g* ar ei ddechrau yn rhan wreiddiol o'r gair, dylid gwrthod *arianfys* "ring-finger" A.L. i, 624, a chymharu M.A. 164a, *garanawc*; B.T. 57, 2, *garanwynyon* (B.B.C. 51, o *aranwinion*); B.B.C. 98, gwitnev *garanhir* (os yw'r ansoddair yma heb dreiglo fel yn *Beli Mawr*, etc.); G.I.Ll. xii, *garanu* troellfaen brianllif. Ceir enghraifft dda o'r gair yn M.A. 1071, Y *graenvys* a'r bys bach sydd yn gwasanethu ac yn amryaelu yn mhob cywair yn eu rhan eu hunain. (Enwir hefyd y bawd, mynagvys, hirvys, bys bach—felly'r *graenvys* yw'r *trydydd* bys); cf. hefyd y frawddeg gyntaf ar y tudalen hwn, "hirvys tros y tannau—a'r graenvys tan vwrddwn y cyweirdant, a'r bys bach yn ei le".

33 20 **clawr eur**, "plate of gold". Dyma'r unig *aur* a gynigid iddo, canys nid brenin *Aberffraw* neu *Ddinefwr* ydoedd! Er cymaint yr awydd i ennill *Matholwch*, nid oeddid am ei roi'n gyfartal â *Bendigeidfran* ei hun mewn gwerth.

21 **a phan yw**, ac mai; gw. W.G. 448, = *ac y may* ll. 22.

34 2 **iawn a aei uwy** (R.M. *a vei gymeint*).

disgynnu a wnaeth ar, penderfynodd.

4 **y pebylleu a'r palleu**: cyfystyron, gw. ar 31, 11.

5 **ar ureint kyweirdeb yneud**, yn y dull y trefnid neuadd, h.y. uchgyntedd, ac isgyntedd; am *ar ureint* "fel" cf. W.M. 112a, porthawr ar lys arthur, nyt oed yr vn.

Td. ll.

Glewlyt gauaelawr oed yno hagen *ar ureint* porthawr ; Pen. 14, 175, gwneuthur temyl *ar ureint* dadolwch yesu grist am y bechawt ; R.P. 22b, 11, y grist y canaf *ar ureint* canon ; 63b 32, Am Arglwyd . . . *ar ureint* karcharawr. Felly L. i, 387, "en guise de, comme".

34 10 **ardiawe**, "slow, lifeless". Teimlai B. fod yr ymddiddan a gai gan M. yn farwaidd, ddiysbryd.

11 **yn ymdidan**: gwell darll. *yr*.

12 **lywenyt** (R.M. *lewenyð*) ; *t* am *dd*, neu ynteu *-yt* am *-et*. Ceir gwell cystrawen gyda'r ail, "ac yntau wedi bod cyn hynny yn wastad mor llawen".

15 **un nos**, fel pe dywedem ni "y noson o'r blaen", ryw noswaith y gellid ei henwi, petai angen ; cf. S. "the *other* night", "the *other* day", ac *ymannos*, D.G. xlv, 59 ; lxxxi, 2 ; cii, 1.

18 **telediwaf**: gw. ar 22, 14 ; cf. S. "a *handsome* present".

20 **cynnedyf**, hynodrwydd, "peculiarity".

26 **kymwt arall**: gw. R.B.B. 407, lle rhoir *kymwt tal-ebolyon* gyda *k. aberffraw*, fel yn ffurfio cantref (dienw). Cymysglyd iawn yw'r llsgr. yn eu dosbarthiad o gymydau Môn ; gw. Brit. Mus. 2 ; B.M. 3 (R. ii, 941) ; R.W.M. i, 952-54 ; M.A. 735-7, 740. Yn ôl Lloyd, H.W. 229, yr oedd tri chantref ym Môn, sef Cemais, Aberffraw, Rhosyr ; yn ôl M.A. 735, dau gwmwd *Aberffraw* oedd Llivon a Malltraeth ; dau Cemais, *Talebolion* a Thwrcelyn ; dau *Rhosyr* oedd Tindaethwy, Menai. Yn *Rec. Carn.* 106, 107 (cf. 56, 65) rhoir *Extenta Commoti Taleboleon* ; yna un *Turkelyn*, ond *Extenta Candredi* de Aberfrawe, td. 104.

*
28 **Tal Ebolyon**. Ni raid credu'r stori ! Ymgais llên gwerin yw i esbonio enw anodd. Y tebyg yw *mai Tal y Bolion* yw'r cychwyn ; yna trwy fod *e* ac *y* yn ymgyfnewid (gw. W.G. 16) *Tal-e-bolion*. Ond beth yw *bolion*? Ceir yn yr ardal leoedd fel *Rhos y Bôl*, *Pên-bol*,

Folklore

Td. ll.

ac atgoffa'r cyntaf *Bolgro*s yn L.L. 161, 164, 166, 192, a droes erbyn hyn yn *Belly-moor* (Madley, Herefordshire, L.L. 388b); ac etyb i *Rhos y rhumen*, un yn Llanuwchllyn, a'r llall yn Llanllyfni, lle ceir *rhumen*, gair cyfystyr â *bol*. Geill *bol* olygu "ceudod, cavity", neu "prominence, chwydd", ac felly geill *Talybolion*, os yr un gair sydd ynddo, olygu "the end of the deep cavities", h.y. corysydd, neu ynteu "of the ridges". Y mae enw fel Moel y *Gest*, o blaid mai "bryn" yw'r ystyr, ond gw. ar 42, 13. Dylid ystyried hefyd enwau Gwyddelig, fel *Dunbolg*, *Mag-bolg*, etc. Hogan, *Onomasticon*, 119, 378, 513.

- 35 2 **pan**, "whence", cf. 12, 13.
 3 **e doeth** (R.M. *Ef a doeth*); cf. 24, 4.
 4 **na bo yno y caffo**, "that it may not be there that he may have found it", ffordd betrusgar o ddweud "Efallai mai yno y cafodd ef. Ni wn i'n amgen". *Caffo*, pres. dib., ond gyda grym perffaith dib. fel petai *ry* o'i flaen, gw. Strachan, I.E.W. 58, cf. W.M. 227a, kanys *ry gaffo*; uchod 49, 10, a chyn *gwnel* gameu it "though he may have wronged thee". Yr enghraifft orau gyda *ry* yw R.M. 99, kyt *rywnelych* di sarhaedeu . . . *kyn* no hynn; yma ni ellir amau nad at y gorffennol y cyfeirir. (Ni raid deall *caffo* fel *caffod* gyda Loth: ni chyfieithir *na* gan E.-Ll.; ac aeth G. ar gyfeiliorn.) *astray*
 5 **Llassar Llaes Gyfnewit**. Amrywia'r ffurf; cf. 39, 4, *Llayssar Llaesgygwyt*; 52, 23, 26, Ll. *Llaes Gygnwyt* (lle ceir yn R.M. 47, *llaesgygydd*). Gan mai o Iwerddon y daeth, cf. Gw. *lassar*, "fflam"; *forlassair*, enw, ac ansoddair; cf. B.T. 60, 4; 63, 2; 71, 8; *gorlassar*? Eto i gyfrif am *l* ar ôl *r*, dylid tybio gor+glasar, ac y mae *glasar* yn digwydd, gw. R.P. 57 b 12, 70 a 32, 107 a 25, gwna deifyr is *glassar*; 109 b 43, glwyssaf corff dan brid *glassar*. Am *llaes*-, cf. *Llaeskenym*, -*genym*, -*gymyn*,

Td. ll.

goods, wares

R.M. 103, 138, 245. Saif *cyfnewid* "exchange, barter", am fasnach, a nwyddau masnachol; ond yma, ymgais yw i wneud synnwyr o'r gair dieithr, *cygwyt*, *cygnwyt*, neu *cygwyd*, cf. M.A. 151b, gloyw gyngad *gyngwyt(d)*, 208b, Gwastad yg cancad yg *kyngwyt* (*t=dd*) galon (*cwydd-o* "fall", *digwydd*, *gorchwydd*, B.B.C. 106, 14, *tramgwydd*). Ai "onset" yw?

35 6 Cymidei, o *cymid* "brwydr", L. i, 388.

carpenter

*

Kymeinuoll, "cestog"?; gw. B. i, 226 ar *boll*.

ty hayarn yn Iwerdon: gw. L. i, 131; C. O'Rahilly, *Ireland and Wales*, 104-107, am y cyfeiriadau. "In the Irish tale, *Mesca Ulad*, King Conchobar and his heroes wander in a fit of drunkenness into the country of their enemies, the King and Queen of Connacht. An iron house is placed at their disposal and a banquet set before them. 'But as night approached, their attendants would steal away from them one by one, even to the last man, who closed the door after him, and seven chains of iron were fixed upon the house, and fastened to seven stone pillars which were upon the green outside. An enormous fire is kindled, and thrice fifty smiths were brought with their smiths' bellows to blow the fire', td. 106. Mewn chwedl arall (*Orgain Dind rig*) y gelyn yn y tŷ yw *Cobhthach Coel Breg*: "And the thrice fifty forge bellows they had around it, with four warriors at each bellows, were blown till the house became hot for the host". Gweler Hennessy, *Mesca Ulad*, td. 45: *The Destruction of Dind Rig*, Stokes, Z.C.P. iii, 13; hefyd I.T. iii, 419.

8 **yn wenn** (R.M. *yn wynnyas*), *sef y tŷ*; cf. 36, 16, yny uyd y *ty* yn *burwen* am eu penn (R.M. *burwenn*), ond 42, 4, *ty* y ganhei *yndaw*. Mewn Hen Wyddeleg diryw yw *tech* (a etyb i *tŷ*); aeth pob enw diryw, wedi colli'r terfyniadau, un ai yn wrywaidd neu'n fenywaidd yn Gymraeg, ond diau na chytunodd y tafodieithoedd ar

Td. ll.

unwaith ar genedl pob un. Bu ysbaid o anwadalu, ac y mae rhai enwau yn bwhwman o'r naill genedl i'r llall hyd heddiw. Ni fedrir profi mai diryw oedd pob un o'r rhain i gychwyn, ond gwyddys mai diryw oedd ambell un, e.e. *lind*, "llyn", diryw mewn Gwyddeleg; cf. isod 40, 14, *dwylunn*; ond td. 89, *deu lenn*, sef *dau lyn*. Nid oes gennyf enghraifft o *tŷ* yn fenywaidd onid yw *wenn* yn profi hynny yma, ac yn 36, 16; cf. *Tŷ Dduw*, *Tŷ-Ddewi*, er nad yw'r rhain yn derfynol, gan y gellid dadlau mai cydweddiad sydd ynddynt â 'chfyfansodd-eiriau, lle treigilir yr ail elfen, er bod y gyntaf yn wrywaidd. Y mae mwy o bwys yn *ty uab eillt*, 88, 24. Ond gwell gadael y cwestiwn yn agored, gan gofio bod *e* am y yng ngwreiddiol W.M., a'i fod yn anghofio newid weithiau (gw. *lenn*, td. 89, am *lynn*); hefyd td. 36, gelwir y lle yn *ytafell*, enw benywaidd, bum gwaith ynghyfer arfer *ty* amdano ddwywaith: helpai hynny'r ddau gopiwr i gymysgu cenedl, a gadael *burwen* heb ei droi i'w horgraff gyffredin yn *burwyn*; gw. ll. 9, *gynhyf*, fel enghraifft o droi *e* i *y* heb angen. Ond cf. S.D.R. 93.

* 35 13 **Llyn y Pair**: cf. Cóir Anmann, I.T. iii, 359, "*ól ngualai*. This is a vat of copper . . . It was called 'Coal-vat'. From it Loch nGualai, in Daim-inis in the county of Ulster, was named, because it stands to-day under that lake in secret places". Dyna un llyn, beth bynnag, yr oedd llestr yn ei waelod yn ôl traddodiad Iwerddon; ond ni wn am *Lyn y Pair* yno.

15 **athrugar**, "enormous"; cf. Gw. étrócar, Windisch, W., 534. *Iddechrau*, "anhrugarog, creulon"; yna "anferth, aruthr", cf. R.E.B. 79, raw uwystuil *aruthyr* y veint = Havod 1, 21b, ryw uwystuil *athrugar* y ueint; S.G. 23, fflam *athrugar* y meint ac yn y fflam delw gwr *aruthyr* y veint, h.y. defnyddir fel "ofnadwy" heddiw.

drygweith: cf. S.G. 269, yn wr mawr *ffyrnic* y *weith*

*
lowystfíl
wild boest

*? cf. Loch Coru (Quomasticeu) Lind. III.
Loch gualai umai (") 306, 41

Td. ll.

ae lygeit yn gochyon, a manneu gleissyon ar y wyneb. Amlwg yw y defnyddid *gwaith* am y dull y "torrwyd" wyneb, y "torriad" oedd arno; cf. S. "finely *chiselled* features". Yn W.M. 81a, gwr gwineu mawr a *gweith* saer arnaw=311a, ac *agwed* saer arnaw (Pen. 7); 83b, ascwrn y chefyn oed *ar weith* bagyl.

- 35 15 **anorles** (R.M. *aurles*); ansicr yw'r *n*, gall fod yn *u*; am yr *es*, gwasgwyd dwy lythyren ynghyd ar ddiwedd llinell, ond tebyg yw diwedd llawgyffes, W.M. col. 97. Ni welais yr un o'r ddwy ffurf. Ai *anorloes* "garw" ydyw? Cf. R.P. 119b, lle heb uoes llom *oorloes* lleithic.
- 17 **heb y mi**: gw. W.G. 376-7.
- 18 **cyuarch uell** (R.M. *gwell*); *gwell* sydd ar ôl *cyfarch* yn 13, 29; 30, 9; ond *well* 85, 5; cf. W.G. 351, ar henffych *gwell*, a *well*.
cerdet: gw. ar 12, 13. Yma etyb i "hwyl". Pa *sut* yr ydych? Dyma'r *sut*.
- 20 **pethewnos a mis**, ysbaid a nodir yn aml yn y testunau Cymraeg a Gwyddeleg (*teóra cóicthiges*, "tair pythefnos": *cóicthiges for mis*); gw. Loth, R.C. xxv, 131; cf. A.L. i, 190. Ar y ffurf *pythewnos*, W.G. 149.
- 23 **y kymereis**: cf. ll. 24, *y buant*; 36, 4, *e dodeis*, ac uchod 24, 4; 35, 3. Nid rhagenw perthynol yw'r *y* hwn, ond geiryn rhagferfol; ac felly yn ll. 25, *y keueis*, *y* guarauun-wyt, er bod geiriau eraill yn eu blaenori yno.
- 24 **yu gossymdeithaw**, i'w cadw a'u cynnal. Ar *yu*, gw. C.Ll.Ll. 20, W.G. 277. Ar *gossymdeithaw*, cf. 84, 2, A.L. ii, 114, 604, Tri modd y *gossymeithia* brenin y deulu ae nifer: cyntaf o dda y faerdre e hun ae dir bwrdd: eil yw oe ddylyet cyfreithiawl ar y wlat ay wyr e hun; trydydd modd o cospeu am anghyfreithieu a wneler yn y wlat neu lle dylyo wy; C.Ch. 36, y geniver reidus a weles . . . ef ay *gossymdeithws* yn diwall o vwyt a dillat.

Td. ll.

Oherwydd yr *ymdeith* sydd yn y gair, cf. Ll. *viaticum*. Efallai mai "provisions for a journey" oedd ystyr gyntaf *gossymdeith*; yna "supplies" yn gyffredinol.

- 35 26 **pedwryd**: gw. ar 23, 22. Chwanega R.M. *mis*.
- 27 **anghynwys**, gwrthod, anghroeso. Nid oedd neb am eu cynnwys, h.y. gwneud lle iddynt yn eu tai. Am *cynnwys*, "croeso, croesawu", gw. I.G.E. lxi, 18; lxxii, 46, Margred . . . I'w bwrdd gwin beirdd a *gynnwys*.
- 36 1 **sarahedeu**, lluosog *sarhaed*, sarhâd; cf. 91, 21; Lewis, G.M.L. 265, (a) "insult, contempt, act of violation or wrong", (b) "the fine paid for the insult or injury". Y cyntaf yw yma: am yr ail, gw. ar 33, 18.
- eighaw**: G. "molesting"; L. "en gênant". Yn ôl A.L. i, 192, os bydd alltudion o wlad arall dan nawdd brenin, geill, os myn, eu gosod yn *dooureth* ar y *mebyon eyllyon* herwydd eu gallu; h.y. eu rhannu ymbliith y "ffermwyr" sydd ar ei diriogaeth, ac i'r rheini eu bwydo; ond "ny dylant *eyghyau* namyn y nos gyntaw o chahant bara ac un enllyn", nid oes ganddynt hawl i *gwyno*, neu i *ofyn am chwaneg*, ond yn unig y nos gyntaf, os cânt fara ac un enllyn. Cymeraf mai berf o *ainc* "greed, lust", yw hwn; nid yr un gair ag *eigaw* R.M. 98,—ar hwnnw gw. C.Ll.Ll. 32, = *genni*.
- 3 **am ym pen** (R.M. *am vym pen*), enghraifft gynnar o golli *f* yn *fy*.
- ymuadeu**, "to part with"; gw. D.D.G. 121, ac uchod, 56, 6.
- 6 **oc eu** (R.M. *oe*), gw. W.G. 401; *oc*, ffurf ar yr arddodiad o o flaen llafariad, cf. 46, 15, *oc a glywssynt* (Ll.A. 160, bawp *oc ae* darlleo); 70, 5, *oc eu* herchi; 73, 20, *oc eu*; 83, 20, *oc an* hut.
- 8 **causant**, penderfynasant.
- y barawt** (R.M. *yn*); gw. ar 9, 16.

Td. ll.

- 36 9 **dyuyn** (R.M. *dyuynnu*). Defnyddid yn ddiwahaniaeth y berf-enw gyda'r terfyniad *-u*, a hebddo; cf. ar 38, 20, *dygyuoryaw*, *dygyuori*, *dygyuor*, a thrwodd.
a oed o of, yr holl ofaint, llyth. "what there was of smith"; gw. nodyn Parry-Williams, B. i, 105-6; cf. ll. 10, *a oed o perchen*.
- 10 **geuel**. Cymysgwyd er yn gynnar *gefail* "smithy", a *gefel* "pincers, tongs", gan mai gweithdy'r gof oedd un, a'r llall yn un o'i offer. Rhydd R.M. yma *geueyl* ar gam, cf. A.L. i, 436, y *gof* ynnny *eueil*; 780, a than *geueil*; ond 300, *geuel pren* "wooden pincers"; 682, Offer gof . . . *geuel, ord*; B.T. 67, 11, ar redyf *gefel*; S.G. 312, yr *euel* a vuassei yn tynnu yr hoelyon; D.W.S. *gefel hayarn y dymy* [*dynny*] *hoel allan*, pynsons, *gefeil ne weithduy gof*, "a smethy". Felly nid *gefail* yw *gebel* yn Ox. 2 (ar Loth y mae'r bai am y darlleniad *gebell*, V.V.B. 129), ond *gefel*, cymar y Llyd. *gevel*; fel yr etyb *gefail* i'r Llyd. *gofel, govel, goel*. Felly Corn. Voc. *gofail* "officina"; *gevel-hoern* "munctorium" (G.C. 1069, 1078).
mwrthwl (R.M. *myrthwl*); gw. W.G. 113; LL.D.W. 101, *mortuyl*.
- 11 **glo**: nid "coal", ond "charcoal", fel yn yr enwau *Cwm y glo*, *Nantyglo*.
- 15 **megineu**. Neidiodd R.M. yma i *megineu* yn ll. 16.
a gwr a pob dwy uegin: gweithiai pob dyn ddwy fegin ar unwaith.
- 17 **burwen**: gw. ar 35, 8.
- 19 **y pleit . . . yn wenn**: cf. ll. 20 *y bleit . . . ay tharaw*. Benywaidd yw *plaid*. Am yr ystyr o bared neu ochr tŷ, gw. D.N. 140-1, lle rhoir enghreifftiau. Ail ystyr yw "party", sef pobl ar yr un *ochr*. Nid *plates* yw, fel y tybiodd G.! Gelwid pared o wial plethedig (*wattle*) hefyd yn *blaid*; digwyddai'r blaid fod yn haearn y tro hwn.

Td. ll.

- 36 20 **kyrehwys** . . . ae **ysewyd**, "he charged it with his shoulder".
- 22 **o'm tebygu i**, cf. C.Ch. 123, ac *om tebic i nys goruyd*, gw. ar *dyuyn* ll. 9=*dyfynnu*.
- 23 **drwod**, "across"; cf. 40, 5; 41, 5; 45, 11; C.Ch. 139, 24, 25, 31, am y defnydd cyffredin hwn.
- 25 **erbynneisti**, cyfystyr â *derbyniaist di*. Ceir y berfenw *erbynnyeit* yn S.G. 384.
- 27 **y maent yn lluosau**, cyfeiriad at "drefedigaethau" o Wyddelod yng Nghymru, fel yr oedd o Gymry yn Iwerddon; gw. O'Rahilly, *Ireland and Wales*, 65, 82-3, 106, n. 1. colony,
settlement
- 28 **y bythont** (R.M. *bont*), un yn drydydd, llu. pres. dib. o *bythwyf*; a'r llall o *bwyf*; gw. W.G. 349.
- 37 7 **A hynny**, a'r rheini, gw. ar 1, 13.
teir llong ar dec: nid testun y ferf *kychwynnyssant*, ond manylu ymhellach ar y testun, fel pe rhoddid *sef* i mewn, cf. 45, 12, ac y *kychwynassant* a'r penn gantu drwod, y *seithwyr* hynn; 51, 15.
- x **Abermenei**, ger Caernarfon. Yno'r oedd prif borth Gwynedd am ac o Iwerddon; cf. H.G.C. 112, 114, 120, 122, 156, am gyfeiriadau ati. Gan fod llys Brân yn Aberffraw yr oedd yn naturiol cychwyn o'r porthladd nesaf (tuag wyth milltir i fwrdd ar hyd fôr).
- 10 **doey wr**: gw. ar 1, 23.
- 11 **cae**, "clasp, brooch"; gw. B. i, 50-1.
- 12 **cadwedde**, un arferid ei gadw yn nhrysorfa'r llys, fel un tra gwerthfawr.
ydaw, yn well, *udunt*, iddynt.
arbennie y welet. G., "such as it was honourable to be seen departing with"; L. "qui leur donnait un air princier quand ils sortaient". Ond am y *teyrnddws* y sonnir; ato ef y cyfeiria'r rhagenw *a* yn ôl y gystrawen, ac felly ato ef y cyfeiria'r *y* (=ei) o flaen *welet*. Ystyr

Td. ll.

- arbennic* yma yw "hynod, eithriadol, ar ei ben ei hun". Rhoddai Branwen dlysau na byddid byth yn meddwl am eu rhoi, y cyfryw yr oedd eu gweld yn myned ymaith o'r llys yn beth i ryfeddu ato.
- 37 13 **ymyse hynny**: Ellis-Lloyd, "in these things", ond gwell fuasai "in the meantime", yn y cyfamser, fel Ll. *interea*; cf. 24, 9; 51, 11, a T.W. ar *inibi*.
- 14 **hwyl delediwr a duc**: gw. Ch.O. 51 ar *dwyn hwyl* "rhuthro", a'r Gw. *seól* "course". Nid rhuthr sydd yma chwaith, cf. ll. 13, y *ulwydyn* honno a *duc*; 47, 2, *dwyn yspeit*, ond bod Branwen wedi treulio'r amser yn hapus, digon o glod, digon o gyfeillion.
- 15 **yn hynny**, yna, neu yn y cyfamser; cf. 38, 7; 51, 9.
- 18 **ar uaeth**: gw. ar 19, 20.
ar un lle: gwell darllen gydag R.M. *yr un lle*, gan ddeall *yr* fel *i'r* (= *yn yr*).
- 19 **goreu y wyr**. G. "where were the best men of Ireland"; L. "chez les hommes les meilleurs d'I", gan ddeall *y* fel *ei*. Tybiaf mai *i* "for" ydyw, y lle gorau *i* *wyr* yn Iwerddon "the best place for men".
- 20 **ymodwr**, twrw, helynt; gw. Ch.O. 34-5.
- 21 **Matholwch**: mwy rheolaidd yw R.M., *vatholwch* ar ôl *gawssei*; gw. ar 1, 23.
- 22 **Kymry**: gw. W.G. 13. Diweddarach yw gwahaniaethu rhwng dwy ystyr *Cymry*, sef "Welshmen, Wales", trwy ddefnyddio *Cymru* am yr olaf; cf. Gwynedd, Ffrainc, Gododdin, am y bobl a'r wlad, ac uchod 38, 4, 12.
somm, siom, nid yn ystyr heddiw i'r gair, sef "disappointment", eithr "trick", neu'n llawnach "shameful trick"; cf. S.G. 61, y kythreul a oed yn keissyaw y *sommi*; 67, ef a ffoes megys y neb a darffei y *gewilydyaw ae sommi*. Rhed yr ystyr o "to trick, deceive" drwy'r hen enghreifftiau, a hyd yn oed "to mock"; cf. D.W.S. *somy* desceyue; *siommi* begyle; *sommedigaeth* desceyt;

Td. ll.

D. *siomm* fallacia, dolus, fraus ; B. *Cwsc* 21, A pheth yw Hwndliwr a'th *siommei* mewn rhyw hen geffyl methiant wrth y Potecari a'th *dwylla* o'th arian a'th hoedl hefyd ; Num. xxii, 29, A dywedodd Balaam wrth yr asen, Am i ti fy *siomi* (S., because thou hast *mocked* me) ; Matt. ii, 16, pan weles ei *siomi* gan y doethion (S. when he saw that he was *mocked* of the wise men). Y ferf Roeg yn yr olaf yw *empaizo*, to mock, trick, deceive, ond gair arall sydd yn 2 Cor. ii, 11. Daw *siom* o ffurf ar S. *shame*, ond etyb yn well o ran ystyr weithiau i'r ffurf Ogleddol *sham*, er na rydd N.E.D. enghreifftiau o'r olaf sydd cyn hyned â'r gair yn Gymraeg. Rhydd F.W. y ferf *to sham* "to delude with false pretences, fool by means of a fraud, trick", a dyna wedd ar ystyr *siomi* gynt ; gw. R. *siomm*, "fraud, deceit, a sham" ; T.J. (1688), *somm*, *siom*, a shamm or deceit ; D. *siommi*, decipere, fallere ; *sommedigaeth*, impostura, deceptio ; E.E.W. 53. Daw'r ystyr gyffredin heddiw o bwysleisio teimlad y dyn a dwyllwyd.

- 37 23 gwyr **nessaf gantaw** : cf. *cyfnesaf*, "kinsman", G.M.L. ac S.E. ; [mewn Gw. ceir *coibnius* (C.I.L. 411) (1) "relationship" ; (2) "a kinsman, ally" ;] *comnessam* "the next, nearest, neighbour" ; *connesta* "a kinsman" (C.I.L. 450).

lliaw, edliw. Gwell cystrawen fyddai yn y *liaw* *idaw* gan fod *hynny* eisoes ar ddechrau'r frawddeg.

- 24 **dygyuor**, cyffro, berw, helynt.
 25 **lonyd**, fel enw, "peace".
 28 **dyuot idi**. Gan fod *llys* yn fenywaidd gynt, gall *iddi* olygu "into the court" ; ond gwell dal mai at Franwen y cyfeirir yn *idi* fel yn *arnei* yn yr un llinell ; cf. 44, 18, *dyuot* deu Wydel uonllwm *idaw*, h.y. daethant *ato*.
 38 3 **llongeu**, "ships" yn gyffredinol ; **ysgraffeu**, llai na'r cyntaf ; cf. R.B.B. 211, na ellit mynet y vn o honunt namyn yn *llog* neu yn *yscraf*. A gwedy kaffel *yscraff*

different roots.

Td. ll.

(Ll. *naviculum*) o honunt a mynet drywod. Canodd Syr D. Trefor i *Ysgraff* Porthaethwy, "ferry-boat"; aeth Gruff. ap Cynan yn *yscraff* canonwyr Aberdaron, "ac en honno a dan rwyf yd aeth hyt en ywerdon"; felly cwch mawr y gellid ei rwyfo ydoedd (H. G.C. 134). Weithiau ceid hwyl hefyd, fel yr awgryma S.G. 149, *ysgraff* heb na rwyfeu na hwyl erni. Ar y gair, gw. R.C. xxxiv, 230; benthg, meddir, fel Gw. *carbh* o'r Hen Islandeg *karfi*, cf. C.I.L. 317. Efallai bod y Ll. *scapha* hefyd wedi effeithio ar y gair Cymraeg, gw. ar *corygeu* isod.

- * | 38 3 **corygeu**, llu. *corwg*, gw. Williams, *Gildas*, i, 44, *de curucis*, quibus sunt trans tithicam vallem [=môr] evecti; "In Adamnan's *Life of Columba* we read that timber for building was to be conveyed over sea in boats (*scaphis*) and cwrwgs (*curucis*). The term, though originally denoting, as now in Wales, a skiff made of osier twigs covered with ox-hide, must be taken as denoting also the rude Celtic ship. But the *curaci*, used by Columba and his friends, were provided with sail yards (*antennae*), sails (*vela*), and rigging (*rudentes*). Adamnan's *Vita Columbae* ii, 45, Reeves' ed., pp. 176, 177". Am Gw. *curach* "coracle", gw. C.I.L. 569. Defnyddir (fel llestr) nid yn unig am gwch ond am lestr i yfed, gw. B.T. 32, a *chorwc* gwytrin ar llaw pererin.

* | 7 **blwynyded**, trwy drawsosod *blwyddynedd*, llu. *blwyddyn*.

8 **drydwen**, "starling". Fel eraill o'r geiriau sy'n dechrau â *dr-*, ceir ffurf hefyd yn *tr-*; ceir y ac *u* yn y sillaf gyntaf, ac ar y diwedd, *-w*, *-wy*, *-wen*. Rhydd Lhwyd, A.B. 10b, Adar y *Drydion*, Cern. Edhnow *trodzhan*; 14a, *dridw*, Llyd. *Drêt*; Stokes, Ur. Spr. 139, Cern. *troet*; Gw. *truit*, *truid*, *trod* (Dinneen, *truideog*); Troude, Llyd. *dred*, *dret*, *tred*; S.E. *drudwy*, a cham-

o Sc. druid

Td. ll.

ddyfynna Ed. James, Hom. ii, 164, ond *drydwy* sydd gan hwnnw; D. *drudwy*, *drudwen*, ac felly T.W. dan *sturnus*. Yn y testunau cefais *drydw* R.P. 119a, 58a; *trydw* (?) B.T. 75, 23; L. Morgannwg, "Marchogwaed dan draed *drydain*—a gladdwyd"; Syr D. Trefor, "Ai *drydwy* sydd *drwy* dy siad?" Etyb Gruff. ap Tudur ap Hywel, "Nid da i'r porth nag i'r pen /Drydar na gŵydd na *drudwen*. Ym Môn ar lafar gwlad clywais *dridws*, *drudws*. Ymddengys *drydw* i mi fel y ffurf reolaidd yn Gymraeg, gair unsill; ac yna, pan wnaed *w* yn sillaf, deuwyd i ysgrifennu *drudw(y)*, fel y daeth *sulw* am *sylw*. Bychanigyn o *drydw* yw *drydwen* (cf. *mwyalch*, *mwyalchen*).

38 9 tal y noe: "the end of the kneading trough", nid
trough "cover" fel G. Safai'r aderyn ar un pen i'r cafn tyfino.
dyscu ieith: gw. B. ii, 134-5; Du Meril, *Poésies* t knead
Inédites, 5, n. 2.

10 y ryw wr, "the kind of man".

14 Kaer Seint yn Aruon, heddiw Caerynarfon, Caernarfon, ond cedwir *Seint* (o *Segontium*) yn enw Afon *Saint*, Pont *Saint*; cf. *Aber Sein(t)* R.M. 87.

yn *dadleu idaw*, mewn *dadleu iddo*, sef mewn cynulliad i benderfynu pynciau o gyfraith neu o wladwriaeth; cf. Y.C.M. 28, "hwynt a ossodyssant *dadleu*, ac yn *hwnnw* wynt a ymgydarnhayssant drwy gyflyet [=llw] yd eynt y ryelu". Gwelir yma mai enw unigol gwrywaidd yw; cf. ymhellach R.M. 82, A *dadleu* brenhined a oed arnaw diwarnawt. Hefyd cf. *cyngor*, "council", a "counsel"; a'r Gw. *dál*, "assembly"; cf. *kynnadl*, 3, 14. Mewn Hen Gymraeg, ceir *dall*, gl. ar *foro* yn Ox. 1; ar *concio* Eut; *dadlou*, mewn Hen. Lyd. gl. ar *andronas*, V.V.B. 93.

17 yg kyuanned, ymhlith pobl, cf. Gw. *connaide*, "a dwelling", ond i *connaide* "always" [cf. *yn breswyl* yn y Gyfraith], *connaidim* "I dwell", C.I.L. 449; W.G. 188, /*

Td. ll.

38 18 **darllewyd**, darllenwyd, o *darlle-af*, *darllein*; gw. W.G. 382.

lle hwnnw: cf. ar 3, 14.

20 **dygyuoryaw**: gw. ar 1, 9; cf. *td.* 71, 19, *dygyuori*, 20, *dygyuor*, fel berfenwau.

21 **llwyr wys**, "complete levy", galwad gyffredinol; cf. R.B.B. 106, erchi y bawp yn gytuun dyuot . . . ac *yr wys honno* y doethant yn llwyr pawb or a hanoed o genedyl y brytanyeit; cf. A.L. ii, 598, *TRI gwys cyfreithiawl*; lle mae *g.* yn wrywaidd. *gwyssyaw*, "to summon, call"; G.M.L. 184, *Reports* i, 223, peri a wnaeth y prior ganv *kloch wys* i *wssio* yr holl vrodyr yr kabidyldy; 580, Atvydd Rhys ap Rhys a dyvyn a *gwys* a rhyvel ar *vrys*. Dengys yr olaf mai *gwýs* yw'r gair; rhaid ynteu mai *ar ei uŵys*, o *mwys* "table", sydd i fod yn M.A. 148b, 50. R.B.B. 87, gossot *gwys* dros wyneb ynys brydein y erchi y bawb . . . dyuot (Ll. *edictum*); 117, ellwg *gwys* a oruc (*edictum*).

21 **pedeir degwlat a seithugeint**, sef 154. Ol dull hynafol o gyfrif sydd yma, nas deallid gan ysgrifennydd y Llyfr Coch. Rhoes yma *pedeir gwlat*, gan gollir *r deg*, ac yn R.M., 43, niuer *degwlat*, gan gadw'r *deg* a cholli'r *pedeir*! Dealler *pedeir degwlat* fel 14, nid 40; cf. *deuddeg* 12, nid 20, *pymtheg* 15, nid 50; B. iii, 256, 272, *naunecant*, 19 nid 90. Oddieithr *deuddeg*, *pymtheg*, aeth y dull hwn o gyfrif o arfer, ond cf. Cern. *puzwar-thack*, Llyd. *pevarzek*. Esbonia Thurneysen, H. 234, mai genitif yw *deac* yn *a ocht deac*, 18, mewn Hen Wyddeleg, ac felly *deg* uchod; ct. *deunaw* lle dyblir y *naw*; gw. hefyd Pedersen, ii, 133. Tynnodd yr Athro Henry Lewis fy sylw at *undec*, *undecued*, yn H.G. 66b, *undecuet dyd* yn R.P. 147b (cf. Llyd., Cern., *unnec* am unarddeg), ond *unuet dyd ar dec* yn Pen. 12, *unvetyd ar dec* Pen. 5; cf. hefyd *trydydec* yn R.P. 144b, am drydydd *ar ddeg*.

Td. ll.

- 38 21 Ystyr *gwlat* yma yw "district", a honnir bod 154 o wledydd yn ateb gwŷs Brân. Sylwer mai 156 o gymydau oedd yng Nghymru yn ôl un cyfrif, *Reports* i, 954, Pen. 163. A drowyd cymydau Cymru yn wledydd Ynys Brydain gan y chwedlydd ?
- 24 y **dywyssogyon** (R.M. *yn*) ; gw. ar 9, 16, ac isod ll. 25, y *benhaf* (R.M. *yn bennaf*).
- 25 **Cradawc uab Bran**, gw. L. i, 135n. am y cyfeiriadau ato, ac isod, ar 39, 6 yn un o'r Trioedd.
- 29 **Edeirnon**, y wlad o amgylch Corwen, a alwyd ar ôl *Edern*, mab Cunedda, Lloyd, H.W. 245. Yng nghantref y Barwn yr oedd tri chwmd, Dinmael, Edeirnon, a Glyn Dyfrdwy, R. i, 952. Rhydd W.M. ac R.M. *-on* yn y sillaf olaf ; *Edeyrnaū* sydd yn R. ii, 941.
- yd edewit** : cf. 46, 1 : 47, 27. Sylwer ar ystyr y ffurf, nid amherffaith ond perffaith yw'r meddwl.
- Seith Marchawc**. Methodd G. a gweld mai enw lle sydd yma : mae Bryn Saith Marchog ar y ffordd rhwng Ruthin a Chorwen. Nid enwir y saith yn y chwedl, ac efallai mai awydd esbonio enw'r lle a barodd y cyfeiriad yma. Gan fod *seith* hefyd yn golygu "sant" (megis B.T.10, *Seith* Pedyr, L.L. 255, Lann i doudec *seith*), cynnig Loth y geill mai *Sant Marchawc* ydoedd yr hen ystyr, a chyfeiria at *Lo-marec* yn Llydaw. Awgrym diddorol ; cf. ymhlith y saint, Sadwrn *Farchog*, L.B.S. iv, 126.
- 39 1 **Euehyd** : gw. ar 12, 23. Am yr enwau eraill, gwell darllen *Glew Yscwyd* oherwydd ansicrwydd yr orgraff, nid fel "bold shoulder" ond fel "bold shield". Ar *Idic* ac *Anarawc* gw. 32, 20 ; ceir *fotor* fel enw lle yn W.M. 229a ; daw *Wlch* (nid *Gwlch* fel G. ac E.-Ll.) hefyd yn *cyf-wlch*, *cyf-ylchi* ; *minasgwrn* "bonelipped" ; ar *Llaesgygywt* gw. ar 35, 5. Darllen L. yma *Llaesgywydd* (R.M. *llaesgygywd*).

Td. ll.

- 39 1 **Pendaran Dyuet yn was ieuanc.** Anghofiwyd bod P.D. yn ddigon hen i fod yn dadmaeth Pryderi, *td. 27*, a bod yr olaf bellach yn ddigon hen i fynd i ryfel gyda Brân, *gw. 44, 25*.
- 6 **kynueissat, 7 kynweisyat,** o *cynt-gwas-iad*; a *cynt-yn* yr un ystyr anrhydeddus ag yn *cyntedd*; cf. B.T. 34, pwy y tri *chynweissat* a werchetwis gwlat; Skene, F.A.B. ii, 458, Tri *Chynweissat* Ynys Prydein, Caradawc mab Bran a Chawrdaf mab Caradawc ac Owein mab Maxen Wledic (o *Hengwrt* 536); *Cy. vii, 127*, Tri *chynweisseit* ynys brydein: gwydar ap run ap beli. Ac ywein ap maxen wledic. A chawrdaf ap karadawc; A.L. ii, 895, filii optimatis, i. macuiueid *et chengueisæid* [servitores] *qui preparant ei ignem*, etc. Ond cp. A.L. i, 8, lle rhoir *ar kenutey en keneu tan* (348, *kynmutwr*) yn lle *chengueiseid*; ii. 751, *et calo qui ignem custodiat*.
- 6 **synyaw ar,** "cadw golwg ar"; cf. 54, 17.
- 9 **y weilgi,** y dŵr dwfn; *gw. ar 29, 5*.
- 10 **y ueis yd aeth ef:** Ellis-Lloyd "he came to shallow water", ond nid "he came" yw *yd aeth* eithr "he went", ac ystyr *y ueis* yw "by walking, by wading", cf. *y dreis* "by force". Yn R.P. 78a (merch) lliw eiry *diueis* "eira heb ei sathru, difrisg; (nid haws) no mynet . . . iwerdon o von *y veis*, "na mynd i Iwerddon o Fôn *ar draed*"; D.B. 51, yr anodun a elwir yn eigawn yn y lle ny chaffer *beis* (abyssus quasi abest *fundus*, "gwaelod"); D.W.S. *beisio dwfyr* "wade"; *gw. B. iv, 342-4*; cf. hefyd Ll. *vado* "cerddaf", *vadum*, "rhyd, lle bas y galler cerdded drwodd, gwaelod (ffynnon)" lle gwelir perthynas debyg o ran ystyr. O'r ochr draw gwelid Brân yn *dyuot y ueis* fel mynydd *ar gerdet*, 40, 10. Gellir atalnodi o flaen neu ar ôl *yna* yn y testun; os y cyntaf, nofiai Brân y weilgi, a cherdded wedyn gan nad oedd ond dwy afon; os yr olaf

Td. ll.

nid oedd y weilgi *yna* (y pryd hwnnw) yn fawr, a cherddodd Brân yr holl ffordd.

- 39 10 **Lli ac Archan**: cf. I.G.E. 293, Rhwng Hafren . . . Llu *gwrth* a *Lli ac Arthan*. Mewn Gw. ceir *lia* (Windisch, W. 662), ond rhydd O'Clery *lí. i. muir* "sea", R.C. v, 15. Dengys I.G.E. fod rhai'n darllen yr ail enw fel *Arthan*; anodd gwahaniaethu rhwng *t ac c* yn yr hen lawysgrifau.
- 11 **amlawys** (R.M. *yd amyhlawys y weilgi y teyrnassoed*, gan neidio o un *weilgi* i'r llall, ll. 12), "ymledodd"; cf. S.G. 11, y parabyl hwnnw a *amlhaawd* ym pob lle.
- 12 **pan oreskynwys**. Am gyfeiriadau eraill at y môr yn gorescyn y tir, gw. B.B.C. 106, Seithenhin a Maes Gwyddneu; W.M. 232a, Teithi Hen mab *Gwynhan* a weryskynwys mor y kyuoeth (Ceir Bedd *Gwennan*, ger Dinas Dinlle).
- 13 **a oed o gerd arwest**, yr holl gerddorion offerynnol, nid "bards" fel Ellis-Lloyd; gw. ar 36, 9; B. i, 105; ac R.B.B. 334, lle cyferbynnir *cerdd arwest* a *cherdd dafawd*. Gwêl S.E. 381, am *arwest* "llinyr"; etyb i *tant*, *tennyn*, yn eu hamryfal ystyron. Cyfeiria Loth at M.A. 318, lle dywed Ierwerth Beli i Faelgwn ddwyn gydag ef a "oedd o *gerdd arwest* ar gerddorion", a pheri iddynt nofio'r afon (Conwy). Pan ddaethant i dir, "Dimei nis talei'r *telynorion*"; nid oeddent werth dim, gan fod eu tannau wedi eu difetha, ond cystal y prydai'r prydyddion a chynt! Y wers yw rhagoriaeth prydydd ar delynor. Rhag i'w gerddorion ef wlychu eu tannau, cludodd Brân hwy ar ei gefn i Iwerddon. Y tebyg yw eu bod felly yn uwch o gyrraedd y tonnau nag mewn llong o'r cyfnod hwnnw!
- 15 **meicheit**, "swineherds"; troes moch-iad yn meichiad, llu. meichiaid. Yn iaith y De, collir yr *i* gytsain, ond honno sy'n peri newid o yn *ei* (cf. Ll. *spolium*, ysbail, gynt *ysbeil*), ac felly teg yw casglu mai ei *choll*i a wnaeth

Td. ll.

- y Ddeheubartheg, ac nid bod Gwynedd wedi ei rhoi i mewn.
- 39 15 **y weilgi.** Unwaith eto neidiodd R.M. o un *weilgi* i'r llall, sef i ll. 17.
- 16 **yn troi,** yn brysur yn gofalu am eu moch, cerdded o gwmpas; cf. 84, 13.
- 17 **tremynt** neu **dremynt,** *golygfa*; gw. Ch.O. 46.
- 21 **coet rywelsom,** "we have seen a forest". Yn yr un ll. ceir *welsam*.
- 22 **prenn,** yn ei hen ystyr "tree"; cf. *pren* y bywyd, etc., yn y Beibl.
- 24 **ar gerdet,** "on the move"; felly ll. 26.
eskeir, yn *fanwl* "coes"; cf. Diarhebbion xxvi, 7; Ioan xix, 31; am *fynydd* "long ridge"; cf. *cefn*, *cefnen*, *braich*.
- 40 3 **kyn ny bwyf,** "though I am not". Unwaith eto, sylwer bod R.M. yn neidio; y tro hwn o *hynny*, ll. 3, i *hynny* ar ddiwedd ll. 4. Collodd trawddeg werth ei chael, dechrau atebiad dewr Branwen. Gwyddai ar unwaith fod ei brawd mawr yn nesau, a diwedd ei phoen hithau hefyd.
- 5 **drwod** (R.M. *drwad*); gw. ar 36, 23.
clybot: gw. W.G. 372.
- * | 7 **gwernenni llongeu,** "masts"; cf. Cern. *gwern* "an alder, a mast of a ship"; Gw. *fearn* "the alder tree, the mast of a ship, because generally of alder", Dinneen. Ceir *gwern*. "mast" hefyd yn Llydaweg, a *gwernenn* am y pren, llu. *gwern*.
- 8 **gan ystlys,** "by the side of".
- 10 **kynganeî:** disgwylid *kynganneî*, canys cyfansawdd yw o'r ferf *gannaf*, *genni* "to find room in". Efallai ddarfod ei gymysgu â *cynghanu* (o *cân*), *cynganedd*.
- 14 **dwy lynn:** gw. ar 35, 8; cf. M.A. 463, mae yma . . . *lynn* y syd ryfedach no *honn* . . . *llyn* arall . . . yr *hon* a

Td. ll.

elwir llyn lliawn ; R.B.B. 193, bot llyn arall . . . oed ryfedach no *honno*. Cymysglyd yw'r genedl wedyn ! "Ar llyn *honno* . . . kymer y dwfwr *yndaw* . . . gwrthyt y llyn y dwfwr a gymerei *yndi* . . . nas sucknei y llyn ef *yndaw*. Ac o bydei ynteu ae gefyn *attaw*, yr nasset vei *idi*" ; cf. isod 89, *deu lenn*=dau lyn ; M.A. 590, n. 514, yn y llyn *hwynnw* ; n. 576, or bei y geuyn ar y llyn . . . yr nasset y bei *idaw*. Yn y De, benywaidd yw byth.

40 14 Gweler R.C. xi, 347-8, lle dengys Loth fod disgrifiad go debyg o gawr mewn chwedl Wyddelig, *Togail Bruidne Dá Derga*.

17 **morbennyd**. Cymerwyd y gair fel "sea chiefs, admirals" gan E.-Ll ; "grands chefs" gan Loth ; "chief men" gan G., fel petai o *mor* "sea", neu *mawr* a *penn*, ar ddelw *unben* ; ond anghywir yw'r cwbl, fel y dengys yr enghreifftiau. *Morben* yw glan y môr, "coast", weithiau penrhyn "headland" ; digwydd fel enw tŷ rhwng Glan Dyfi a Machynlleth ; gw. Lhwyd, A.B. 55, ar *dorsum* ; D.=promontorium ; D.G. ccviii, 26 ; M.A. 489b, yd oed ef ar *glan y morbennoed* hynny (super *maritima*) ; 513, Ac val ed oedynt evelly en anrethyaw er *arvordyred* wynt a kyvarvuant ar racdywededygyon vorynyon wwchot a rywwryessyt yr *morbennoed* henny (=coasts) ; R.P. 34a, Tiryon mon meillyon y *morbenn*. Cymerer *a'r holl uorbennyd* gydag *Iwerdon* (casglwyd milwyr Iwerddon a'r holl *dueddu*), er bod cyfwng rhyngddynt. Hoffid cysstrawen felly gan y cyfarwyddiad ; cf. 20, 18, irwn y hwyneb hitheu Riannon a'r gwaet, *a'y dwylaw* ; 54, 2, Casswallawn a glywei hynny, *a'e wyr* ; 34, 9, ac nachaf yn ardiawc gan Uendigeiduran yr ymdidan, *ac yn drist* a gaei gan Uatholwch. Am *morben*="coast", ac ardal neu *duedd*, cf. "coast" a'r Ffr. *côte*.

19 **Llinon**, Afon Shannon, Gw. *Sinann*. Rhydd Hogan, *Onomasticon*, 603, y ffurf yn Lladin fel *Sinonam*. O flaen

Td. ll.

i seinir *s* fel *sh* mewn Gwyddeleg, ac ni cheid y sain honno yn Gymraeg yn yr hen oes, a'r peth tebycaf iddi oedd *ll*. Felly cafwyd *Llinon* nid o lyfr ond trwy glywed Gwyddel yn ynganu'r gair. Gan fod *llinon* "gwaewffon" ar arfer yn Gymraeg, a bod *Gelau* "llafn", *Cleddau* "cleddyf" ar gael am afonydd (Aber-gelau, Aberdaugleddyf), swniai *Llinon* yn ddigon naturiol i Gymro fel enw afon.

- 40 21 **mein sugyn**, *meini* yn *sugno* haearn atynt, "loadstones"; cf. *sugndraeth*. Rhydd *D. maen ched, ehedfaen*, "lapis Heraclius, aliis Magnes". Ar yr olaf dyry T.W. *maen tynnu*.
- 22 **a gilyssant** (R.M. a *gilyassant*). Pan roir y terfyniad *-yssant* ar ôl bôn *cil-i-af*, disgwyliid *ciliysant*, mewn hen orgraff, *cilyssant*, ond cyll yr ysgrifennydd hwn *i* gytsain yn aml; cf. 39, 7 *hwilyssant*; yn R.M. ceir y terfyniad *-assant*, a chedwir yr *i* gytsain.
- 23 **drwy**, lle dywedid yn awr *dros*; cf. *drwydi*, ll. 26; gw. hefyd 36, 23; 41, 5.
- 25 **parth a glann yr auon**. Dengys hyn fod daearyddiaeth Iwerddon yn bur anhysbys i'r awdur.
- 28 **namyn**. Am ychydig ceir help darlenniadau Peniarth 6, = P. 6 yn y nodion hyn, gw. isod, td. 305.
a uo penn, "he who is head", nid "who will be" fel G., neu "would be" fel E.-Ll. Pwy bynnag a fo'n bennaeth, dylai rwyddhau ffordd ei ddilynwyr, eu helpu i groesi pob afon, er i hynny olygu gwneud pont o'i gorff ei hun, h.y. dylai ymaberthu er mwyn ei wŷr, ac nid er mwyn bod yn ben, ond am ei fod eisoes yn ben.
bit pont (R.M., a P. 6, *bont*). Treiglir ar ôl *bid* ("let him be") yn rheolaidd; gw. amryw enghreifftiau yn Skene, F.A.B. ii, 245-7.
- 41 2 **diharebir** (R.M. *diarebir*, P. 6 *diarhebir*). Yr olaf yw'r cywiraf (o *di-ar-heb-ir*), gan mai *heb-* yw bôn y ferf syml.
- 6 **Matholwech**, yn P. 6 *Mallolwech*; gw. ar 30, 14.

Td. ll.

41 8 **na haedei arnaw** (P. 6, *na haethei namyn da arnaw ef*). G., "how that of his good will he had merited of him nothing but good"; L. "qu'il n'avait pas démerité de lui, en ce qui dépendait de sa volonté"; E.-Ll. "he merited nothing but good". Ni thâl hyn, gan nad etyb i'r hanes: buasai'n rhaid anghofio poen Branwen, a thybio bod Brân yn ynfytyn. Cydnebydd M. y cam yn ll. 11. Mewn araith union y geiriau a lefarwyd oedd. "Ni haedd arnat o fodd Matholwch namyn da". Hen ystyr *haeddu* oedd "reach", fel yn *cyr-haeddu*, a dyna yw yma hefyd; cf. Cern. *hedhy* "to stretch out, reach at, reach, fetch"; *drehedhy* "to reach, attain to"; Llyd. *dirhaes*, Ernault, G.M.B. 175; cf. B.T. 8, 12, am beth ofer, "mal *haedu* awyr a bach . . . mal gwneuthur goleu y dall"; B.B.C. 24, nym *dyhaetei* alar; R.P. 118b, 12; L.I.A. 109; G.B.C. 166. Ceir *haeddu ar* yn y Diarhebon, D. *haeddu ar* nyth y caccwn, "to happen upon", fel *taro ar*; gw. ymhellach B. iii, 261, *aed bid ad* "reaches". Yn C.Ch. 48, ceir *arraedd*, "wyth dyrnued oed *arraed* y wregys ymdanaw heb a oed odieithyr" (bai Y.C.M. 26 yw darll. *cirraed*); nid "strap" mohono, fel y tybiodd S.E., ond "reach, length": wrth sôn am wialen geilwad, defnyddir y ferf yn Ll.D.W. 59, hyt yr *arhaydo* a honno o bop parth ydau; M.A. 304a, *ymyrraedd*. Yn y testun, dywed y cenhadau, o fodd M. na ddigwyddai ond da i B., na chyrhaeddai dim arall mono. Cyfeirir at y dyfodol, nid oedd M. am ymladd o gwbl yn erbyn B. Ystyr arall sydd i *haeddu ar* yn S.G. 378.

10 **dy nei ditheu**. Pwysleisir y berthynas yn ddeheuig, *dexterous, skilful, expert* yn union fel y dygwyd *cyfathrachwr* i mewn yn ll. 7.

11 **ystynnu**: G. "places before thee"; L. "offre"; ond ystyr ffiwdal sydd i estyn yma ac yn 43, 11. Hwn yw'r gair Cymraeg am "invest", cf. Ll.D.W. 62, 27, nyt dyls

Td. ll.

y dyn dyuodyat y tyr namyn o uraut y gyureyth neu o *estyn arghyd*. Arferid *estyn* i'r deiliad rodd bach fel arwydd o'r rhodd fawr, neu o'r fraint, a gelwid hynny yn *rhodd ac estyn*; gw. *rodi* yn ll. 9; cf. Y.C.M. 64, *Mi a rodaf . . . ac ath wnafl yn arglwyd ar seith gastell . . . ac ae hystynnaf yt y gan y uanec honn yman*; yn C.Ch. 92 rhoir braint trwy gyflwyno *bwa*; 94, *maneg*; 162 *ffon*. Cynnig M., felly, yw arwisgo Gwern yn frenin yng ngŵydd ei ewythr.

- 41 12 **odyant**, coddiant, ffurf hwy ar *cawdd*, "insult, wrong", weithiau "anger".
- 13 **gossymdeitha**: gw. ar 35, 24.
- 15 **ue hun**: yn *ue* ceir *e* am *y* o flaen *u* (P. 6 *uyhun*); gw. W.G. 16.
 ac aduyd: gw. ar 2, 9.
- 15 **ys kymeraf**. Ceir *as*, ac yn ddiweddarach *ys*, o flaen berf yn y testunau hynaf, gw. B. ii, 284, am enghreifftiau. Tebyg yw i'r rhagenw *as* wedi colli ei rym, a throi'n eiryn rhagerfol mor ddi-liw a *fe*, neu *ef*. Yma gellid rhoi *y* yn ei le.
- 16 **O hyn** (P. 6 o *hynn hyd hynny ny chewch chwi y gennyf i ateb eny del gennwch amgen noc a doeth*).
- 17 **amgen**, rhywbeth gwahanol, rhywbeth gwell, cf. 81, 22, *amgenu eu pryt*, rhoi gwedd wahanol arnynt eu hunain.
- 19 **aro**: gw. ar 12, 8.
- 20 **o dowch** (R.M. *a*, P. 6 *o*): "if you come".
- 21 **racdu** (P. 6 *racdunt*). Terfyniad yr arddodiad 3ydd llu. oedd *u(f)*, *udd*, yna *u*; daeth *-nt* o'r 3ydd llu. o'r ferf, felly *-unt*, a chamysgrifennir bellach yn *-ynt*.
- 26 **enghis**, gw. ar 31, 12. Dyma'r ffurfiau yn ll. 26, 28; 42, 4.
 W.M. *ni enghis*, P. 6 *ny ennis*, R.M. *nyt eigwys*.
 W.M. *y ganho*, P. 6 *y ganno*, R.M. *y geingho*.

Td. ll.

41 26 W.M. *ganhei*, P. 6 *gannei*, R.M. *geinghei*.

42 2 **doro**: P. 6, R.M., *dyro*.

ewyllus (P. 6 *ewyllis*, R.M. *ewyllys*), cf. 61, 10; 74, 25, 28, *-us*; 74, 25, *ewyllwys*; a B.T. 58, lle'r odli'r *ewyllis*, *peris*; 13, 17, *ewyllis*; Ll.A. 162, *-us*, etc. Amrywia'r terfyniad, ond y bôn yw *ewyll*; cf. Cern. *awel*, *auwl* (A.C.L. i, 163); Llyd. *iul*, *youll*, *ioul* (V.V.B. 35, *aiul*, gl. ultro, lle mae'r *a* yn arddodiad). Ar *-wys*, cf. yr enw *amddiffynnwys* yn B.T. 4, 20, a ffurfiau fel *mamwys*, *tadwys*.

3 **peth ny chauas** (P. 6 *ny gafas*, R.M. *nys kauas*). Y mae'r defnydd o *peth* yma fel "achos, because", yn atgoffa'r dull o arfer *res* yn Ll. (*eā re*, *eam ob rem*, *quamobrem*), ond nid etyb yn hollol. Tebycach yw i'r arfer o *achos* fel arddodiad a chysylltiad yn Gymraeg, W.G. 413, 443. Sylwer ar y treigliad meddal ar ôl *ny* yn P. 6. Y mae R.M. wedi cymysgu'r gystrawen trwy newid *ny* i *nys*, heb ddeall ystyr arbennig *peth*.

4 **tangnoueda** (R.M. *tangneuedha*, P. 6 *dagnefeta*; ll. 10, *E tangneued*, R.M. *y dangneued honno*, P. 6 *y dagnefet*). Y gwreiddyn yw *tanc* "heddwch"; am yr ail elfen yn y cyfansoddair, *petrusaf*. A'r testun, cf. B.B.C. 34, y rof a duw *dagnouet*; cf. ymhellach ar 43, 13.

10 **a'r ty a adeilwyt**, o'r ferf *adeiliaf*; lluniwyd *adeiladaf* o'r berfenw *adeilad*, cf. *gwylat* 22, 13.

yn uawr ae yn braf (P. 6 *en braff*); cf. 22, 15, *prafter* yr ebawl. Defnyddir *praff* heddiw am "thick of girth", megis pren *praff*, cf. William Llŷn (i dannau telyn). Rhai'n *breiffion*, rhai'n feinion fydd. Ond gynt "mawr, helaeth"; cf. C.Ch. 143, tristau yn *braff*; 146 gogof *braff*; 148 anieuil *gobraff* y veint . . . a ffon hayarn *braff* oed yn y law . . . a thrwyn *praff* ffroenuoll; R.P. 146a, Bydei *praff* heddiw y prynet o ved pei yn vyw y kaffet; M.A. 145a, Teir *praf* prif lynges.

Td. ll.

- 42 10 Gw. y disgrifiad o'r Tŷ Mawr yn Iwerddon, y *Teach Míodhchuarla* a gododd Cormac yn Tara, Hyde, L.H.I. 127. Cynhwysai hwnnw fil o wyr ; yr oedd iddo 12 neu 14 o ddrysau ; yn ôl mesur Petrie o'r adfeilion ei hyd oedd 760 o droedfeddi, ei led bron yn 90 troedfedd. Atgo am hwn a geir yn y testun.
- 12 **guanas.** Clywais y gair gan hen ffarmwr yn Arfon (Llanfaglan) am hoel bren fawr ym mhared ysgubor, neu ystabl, i ddal harnes ; y llu. ganddo ef oedd *gwanesydd* (cf. P. 6 *gwanasseu*) ; cadarnheir yr ystyr hwn gan 60, 20, wrth y llinyn doddi y uanec ar y *wanas*. Rhydd D. yr ystyron "*sustentaculum, fibula*", a dyfynna Tudur Aled, "*Trwy 'mrest, o bydd trwm yr onn, mae gwanas i'm gwayw union*", sef y *lance-rest* (gw. F.W. "a bracket attached to the right hand side of a breastplate for the support of the butt of a lance in combat"). Cadarnha hyn y darlleniad *mrest* (nid *'mraich* fel T.A. 460), gan mai ar y *breastplate* yr oedd y *wanas* hon ; cf. ymhellach A.L. i, 440, *Tri* (?) *gwanas* gwayw kyureithawl yn y dadleu yssyd. *gwan* y arlllost ynn y dayar ac vn llaw hyny vo abreid y tynnv ae dwylaw : a *gwan* y benn y mywn twyn hyny gwydyho (=guddio) y mwn : ae doddi ar lwyn a uo kyuuch a gwr . . . vn or *teir gwanas* hynny. Felly ii, 198, *tair g.* gwystl yw ei gymryd yn llaw, ei ddodi ar ysgwydd, a'i ddodi yn lle y cadwer. Rhydd T.W. ar *sustentaculum* "*gwanas, atteg, cynhaliawdr a fo yn cynnal peth i fyny*"; cf. M.A. 205b, "*Dof wyf yn wanas*" am fod y bardd yn dal yr haearn twymn yn ei ddwylo ; 217 a 33, *gwanas deyrnas* yw "the stay of a kingdom". Rhydd T.J. *gwanas*, fel "*gorphwysfa, a rest*"; R. "*a prop, stay, or support, a clasp ; also a placing or fixing*". Yn y gyfres o englynion yn R.P. 9a, ceir "*a dynn uyntroet o wanas . . . o gadwyn . . . o garchar, lle golyga gaethiwed o ryw fath ; cf. ystyron dal, dalfa ;*

Td. ll.

rest, arrest (Ffr. *arrêter*), *stay* (Skeat); gw. R.C. xli, 211, ond methaf a derbyn esboniad Loth yno. Yn y testun, hoelen yn ddiau yw'r meddwl; yn yr enghreifftiau eraill "prop, stay, support, rest", teclyn i ddal rhywbeth i fyny, gorffwysfa, arhosfa. Fel enw lle, cf. B.B.C. 66, 3, 6; ct. 102, 4; 48, 14; cf. Powysfa, Gorffwysfa, yn gyffelyb.

- 42 13 **boly croen**, "skin bag". Y tebyg yw fod y chwedl am y bolyeu crwyn a'r gwŷr ynddynt wedi ei hawgrymu gan enw'r *Fir Bolg*, un o "ormesau" cynnar Iwerddon, cf. Lhwyd, A.B., yn ei lythyr at y Cymry (e 2): "heblaw y Celtae a ddaethant yma ag a aethant ryw oesoedd gwedi hynny i'r Werddon, ef a ddaeth hefyd rai o'r *Belgae* a'r rheini (megis y mae'n debygol hefyd gan y Gwyddel dyscedig Mr. Rhydderch O'Flaherty) oedd y gwŷr a alwasant *Fir Bolg*, y rhain a ddaethant meddant hwy i'r Werddon yn hir amser cyn y Scotiaid". Ond cf. McNeill, *Early Irish Population Groups*, td. 99: "*Fir Bolg* . . . the name of a known historical population existing in various parts of Connacht and in north-western Ulster . . . not to be equated with the historical *Belgae* . . . extended in the Irish history-legend at an early period so as to denote the whole or main population of Ireland before the Goidel"; gw. hefyd Rhys, H.L., 596-7.

Ar *bol* mewn enwau lleoedd, gw. ar 34, 28. Gan fod sôn am *flawd* yn y boliau hyn, cf. Iter. Ant. M.H.B. xxx, am le ger y Wal Rufeinig (*Blatobulgio*); ymddengys i mi fod un arall ar oror Cymru, sef *Blodwel*, *Blodwell* (co. Salop, 1704, Coleman Deeds, C. td. 177); rhydd L.G.C. y ffurf *Blodwol* (td. 380, ym *Mlodwol*, odli â *hol*; 381, Aeth *Blodwol* ar ei *hol* hi); *Blodwal*, L. Dwn. i, 381, *Llanmlodwal*, *ymlodwal*. Esbonia Rhys (A.L. 265, H.L. 597) *Blatobulgium* fel "meal bag"; pam nad *blawd*,

Td. ll.

- blodau? Cf. *Ystrad Fflur*. Buasai pant neu fryn y blodau yn enw llawn mor naturiol, a dweud y lleiaf. Datblygai'r ffurfiau uchod o *Blodfol* yn rhwydd.
- 42 16 **golygon orwyllt** (P. 6 *arwyllt*). Os derbynnir W.M ac. R.M., medrir esbonio treigliad *gorwyllt* ar ôl *golygon* dan y rheol fod ansoddair yn treiglo ar ôl enw yn y rhif deuol, a bod *golygon* yn gyfystyr a *dau* lygad; cf. "Dwyn hefyd deunaw hafoedd / *Golygon dduon* ydd oedd", am eneth lygatddu ddeunaw oed.
- antrugarawc**, ffurfiad diweddarach nag *athrugar* "creulon"; gw. W.G. 150 (-*ntr* gynt yn rhoi -*thr*; cf. Ll. *intervenio* ac *athrywyn*).
- 17 **bolyeu** (P. 6 *byly*; cf. *dyrnwyl*, *dyrnfyl*, llu. *dyrnfol*, maneg gau, lle i'r bawd ar ei ben ei hun, a'r pedwar bys gyda'i gilydd; hefyd S. *budget*, trwy Ffr. o'r Celtaeg *bulga*, bag ledl'r.
- 20 **hyt ban** (R.M. *hyt pan*) "until". Yn P. 6 *eny gafas*, gyda'r treigliad meddal ar ôl *eny* "oni", fel yn *yny glyw* yn yr un frawddeg yn W.M. ac R.M. Os yw W.G. 446 yn gywir ar *yny*, mai *hyd ni* (negydd) yw, anodd gweld pam na cheid *ynyd* o flaen llafariad o'r cychwyn, heb fod angen cydweddiad ag *oni*, *onid* i beri'r *d* ar y diwedd; cf. 58, 16, *ynyd oed*, ond ct. ll. 13, *yny oed*; 45, 7, *yny agoroch*; 47, 11, *onyt agoraf*. Nid negydd yw *ban*, yn y cysylltair cyfystyr *hyt ban* uchod.
- 21 **ymanodi**, yn ôl G., L., ac E.-Ll., "cyfarfod". Yr enghraifft debycaf i hon yw S.G. 326, ac yna a phwml y gledyf ef a drewis y porth nyny yttoed y pwml yn *anodi* yn y dor nyny dorres. Geill y *d* yn orgraff W.M. fod am *d* neu *dd*, ond gan fod *annod* (gyda *d*) "stay, delay", *annodi* "postpone", *diannod* "without delay" i gael, gwell deall *ymanodi* yma, nid *ymanoddi*. Fel yr oedd y pwml yn *anodi yn* y ddor, yr oedd y bysedd yn *ymanodi yn* y freithell. Geill hyn olygu suddo yn y

Td. ll.

- ddôr, ymsuddo yn yr ymennydd, "stick, sink", neu "stopping one another". Yn y testun, "until he felt his fingers meeting in the brain".
- 42 21 **y ureichell** (gwell yw R.M. *vreithell*, P. 6 *ureithell*). Rhydd D. *brithell yr ymennydd*, "meninx"; D.W.S. "fylme"; T.W. *meninx, omentum*; S.E. *breithell, brithell*, "a membrane, film, caul"; *b. yr ymennydd* "one of the membranes which invest the brain". Yn y testun ni wna croenen neu bilionen y tro: rhaid mai'r ymennydd ei hun ydyw, un ai fel "speckled matter, grey matter", o *brith*, neu o'r un gwr. a *brag*. Dywed Hesychius ar *entriton* (cf. Ll. *intero, intritus*, "to rub into, to crumble in") mai tamaid yw trwy win, "yr hyn a eilw'r Galatai (Celtiaid) yn *embrekton*": daw'r olaf o *en-* "yn, mewn", a'r gwr. *mrek-* "mwydo", yn ôl Stokes, ac felly tamaid wedi ei fwydo ydoedd. Buasai *mwydion* yn air purion am y meddalwch a elwir yn ymennydd, gw. Holder A.C.S. i 1433; Walde, ar *marceo*, 464. Ni pheidiodd Efnysseyen a gwasgu nes i'w fysedd gyfarfod yn y meddalwch hwn trwy'r esgyrn.
- 24 **guare**, "trick", unwaith eto mewn ystyr greulon, gw. 17. 9, W.M. 82a.
- 25 **at**: P. 6 *ar*. Defnyddid *ar*, yn y testunau cynnar lle rhown ni *at*, cf. W.M. 227b, dos titheu *ar* arthur.
- 43 2 **clywei**: cf. 42, 20. Defnyddir *clywed* am bob synnwyr ond y golwg, am ffrwyth profi, teimlo, gwranddo, arogl, cf. *edrych* a *gweld*.
- 3 **yny ladawd**: gw. ar 42, 20. Ceid y feddal ar ôl *yny*, ond rhydd R.M. *lladawd* heb dreigliad, gan fod *yny* yma yn cynnwys gwrthrych y ferf (*y*), fel pe dywedem "hyd onis *lladdodd*".
- 4 **englyn**. Braidd yn annosbarthus yw'r englyn fel ei awdur. Medrid ei droi yn fath o *englyn byr crwca* (C.D. 316), trwy ddarllen *Yssit yn y byly hyn blawt*,

Td. ll.

llinell saith sillaf, a thoddaid byr (10, 6). Sylwer mai *byly* yw lluosog *boly* yn P. 6 (42, 17), ac nad yw *amryw* yn y testun sydd yn M.A. 331 : efallai mai glos ar *byly* ydoedd mewn hŷn testun. Sut bynnag, rhaid cael *byly* i gyfiawnhau'r lluosogion yn ll. 2, canys un milwr oedd mewn sach. Daeth *yny boly hwn* i mewn fel adlais o 42, 18. (Ni raid newid ond un gair felly, ac nid tri fel Rhys, A.L. 251.)

43 4 **yssit**, "there is".

amryw ulawt. Os cedwir *amryw* (gw. W.G. 303 ; cf. Ll.D.W. 27, poby o pop *amryu ulaut*) dylid gadael *hyn* allan yn ll. gyntaf yr englyn. Atebasai'r Gwyddel mai blawd oedd yn y sachau. "Ie", medd E., "blawd o wahanol fathau", cyfeiriad coeglyd at y mathau o fara a fwytasai'r celaneddau gynt. Geill fod yma chwarae ar amwysedd *byly*, "bellies", a "bags" ; *blawd*, "flour", a "flowers" (cf. *afallflawd*, blodau pren afalau), cf. y modd y gelwir Peredur yn *flodau* marchogion, a *blodau* milwyr yn W.M. 62a. Yn y bolyeu crwyn yr oedd *blodau* rhyfelwyr Matholwch, a disgrifir hwy yn y toddaid, fel *keimeit*, llu. *keimat* "champion" ; *kynniuyeit* (gw. B. ii, 300-2), o *kynnifiat* "rhyfelwr", *kynnif* "rhyfel" ; *diskynneit* "attackers", ymosodwyr (gw. ar 15, 17).

6 **yn trin**, ym mrwydr.

7 **kydwyr**, cedwyr, ll. *cadwr* "rhyfelwr", a'r *y* yn *-wyr* wedi affeithio *a* i *e*. Rhoes W.M. *y* am yr *e* hon, fel petai'r gair o *cyd-* a *gwyr*.

cad barawt, ansoddair cyfansawdd "ready for the fray" neu "in the fray", i ddisgrifio'r *cedwyr*.

9 **gwyr Ynys** (R.M. *gwyr o ynys*).

10 **yn gynebrwydet ac** (cf. 34, 21, *yn gystal ac*), *yn* adferfol o flaen ansoddair o'r radd gyfartal ; cf. 47, 14 ; 78, 18 ; 88, 11.

T*d.* ll.

- 43 11 **duundeb**, o *dy-undeb*; gw. ar 23, 13.
ystynnwyf: gw. ar 41, 11.
- 13 **y tangneued**: gw. ar 42, 4. Yn R.M. *y dangued*, bai am *y dang[ne]ued?* Neu darll. fel *tangfedd*, *tangwedd*; cf. B.T. 65, 5, *tagwedawc*. Ceir yn B.B.C. 25, *tagde*; 71, *tagteu* (tangddef); I.G.E. 48, *tangnef*.
- 14 **y gan**, ll. 16 *e gan*, oddiwrth.
- 17 **yn diryon**, yn gyfeillgar neu'n annwyl; cf. ll. 19, *ymtiryoni*; 50, 16, *tiryoni*.
- 19 **kyn ny bei urenhin**: gw. ar 1, 23, ac ar 2, 17.
da oed, da fuasai.
- 22 **ys anhebic**: *ys* "it is". Ar *anhebic* dibynna i ddechrau enw gyda'r arddodiad *a* (=o): yna enw ar ôl yr ardd. *gan*; yna yn W.M. *y wneuthur*, yr ardd. *y* (*i*) gyda'r berfenw, "for doing" (unlikely) "to be done"; cf. R.M. *y gwneuthur*, lle ceir *y* (*ei*) y rhagenw benywaidd yn cyfeirio at yr enw ben. cyflafan (gw. ar 21, 14; A.L. ii, 857; a cf. W.M. 75b, *y gyflafan*). Ni ellir cymryd *wneuthur* yn W.M. gydag *a wna*f (cf. Ch.O. 7 *gwneuthur* plastyr *a wna*), oherwydd cenedl *cyflafan*; heblaw hynny cydia'n well wrth yr ansoddair o'r blaen, "it is a crime unexpected by the household to be done, that I shall now do".
- 24 **erwyd** (R.M. *herwyd*).
- 25 **na chael** (R.M. *kynn kael*).
yny want. Nid yw *yny* yma yn golygu "until", ond fel Gw. *co n-*, medd Dr. Parry-Williams, B. i, 103, a gellir ei anwybyddu wrth gyfieithu, gw. Meyer-Nutt, V.B. i. 3, ll. 6, 9; 5, ll. 1.
- 26 **y gynneu**, enw benywaidd; cf. W.M. 129b, ef a welei yno *kynneu uawr* o tan; T.W. ar *rogus*. Yn Nhregarth, Arfon, clywais *cynneudan* am dân coch ynghanol tanllwyth; cf. R.M. *y gynneu tan*, ond bod hyn fel pe rhoisid *tân* fel glos ar *gynneu*.

Td. ll.

43 27 **Uranwen**, ar ôl *welas* yn W.M.; ni threiglir yn R.M. Eithriad yw treiglo'r goddrych ar ôl 3ydd gorff. ond yn unig ar ôl *bu*, cf. ar 53, 2.

yn boeth, wedi ei losgi; cf. mewn enwau lleoedd, Bryn *Poeth*, Coed *Poeth*, Tre *Boeth*; hefyd *poethwal*.

a gysynwys (R.M. *a gyngytywys*). Gofyn y synnwyr am ferf fel *cynigywys*, neu *amcanawdd*, a dangosodd S.E. fod *cyngydio* yn golygu "to purpose, intend, attempt, try, endeavour", er mai "gohirio, petruso" a olygai yn ôl D. a T.W. (cunctari, morari, dubito); felly T.J., "oedi, delay". Y sain oedd *cyn-gyd*, nid *cyngyd*, fel y tybiodd S.E., ac ni ddaw o'r Ll. *cunctatio*, ond o *cynt-* a'r *cyd* sydd yn *ergyd*, cf. ystyron *amcan*, *bwrw*, *bwriad*. Ond o ble y cafwyd darll. W.M.? O'r Ll. *consentio* cafwyd *cysyniaf*; ac un ystyr i'r Ll. oedd "to agree to any wrong, join in, conspire"; cf. M.A. 231b, "Gwedy *kyssynhyaw* kydyaw kadeu", mewn cyffes o bechod. Os magodd y gair y meddwl "bwriadu, cyd-fwriadu" yn Gymraeg, gallai wneud y tro yma. Rhoes W.M. *gyn-* ar ei ddechrau, am iddo dybio mai'r ferf addas oedd *gynigywys*, neu *gyngytywys*, yna wrth edrych ar ei gopi gwelodd mai *gyssynywys* oedd yno, a gorffennodd y gair felly, heb gofio dileu'r *n*; cf. R.M. 2, dy *gederennyd*, cymysgiad o *gedymdeithas* a *gerennyd*.

28 **bwrw neit**: cf. 89, 13; 88, 8; D.D.G. 49, A *bwrw naid* gar ei bron wen.

44 2 **ymgyuot** (R.M. *ymgyuoc*). Tebyg iawn yw *t* ac *c* yn y llsgr., a gall y naill neu'r llall fod yn gywir yma. Ystyr symlaf darll. W.M. yw fod pawb wedi codi yn ei le, yng nghyffro'r foment, y peth nesaf fydd rhuthro am arfau, a dechrau ymladd. Eto cofier am *odi* "taflu". Ystyr darll. R.M. yw "ymladd", canys er bod *cyfodi*, *cyfogi* (gw. S.E.) yn golygu "vomit", ceir *cyfogi* "ymladd" hefyd; cf. W.M. 118b, dispeilaw deu gledyf a wnaethant

Td. ll.

ac *ymgyfogi*; Havod 1, 63a, yd ymgauas eidol a hengyst y gyt. Ac *ymgyuogi* a'r cledyfeu a wnaethant, gw. D.N. 177. Daw'r meddwl hwn o *cyf-* ac *ogi*, hen ffurf (*h*)*ogi* (cf. V.V.B. 198 *ocoluin*, (h)ogalen, calen hogi; 67, *cemecid*; gw. B. v, 3). Y syniad yw bod y ddau gleddyf yn rhedeg ar hyd ei gilydd, fel pe'n hogi ei gilydd, wrth i'r ymladdwyr daro a derbyn dyrnod ar y cleddyf, *croesi* cleddyfau.

44 3 **godrwrw.** Gwell gennyf G. yma nag L. ac E.-Ll. Dyma'r twrw mwyaf a fu erioed mewn tŷ, canys dyma'r tŷ mwyaf a fu erioed, a'r tyaid mwyaf, yn y gwaith mwyaf trystfawr o bob un.

5. **Guern gwngwech uiwch.** Beth bynnag yw ystyr hyn, rhaid gwrthod cynnig G., "the gadflies of Morddwyd-tyllyon's Cow!", ac un Dr. J. G. Evans, W.M. xxii, "white-hot alderwood will cover M.T.". Darllen yr olaf *gwyngoch vi uch*, gan gymryd *uiwch* fel "will be above" (*uch*=*uwch*). Yn erbyn hynny y mae testun W.M. ac R.M. yn rhoi'r ffurf dreigledig *uordwyt* ar ôl *uiwch*, ond cyferbynnir B.T. 33, 3, *uch gwirawt*; B.A. 9, 4, *uch med*; 10, od *uch med*, lle cedwir y gysefin ar ôl *uch*. Ymddengys oddiwrth y geiriad, *ac yna y dywot* "and it was then that M.T. said", fod yma ddyfynnu rhywbeth hysbys i'r gwrandawyr; cf. 41, 1 (am y ddihareb, *A fo penn*, etc.), *ac yna gyntaf y dywetpwyf*. Nid yw *gyntaf* yn y testun yma, ac nid yw'r geiriau'n debyg i ddihareb. Casglaf, gan hynny, mai dyfyniad ydynt o hen gân enwog, fel y gerdd hynafol yn B.T. 33, lle ceir mesur cyffelyb :

Bum y gan vran yn iwerdon
Gweleis pan ladwyt *ymordwyt tyllon*.

Yn yr englyn, td. 89, cadwyd peth o hŷn orgraff, a theg yw tybio i hynny ddigwydd yma. Amlwg yw nad oedd

Td. ll.

W.M. ac R.M. yn deall y geiriau. Gall *guern* olygu "alder, alderswamp", a gelwir uffern yn wern yn aml yn y beirdd, ond yn y cysylltiadau, tecach cymryd mai *Gwern*, mab Matholwch, a olygir yma. Yr oedd Matholwch a Brân wedi cymodi, a Gwern wedi ei osod yn ffurfiol ar orsedd Iwerddon. Ef bellach oedd brenin Iwerddon (43, 19), a'i ddeiliaid ef oedd y Gwyddyl yn y tŷ. Amcan Efnysseyen yn ei ladd, oedd dileu'r unig ddolen a gydiai'r ddwy blaid ynghyd. Wedi llosgi Gwern, nid oedd dim am dani ond brwydr i benderfynu pwy fyddai piau Iwerddon. A brwydr oedd hoffter Efnysseyen. Wrth ladd brenin newydd y Gwyddyl o flaen eu llygaid, cafodd ei ddymuniad ar fyrder; cyfyd gwŷr Gwern i ddial eu harglwydd ar y Cymry; gw. Rhys (A.L. 266) am beth tebyg, yn y *Nibelungen Lied*. Bloedd Morddwyd Tyllion wrth ruthro i'w cyfarfod yw'r geiriau uchod; geilw hwynt yn *gŵn* Gwern. Yn yr hen gystrawen, gellid rhoi'r dibynnair gyntaf, cf. B.B.C. 77, *Adaw plant* (Gw. *Adam-chland*, C.I.L. 14) am blant Adda. Cymeraf y gweddill fel herr a bygwth, sef *gwchuiwch Uordwyt Tyllion*; -ui-, hen orgraff am -wy-; a geill *gw-* fod am *gwo-*, yn arbennig o flaen -w-, cf. V.V.B. 134, *gubennid* am *gwo-bennydd*, gobennydd, yn Ox. 2; *gur maur*, gor-fawr, *Juencus*, etc. B. iii, 263, *gur tum*, gor-dwf, gorthwf. Deallaf *gwchwywch* fel berf pres. 2 ll., "beware of", a *Uordwyt Tyllion* fel y gwrthrych, wedi ei dreiglo yn rheolaidd ar ei ôl. Cynigïaf fod y ferf *gwchwyaf*, neu *gochwyaf* yn cynnwys -cwy-, o'r un gwreiddyn a'r Ll. *caveo*. Gall fod *gwchwy* wedi aros yn hai-*wchw* fel ebychiad mewn perigl neu gyffro; cf. *Berwy*, Pentre *Berw*; *Gronwy*, *Gronw*, etc. Ansicr yw ystyr *gor-chwy*, D.D.G. 40; D. s.v.; annerbyniol yw Loth, R.C. xxiv, 360, nid dihareb yw'r frawddeg lle digwydd; cf. hefyd M.A. 262b, H.G. 95b.

Td. ll.

- 44 6 **yn yd aeth**, "while they went"; R.M. *yny aeth*, "until they went", neu "*while*"; cf. B.B.C. 100, Ew *kuynhiw iny wuiw*, "as long as I live".
ym pen yr arueu, h.y. yn ôl yr arfau; 75, 27, cf. *am eu penn.* Gallasai'r rheini fod yn un cwrr i'r adeilad, neu ar hyd y parwydydd. Yn R.M. *y arueu* "ei arfau".
- 9 **dechrewis**. Gan mai *dechreuis* sydd uchod, 19, 18; ac yma yn R.M.; gwell cymryd yr *w* fel camgymeriad W.M. wrth newid ei gopi i'w orgraff ei hun, er bod parau fel *teneu*, *tenewyn* yn awgrymu rheswm arall.
- 10 **peir dadeni**, sef yr un a roesai Brân i Fatholwch, 34, 35. Am beth tebyg, cf. O'Curry, M.C. ii, 238.
- 11 **kyuodyn**: cf. ll. 12, *ellynt*. Ceir 3ydd pers. llu. berf heb *-t* cyn gynhared a'r Llyfr Du o Gaerfyrddin; gw. W.G. 323-4. Yma helpid hynny gan fod *t* yn dilyn yn *tranoeth*; cf. R.M. *kyuodynt drannoeth*. Yn W.M. chwanegir *y bore*.
- 13 **heb enni**. Ar *genni* "find room in, be contained in", gw. ar 31, 12. Ond y mae R.M. yn darllen *heb eni*, gan feddwl yn ddiau am y pair *dadeni*, a dwg hynny betruster am y synnwyr yma. Heblaw hynny, gellir cymryd o *wyr Ynys y Kedyrn* un ai gyda *calaned*, neu gyda'r berf-enw *genni*. Os y cyntaf, gwelodd E. y celaneddau o'r Cymry heb le iddynt yn unman, un ai am fod cymaint trwch ohonynt yn gorwedd ar lawr eu hanner hwy i'r tŷ, neu am nad oedd unman (fel y pair) i'w cludo ymaith; os yr ail, gwelodd E. y celaneddau o'i gwmpas ymhobman, ond ni welai Gymro byw yn y tŷ o gwbl, a sylweddolodd ei fod yn achos llwyr ddinistr byddin y Cymry. Dilynir *genni* gan yr arddodiad *yn* uchod, 41, 42. O'r tu arall, os darllenir *geni*, gwelodd E. gelaneddau'r Cymry heb ddad-*eni* yn unman, neu gwelodd y celaneddau heb ddad-*eni*, o'r Cymry yn unman. Gan mor syml yw hyn, anodd cyfrif pam y rhoes W.M. *enni*, onid

Td. ll.

oedd yn yr hen destun ; hoffach ganddo adael *n* allan, lle dylid dyblu. Sylwer hefyd na wna *geni* ei hun y tro, ond bod raid darllen *dadeni* i gael synnwyr.

- 44 15 yr **wydwic hon.** Esbonia Loth gwyddwig fel "dèstruction", yn L. i, 143, ond yn R.C. xli, 393 cynnig "sauvage combat", gan gymryd bod *-wic* yn ateb i'r Gw. *fich* "combat". Ni allaf dderbyn yr ail : nid y frwydr ffyrnig oedd yn blino Efnysseyen, ond dinistr llwyr y Cymry, a heblaw hynny, nid eglurai "ymladdfa" mo'r gystrawen, *gwydwic o.* Cyfieithiad Rhys (*Arth. Leg.* 252) yw "this litter of the men". A chymryd bod y testun yn gywir, geill *-wic* fod yr un gair ag yn coed-wig, gan mai benywaidd yw gwyddwig fel coedwig. Os darllenir *achaws yr*, penderfynir mai *gŵydd-*, nid *gwŷdd*, yw'r sillaf gyntaf, ac nid yw darllen *achaws y'r* yn gwahardd hynny. Sut bynnag, anodd fuasai deall *gwŷdd-wig* yn y cysylltiadau. Os derbynnir *gŵydd-wig*, dealler fel *gwydd-fa*, "heap, cairn, funeral pile" (cf. *cloddiwig*, = *cloddfa* gerrig) : gofidiai Efnysseyen wrth weld y *cruglwyth* o gelaneddau ei genedl, a barasai ei ffolineb ef (cf. Yr Wydd-grug?). Ai *gwyddwig* yw *gwyd oric* yn R.P. 11b 4?

Neu, darllener *yr wyddfïd*, gan fod *w* yn aml am *f* yn W.M. (5, 13 ; 7, 4), ac *c* am *t* (Anarawc ? ymgyuot, ymgyuoc ? Archan ?) ; cf. B.T. 71, 21 (mewn hen gerdd a ddylai fod ar y pwynt, Marwnad Uthr Ben) ym *gweduit* ym *gofit*. Ceir gwyddfïd "honeysuckle, woodbine" yn gyffredin, ond nid hynny yw yn M.A. 153a, *gwyddfïd Eingl* ; 187a, *gwytuïd* gwyr yg weryd achlut ; 168a, *Gwytuët eu gwytua gwytuïd estrawn* ; cf. 169b ar uryneich *gystut* ; 170a Lloegyrr *dachwet*, 164b lloegyrr *oual*, 165a ll. *difrawd* ; *gwyduïlle* oedd Meifod, yn ôl Cynddelw, "gwyd vynnwent *gwydua* brenhined", R.P. 33b, 6, 7. Beth hefyd yw ystyr *Yr Wyddfïd* (*Rec. Carn.* 110,

Td. ll.

Yrwydvi), enw treflan ar y Gogarth, Llandudno ?
Nid *gwydd-* sydd yn hwn, ond *gŵydd-*.

44 15 Neu darll. *yr wyddfig*, a'i gydio wrth *mig* yn R.P. 10a, gwychyr gwynt gwyd *migyein*; 119 a 40, tylleuan gwrach vygyrwan *vic*; G.I.L.L. 11, chwaraeu *mig*; Gruff. ap Tudur ap Hywel, "I gyrru hwynt dan gerrig / Y maent megis *chware mig* "chware ymguddio".

17 **ymedyryaw**, ymwithio, ymgladdu, neu ymguddio ?
Ni wn am enghraifft arall ohono, na pheth yw grym y *d* ynddo.

18 **dyuot . . . idaw**: gw. ar 37, 28.

deu Wydel uonllwm. Treiglir *bonllwm* ar ôl *Wyddel* am fod yr olaf yn y rhif deuol; cf. W.M. 228a, deu uilgi uronwynyon urychyon. Nid "unshod" yw *bonllwm* (felly G., E.-Ll., L. *aux pieds nus*), ond "bare-backed", "breech-less". Defaid *llymyon* yn Arfon, yw rhai wedi eu cneifio. *shear clip, flax*

19 **emystynnu idaw**, ymystyn ohono; cf. 90, 8, ymellwng idaw ynteu; gw. B. iv, 183, 14c.

20 **yny dyrr** (R.M. *tyrr*); gw. ar 5, 22; 42, 20. Berf gyflawn yw *torri* yma, nid anghyflawn, fel y cymerth G., E.-Ll.

21 **o hynny**, "from that, through that", sef oherwydd dryllio'r pair.

goruot. Geill *gorfod* olygu ennill, neu oroesi. Am yr olaf, cf. C.Ch. 123, mi a rodeis tri dyrnawt idaw ar y ben, ac om tebic i nys *goruyd*, "he will not survive them", am y cyntaf, C.Ch. 124, nys *gorffo* a amdireto . . . y vahom; R.M. 134, dyuot y ymlad a gwynn mab nud a *goruot* o wyn. Y mae *goruot* y yn ll. 21 o blaid yr ystyr gyntaf; a *goruot o hynny* yn ll. 22 o blaid yr ail, oni chymerir *o hynny* yn gyffelyb yn y ddwy frawddeg; cf. M.A. 145a, a *gorfod* i fod i fab Grufud. (Yn A.L. i, 138, 258, *goruod arnau* y gueithret, 260, 274, R.M. 125, 28, meddwl arall

Td. ll.

sydd iddo, "to be responsible for, to guarantee"). Yn y testun, y mae'r ddwy ystyr yn toddi i'w gilydd; trwy weithred Efnysseyen y cafodd y Cymry hynny o fuddugoliaeth a gawsont; ac ni chynhwysai hynny ond bod seithwyr wedi dianc yn fyw, a Brân wedi ei glwyfo yn farwol. Eto gan fod y Gwyddyl yn feirw oll, gellir galw hyn yn rhyw fath o fuddugoliaeth i'r Cymry.

- 44 21 **y meint.** Defnyddir *meint*, *y meint* (cf. Cernyweg *mens*, Loth, R.C. xxvi, 222) fel "all that, as many as"; cf. B.A. 1, 12; B.T. 4, 17; 5, 17; 6, 2; 7, 2; R.M. 146, *y meint gwellt* a oed uch eu penneu; R.B.B. 46, rac ofyn colli *y meint gwyr* a oed idaw. Ond cyferbynnir R.B.B. 173, *y ueint* ladua, "such a great slaughter"; 199, *y veint* uudugolyaethau, "such great victories"; M.A. 501a, *y veynt* wudugolyaeth honno, "such a great victory". Ond yn y testun, *y meint* goruot a uu, "such success as befell".
- 22 **o hynny**, un ai fel yn 21, "from that", neu ynteu, deall *hynny* fel lluosog (cf. 1, 13; 37, 7), o'r rhai hynny, sef gwŷr Ynys y Cedyrn. Os yr ail, rhaid cymryd *goruot* iel "survival". Oherwydd bod y ddau *o hynny* mor agos i'w gilydd, ac yn y naill enghraifft a'r llall, ynglŷn wrth *goruot*, gwell gennyf ddeall yr ail fel y gyntaf, "There was no victory through that, except the escape of seven men". Dyna'r cwbl a gynhwysai'r fuddugoliaeth alaethus hon.
- ✕ **diang** (R.M. *dianc*); cf. 65, 11, *wreigvang*, o gwraig ieuanc; M.A. 224b, *dreing*, *trang*, *llwng*; P. 3 ii, 34, dyn *yeuang*; P. 7, 57, morynyon *yeveing*; 89, 90, *kyvrang*; C.Ch. 44, *ymdiång*=Y.C.M. 22, *ymdianc*; B.B.C. 25, 6, *dinag* (*dianc*?), 7. *diag*, gw. ar 46, 10.
- 25 **dienghis.** Daw'r *-ngh-* o dreiglo *-nc-*. Yn R.M. *dihengis*, symudwyd yr *h* i'r bwch rhwng y llafariad, a helpid hynny gan yr acen, Ll. O. 63. Felly yn 46, 10.

Td. ll.

44 26 **Gliuieu.** R.M. *Gliuieri*, G. *Gluneu*. Cyferbyn â td. xv, rhydd R.M. lun y gair yn y Llyfr Coch, a gwelir wrtho pam y darllenodd y golygyddion *Gliuieri*, er bod *Gliuieu* yn bosibl; oherwydd ansicrwydd y darlleniad yno, dylid pwysu ar W.M. i dorri'r ddadl, ac ar R.M. 134, lle ceir *glinneu eil taran* fel yn W.M. 248b. Cf. ymhellach yr enw *Glini* (neu *Gliui*), R.M. 128, W.M. 245a.

Eil Taran: cf. R.M. 106, dalldaf *eil* kimin cof; 107, llawr *eil* erw; 114, drych *eil* kib dar; 107, garwyli *eil* gwythawc gwyr a gwythawc gwyr ehun; 139 ac arwyli *eil* gwydawc gwyr; cf. gobrwy *m.* echel uordwyt twll ac echel uordwyt twll e hun); 306, kyhoret *eil* kynan; moruran *eil* tegit; 159, ryawd *eil* morgant (=raawt e. m. 300). Uchod, 77, ceir Dylan *Eil* Ton; cf. B.T. 67; 26, 9, dylan *eil* mor. Yn *Armes Prydein*, B.T. 18 darogenir buddugoliaeth ar y Saeson, ac yna, "*Eil kymro llawen llafar a uyd*". Os cymerir gyda'r enwau uchod, rhaid deall *eil* yma fel *mab*, neu *etifedd* (yn ei hen ystyr), efallai *llwyth*. Yr un gair yw ag *ail* "second", yn ôl Loth, R.C. xli, 35; gwêl Evans, a Quiggin berthynas rhyngddo a'r Gw. *alim*, Ll. *alo* yn B.T. 75, 1, "Wylhawt *eil* *echwyd* yn torroed mynyd", gan gyfieithu hyn fel "fosterling of the West". Onid y meddwl yw, y bydd *plant y Brython* yn wylo ym mherfeddion y mynyddoedd?

Talyessin: cf. B.T. 33, 25; gw. *Cy.* xxviii, am farn Syr John Morris-Jones arno.

ae Ynawc. Cymer Dr. J. G. E. mai yr enw yw *Ynawc Grudyeu*, ond i gael saith enw, rhaid ysgar *Ynawc a Grudyeu* er gwaethaf atalnodi'r ddwy lsg. Amhosibl yw gwneud dau enw o *Gliuieu* ac *Eil Taran* fel yr atalnodir yn R.M. ac W.M. Rhyfedd yw *ac ynghanol* y gyfres: ni cheid gwared o hynny wrth ddarllen a *Cynawc*, ond ceid enw sydd yn digwydd; gw. R.B.B. 233, L.L. 252, a *Llangynog*.

Td. ll.

- 44 26 **Grudyeu uab Muryel:** anhysbys hollol (cf. L.L. 166, *Gruediau*, 276 *Gritiau*).
- 27 **Hellyn** (gw. 47, 10); enw tra chyffredin, gw. D. ar *hail*.
- 28 **llad y benn**, gw. O'Curry, M.C. i. 337-8.
- 45 1 **Gwynuryn yn Llundain** (cf. R.M. 300, M.A. 200a), lle saif Tŵr Llundain, meddir, ond ni wn pam. Beth am y bryn lle saif St. Paul's?
- 3 **Adar Riannon**, tri mewn nifer, yn ôl 46, 14. Cyfeiria Dr. Evans at R.M. 168, Ac ar hynny y daw kawat o adar, a disgynnu ar y prenn a wnant. Ac ny chlyweist eiryoet yth wlat dy hun kerd kystal ac a ganant. Un o'r *anoethu* a geisiai Ysbyddaden Bencawr gan Gulhwch oedd "Adar rianhon y rei a duhun y marw ac a hun a byw", W.M. 241b; cf. R.C. iii, 350, ystori Wyddelig, *Breuddwyd Oengus*, "They went from there in the shape of two white birds until they were at the Brug of the mic ind Oicc and they made a concert so that the people fell asleep for three days and three nights". Yn R.C. xxvi, 143-5, disgrifir Adar Paradwys yn diddanu'r saint; tri yw eu nifer, ar orsedd o flaen y Brenin, yn ei glodfori a'i foliannu, a'r archangylion yn eu hateb (*Echtra Clerech Choluim Cille*); gw. ymhellach O'Curry, M.C. ii, 276; *Voyage of Bran*, ii, 17; Hyde, *Lit. Hist.*, 97.
- 6 **y Gualas**, yng Ngwales; cf. 46, 20, *Gualas*, gw. Owen, *Descr. of Pembrokeshire*, 112, "ffarre of in the sea standeth the Iland *Gresholme* so called of *Mr. Saxton*, but of the neighbours *Walleyes*, a small Iland viii^t miles from the maine, and for the Remotenes thereof, and small proffettes yt yeldeth, is seldome frequented": Owen Jones, *Cymru*, Map o Benfro, lle gelwir hi *Grassholm*; Rhys, *Arth. Leg.* 269, 394. Ceir fel enw dyn; cf. Rees, C.B.S. 63, V. S. Cadoci, De submersione sanctorum Barruci et *Walees*. "Beatus Cadocus, quodam die, cum

Td. ll.

binis discipulis suis, Barruco videlicet et *Gualches*, ab insula Echni, qui modo Holma vocatur, ad aliam insulam nomine Barran, navigaret". Boddwyd y ddau; cludwyd corff *Barruc* i'r lan ar draeth yr ynys a alwyd ar ei ôl ef, Barry (td. 336, n), lle claddwyd ef; ond claddwyd y llall (td. 64, *Gualees*) yn ynys Echni ("Flat Holmes in the Bristol Channel", 336, n.). Rhydd L.B.S. iii, 163, enw'r olaf fel *Gualehes*, *Gualéés*, *Waléés*, o'r llsg. Cotton Vesp. A. xiv. Ceir hefyd *gwales* fel enw cyffredin (=lloches?) yn M.A. 210a; 315a; R.P. 58b 36; 155 a 23 (D. *gwales*, vid. an idem quod *Gwâl* et *Gwely*). Ai o hwn y dyfeisiwyd y Sant *Gwales*? Buasai enw'n golygu "lloches" yn burion ar ynysig fel Grassholm, neu'r Flat Holm. Ond gw. *Trans. Brecknock Soc.* i.

- 45 7 **Aber Henuelen:** yn W.M. ac R.M. ysgrifennwyd *henueleu*, ond yn B.T. 33, digwydd mewn cerdd lle'r odlir ag *-en*:

keint yn yspydawt uch gwirawt *aflawen*.

keint rac meibon llyr yn *ebyr henuelen*.

Cadarnheir hyn gan Gynddelw (1150-1200), M.A. 162a, tyst hŷn na'r llawysgrifau:

Mawrdraws dreis dra *llyr henuelen*

Mawr bar beir o bedeir *echen*.

Cf. Rhys, *Arth. Leg.* 270, n. Cytunaf â Loth (L. i, 145n.) fod y nodyn yn Owen's *Pembrokeshire*, 410, yn anghredadwy: "Clovelly (where there is a stream on which are farms named *Velley*) is the *Aber Henuleu* of the Mabinogion . . . the *hen* of the Welsh form apparently represents the Cornish definite article *an*, modified by the following vowels; and the final *eu* was apt to be misread and miscopied *-en*". Ond ni roid bannod o flaen enw afon; ac ar wahân i'r dystiolaeth hynafol o blaid *Henfelen*, buasai'n rhaid gwrthod *Clovelly*, sut bynnag. Pwy o

Td. ll.

Ynys Grasholm a gymerasai afonig Clovelly fel pwynt i gyfeirio ato? Mwy rhesymol fuasai deall *Aber* (*Ebyr*, ac yn arbennig *Llyr*) *Henfelen* fel enw ar y Bristol Channel i gyd, neu, o leiaf, ar enau'r forgainc rhwng Penfro a Chernyw. Ni fuasid yn galw "stream" yn *llyr*; ond gweddai i'r *môr* rhwng Cymru a Chernyw. Yn y testun eglurir *parth ac A. H.* fel *y tu ar Gernyw*, "the side facing towards C." Beius yw G. ac E.-Ll.

- 45 8 **y tu ar** (R.M. *y tu a*): gwell yw W.M., gan ei fod yn cadw'r hen arddodiad *ar* "facing", fel yn *Arfon*, *ar-for-dir*,
- 11 **drwod**, ar draws, fel yn ll. 12, gw. ar 36, 23; nid "go ye yonder straight through", fel E.-Ll., ond "go on across (to the other side)".
- 12 **gantu**, ganddynt; gw. W.G. 398.
kychwynassant . . . y seithwyr: gw. ar 37, 7.
- 13 **Aber Alau yn Talebolyon**. Rhed Afon Alaw i'r môr, bron gyferbyn a Chaergybi, dipyn mwy i'r de. *Talebolyon*, gw. ar 34, 28.
- 15 **oheni**, ohoni: gw. W.G. 400.
- 16 **Oy a uab Duw**: gw. W.G. 450 ar *oy a*, *oi a*, *wy a*, fel ebychiadau, a chwaneger *oio* D.D.G. 30.
- 17 **ganedigaeth**. Sylwer nad affeithiodd *i yr a* yn y sillaf gyntaf i *e*, cf. lladdedigaeth. Ond *genedigaeth* sydd gan W.S. Math. i, 18; felly D., ac ymledodd o'r Beibl.
da a dwy ynys, h.y. da o ddwy ynys, sef dwy ynys dda. Nid oes raid chwanegu dim at destun W.M. (fel y tybiais i gynt; cf. hefyd Rhys, A.L. 253, "the goods of two islands"; E.-Ll., "the property of two islands"), gan fod y defnydd *o a yma* yn union fel yn 7, 16; cf. hefyd 56, 26, *ys drwc a gedymdeith uuosti*, ac *ys da a gedymdeith a golleisti*. Sylwer ar R.M. yma, *ys da dwy ynys*, lle mae *da* yn ansoddair, nid enw.
- 18 **o'm achaws**: gw. ar 2, 11; ct. 12, 24, *o'm hanwod* (*o'm hanfodd*).

Td. ll.

45 19 **ar hynny.** G., "there"; E.-Ll. "on that account"; yn hytrach "thereupon", fel yn ll. 21.

bed petruâl, bedd sgwâr. Amrywia ffurf y gair: rhydd R.M. *pedryual* yma, cf. B.B.C. 69, 3, Piev y bet *pedrival*. Ae pedwar mein am y tal: ond 64, 8, *pedryal* (? odl â *morvael*, *hael*); cf. R.B.B. 167, *pedryfal*, M.A. 585 (n. 447) *pedryual*. Yn R.P. 2 a 15, ceir *pedryuael byt*, cymysg o *pedryfal* a *pedeir ael* (W.M. 228a), B.B.C. 26, *bid beddrael*; cf. *amryfal*, *amryfael* yn S.G. 361; *amryaval* Pen. 44 (51-2). Amrywia *dr*, *tr* yn gyffelyb yn *petrus*, *pedrus*; *etrych*, *edrych*. Gweler R. a D. dan *petruâl*, am *Cefn y petruâl* yn Llanfair Talhaearn, fel enw lle. Defnyddir y gair fel enw ac fel ansoddair, cf. S. *square*. Cf. ymhellach, Williams, *Eminent Welshmen*, 47: "In 1813, a most interesting discovery was made . . . A farmer living on the banks of the river Alaw in Anglesey, having occasion for some stones, supplied himself from a carnedd which was close to the river, and having removed several, he came to a cist of coarse flags covered over. On removing the lid, he found within an urn of ill-baked earth, about a foot high, placed with its mouth downwards, full of ashes and half calcined fragments of bone . . . the very spot has always been called Ynys Bronwen": gw. Hoare, *Cambro-Briton* ii, 71. Dangosir y llestr bellach yn yr Amgueddfa, Llundain.

22 **y kerdet:** gw. ar 9, 16.

25 **Caswallawn uab Beli,** cf. *Cy.* viii, 84, Yn amser y kasswallawn hwnnw y kymellawd y rufeinwyr treth o ynys prydein; gw. Rhys, *Welsh People*, 41, atgo am y *Caëssivellaunos* a ymladdodd yn erbyn Cesar ar ei ail ymweliad â'n hynys, cf. isod ar 46, 7; 49, 10.

27 **pa daruu.** Ar *pa*=*pa* beth, gw. W.G. 290.

46 1 **seithwyr:** cf. 3, *chwegwyr*; gw. ar 20, 7.

edewit: gw. ar 38, 29.

Td. ll.

46 2 **dyuot am eu penn**, ymosod arnynt; cf. 15, 17, diskynnent wynteu *am ben* y llys.

4 **o aniuget** (R.M. *o annyuget*, ll. 9 *o niyuget*). Digwydd eto yn R.M. 98, Trydyd crynweissat [*cynweissat* ?] uu hwnnw a torres y gallon *anniuget*. Ni wn yr ystyr yn fanwl, rhywbeth fel cywilydd neu dristwch (? S. "vexation"). Ymddengys fel pe deuai o *myg*; cf. *myged*, "parch". Yn M.A. 486b, ceir *envyget ac amarch*, fel cyfystyron; o *an-* negyddol, a *myget* y daw hwnnw, ond yma rhaid wrth *an-*, a *di-*, a gall y naill a'r llall o'r rhagddodiaid hyn gryfhau neu negyddu. Yr ystyr yn ôl L. i, 147, yw "désespoir, chagrin"; i, 389, myn ddarllen *aniwyget* (negyddol o *diwyg*, gan gymharu Gw. *do-fichim*) a'i esbonio fel anallu i wneud iawn am beth neu i'w ddial. Yn ôl Rhys, W.P. 40, n. "vexation or grief".

5 **a daroed idaw wisaw** (R.M. *ar daroed idaw*, gydag *ar=ry*); gw. W.G. 351 ar *darfod* (a) "to waste away"; (b) "to happen". Defnyddiwn *darfu* yn yr ystyr hon bellach, a chyffredin yw gyda berfenw fel yma; *darfu* iddo wisgo, gwisgodd. Cf. ar 38, 29; dyma enghraifft arall o'r Amherffaith yn ystyr y Perffaith.

llen hut: gw. O'Curry, M.C. ii, 301 am un Cuchulain.

7 **ny uynhei Gaswallawn** (R.M. *ny mynnei*). Weithiau ni threiglid berf ar ôl *ni*, *na* os dechreuai gyda *b*, neu *m*; felly R.M., cf. uchod, 12, 24. Ond dengys W.M. yma fod y treiglo'n bosibl er yn gynnw. Ar dreigliad *Gaswallawn*, gw. ar 1, 23.

ceuynderw. Am Frân yn gefnder i Gaswallawn gw. ar 49, 10, cf. R.B.B. 71, lle ceir Beli a Brân, dau fab Dyfnwal; ct. 82, Lludd, *Caswallawn*, a Nyniaw, tri mab Beli Mawr ap Manogan. Ar yr olaf, gw. Zimmer, N.V. 272-3; C.L.L.L. 11; Rhys, W.P. 41; Gruffydd, M. 174.

Td. ll.

- 46 7 **Pendarar**, felly W.M. ac R.M. yma ; cf. *Pendaran*, td. 26, 27, 39. Yr oedd *n* ac *r* yn debyg iawn yn ysgrif oes y glosau (nawfed ganrif), ac efallai bod camgopïo hen lsg. wrth wraidd yr amrywiaeth yn yr enw. Neu, gall fod copi W.M. neu W.M. ei hun wedi ail-adrodd yr ail sillaf yn y drydedd.
- 10 **ieuang** (R.M. *ieuanc*) ; gw. ar 44, 22. Gan fod *gwr-ieuanc* wedi troi yn *gwreang*, *gwreng* (B. i, 15), rhaid bod newid wedi digwydd yn y sain olaf, h.y. nid amrywiaeth orgraff yn unig sydd yma yn *ng*, *nc*.
- 12 **ymdiwallu**. G. "they provided" ; E.-Ll. "was begun to be provided" ; tebyg hefyd yw L. i, 147, ond cymeraf ef fel "ymddigoni". Eisteddasant eisoes wrth y bwrdd, yn awr dechreuwyd gwledda. Rhaid, felly, i ni ddiwygio'r testun ; hawdd fuasai i'r ysgrifennydd neidio o un y i'r llall yn *y gyt ac y*.
- 15 **oe** : gw. ar 36, 6.
iwrthi hi (R.M. *y wrthi hi*), o'i chymharu â hi.
- 16 **dremynt**, o *drem*, trem, golwg. Yr oedd yr adar ymhell, cyn belled ag y medrai'r llygaid eu canfod.
y guelet (R.M. *eu*) ; gw. ar 16, 7.
- 17 **cyn bydynt** : gw. ar 2, 17 ; 11, 3 ; cf. 89, 5.
- 20 **Gualas** : gw. ar 45, 6.
- 23 **y gayat** (R.M. *yn gayat*) ; gw. ar 9, 16, cf. *yn agoret*, ll. 22.
yr hwnn, yr un.
- 24 **weldy racco** : dacw, gw. C.Ll.Ll. 9 ; W.G. 440. Er mai unigol yw *wel(y)di*, defnyddir yn y lluosog, cf. *dyma*, *dyna*, *dacw* ; ni chlywir *di* yn y rhain, ac ni feddylir am rif ynglŷn â hwynt.
- 26 **o ouut** (R.M. *o vwyt*). Camddarllenodd R.M. *ovut*, fel *vvit*, *vwyt* ? Neu gall fod yn ddiolfalwch hollol, atgo o *o uwyt* yn ll. 12.

Td. ll.

46 27 **yn y gwyd**, er y gofid a welsent eraill yn ei ddioddef o flaen eu llygaid, ac er a gawsent eu hunain. Yma eto *y=eu*.

a gewssynt e hun (R.M. *a glywys e hun*). Bellach y terfyniad yn y gor-berffaith yw *-ent*, hcb affeithiad ar y sillaf o'r blaen; felly, *a gawsent*. Sylwer ar *e hun*, nid *eu hunein*, gyda berf luosog.

ny doy gof udunt (R.M. *ny doey y gof*); cf. 5, 9, y doi y gof *y'r* dyn. Rhaid deall W.M. fel *doy y* "doi i, deuai i", neu cawsid *o dim* ar ôl y ferf.

47 1 **hyt na**, fel na.

3 **adnabot o un ar y gilyd**: nid "recognition of one by the other" fel E.-Ll.; cf. 81, 13, *adnabot* a wnaeth Gwydyon *arnaw*.

4 **y uot yn hynny o amser**. Ar ddiwedd y cyfnod, nid oedd y lle yn llai hyfryd iddynt na phan ddaethant yno gyntaf, ac ni fedrai'r un ohonynt weld ar wedd y lleill ei fod yn hynny o amser (sef 80 mlynedd) er pan ddaethent yno, h.y. nid oedd neb wedi heneiddio dim yn y cyfamser. Esbonnir *y uot*, gan mai gwrywaidd oedd *amser* gynt; heddiw anwadal yw parthed cenedl, ond cf. 22, 1, yn yr amser *hwnnw*.

5 **wynte** (R.M. *wynteu*); felly 70, 5, enghraifft gynnar o'r ffurf dafodieithol.

cyduot, yn ei ystyr syml o gwmni, bod gyda.

7 **o achaws**, am, "because", cf. 65, 22; weithiau "am, concerning, about", fel yn 48, 13.

8 **ysbydawt**. Gan fod *d* yn amwys, gellir darll. *ysbydawd* yma, fel y gwnaeth Loth, i, 390: esbonia ef y gair fel tarddair o *esbyd* "guests" (Ll. *hospites*) neu o'r Ll. *hospitatio*. Ond ple bynnag y gwahaniaetha'r llsg. rhwng *d* ac *dd* trwy roi *t* am yr olaf, dangosant i ni *ysbyddawd*, felly'r Dr. Davies, T.W.; cf. M.A. 165a,

Td. ll.

braugoel *yspytawd* = 172 brangoel *yspyddawd*; 232a, H.G. 16b, Na *chysbytwn* uod heb *ysbytawd* | Gwennwlad nef yn aduwyndawd, = R.P. 40b 5 (lle profir *dd* gan y gynghanedd); R.P. 75b 29, *yspudawl* y *yspydawt* (ysbuddiol ei ysbyddawd?).

- 47 8 Ystyr: D. *hospitium*, *hospitalitas*: T.W. *hospitium* lletty, *yspytty*, *yspyddawd*: Roger Morys yn 1588, enwau *gwledd* mewn Hen Gymraeg (Pen. 169, 210, R. i, 964), "Darmerth, *ysbyddawd*, *mestic*"; L. "hospitalité, accueil hospitalier, réception". Nid yw'r un yn hollol addas yma. Gwir bod *gwledd* a *thÿ* i *wledda*, a *chroeso* yng Ngwales, ond beth yw "Ysbydawt Vranwen a Matholwch . . . yr hon *yd aethpwyt* e Iwerdon"; 48, 14, Yspadawt Uran *pan aeth* y llu mawr i Iwerddon? Methaf benderfynu: ond gw. M.A. 133b, 153b, B.T. 31, Gnawt gwyth ac adwyth o *yspydaut* gaer: 33, Keint yn *ysbydawt* uch gwirawt aflawen | Keint rac meibon llyr yn ebyr henuelen (sef cyfeiriad at y testun); M.A. 210a, H.G. 114a, Parawd *ysbytawd* y esbyd prydein. Dengys yr olaf fod *gwledd* neu *ddarpar* at *wledd* yn bosibl fel un *ystyr*. Efallai y medrid lledu'r *ystyr* o *ddarpar* (at *wledd* neu *ryfel*) i gynnwys yr enghreifftiau eraill, cf. Ll. *convivium*, *sodalitas*, am yr *ystyr* o gwmni a *gwledd* i'r un *gair*; Br. Er. 16, cum nulto *apparatu*, sicut decuit regem. A ellid esbonio Ysbyddawd Gwales fel "gwledd", neu "gedymdeithas"; un Franwen a Matholwch fel y cwmni a *aeth* i Iwerddon; ac un Frân fel y llu mawr *aeth* *gydag* yntau? Benywaidd yw'r *gair* (yr *honn*, ll. 9), ac felly treigilir ar ei ôl, 48, 14, 18, Ysbyddawd *Franwen*, y. *Fran*, y. *Benn*, B.T. 31, y. *gaer*.

Urdaul Benn. Y mae dau anhawster yma ynglŷn ag *Urdaul*, sef ei gystrawen a'i *ystyr*. Gellir ei gymryd *gydag* *ysbydawt* neu *benn*, ac y mae'r *ystyr* yn dilyn ein dewisiad.

Td. ll.

47 8 Cyplysisir fel rheol â *benn*; felly Rhys, A.L. 172, "the Venerable or Dignified Head"; G. "noble"; L. "sacrée". O'r rhain gwell gennyf gynnig G.; cf. M.A. 200b, Dafydd, "Brenhinnet vrt vonhet *urtawl*"; 225b, Lywelyn eurdyn *urtawl*. Daw o flaen yr enw yn B.T. 32, *urdawl* segyrffyc; cf. hefyd *Bendigaid-fran*. Ymddengys *bendigaid* am Frân, ac *urddol* am y Pen fel ansoddeiriau anaddas, wedi cymryd lle hen eiriau nas deallid. Cyfeiria Rhys at *Uthr Benn* yn B.T. 71, ond eglurir ar yr ymyl yno mai *Uthr Bendragon* a feddylir. Sut bynnag, awgryma hyn y posibilrwydd fod *urdawl* yma am *uthrawl*.

O blaid ei gydio wrth *ysbydawl* y mae rhediad yr hanes: y rheswm a roir am yr enw yw: "*O achaws y pedwar ugeint mlyned hynny y gelwit Y.U.B.*". Disgwylid i ryw air o'r tri gyfeirio at hyd rhyfeddol a gwyrthiol y wledd: nid oes dim yn *ysbydawl* nac yn *penn* i awgrymu na hyd yr amser na gwyrth y ddarpariaeth. Gellid "hyd" o *urdawl*, pe cysylltid ag *urdd* yn ei ystyr o "series, row" (B. iii, 258); awgrymai "a succession of feasts, running on without a break". Neu, gan fod *ysbydawl* yn fenywaidd, gellid darllen yma *uirdawl*, treigliad o *guirdawl*, hen orgraff am *gwyrrthiol*; cf. Juv. Sk. ii, 1, *guirdou* "gwyrrthiau". Y mae digon o enghreifftiau o *d=th*, megis V.V.B. 201, *pa ped pinnac, pard.*; B.A. 37, 11, *od* (oth); 38, 10, *guanaid* (gwnaeth); LL.D. W. 35, *lladlud* (*llath-*); Cy. viii, 83, gwyn *dorliud* (*dorllwyth*).

Ond cf. M.A. 152a *Urdws* Duw . . Owain / *Urdawl ben* friawdnen Prydain. Ai adlais o'r Mabinogi? Os felly, penderfyna beth oedd testun a dehongliad Cyn-ddelw o'r geiriau cyn 1170.

9 **yd aethpwyt.** Ni fedraf gyfieithu *yd* nes deall *ysbydawl* yn fanylach. Gall olygu "in which", neu "with which", neu "to which".

Td. ll.

47 10 **Meuyl ar uy maryf i**, llw cyffredin gynt, "Shame upon my manhood!" Cf. Dafydd ap Gwilym yn sennu Gruffudd Gryg (D.G. 249), "Mefl ar dy farf yn Arfon / Ac ar dy wefl mefl ym Môn!" Yn ôl A.L. i. 92, gallai gŵr yn gyfreithiol roi curfa i'w wraig "amhunau meul ar y uaraf."

y gyniuer collet (R.M. *geniuer*), y sawl colled "as many losses as"; cf. *cynifer* a *cymaint*; gw. W.G. 251, ii (i); Y.C.M. 105; Pen. 7, 75, y *gnifer* amravaelyon anregyon a geffynt yno; 105, Ac o hynny allan vyth y *gniver* reidus a weles C. ef ay gossymdeithawd yn da o vwyt a dillat: P. 14, 44, Ar delw a adoles idaw enteu e *gniuer* gueith henne; B.B.C. 18, Ar *gnyuer* pegor yssit y dan mor. Ar *gnyuer* edeinauc a oruc kyuoethauc. Nid oes raid cael ag ar ei ôl, Ioan i, 12; cf. T.W.S. A chynniver *aei* derbyniesont.

17 **yno y kyuarffei** (R.M. *yna*). Lleol yw *yno* bellach; gynt safai am amser hefyd, fel *yna*. Amherff. modd dibynnol *cyfarfod* yw *kyuarffei*. Cofient bob dioddef a gawsent erioed. fel petai yr awr honno y digwyddai (digwyddasai) iddynt; gw. ar 9, 9.

18 **cyuawr**, "moment", fel L., nid "shout" fel S.E., na "perturbation" fel G., gan mai *awr* sydd yma ac nid *gawr*. Am *cyf-*, cf. *cyfddydd*, dechrau dydd: *cyfnos*, dechreunos; felly *cyfawr*, dechrau awr, adeg, moment.

22 **trydyd mateud**. Nid trefn yw grym *trydydd* yma, nid "third", ond un o nifer arbennig, "one of the three", cf. 31, 1, gw. R.M. 300, "Tri matkud ynys prydein, penn bendigeituran uab llyr a guduwynt yn y gwynuryn yn llundein, ae wyneb ar ffreinc. a hyt tra uu yn yr ansawd y dodet yno. ny doi ormes saesson byth yr ynys honn. Yr eil amatkud. Y dreigeu yn ninas emreis a gudyawd llud uab beli. Ar trydyd esgyrn gwertheuyr uendigeit. ym prif pyrth yr ynys honn. a hyt tra vydynt yn y kud

Td. ll.

hwnnw ny doei ormes o saesson byth yr ynys honn. A llyna y tri anuat[dat]kud pan datkudywyt. A gwrtheyrn gwrtheneu a datkudyawd esgyrn gwertheuyr uendigeit yr serch gwreic. Sef oed honno ronnnwen baganes. Ac ef a datkudyawd y dreigeu. Ac arthur a datkudyawd penn bendigeituran or gwynn vrynn. Kan nyt oed dec gantaw kadw yr ynys honn o gedernit neb. namyn or eidaw e hun”.

Un ystyr i *mad* oedd ffodus, lwcus, “fortunate”, a dyna'r defnydd hynaf o'r gair, fel yng Nghalendar Coligny; gw. B. ii, 121-2. Credaf mai dyna'r grym yma hefyd, nid *bonus* ond *felix*. Ffortunus i'r Cymro fu'r cuddio, a'r anffawd mwyaf fu'r datguddio.

47 23 **cany doey ormes**, gan na ddeuai gormes, “for no oppression would come”, cf. O'Curry, M.C. ii, 335, claddu Eoghan Bel a'i wyneb tuag Ulster. Ar *cany* gw. ar 6, 8; ar dreigliad *gormes* gw. ar 1, 23; ar ei ystyr, B. i, 36.

24 **drwy**, dros; gw. ar 36, 23.

25 **y kyuarwydyd hwnn**: gw. C.Ll.Ll. 13. Gelwid y chwedlydd yn *gyfarwydd*, a'i chwedl, neu ei hanes, yn *gyfarwyddydd*. Dyma'r dull o orffen rhan o'r stori. Ar *kyfranc*, gw. C.Ll.Ll. 9, “meeting, fight, adventure, story”, cf. R.M. 258, *Kyfranc* gereint hyt yma; S.G. 116, Yma y mae yr *ymdidan* yn teui amdanunt wy yll deu, ac yn traethu y wrth galaath; 135, Yma y mae y *kyfarwydyt* yn ymchoelut ar y defnyd e hun drachefyn.

26 **Y gwyr a gychwynnwys o Iwerdon**: dyma deitl y darn uchod o'r chwedl, sef yr hanes o td. 45, 12, hyd yma.

27 **edewit**: gw. ar 38, 29; cf. R.P. 13 a 6.

pump, felly 48, 2; ond y ffurf hŷn, *pym̃p*, *pym*, yn 48, 3, 7, 8, fel hyd heddiw yn *pymtheg*; gw. W.G. 86. Cymer yr enw lluosog, gw. ar 20, 7; cf. pum *meib* 48, 2.

Td. ll.

48 5 **damunet**, dymuniad, cf. am y terfyniad, *gofuned*, *gogoned*.

6 **lau heb lau**: nis cyfieithir gan L.; rhydd E.-Ll. "side by side". Ceir amryw ystyron i *llaw*, cf. D.G. lxxiv, 30, am Forfudd anwadal, yn mynd "*O law ilaw loyw eilun*" fel chwarae â phêl; W.G. 419, *heblaw*, "*llaw* 'hand' in the sense of 'side'; *heb law* 'out-side', *heb i llaw* D.G. 148, 'beside her'"; yn yr ystyr hon, cf. *gerllaw*. Gan fod *llaw* hefyd weithiau yn golygu "awdurdod" (felly Gw. *lâm*, cf. B. ii, 11, nar hwnn a *dalo llaw ar dy uedel nac a dalo llaw ar dy hafot*, "be in charge of") gall y testun olygu "boed gydag awdurdod, boed heb hynny". Neu cymerer *heb*, mewn ystyr gyffredin arall iddo, fel "beyond, past"; cf. D.G. lxxiii, 33, Jer. xxii, 8, A chen-hedloedd lawer a ânt *heb law* y ddinas hon; Deut. ii, 30, Ond ni fynnai Sehon . . . ein gollwng *heb ei law*; 2 Cor. i, 16, A myned *heb eich llaw* chwi i Macedonia; a'r ffurf amheronol *heibio*, "past". Pe felly, cyfystyr fuasai â *blith draphlith*, "promiscuously". Tueddaf at yr olaf, cf. D.B. 57, a'r daear *blith drachemysc lau hep lau* a'r dufyr.

8 **etwan**, ffurf ar *eton*, *eto*; gw. W.G. 432.

pymp rann Ywerdon, pum talaith Iwerddon, sef Meath, Connaught, Ulster, Leinster, a Munster, yn ôl L. i, 150 = Mide, Connacht, Ulaid, Lagen, Muma (Windisch, 436). Rhydd Hyde ddwy dalaith Munster, ac ni chyfrif *Meath* (L.H.I. 26; 29, n. 2) fel talaith wreiddiol. Gweler hefyd ei gyfeiriad, td. 27, at wrthryfel yr Athach-Tuatha "or unfree clans of Ireland . . . against the free clans or nobility, whom they all but exterminated, three unborn children of noble line alone escaping", chwedl go debyg i'r testun. Ond prif werth yr esboniad a rydd y Cyfarwydd yma yw ei fod yn dangos y gwyddai am y gair

Td. ll.

Gwyddeleg a'i ystyron, sef *coiced*, "pumed", yna "talaith" yn Iwerddon.

48 10 **yr aeruaeu**, nid y frwydr rhwng Brân a Matholwch yn unig, ond yr hen feysydd brwydro yn ogystal.

12 **Mabinyogi** (R.M. *mabinogi*).

13 **o achaws**, am, "concerning" cf. 85, 12.

Paluawt Branwen: ergyd â llaw agored (palf, Ll. *palma*) yw palfod, cf. *dyrnod*. Am y Tair, gw. R.M. 301, "Teir gwith baluawt ynys prydein. vn onadunt a trewis matholwch wydel ar vranwen uerch Iyr. Ar eil a drewis gwenhwyfach ar wenhwyuar. Ac o achaws hynny y bu weith kat gamlan wedy hynny. Ar dryded a drewis golydan uard ar gadwaladyr vendigeit". Etyb *gwith* yn y dyfyniad i *anuat* yn y testun, a geill fod am *gwyth*, neu *chwith*; cyfeiria at yr *anfodion* a ddilynodd bob palfod.

14 **yspadawt**, yr unig enghraifft lle cair *yspad-*, fel petai o *Ysb-*, llu. *osb*, ac *addawd*, "cartref, neuadd". Anodd pwysu ar y ffurf hon yn wyneb y dystiolaeth i'r llall.

15 **pedeir dec wlat**: gw. ar 38, 21. Yn R.M. *deg wlat* a seith ugeint.

16 **y ginyaw**: benywaidd yw eto yn y De: gwrywaidd yn y Gogledd; cf. W.M. 121a, kinyaw kystal a *honno*.

18 **Benn**, treigliad ar ôl yr enw benywaidd *yspydaut*.

49 7 **Hollgyuoethawe**, yn ei hen ystyr, "Hollalluog".

9 **na uit kyn drymhet genhyt**, na fydded cyn dristed gennyt; ar *trwm* "trist, truan"; gw. ar 16, 5; cf. 88, 17.

10 **dy geuynderw**, Caswallawn fab Beli (45, 25; 46, 7). Pe cymerid hyn yn fanwl golygai fod Llyr a Beli yn ddau frawd, neu fod gwraig un yn chwaer i'r llall. Yn *td.* 29 dywedir bod mam Brân, sef Penardun, yn ferch Beli fab Mynogan; os felly, ewythr oedd Caswallon i Frân.

a chyn gwnel. Rhaid deall y ferf fel petai'n berffaith, ac nid pres. dibynnol, "though he may have wronged

Td. ll.

thee". Tybiaf mai *cyn ry* oedd y gwreiddiol, neu hyd yn oed, *cyr* (o *cy-ry*). Hawdd fuasai darllen *r* fel *n*; ac esboniai hynny pam y ceir *cyn* yma yn lle *cyt*; cf. ll. 13, *kyt boet*.

- 49 12 **lledyf**: cf. R.M. 304, Tri lledyf unben ynys prydein. Manawydan uab llyr. a llywarch hen. a gwgon gwron uab peredur uab eliffer. Ac ys ef achaws y gelwit wynt yn lledyf unbynn, wrth na cheissynt gyuoeth. Ac na allei neb y ludyas udunt (felly *Cy. vii, 129*). Esbonia G. *lleddf* fel "disinherited"; L. "un des trois qui sont prince sans l'être", L. i. 151, n. "oblique"; E.-Ll. "gentle". Croes i *syth*, "upright, stiff", yw yn yr hen destunau, gw. D. *lleddf*, obliquus, limus; R. "oblique, transverse, awry, askew, crooked"; *lleddfu*, "to warp, to grow oblique, or crooked". Yn Sir Aberteifi, *ar oled* (=goleddf), "on a slope, aslant", cf. ar *wyr*; (g)*oleddu*, "tueddu, incline". Yn B.T. 43, Oed ef vyn defawt i nos galan, *lledyfdawt* y gan ri ryfel eiran (h.y. gorweddian); *Dosb. Ed. xix, Sillaf Lledf. . . dwy Fogail*, un yn *goleddfu* ("incline") at y llall, cf. *Pengamleddf*, canys pengammu a wna un o'r bogeiliaid at y llall; A.L. i, 372, kadw y gynnen mywn cof *diledyf* (heb wyro at y naill blaid na'r llall, impartial); 374, *diledyf* gyffredin vyd yr awdurdawt, sef yw hynny brawtlyuyr ("universally unbiassed", p. 375); ii, 358, synwyr canon *diledyf*; B.A. 31, ef gwneei gwyr *llydw* a gwagedd *gwydw* kynn oe agheu (he laid men *low*, and made women widows); Dychan Ifan Delyniol, i W. Gr. o'r Penrhyn, O gwyl merch mewn gwiail Mai / Dy lygad, hi *lewygai*. / *Lleddfu* wna merch, fwynferch fain, / *Lle'dd* elych fal lladd elain /; Pen. 76, 72, lladdai vil â'i *lleddf* olwg (= "downcast eye"); M.A. 1071, is gywair, crasgywair, a *lleddv gywair*; Tannau *lledvdon* (Ymddengys i mi fod *cras-* yma yn ateb i *sharp* fel term cerddorol, a *lleddf* i flat); M.A. 335b,

Td. ll.

lleddf englynion. Bellach *lleddfu poen*, "to relieve pain", peri iddo *ostwng*; poen yn *lleddfu*, "mynd i lawr"; *lleddfu* cythrwfl, ei ostegu. Deallaf *lleddf unben* fel "humble lord", un nad oedd yn sefyll am ei hawliau, ond yn plygu i eraill o'i fodd, gŵr iselfryd, didraha.

Chwithig yw dyfynnu'r Trioedd wrth un a goffeid ynddynt! Cf. uchod ar 31, 1.

- 49 13 **kyt boet**, "though he be"; cyfystyr yw *boet a bo*, pres. dib. *bod*; cf. ll. 23, *a chyn bo*. Nid yw yn W.G. na'r amrywiad arno, *kyd bwyd*, W.M. 225a. Geilw Strachan ef yn 3 sg. imper. (I.E.W. 121); digwydd felly, wrth gwrs, ond nid hynny yw gyda *kyt*, cf. *bit*, pres. myn. 3ydd, a hefyd y modd gorchmynnol.
- 18 **yn un ty**, bellach *yn yr un tŷ*, "in the same house", cf. dan *unto*.
- 18 **yr edewit** (R.M. *ry*), gw. ar 31, 25.
- 19 **mi a rodaf it honno**: gw. E.-Ll. 77, n. 6, "The power of a son 'to give' his widowed mother in marriage is referred to here, and here only, in the early Welsh stories or laws", ac awgrymir fod yma ôl dylanwad estron.
- 19 **medyant**, awdurdod dros, nid perchenogaeth; gw. B. i, 30, am enghreifftiau. Yn yr hen gyfieithiad, Ll.A. 32, "Nyt oes *veddyant* onnyt y gann duw"; bellach (Rhuf. xiii, 1), "Nid oes *awdurdod* ond oddi wrth Dduw"; cf. 14, 24.
- 20 **a chyny bei**, sef *cyn ni bei*, er na byddai; gw. ar 2, 17.
- 21 **well**: gw. ar 2, 14.
- 22 **uerch Wyn Gloyw**: gw. ar 27, 24; cf. 57, 13.
- 23 **enwedigaeth**: er i'r cyfoeth aros *mewn enw* (nominally) yn eiddo iddo ef.
- mwynant**, "use"; gw. ar 32, 6.
- 50 1 **mynhut, caffut**, yn ystyr y gorberffaith heddiw; gw. ar 9, 9.

Td. ll.

- 50 1 **aduyd.** Rhaid diwygio'r testun, ond penderfynir beth a roir i mewn o flaen *hwynnw*, gan yr ystyr fanwl a rown i *aduyd*, gw. ar 2, 9. Os derbynnir yr hyn a gynigiwyd yno, a chymryd mai *gall* yw'r meddwl, yna gair fel *gwaeth*, neu *salwach* sydd ei eisiau i orffen y synnwyr. "Petasit ti erioed wedi mynnu cyfoeth i ti dy hun, dichon (efallai) y cawsit ei waeth"—enghraifft o meiosis neu leihad (gw. C.D. 60 ar y term), ffigiwr hoff yn ein llên. Yr awgrym yw y buasai'n anodd iddo fod wedi cael ei gystal. Gwell yw hyn na darllen *crystal* fel y gwneuthum o'r blaen.
- 2 **Na uynhaf.** Defnyddid *na* wrth ateb, mewn modd chwithig i'n clust ni bellach; cf. R.M. 87, Py wattwar a wnewch . . . *Na wnawn* arglwydes vn gwattwar am danat; R.M. 216, Py barth y tebygy ti y vynet ef. *Na wnn*, heb ynteu. Yma ceir chwithigrwydd arall hefyd; etyb y ferf bresennol *mynhaf*, i'r amherff. *mynhut* yn ystyr y gorberff. Heddiw dywedem "Na, ni fyynnwn (i ddim gwell na *hwynnw*)".
- 3 **cydymdeithas**, cyfeillgarwch; gw. 3, 7; cf. 51, 9.
- 5 **edrych**, h.y. i'w gweld hi, i edrych amdani; cf. 87, 21; R.P. 169b, 17, Yt garwn y vynet . . . y *edrych* vy chwaer, "to see my love"; P. 44, 42, ac erchy vdvnt dyvot oe *edrych*, "to come and see him" (=R.B.B. 80, y *edrych*, sef i'w edrych, fel yma ll. 10, y *phryd*, i i *phryd*, i'w *phryd*). Mae blas "inspect" bellach ar *edrych* mewn cystrawen gyffelyb, ac nis defnyddir am bobl, ond gydag arddodiad, cf. 85, 7.
- 9 **dewred**, harddwch, gogoniant (cf. S. *bravery* am ddillad hardd); cf. M.A. 180b, Ny rygolluyf duw o *deured* byt; 229a, Credet baub i Duu *deur* naf gogonet; 209a, Meu bryder llawer . . . ym *dewred* nyt ydwyf; B.B.C. 42, Erbin oed y dit y del paup oe Bet iny *devret* in *devraw*. *Mal y bv ban fv oreuhaw*. Am Riannon, nid syn ddarfod

Td. ll.

iddi heneiddio a hacru peth mewn 87 mlynedd o ddisgwyl ei mab adref o Iwerddon! Beth oedd oed Cigfa hefyd erbyn hyn? Rhaid bod dylanwad Pen Brân yn cadw'r Dehau i gyd yn ifanc!

- 50 16 **tirioni**, anwylo; cf. *ymtiriyoni*, 43, 19, *yn diryon*, ll. 17; 5, 2, *tirionwch*.
- 17 **hoffi**, canmol, nid "marvelled" fel E.-Ll.; gw. ar 27, 10.
- 18 **teket**, y radd gyfartal fel enw, yn dibynnu ar ansoddair; gw. ar 4, 21.
- 19 **bydaf wrth**: cf. ll. 22, a gw. ar 20, 20; yma "cytsynio".
- 20 **dywedwydat**, dywediad. Hen ferfenw *dywedaf* oedd *dywedwyd*; gw. W.G. 114; M.A. 231b, Gwedy *dywedwyd* gan anwyd geu. O hwn, trwy chwanegu *-iad*, cafwyd dau enw; 1, "saying, speech", cf. Pen. 14, 41, colles e *dywedwydat*; 2, "talker", S.G. 171, cf. *caniad*, *ceiniad*.
- 21 **roessum**, perff. laf, *rhoi*, trwy chwanegu *-um* (fel yn *bu-um*) at fôn yr amser gorff., sef *rhoes-* neu *rhoys-*; cf. *gorug-um*, *keint-um*; gw. W.G. 342.
- 25 **difleis**: gw. ar 7, 23.
- 28 **gwrogaeth**, y ddefod ffiwdal o'i gydnabod ei hun yn "wr" i arglwydd uwch nag ef, sef brenin Prydain; cf. td. 6, 7, 12.
- 51 3 **a uo nes**: aros iddo ddyfod i le yn Lloegr a fyddai'n nes i Ddyfed nag oedd Kent. Rhydd R.M. ae aros *ynteu* a uo nes. Symlach cystrawen fuasai *yny uo nes*.
- 5 **kylechaw Dyuet**: gw. ar 25, 21; cf. ll. 7, *rodyaw* o ran ffurf ac ystyr, er nad yw hwnnw yn derm swyddogol; cf. 88, 21.
- 8 **cyuanhed**. Ystyr yr enw cyfannedd oedd preswylfod, "habitation, dwelling", cf. annedd, Gw. *comnaide*, "a dwelling, staying, abiding", Meyer, C.I.L. 449. Etyb Gw. *i comnaide* "always" i'r defnydd o *yn breswyl* yn y Cyfreithiau, cf. M.A. 653a, serch cyuannedd "constant

Td. ll.

love". Fel ansoddair, "inhabited"; cyferbynnir tir c. a thir diffaith yn A.L. 536, "adeil ac aradwy yw kyuaned", h.y. y mae tai yno, ac erddir y tir. Felly "Tri chyuanhed gwlat : meibon bychein, a chwn a cheilogeu", A.L. i, 782, dyna'r arwyddion preswyllo ynddi. Ond defnyddir hefyd fel "hyfryd, llawen"; gwaith bardd teulu, yn ôl S. D. Rhys, Gr. 147, oedd "cyfanheddu, sef yw hynny llawenhau dynion, a difyrru yr amser, canys llawen yw bod yn gyfannedd"; cf. D.D.G. 149. Yn y testun gall *cyfanheddach* olygu "hyfrytach", neu "wedi ei ddiwyllio'n well". O blaid yr olaf, y mae'r cyferbyniad â *heldir*. Yn 52, 1, ceir *anghyuanhed*, "uninhabited".

- 51 9 **yn hynny**: cf. 37, 15.
 11 **ymyse hynny**: cf. 37, 13.
 15 **a orugant Pryderi a Manawydan**: cf. 37, 7.
 19 **y bwyta kyntaf**: gw. ar 9, 2. Yr un drefn sydd yn y naill dro a'r llall, a digwydd y rhyfeddod yma eto ar Orsedd Arberth, ll. 20.
 20 **kyuodi allan**. Hyd heddiw arferir ef am fynd am dro, ⊙
 22 **twrwl**: gw. 22, 16.
 23 **cawat o nywl**: G. "a fall of mist"; cf. Luc viii, 23, *cawod* o wynt. Ar *wa, wo* yn ffeirio, gw. W.G. 38; ac ar *nywl*, W.G. 42, a'r Dr. D.
 24 **hyt na chanhoed**, fel na welai; cf. ll. 10, am *hyt na*; a gw. W.G. 352, ar *canhoed*, amherff. 3ydd. un. *canfod*.
 26 **guelyn**, gwelynt (cf. ll. 27 *welynt*), heb *-i*, fel 47, 4, *doethan*.
 26 **preid**: gw. Loth, M.L. 112, 198, ar y ffurf. Benthg o'r Ll. *praeda*, "ysbail"; esbonnir yr affeithiad ganddo fel prawf o fenthg cynnar, neu o ddylanwad *praedium* "ffarm, ystad". Am yr ystyr, cf. A.L. i, 434, ae *briedoed* gwarthec; 794, *Gre* gyfreithawl, dec cassec a deugeint. *Preid warthec* gyfreithawl, pedeir bu ar hugeint.

Td. ll.

- cf. Sc. ludail
- 51 26 **anreith**: gw. G.M.L. "booty, spoil, cattle taken during a raid, property"; hefyd anifeiliaid ffarm yn gyffredin, cf. H.G.C. 150. Defnyddir hefyd am "prize, darling". **kyuanhed**, y tai; cf. uchod ar ll. 8.
- 27 **neb ryw dim**, cf. 52, 12; gw. W.G. 303, 313.
- 52 3 **wyll** (R.M. *hwy yll*).
- 5 **ac yn anniuer** (R.M. *an niuer*). Y mae W.M. fel pe rhoesai *yn* am *an* "ein", ac yna copiodd yr *an*, neu ynteu dyblodd yr *n* yn *anifer*, ffurf bosibl fel *enifer*, *ynifer* (gw. ar 4, 6); cf. Y.C.M. 21, *anadred*.
- 6 **neuad**: gw. ar 13, 28. *ystauell* (R.M. *kastell*, bai amlwg); gw. ar 18, 21. *hundy*; cf. 4, 6.
- 8 **ymedgell**, ym medd-gell.
- 12 **ay ty ay kyuanhed**, rhyw arwydd fod pobl yn byw yno.
- 13 **guydlwddyn**: o *gwydd*, "gwyllt"; cf. *gwyddfil*, "bwystfil", a'r Gw. *fiad*, "gwyllt", *fiadmila*, "anifeiliaid gwyllt".
- x |
- 14 **ymborth**: gw. ar 36, 9, berfenw heb derfyniad. Lletach yw'r ystyr nag un heddiw. Enw yw yn ll. 19; cf. *Cy.* vii, 137, *Tri ymborth* gwr, hela, a chyfnewit, ac eredic.
- 15 **bydau**, bydaf, S.E. "a swarm or nest of wild bees"; Lewis G.M.L., "a wild swarm of bees"; D.W.S. "*byda*, honny combe"; A.L. i, 502, Gwerth bydaf yn y coet deuswllt; 503, "a wild hive"; gw. R.C. xxvii, 85, lle cymherir *bydaf* i'r Gw. *beth(s)amain*, "a swarm of bees"; Meyer, C.I.L. 211, *bethemain*, "swarms of bees"; Gloss. Eg. 158, A.C.L. iii, 169, *beathman*, "a Bee" (cf. 177).
- * |
- yuely**: gw. W.G. 187, 419.
- 17 **digyaw**, digio, yn ystyr "alaru, blino" (R.M. *diffygyaw*, ceisio symleiddio'r gwreiddiol?). Anghywir yw L., "la nourriture commença à manquer". Am y defnydd, cf. 53, 23; W.M. 217 (Pen. 6), A chalet y dyrnodeu a rodei ynteu. Ac ny *digyassant* wy o hynny hyny

Td. ll.

dygwydawd y meirch ar tal en glinyeu : H. MSS. ii, 243, Dywet ydaw vy *rydigiaw* om bywyt (P. 14, 167, dywet yr angel, heb adaf, *vyndigiaw* i o uot yn y byt hwn "that I am tired of being") ; 244, Vyn that yssyd . . . llydedic (=lluddedig) bellach oe vywyt.

52 20 **Henford**, Hereford.

21 **cymryt arnunt**, cymryd mewn llaw, "undertake" ; cf. 53, 14 ; A.L. i, 322, Ny dele nep *kamryt amayath* [amaethyaeth] *arnau* ony huybyt gueneuthur aradar ay hoylyau ; Y.C.M. 31.

22 **corueu**, llu. *corf*, "saddle-bow, pommel" ; gw. S.E. a G.M.L. 77 am enghreifftiau. Yr oedd dwy gorf, corf flaen, a chorf ôl, a chodent yn bur uchel, nid fel cyfrwyau presennol y wlad hon. Defnyddid *corf* hefyd am y post neu'r rhaniad ynghanol neuadd, cf. ymhellach Gw. *coirb*, *corb*, "a basket (of a chariot), chariot", C.I.L. 419, 488 : Walde ar Ll. *corbis*, lle dyfynnir Isidor "Corbes dictae, quia curvatis virgis contexuntur" ; hefyd W.M. 60b, Peredur yn dynwarded cyweirdebau'r marchogion, *o wydyn* ; Du Cange, *corba* 3, "tigillum incurvum, pars aratri" ; Lindsay, E.W.S. 28, *corbum*, rhan o gyweirdeb march ; Ffr. *courbet*, "bow of a packsaddle".

23 **Llassar Llaes Gygnwyt** (R.M. *llaesgygwyd*), gw. ar 35, 5. **calch llassar**, math o liw glas ; gw. G.M.L. 54. Yn ôl y Gyfraith, gwerth tarian oedd wyth geiniog : os byddai *kalcc llassart* neu *eurgalle* (eurgalch) 24 ceiniog ; yn Lladin, scutum coloratum *auricalco* vel *argenteo*, sive *glauco* colore. Cyfeiria Lewis, G.M.L., at y Lladin Canol *lazur* o lapis *lazuli* "blue stone" ; gw. Skeat, E.D. ar S. *azure* o gamrannu *lazur* (cymryd *l* fel y fannod Ffrangeg), o'r Arabeg *Lajward*, enw'r mwyngloddiau lle ceid y lapis *lazuli*. Y lliwiau eraill ar darian oedd *eurgalch* o'r Ll. *aurichalcum*, o *orichalcum*, o'r Gr. *oreichalkos*, sy'n cynnwys *chalcos*, "copper". Rhydd F.W. *orichalc*,

Td. ll.

*

"Under the Roman Empire, an alloy of copper and zinc (ct. L.S. ar *chalkos*) resembling gold in appearance; brass. There was also a *white orichalc*". Etyb yr olaf i *argenteo* yn y dyfyniad uchod; cf. B.A. 3, 17, *gwyn-galch*. Golygai *calch* hefyd yn y beirdd darian neu arfau lliw; cf. Gw. *cailc*, *cailcin* (Windisch, W.; Meyer, C.I.L. 300), "a chalked shield". Ond ai "chalk" ydoedd? Dengys *eurgalch* y gellid *calch* yn Gymraeg nid yn unig o'r Ll. *calx*, *calc-is*, ond o *chalkos* hefyd. Beth oedd gair y Celt am "enamel"? Yn y testun, ni fedraf feddwl am *galch* "enamel" ar gyfrwyau; *lliw* sydd yma yn unig. Er bod enamel gan y Celtiaid ar addurn cyweirdebau eu meirch, ac ar eu tarianau, *diogelach* efallai yw dal mai gorchest Manawydau yma oedd doddi lliw glas anarferol o dlws ar ei greadigaethau, cf. M.A. 210 b, Ef dyfu dreic llu yn *llassar dillad*, gw. Y.C.M. 34, taryan . . . wedy yr ysgythru yn odidawc ac *eur lliw ac ac azur*.

- ?
53
- 2 **yny adnabu pob un** (R.M. *bop*; gw. ar 43, 27); E.-LL. "until when", yn hytrach "so that".
 - 3 **o'y henill** (R.M. *oe hennill llawer*). Dengys yr *h-* mai lluosog yw'r *y* yn *o'y* (= *o'u*), ac na chyfeiria at *pob un*, ond at Bryderi a Manawydau—h.y. os yw'r frawddeg i'w gramadegu'n fanwl. Gan fod cystrawen *pawb*, fodd bynnag, yn anwadalu rhwng y lluosog a'r unigol, ni ellir bod yn hollol sicr; gw. 4, 9. Collai pob un o'u hennill hwy, neu collai'r holl gyfrwyddion o'u hennill. Yn yr ail ystyr y deallwyd gan R.M. er gwaethaf yr unigol *y uot*. Cadarnheir hynny gan 54, 21, adnabot bot *eu hennill* yn pallu *udunt*.
 - 5 **duunaw**, cytuno; gw. ar 23, 13.
 - 9 **y tayogeu racco**, "yonder villeins", enghraifft o'r ardd. amhersonol gyda'r enw. Ar *racco*; "acw", gw. W.G. 401. Yn y Gogledd, *mab aillt* oedd enw'r gŵr caeth ar y tir;

Td. ll.

- yn y De, *taeog*; gw. E.-Ll. 81, n. 19; G.M.L. 147, *Welsh People*, 191.
- 53 18 **da welsynt**: gwell yw R.M., *da a welsynt*.
- 22 **y gueith wynteu**, *y=eu*; gw. ar 16, 7; cf. ll. 25, y gwyr ac y bryt.
- 23 **dygywys** (R.M. *dygwydawd*); gw. ar 52, 17. Nid yw R.M. yn addas yma.
yw kytdrefwyr, eu cyd-drefwyr. Ceir *eu* yn *pieu* sydd gyfystyr ag *yw*, "is"; yma ceir *yw* sydd gyfystyr â'r rhagenw lluosog *eu*, "their"; cf. Ll.D.W. 29, tri pheth ny eyll tayauc *yu* guerthu (h.y. *eu* gwerthu): teyr keluydyt ny dely mab tayauc *eu* descu . . . sef *eu* henny [=sef yw hynny] escolectau, a gouanaet a bardhony; Pen. 14, 112, o dihwyt *yw* bryt (=eu); 113, y dileir *yw* pechodeu, 118, pei gellit *yw* caffel (R.C. xxxiii, 187); R.P. 17b, 10, Eur ac aryant mor *eu* [=yw] diuant *eu* dihenyd; 156 a 35, Sef *eu* (=yw).
- 28 **ny chymerwn . . . y gan y tayogeu hynny**, =cymryd hynny gan y taeogeu, dioddef hynny ganddynt; cf. 54, 25, Pam y *kymerwn* ninheu *hynny* gan y tayogeu lladron.
- 54 1 **awn adanunt**: gw. ar *guan y dan*, 32, 2.
- 3 **rewin**, o'r Ll. *ruina*; Loth, M.L. 202, W.G. 105, ond ar ddelw ansoddeiriau fel *gerwin*, *eurin*, edrychir arno yma fel ansoddair, nid "ruin", ond "ruined"; neu ynteu, cf. *perigl*, *methiant*, etc., a ddefnyddir fel enwau ac ansoddeiriau.
- 11 **ymyrrwn**: gw. ar 7, 6.
- 13 **cordwal**, o *Cordoval*, ansoddair o *Cordova*, tref yn Sbaen, lle enwog am y lledr hwn; yn S. *cordovan*, *cordwain*, "Spanish leather made of goatskin or split horse-hide, used throughout Europe during the middle ages for the boots of the wealthy", F.W.; cf. Ll.A. 95, esgittyeu or *kordwan* purdu.

Td. ll.

- 54 17 **yny gwybu.** Cedwir y gytsain gysefin heb dreiglo gan fod *y*, y rhagenw, i mewn yn *yny*, fel pe dywedid *onis gwybu*, "until he knew it".
- 18 **tryded eurgryd**, gydag *e* am *y* yn *tryded* (cf. R.M. *drydyd*), fel 4, 28, *weneb*. Tri eurgrydd Ynys Brydain, medd R.M. 308, oedd "Casswallawc uab beli. pan aeth y geissaw flur hyt yn ruuein. A manawydan uab llud pan uu hut ar dyuet. A llew llawgyffes pan uu ef a gwydyon yn keissaw enw ac arueu y gan aranrot y uam". Am yr olaf, cf. 81, 2. Sylwer mai mab *Lludd* yw Manawydan yn y Trioedd, nid *Llyr*.
- 55 2 **y hedrych**, i'w hedrych (gw. ar 8, 4) neu i'w gweld, gw. ar 50, 5.
- llad tan**, o *lladd* "taro", gan mai *taro* 'r garreg dân â dur oedd y dull i lawr hyd amser ein teidiau, cf. Gw. oc *béim* tened, R.C. xxii, 52.
- * |
- 5 **ymborth**: cf. 52, 14.
- 8 **odieithyr**, oddiallan. Dyma ddechrau'r ail ddarn o'r Mabinogi sydd yn Pen. 6, gw. isod, td. 306.
- 9 **o'e** (Pen. 6 o *eu*, *o eu*).
- 11 **y gyflym** (R.M. *yn*, P. 6 *en*); gw. ar 9, 16.
- ceginwrych mawr** (P. 6 *uawr*); G. "their hair bristling up greatly"; cytuna E.-LI. a Loth (le poil *hérissé*), ac addas o ystyr yw yma. Ond gan ei fod yn air am degwch wyneb merch, "aelgethloyw / *Ceginwrych* geirw-ddwfr crych croyw" (I.G.E. 3), petrusaf dderbyn yr esboniad hwn. Dangosais (*Beirniad*, viii, 257-9) fod *gwrych*, *gwrychion*, ar arfer am wreichion, "sparks", yn ogystal ag am "hedge" a "bristles". Golygai *asgellwrych* "spray", ac efallai "fluttering" yn R.M. 156, 158, sef cyffro a berw'r brain. Yn I.G.E. y mae "ewyn" yn ystyr bosibl i *ceginwrych* dwfr, cf. *lliw ewyn ton* am wyneb merch, ond gan nad yw cŵn yn ewynu mewn dychryn, ni fedrid felly gydio'r enghraifft yn I.G.E.

v. 753, 869

Td. ll.

â'r un sydd yma. Cynigiais, gan hynny, ddeall y gair fel "berw a chyffro mawr, *agitation*".

55 12 **ymchwelut** (Pen. 6 *emchwelu*, R.M. *ymchoelut*).

15 **o hyder**, wedi eu calonogi gan y gwŷr.

17 **yny uei**, "until" (nid "unless", fel E.-Ll.).

18 **kyuarth a rodei**. Fel term hela, ystyr *rhoi cyfarth* oedd fod yr anifail yn dal ei dir, "stand at bay", gan fod y cŵn y pryd hwnnw yn cyfarth o'i gylch: *torri cyfarth* oedd cilio eilwaith, "break away"; cf. ll. 19 (P. 6 *torrei y g.*).

yrddhunt, erddynt, er dim a wnelai'r cŵn iddo.

19 **yinghei**. Sylwer ar rym yr Amherffaith drwy'r darn; gwnâi'r baedd yr un cast drosodd a throsodd, sef sefyll a chilio, er mwyn hudo'r gwŷr ar ei ôl. Gwell cydio'r ferf hon wrth *wnc* "agos, yn ymyl", yn hytrach nag wrth *ying* (gw. Loth, R.C. xl, 353) cf. M.A. 261a, Llew ny ad lloegyr *yn y wnc* (h.y. yn ei ymyl); 266b, a chad yn *wg* (odli â *rhwng*, *hebrwng*); *Cy.*, vii, 140, Dyweddi o *wg*, galanas o bell (D. o *wngc*); gw. hefyd *ymwnc*, *ymwng*, R.P. 10 b 37; 52 b 30, 99 a 16, D.G. cxi, 39. Ystyr *yingu* yw nesáu, dyfod i ymyl; *echyngu*, gwasgu, caethiwo.

21 **yn lle**. Rhaid deall hyn fel *yn y lle*; cf. P. 6 *eny*; R.M. *yny*, ac isod, ll. 24. Yn 58, 12, ceir enghraifft gyffelyb.

22 **gueith**, yma adeiladwaith, gwaith saer; cf. y modd yr arferir yng Ngwynedd y term *gwaith* mewn bedd; cf. ll. 25, a 56, 10.

yn uuan, felly R.M. hefyd, ond P. 6 *en unyawn*.

25 **yr orsedd**, felly R.M., ond P. 6 o *ben g.* Onid Gorsedd Arberth? Fel mai o Arberth y dechreuod pob anrhydedd (td. 51, 18), felly o Orsedd Arberth y dechreuai pob rhyfeddod. Fel y dywed E.-Ll., y mae'r *berth* yn ll. 9 yn atgoffa *Arberth*; yr oedd "gyr eu llaw" pan aethant allan

trick

over o over

Td. ll.

o Lys Arberth, a dian nad oedd y gaer hud ymhell o Orsedd y rhyfeddodau eraill.

- 56 2 **nyt da.** Y mae W.M. yn rhoi testun anghyflawn yma : neidiodd o un *gaer* i'r llall ; ceisiodd R.M. ddiwygio W.M. neu destun seiliedig ar W.M., gan ddarllen *uynel yr gaer honn nys gweleist eiryoet*. Gwell o lawer yw P. 6, *nyth dwc dy gygor y uyned yr gaer. ny welsam ni y gaer honn ema eiroed*. Nid *cyngor* neu ddoethineb Pwyll oedd yn ei ddwyn i fynd i'r gaer, ond *anghyngor* (cf. 64, 10).
- 6 **madeuaf**, gollyngaf,—hen ystyr y gair ; gw. D.D.G. 121.
- 11 **cawg**, hŷn orgraff am *cawc*, cf. ll. 15. Unwaith eto rhaid dilyn P. 6. Dengys y cyfeiriad at *eur* yn ll. 14 fod cynsail W.M. hefyd yn cynnwys y geiriau rhwng crom-fachau. Oni roir y rheini i mewn, ni ellir deall y cyfeiriad yno, gan na soniwyd hyd yn hyn yn W.M. am *eur*. Golyga hyn newid a *chadwyneu* (felly W.M. ac R.M.) i *a'r c.*, a chynnwys y disgrifiad llawnach o'r pedair cadwyn a rydd P. 6. Gan mai *Caer Gawc* oedd cartref Cynyr, tad Non, mam Dewi Sant (gw. *Y Beirniad*, viii, 257), efallai bod atgo am enw'r gaer honno o dan y chwedl yma.
- X 13 **diben**, nid amcan ond pen draw. Ymgollai'r cadwynau yn yr awyr.
- 14 **gorawenu** (P. 6 *gorfynnaw*), y ddau air yn golygu codiad ysbryd, llawenydd, "elation, delight", ond aeth *gorfynt* i gyfeiriad y balchder sy'n cenfigennu (cf. cynghorfynt). Ceir, fodd bynnag, hen enghreifftiau ohono mewn ystyr dda.
- 16 **y gyt ac yd ymeueil** (P. 6 *emafael*, R.M. *ac ual yd ymauaelawd*), pres. myn. 3ydd yw *ymeuail* gyda'r affeithiad a welir yno mor aml (cf. 57, 8), er nad bob amser ; gw. y rhestrau yn W.G. 319-20.

T*d.* ll.

- 56 17 **yd oed yn seuyll arnei.** Yn ôl R.M. y llech yd oed y *kawc* yn seuyll arnei; cf. W.M. 118 b 2. Ond yn ôl ll. 11, a disgrifiad P. 6, nid *ar* y llech yr oedd y cawg, ond *uwchben* y llech. Felly, cyfeirir yma at Bryderi: amcan y cawg crogedig oedd hudo Pryderi i sefyll ar y llech. Pan wnaeth, glynodd ei draed wrthi, a'i ddwylo wrth y cawg, ac meddai ll. 19, *seuyll* a wnaeth yuelly.
- 18 **y lyueryd,** lleferydd. Ar un wedd, addas yw darll. W.M. (*lywenyd*), R.M. (*lewenyd*) wrth gofio am orawen P. pan welodd y cawg; cf. W.M. 199a, *dolef a gorawen a llywenyd*. Ond yma gofyn yr hanes am iddo golli ei barabl yn ogystal, a rhoes P. 6 (*leferyt*) y darlleniad angenrheidiol. Hawdd iawn fuasai i W.M. ddarllen *leueryd* fel *leuenyd* (cf. 81, 28), neu *lyueryd* (cf. 34, 21) fel *lyuenyd*, gan fod *r* ac *n* mor debyg yn yr hen ysgrif. Heblaw hynny, nid oedd ei wreiddiol yn eglur iawn yn yr adran hon, a barnu wrth ei gamgymeriadau eraill yma, neu ynteu yr oedd ef ei hun yn flinedig wrth gopiö, —peth hollol bosibl.
- 21 **prynhawn byrr.** Gan ei fod yn dilyn sôn am ddiwedd y dydd, gwell deall hyn i olygu nad oedd ond ychydig o'r prynhawn yn aros; cf. W.M. 120a, A bwytta ac yuet a oruc owein yny oed *pryt nawn hir*; hefyd uchod, 82, 5, *hir bylgeint*.
- 25 **a'th ewn** (R.M., P. 6, *ath gwn*); cf. 26, 26, mi ath *kynhalyaf* a thi ath *kyuoeth*.
- 57 1 **a chan y geir:** cf. ll. 12, a *chan* hynny.
y traws (P. 6, Ac *ar y traws*, R.M. *Ac yr artal*), yn ôl W.M. gwrthrych y berfenw *kyrchu*, ll. 2. Amrywia cystrawen y ferf honno (weithiau'n gyflawn, weithiau'n anghyflawn), fel y dengys y llsg. yma. Ystyr *traws* yma yw "cyfeiriad"; cf. W.M. 215, "A wr, heb éf, a deuy ti yn gyfarwyd i mi odieithyr y tref. Af, heb ynteu, yn llawen. A phy *traws* y mae dy vedwl ditheu

Td. ll.

- arnaw. Yr parth arall yr lle y doetham yr tref y mynnwn vynet". Deallodd R.M. ef fel "ardal"; cf. *Trawsfynydd* fel enw lle; gw. hefyd S.G. 57, *dyuot ar y traws hwnnw*, "in that direction".
- 57 12 **diffllannu**: cf. 80, 26; W.M. 79a, *diffllannwys*. Ceir *ffl* hefyd yn Ll.A. 13, Llan. 2, 218; 4, 506a, b; Y.C.M. 106, S.G. 10, 22, 89, 163; R.P. 18 a 21; ond Pen. 14, 25, *diwlannws*; R.P. 19 b 38, *divlan*.
- 18 **Duw y uach it**, cf. E.-Ll. 87 n. "The 'giving of God for surety' or 'briduw' was a form of contract ceremonial commonly used when ordinary sureties could not be obtained for a contract of suretyship (mechni)". Ar *y =yn*, gw. ar 9, 16.
- 19 **gywirach**: gw. ar 2, 14.
- 20 **bei et uwni** (R.M. *pei yt uewn i*): gw. W.G. 349.
- 24 **tra welho Duw**. Am y treigliad ar ôl *tra*, cf. ll. 19 ac uchod ar 8, 2. Am ystyr *gwelho*, gw. W.G. 390, lle gwahaniaethir rhwng *gwelaf* "see" a *gwelaf* "wish, will" (cf. ymhellach Hirt, I.G. i, 337; iv, 339, ar y gwreiddyn **wel*-).
- 25 **dihirwch**, "wretchedness, misery" (nid "suspense" fel E.-Ll.); cf. 81, 14. Croes yw i ddigrifwch neu ddifyrrwch.
- 26 **a debywn** (R.M. *a debygwn*), *e* am *y*; cf. *weneb* 4, 28; *hegar* 5, 3.
- 58 8 **hoff**, "cymeradwy"; gw. ar 27, 10.
y glanet. Dibynna'r radd gyfartal yma fel enw ar yr ansoddair; cf. ar 4, 21, am y gystrawen.
kygynhilet (R.M. *kygynnilet*). Ar *ky-*, cf. ar 23, 17. Nid darbodus oedd *cynnil* gynt, ond "doeth, medrus"; cf. Gw. *cundil*, *cundail* "decent, kindly, wise, discreet, worthy, honest", C.I.L. 567, Windisch, W. 461, A.C.L. I, 290, "sapiens". Daeth yr *h* i'r ffurf yn W.M. o'r terfyniad *-het* i'r radd gyfartal; gw. Ll.O. 82.

thriftly

*

Td. ll.

- 58 12 **yn lle arall:** gw. ar 55, 21.
- 16 **blwyn** (R.M. *blwydyn*). Newidiais y testun i'r ffurf gynefin, eto cf. *blwyn* yn A.L. i, 272, 274, 726, vn dyd a blwyn; ii, 10.
ynydd oed (R.M. *yny oed*), gw. ar 42, 20.
- 21 **eissoes:** gw. ar 20, 8, "nevertheless".
- 26 **y buassei**, lle y buasai.
- 59 2 **llydnod ar eu gual:** E.-Ll. "deer in their lairs"; G. "the deer in their covert"; gwna "deer" y tro am llydnod, os defnyddir yn ei hen ystyr, "anifeiliaid" (cf. Ell. *Tier*). Wedi colli'r cŵn rhaid oedd ar Fanawydan i ddal cwningod, ysgyfarnogod, iyrchod, etc. yn eu gorffwysleoedd, gan na fedrai eu herlid.
hares
To dig, delve **ryuoryaw**, palu, cloddio, trin y tir, "Och . . . o ryforio ei bedd", L. Môn, "A rraw fawr i rryvoriwyd / Gro y llawr i roi'r gwr llwyd", W. Llŷn, 46; gw. Loth, R.C. xxxiv, 146, lle cymherir Gw. *rómharaim*, "I dig, till, upturn"; H.A., 164, *Ryuoryn*, enw lle; B. iv, 127, a rwyf o ereidyr yn *ryuoryaw*. Yn Arfon clywais *tryforio*.
roebacks pursue, chase cultivate
- 3 **groft**, o'r S. *croft*, maes neu gae bychan. Benywaidd yw yn Gymraeg, ac felly treiglir ar ôl y fannod, *y groft*; wedyn cymerwyd y ffurf dreigledig fel y gysefin, ac ail dreiglwyd i *yr offt*, neu y *Rofft*, gyda'r lluosog *grofteu* cf. ll. 4, ae deir *grofd*; ll. 7 un oe *rofdeu*. Am beth tebyg, cf. *pobl*, *y bobl*, llu. *y bobloedd*; ar lafar weithiau, llawer o *fobol*. I'r gwrthwyneb, cf. *drem*, *trem*, etc., gw. E.E.W. 177, 220.
- 4 **kyuot**, ffurf ddi-derfyniad y berfenw; gw. ar 36, 9; cf. W.M. 106 a 22.
- 5 **tegach:** ond y treigliad rheolaidd gynt yn R.M. (*degach*), fel isod, ll. 24.
- 9 **tra e gefyn**, gyda'r gystrawen bersonol; bellach yn amherſonol, *trachefn*, heb ragenw.

Td. ll.

dawn; hue,
tint

59 11 **bore glas.** Defnyddir *glas* am bob lliw a gwawr o lwyd i borffor (grey, blue, green, livid); *glasiad y wawr* yw toriad y wawr am fod lliw llwydlas ar gwrr y ffurfafen, cf. "the grey dawn". Yn M.A. 481b, etyb *glas chwerthin* i'r Ll. "paulisper subridens", cf. R.M. 149, *glas owenu*. Yn R.P. 11 a 32, march *glas*, "fresh (?)", cf. *glas-lanc*; *glasu barf* yw dechrau tyfu barf, am fod y maes yn *glasu* pan egino!

germinate, shoot,
sprout

12 **pan daw, nyt oed;** cf. ll. 18; ceir y presennol byw hwn yn aml gyda *pan*, ond yr amser gorff. yn y cymal nesaf; cf. W.M. 65a, a phan *daw*, yd oed; 71a, a phan *wyl* pawb or teulu . . . y *doethant*; cf. isod, ll. 23; 65, 14.

13 **yn y doi,** lle deuai. Tybiaf mai ailadrodd yr *yn y* hwn sydd yn y llsg. ar ôl *doi*.

14 **tywysen,** nid un gronyn ond y *blaen* i gyd, "the ear"; cf. *tywysog*, a *blaen-or*.

60 3 **am hanner nos,** defnydd cyffredin o *am* i nodi amser.

5 **eliwlu.** Ceir yn y nawfed ganrif mewn englyn yn y Juvencus, *elimlu betid*, sef lluoedd Cred; *elyflu* yn M.A. 193b, 259a, 297b; *eliflu*, "gormes", yn Pen. 51. ymddengys *elyf* (gw. M.A. 144a, 166a, 189b, 203a, y *elyff* ueirch canneid), fel petai'n lluosog *alaf*, "herd, host", neu'n affeithiad ohono (cf. Gw. *albe*, "herd, flock"; *alam*, "herd", C.I.L. 77, *alaf*, *cyfalaf*). Felly, cyfansawdd o gyfystyron yw *elyflu*, fel *torflu* (B.B.C. 1-2). Am *w=f* yn W.M. gw. ar 5, 13; am *i=y* gw. ar 7, 7; 33, 12. Dilynir *eliwlu* yma gan y *byd* (*d=d*), am fod *elyflu'r byd* (fel *llu bedydd*) wedi eu cydio yn ei gilydd fel un ymadrodd, am dorf fawr anferth.

↑
*
↓
*

6 **hynny:** gw. 1, 13.

ny wydat nny uyd, cyn iddo sylweddoli beth oedd yn digwydd.

7 **guan adan:** gw. 32, 2.

Td. ll.

- 60 7 **drigyaw**, dringo; cf. 58, 1, *trigyaw*, trigo; 84, 22, *blingyaw*, blingo; yr *i* gytsain wedi colli bellach; cf. D.D.G. xliv, 37.
- 8 **estwng**, gostwng, cf. ar *gollwng*, *ellwng*, 1, 8. Y rhag-ddodiad *ex-* sydd yn estwng, cf. W.M. 241 b, *nyt estwg*; R.M. 123, *nyt estwng*, lle dengys *nyt* mai llafariad sydd gysefin i'r ferf; W.M. 61b, sef a oruc pawb yna, *estwg* y wyneb; 288, *ystwng*; B.A. 18, 8.
- 9 **guan e ymdeith**, rhedeg i ffwrdd.
- 11 **am pob un**, defnydd arall o *am* (cf. ll. 3), "for every stalk there was a mouse". Atebai rhif y llygod i rif y gwellt yn y grofft, hyd y gwyddai ef.
- 12 **taraw ymplith**, rhuthro i'w canol; felly S.G. 344, 356, 378; *taro gan* Y.C.M. 93; *taro yn eu hol*, 97; S.G. 89, yn *taraw hebdunt* hyt yr allawr.
- 13 **gwydbet**, gwybed, "gnats". Yn B.T. 44, 23, y trydydd pla ar yr Eifftiaid yw *gwydbet* (omne genus *muscarum*, Vulg., Ex. viii, 21); L.L.A. 10, Ae duw a wnaeth yr ednog ar *gwydbet* ar pryuert ereill (179, muscas et culices). Ar y ffurf, gw. R.C. xl, 447, lle cymherir Cern. *an webesyn*; Llyd. *huibet*, *chowibet*.
- 14 **cytdremei**. Methai gadw ei lygad ar yr un (nid "overtake" fel E.-Ll.), gan eu bod yn gwibio drwy'i gilydd mor gyflym, ond o'r diwedd, gwelodd un oedd yn amdrom, neu'n feichiog, a thybiodd na allai honno gerdded mor gyflym a'r lleill, a dilynodd hi.
- 16 **pedestric**: gw. ar 9, 20.
- 17 **llinin**, o *llinyn*, gan fod tuedd i *i* droi y yn y sillaf nesaf yn *i*; cf. ll. 20.
- 19 **yn yd oed**: cf. R.M. *yn y lle yd oed*, y gystrawen ddiweddar yn lle'r hen.
- 20 **y wanas**: gw. ar 42, 12.
- 22 **lledratta**: gw. Ch.O., 49, ar *lledrat*, lladrad.
- 24 **yr lygryssit**: gw. ar 11, 1; 31, 25.

*blit, dart, hudd
about*

✕

Td. ll.

- 60 25 **doethant y llygot:** gw. ar 37, 7.
 26 **idaw:** cf. yr *Ethic Dative* yn Lladin.
- 61 2 **diryued:** gw. ar 8, 3.
 3 **eisswys** (R.M. *eissoes*): gw. ar 20, 8.
 4 **y ryw bryf:** cf. 38, 10.
 8 **bot yn borth,** pleidio, noddi.
- 10 **defnyd,** mewn ystyr gyffelyb i *achaws* ll. 8. Yn A.L. ii, 158, gwahaniaethir rhwng y ddau air mewn cyfraith, "*Defnyd* e kyfreyth enteu yu bot en eydau ef e da; ac *achaws* e kyfreyth enteu yu duyn e da en agkyuarch"; a dywedir fod yn rhaid i'r dyn brofi yr "*achuyssyon* ual y prono e *defnyd*"; ceidwaid yw'r tystion i'r defnydd, a gwybyddiaid i'r achaws. Yma, heb fanylu, "substantial reason" yw'r meddwl.
- 15 **Gorsed Arberth.** O fwriad, aeth â'r lleidr i'w grogi i'r fan y dechreuodd y dihirwch. Ac fel y dywed E.-Ll., dengys yr hanes yn eglur beth oedd y gyfraith Gymreig ar ladrad; gw. y nodyn ganddynt, td. 91, n. 38. Crogi oedd cosb lladrad, ond mewn rhai achosion gellid dianc trwy dalu; gw. A.L. i, 252: *Lleidr gwerth* oedd y neb a ddygai eiddo "hyt ym pedeyr ceinnyauc": o hynny allan *lleidr enaid faddau* ydoedd, h.y. ei fywyd yn fforffed. "Ylleydyr a werther seyth punt yu y werth", A.L. i, 252, 702; ii, 789; cf. uchod 63, 15. Telid tair punt o ddirwy, "lle perthyno rheith am ledrat", ii, 682; ac am naw affaith lladrad, A.L. i, 240, deudec muw neu teyr punt; cf. 63, 1, uchod.
- 17 **yscolheic,** clerigwr, "clerk", gŵr mewn urddau eglwysig, cyferbyniol i *leygwr*. Gan fod *offeirat* (62), ac *escob* (63) yn ei ddilyn, perthynai hwn i'r urdd isaf o glerigwyr. Am y defnydd cyffredin, cf. A.L. i, 2, e peduuar en *lleycyon* ar deu en *escoleicyon*; R.B.B. 169, erchi y bawb or *lleygyon* ar *yscolheigon* yn llwyr ymgynullaw . . . deuthant yr archescyb ar escyb ar abadeu ar

cf. Ge. adhbhar

eye-witnesses

Td. ll.

athrawon ar *yscolheigon*; 198, pawb or *yscolheigon* ar *lleygyon* (*clero et populo*); I.G.E. 73, 74, 76. Yn A.L. i, 444, defnyddir fel yma am y radd isaf o urddol, "kymryt o *yscolheic* (ii, 857, *clericus*) wreic o rod kenedyl a chaffel mab ohonei, ac odynd *kymryt* or *yscolheic* *vrdeu offeiradaeth* (*presbiteratum ordinem*)". Gan fod ysgolhaig y testun wedi bod yn Lloegr yn *canu* (ll. 24), ymddengys mai un o'r *scholares* (neu *clerici*) *vagantes* oedd, sef ysgolhaig crwydrad. Ar y rheini, gw. D.D.G. xlviii—lxvi. Am stori debyg, cf. Stokes, *Life of St. Moling*, 28.

61 22 **pan**: gw. ar 12, 13.

25 **na weleis**, defnydd arbennig o *na* mewn ateb, fel *am na*. Cf. 7, 15, Pa achaws na dywedy? Dywedaf: *na* dywedeis, etc.

26 **diholedic**. Ceir y ffurfiau hyn o'r ferf: *dehol*, A.L. i, 240; C.Ch. 162, godef vy *nehol*; A.L. i, 244, *dyhol*, *dyholyer*, *dyholyo*; B.T. 17, 11, *dihol*, B.B.C. 55, 9, *diholer*. Yr ystyr yw alltudio, gw. G.M.L. 128, cf. Esra, vii, 26, *deol*.

62 2 **wyte**, "wyt ti" mewn hŷn orgraff (yn 63, 10, *wyt ty*); cf. B.B.C. 18, ny ellynt *ve*; 20, pa roteiste; 21, A ueleiste; 22, dinwassute, ni phercheiste, dodute, genhide (= *gennyt ti*), douthume; 23, *irofe* (=erof *fi*), deuthoste; 36, arduireaue; 39, molawe (=molaf *fi*); 50, ar *willave* (ar fy llaw i).

6 **ymodi**, trin; cf. Y.C.M. 76, nys atebawd Charlys namyn *ymodi* blew y uaryf; M.A. 543b, en *ymodi* gwelieu Kei, "trin ei glwyfau". Yn gyffredinol, golyga symud; cf. I.D. 28; D. *ymmod* "mouere, loco mouere, *diymmod immobilis*"; cf. hefyd "Tri dyn a *ymyt* bwyd y brenin, cog, a thrullyat, a swyddwr llys"; V.V.B. 161, *immoletin*, gl. ar *iactata*, Juv; 162, *immottihiou*, gl. ar

Td. ll.

- gesticulationes*, M.C.; S.D.R. 89, y llaw a'e *ymotto*; 32, prementis. Yn ll. 14, "teimlaw", felly R.M. yma hefyd.
- 62 6 **gellwg**: gw. ar 1, 8. Profir *ellwng* yn ll. 12, *nac ellynghaf*, cf. ll. 25.
- 14 **ny'm toreï**. Cysefin y ferf yw *d*; cf. *diddawr*, ond caledir i *t* weithiau; cf. W.M. 219, nym *tawr* i vynet; 86b nym *toreï* kynny bydwn; gw. W.G. 373-4. O *dawr* y cafwyd *darbod*, *diddarbod*; cf. S G 33, 320, 371; R.B.B. 225; C.Ch. 165; *dydorbot* yn Llan. 1, 173, 177, 181.
- 16 **tulath**, nid *tylath*, canys cynnwys *tu* "ochr", nid *ty*. Yn wreiddiol "side beam"; yn llacach, "trawst"; cf. D. *tylath*, trabs, tignus; T.W. ar *trabs*; D.W.S. *tuylath*, "a rafter"; cf. D. *nembren*, "vertex, laquear". (Cymysgwyd â *dyleith* gan Lewis, G.M.L. 287).
- 63 6 **rwttter**: E.-I.I. "outrider"; gw. Rhys., *Arth. Leg.* 289, lle cymherir S. *rutter*, "trooper", ac y condemnir G. am gyfieithu fel "retinue", ond cf. S. *rout*, mintai, "company, suite, train"; Y.C.M. 111, *rwttterwyr*, "milwyr"; L.G. Cothi, Gwyneddon 3, 137, Ymscrwtian ym ymysc *rowter*. Ni fedr y gair yn yr enghraifft olaf olygu un milwr, gw. hefyd L. i, 169; Parry-Williams, E.E.W. 111; N.E.D. ar *router*, *rutter* (unigol yw'r rhain, fodd bynnag).
- 7 **swmer**, o'r S. summer, sumpter, cf. ll. 23; gw. E.E.W. 112, 161 Golyga "beam, pack"; clywir o hyd *gwag swmera* ar lafar. Yn Pen. 14, 65, ceir "eu hessyn ac eu hychen ac eu *sumereu*"; ond td. 117, *þynueirch*; gw. A.L. i, 262, 570, am *swmer-farch*, "sumpter-horse"; *Guy of Warwick*, 4213, fyfte *somers* and fyfte *stedys*. Rhydd Godefroy, mewn Hen Ffr., *somier*, "bagage, equipage"; *somiere*, "bête de somme", cf. Y.C.M. 87. dodï eu *swmereu* ar eu meirch; C.Ch. 145, ni a dygwn dec *swmer* yn llawn o eur gyt a ni; cf. 151, y meirch a oed arnunt eu *þynneu* o eur ac aryant; 173, trwssaw eu *swmereu*.

Td. ll.

- 63 14 **can doethwyf**: gw. ar 5, 28 ; 6, 8.
ar diuetha, pan oeddid ar fin crogi.
- 21 **cans collyggy**, cf. ll. 18. Yma caledir *g yn c* ar ôl *s*.
 Cf. Nos *da* am Nos *dda*.
- 28 **guaret y ar**: gw. ar 3, 3.
lledrith, ffurf ddiweddarach ar *lledfrith* (cf. Gw. *bricht*, spell, charm, incantation, C.I.L. 260) ; gw. C.L.I.II.² 28. *
- 64 4 **a phy ny bei**: cf. ll. 18, *A phy na bei* (R.M. 4, 18, *a pha ny bei*). Ar *pany*, *poni* (cf. 63, 12, *ponyt*), gw. W.G. 424-5. Yn y testun daw *py o pei*, *pe* ; cf. 11, 4 ; 13, 1 ; isod, ll. 28, *bei na* ; 69, 22, *by na bei*.
cyffuryf (R.M. *ffuryf*), modd ; wedyn *cyffur*, fel "moddion" am ffigig, Ll.O. 71.
- 5 **herwa**, lladrata ; heddiw, am gathod, "crwydro yn y nos". *Herwr* gynt oedd ysbeiliwr, "outlaw" ; *herwlong* yn D.G. vi, 6, C.Ch. 150, "pirate ship" ? Mynd *ar herw* oedd mynd i'r coed, a chware'r ysbeiliwr, cf. Gw. *serb*, *serbad*, "lladrad", A.C.L. ii, 400, rhif 1154 ; 458 ; Windisch, W. 769. *
- Llwyd uab Kil Coet**: cf. R.M. 110, *llwydeu mab kelcoet* (cf. *llwydeu* m. nwython, 109) ; D.G. cv, 46, ail rhyfel, llwyd, fab *cel* coed. Ceir *Cilcoed* fel enw tyddyn ger Clynog, Arfon ; cf. yn arbennig *Cil Coed* ym mhlwyf Ludchurch, Sir Benfro, Arch. Camb. vii, lxxxiii, td. 331 ; Owen's *Pemb.* I, 906 n. 2.
 Yn ôl R.M. 136, yr oedd tŷ "llwydeu mab kel coet ym porth kerdin yn dyuet".
- 9 **pan y gwnaeth**. Defnydd eithriadol o *pan y*. Ni all *pan* olygu "when", gydag *y* yn wrthrych *gwnaeth*, gan na ddialwyd y pryd hwnnw. Tebycach yw i'r defnydd o *pan* yn *pan yw*, "that it is". Deallaf gan hynny, fel *sef y gwnaeth* ; a chyfieithwn "which Pwyll did (play)" ; cf. B.T. 12, 9, ny wydyem *pan* oed ti a grogem.

small farm,
homestead

Td. ll.

foolishness, folly,
madness.

64 10 **aghyngor**, ynfydrwydd; cf. W.M. 220a, Yn y *aghyghor* y mae; B. ii, 30, A phan vo hen ynteu af [ef] a vyd edivar ganthaw y *angkyngor*; gw. ar 56, 2.

12 **y erchi**. Nid oes y yn R.M. a phrin bod ei angen.

18 **canys bu**: gw. ar 5, 28.

28 **medrut**: gw. ar 9, 9, am y ffurf; 80, 16, 17, 20, am y meddwl; B. i, 30-1; v, 22, ll. 31. Yma y mae blas *medrus* arno, gwybod sut i wneud peth yn iawn: "That was a *clever stroke*. If you had not thought of it, etc". Cf. W.M. 62a, llyna *uedru yn drwc*, am y corr na wyddai sut i ymddwyn yn iawn (yn ôl Kei); 196a (=behave) Doeth a twyllawc y *medreist*; 75b.

65 2 **nodi**: cf. W.M. 230a, b, 240a, enwi'r peth a geisir. **rytha**, rhydd-ha, yr *h* wedi troi *dd* yn *th* (R.M. *rydhaa*, ll. 8, *rydha*); cf. *diwethaf*.

n. p. 212

— 11 **gwreigyang**, gwraig ieuanc; gw. B. i, 15-18.

14 **edrych**: gw. ar 59, 12. Am bresennol byw arall cf. ll. 10, y *gollwng*, cf. R.M. *gellyngawd*.

16 **alauoed**, gyroedd o wartheg, gw. ar 60, 5; cf. 51, 26, *preideu ac anreitheu*.

* | 18 **yrđ**, llu. *ordd*, bellach *gorđđ*, cf. Gw. *ord*.

19 **mynweir**, coler, torch am wddf; cf. D.D.G. 124.

20 **essyn**, llu. *asen*; cf. y modd y defnyddir *ieir*, *buchod* (Llyd. *kesek*, *ceffylau*) llu. yr enw benywaidd, am y llu. yn gyffredinol.

wedy bydyn: gw. ar 15, 7.

21 **carchar**: gw. ar 17, 4.

23 **Mabinogi Mynweir a Mynord**: ymgais i esbonio'r hen enw ar y rhan hon o'r chwedl sydd yma. Golygai *mwn* (cf. *mynwgl*) wddf neu goler, cf. Gw. *muin*; W.M. 65, b, am y gwayw, a'r gwaed yn rhedeg "or *mwn* hyt y llawr", h.y. o'r soced lle'r asiai'r pen yn y paladr (cf. 83b, o *vlaen* y gwayw dafyn o waet); A.L. i, 440, gwthir pen gwayw

Td. ll.

mewn twyn nes cuddio'r *mwn*; gw. ar 44, 12; D.W.S. *mwn*, "lle menybr, The socket"; felly Y.C.M. 46. Ond yn Y.C.M. 92, "gossott arnaw a gwayw yn y *uwn*", y meddwl yw'r arfau am y gwddf, "gorget". Felly deallwyd *myn-wair* yn yr enw fel torch neu goler *wair*, coler am wddf asen adeg cynhaeaf *gwair*; a *myn-ordd*, (g)ordd am wddf dyn. Gwelwyd yma hefyd ymgais i esbonio'r enw *Mynwear*, ar dref ym Mhenfro; *Manordean*, pentref ger Cilgerran; *Ludchurch*, y plwyf lle mae *Cilcoed* (=Eglwys *Lwyd*), E.-Ll. 97 n. Hefyd cf. B.T. 54, 18, 19, bu kyweir karchar *gweir* ygkaer sidi. trwy ebostol pwyll a *phryderi*; R.M. 306, enwir *gweir uab gweiryoed* fel un o'r tri goruchel garcharawr. Dengys hyn fod modd dwyn *Gweir* arall i mewn. Y mae *mynwair* "coler" yn ddigon cyffredin, ond cf. hefyd B.T. 14, 2, lle ceir *keith ymynuer*, yn odli a *ved*, *llawer*, ac eto mewn cyswllt â *ceith*: 61, 16, Kat *ymynuer*. Onid yr un gair (er Loth, R.C. xxxviii, 299) sydd yn B.B.C. 88, hael *ynver* heul in dit? Ceir hefyd *mynwaur* (yn odli ag *aur*) D.G. cxlvii, 23; lxviii, 19; *mynwor* (odli â *môr*), xxxv, 18, er bod y llsgr. yn amrywio peth; B.T. 37, 12. maen *mynuor*.

Petrus, felly, yw'r ffurf wreiddiol yma hefyd. Ond i'r cyfarwyddiaid, nid oedd anhawster. Camdriniwyd Gwawl trwy y~~md~~dwyn ato fel broch yng nghod: y dial ↳ behave, act yw gwneud post drws o fab ei elyn, a gwanas coleri asynnod o wraig ei elyn, a hynny am ddwy (?) flynedd. Ac os digwyddai i rywun daro Pryderi â'r ordd yn lle taro'r drws, atebai hynny i'r modd y rhoed dyrnodiau â throed ac â throsol i'r llall, td. 17.

- 67 1 **Math uab Mathonwy.** Ar yr enw, gw. L. i. 174. Gwrthyd Loth yn rhesymol ddigon gydio *Mathonwy* wrth yr enw Gwyddelig *Mathgannai* (Mahony), gan gymharu ffurfiau Cymreig fel *Daronwy*. Gellid cydio'r

troisol m. lever; crow-bar, bar; stiff

Td. ll.

enw *Math* wrth *Matto(n)*, A.C.S. ii, 478, gw. hefyd C.B.S. 92, *Matton*, enw tyst.

Yn ôl y Trioedd, R.M. 302. Teir prif hut ynys brydein, hut mat uab mathonwy, a dysgawd y wydyon uab don. A hut uthur penndragon, a dysgawd y uenw uab teirgwaed. Ar dryded hut rudlwm gorr a dysgawd y goll uab collurewy y nei, cf. D.G. cv (yn ôl P. 49), *Menw, Eiddilic Corr*, Wyddel call / Trydydd oedd ger muroedd Môn / *Math*, rhoi eurfath, rhi Arfon. Pen. 179 (R.i. 996), Tri lledrvthiawc farchoc, menw . . . a thrystan ac *eddili* kor.

Gwyned, yn yr ystyr hynaf, oedd Môn, Arfon, Arllechwedd, Nant Conwy, Llŷn, Eifionydd, Ardudwy (Lloyd, H.W. 229-39).

- 67 7 **y deudroet ymlyc croth morwyn.** Rhaid oedd iddo gael morwyn yn *droedawg*, "foot-holder". Ar swydd hwnnw gw. A.L. i, 62, "Ef a dely *daly traet* e brenyn *en y arfet* or pan decreuho eyste eg keuedac eny hel y kesku, ac a dely kossy e brenyn, ac egheyt a hyny o espeyt ef a dely guylyau e brenyn rac pob guall". Etyb *plyc croth* y testun i *arffed* yn y Gyfraith, sef "lap", fel na raid dilyn cyf. E.-Ll. nac un M. Am *croth*, "belly" (nid *womb*), cf. Pen. 14, 11, rwymaw e *groth* e gyuartalu e uwyta; 41, *croth e mab*; Y.C.M. 110, 4. A'r arfer, cf. R.C. xxii, 206, milwr yn cysgu, a chossa *i n-ucht* ind-ala fir 7 a chend *i n-ucht* araile, "with his feet in the lap of one man, and his head in the lap of another" (*ucht*, breast, bosom, lap, W. 863).
- 8 **Goewin:** cf. *Goewyn* 72, 2; 74, 6. Yn R.P. 21, 2, ceir "gwyluein hanes *goewin*", ond uwchben *oe* rhoddwyd *y*; felly *goyewin*; cf. 10b 43, *goein* (odli â *vrenhin*, *dewin*), M. 187; B.T. 52, 23, A geisso keluydyt bit *oiewin* y vryt; M.A. 242b, Duw *Iewin*; *cyfiaw*; M.A. 163 a 35; *cyfiewin*, 146 b 31; 240 b, 16; R.P. 133 b, 15; B.A. 26, 1.

Td. ll.

67 8 **Dol Pebin:** erys yr enw ar ffarm yn Nyffryn Nantlle (Dol *Bebi* yw'r sain bellach); cf. Holder, A.C.S. ii, 928, *Papinius*.

10 **Kaer Dathyl yn Aruon.** Nid oes modd i'r hen syniad fod yn gywir, mai Pen y Gaer ger Talycafn, Dyffryn Conwy, yw'r gaer hon; cf. Rhys, H.L. 225; L.B.S. iv, 212, n; L. i, 175 (Ile cyfeirir at G. *Cambro Briton*, ii, 3), gan nad yw honno yn Arfon o gwbl. Cyrhaeddai Arfon o ymyl Bangor i'r Eifl, ac yn rhywle yn yr ardal honno yr oedd yn ddiau, ond ple, sydd anhysbys. Daw Gwydion, *td.* 71, a'r moch i Fochtref yn Rhos; yna croesi Afon Conwy i *Arllechwoedd*, a gwneud creu iddynt yng *Nghreuwryon* (ger Tregarth, i'r bryniau o Fangor); wedyn cyrchir i Gaer Dathyl. Gofyn Math ymhle'r oedd y moch, ac atebir mai "yn y *cantref arall issot*", h.y. yn *Arllechwedd*, nid yn Arfon. Yna cerddodd Gwydion i Bennardd, ac wedyn y nos honno "ymhwelwys" i Gaer Dathyl. Awgryma hyn fod y Gaer rhwng Tregarth a Phennarth, Clynnog. Yr amddiffynfa fawr gyntaf ar y llinell hon yw Pendinas, Llanddeiniolen, ond *dinas* sydd yno, nid *caer*. Rhwng Llanddeiniolen a Phennarth ceir amryw gaerau, ond ni wn am ddim i brofi prun ydoedd (os yr un). Y tuhwnt i Bennarth, ar ben yr Eifl, ar y pigyn pellaf o'r môr, saif Caer fawr, sef Tre'r *Ceuri* neu *Ceivi*. Clywais *ceuri* yn Arfon fel lluosog *cawr* (cf. D.B. 79, 132), a buasai'n enw addas ar arwyr y Mabinogion. Hon oedd fy newis i ar hyd y blynyddoedd, ond ofnaf nad yw Tre'r Ceuri yn ddigon canolog i bwrrpas y Gainc hon. Gwnâi Caernarfon y tro yn burion, ond anodd dyfod tros ei hen enw, Caer *Saint*. (Tuedda Gruffydd hefyd at Dre'r Ceiri, neu yn nifyg hynny, *Bryn Hengaer*, rhwng Penygroes a Llanllyfni, gw. M. 344-5).

Am ffurf yr enw: treigliad yw *Dathyl* o *Tathyl* (gw.

Td. ll.

71, 18) ar ôl enw benywaidd. Gall *Tathyl* fod yn unsillaf (gydag *y* anorganig) yn ôl orgraff W.M.; eto cf. R.M. 107, kaer *tathal*, yn ddwy sillaf. Ategir gan R.M. 106, A *thathal* twyll goleu; M.A. 151b, Am ardal Caer Dathal doethant; Bell, *Vita S. Tathei*, I, Rex quidam hibernie . . . nomine *tathalius* (yn ôl pob tebyg ffurf ar *Tuathal*, yr enw Gwyddelig a etyb i *Tudwal*, medd L.B.S. iv, 212). Gan mai'r *Lagin* o *Lein*-ster a roes enw i *Leyn*, gall *Tathal* berthyn i'r un cyfnod, pan geid Gwyddyl yng Ngwynedd; gw. *Cy.* viii, 83, M. *thathal*. Ond dylid cofio am *Taital*, *Tatal* mewn Hen Lydaweg; gw. Loth, Ch.B. 166 n, 6; hefyd enwau fel *Tattus*, *Tatto*, *Tattaris*, yn Holder, ii. A.C.S. 1753-4.

11 y **wastatrwyd**, ei breswylfod. Yno y byddai yn wastad; cf. ll. 15.

cylchu: gw. ar 25, 21.

12 **Giluathwy**. *G* yw'r llythyren gyntaf ynddo, ond yn 72, 1, lle tybir *C*. Amrywia *-uath-* (yma, 69, 3; 72, 1, 2; 75, 1); *-uaeth-* (ll. 16; 74, 1, 12; 76, 21) yn yr ail sillaf; ond *-uaeth-* sydd yn yr hen englyn, td. 76 (ac yn R.M. er bod ôl newid yn 58, 12; 66, 5; gw. td. 312), a gellid cyfrif am *-uath-* fel cydweddiad â *Math*; R. i, 498, *Gelvaethwy*; 816, *Glyvaethwy*. Gwêl Rhys a Gruffydd yn y sillaf gyntaf *Gil* berthynas i'r Gw. *gilla*, "gwas", ond ple mae'r *ll*? Haws fuasai gennyf ei gydio wrth *gylf*, a deall *i* fel hen orgraff am *y*.

uab Don o. Ymddengys fel petai W.M. yn methu a darllen ei gopi yma. Fel hyn y rhydd y ddwy linell (cf. R.M. *giluaethwy uab don*. ac eueyd *uab don y nyeint*):

namyn *giluathwy uab don o*

a euyd *uab don o nyeint uei*

Gellid deall *don o* fel *Dono*, hen ffurf ar *Danu*? Cf. *Pabo* (o *Pab*), llysenw Tudwal Sant (L.B.S. iv, 272, cf. 38).

abode, dwelling -
place, residence

hill, beak

Td. ll.

Ond yn yr ail linell, disgwyliid y rhagenw *e* neu *y* o flaen *nyeint*, a gall *o* yno fod am *e*, oherwydd tebygrwydd *o* ac *e* mewn ambell lsg. Sut bynnag, ni fedrir derbyn *a euyd*. Rhoes R.M. ac *eueyd*, atgof amlwg o *Eueyd* y gainc gyntaf, gw. ar 12, 23, ac yn anaddas yma. Rhaid fodd bynnag, gael *ac* o flaen *euyd*, neu ynteu ddarllen *a Guyd'*, byrfodd am *guydyon*, cf. W.M. 283, 284, *ger'* am *Gereint*; 285, ar *Er'*, ar *Ereint*; 284 *arth*^z am arthur 295b, *arth*^u; *ped*^u (=peredur), etc. Tueddaf at yr ail, canys o hyn allan diflanna *euyd* o'r hanes, a chymer *Guydyon* ei le trwodd, o ll. 20 ymlaen. Yr hyn a allasai *confusion* beri'r dryswch i W.M. oedd bod gŵr ag enw tebyg i *euyd* yn hysbys iddo eisoes mewn cysylltiad â Math, cf. B.T. 68, 14, Math ac *eu/uyd*. Hutwyt geluyd ryd eluinor. Ymyw gwytyon ac amaethon at oed kyghor: 1, 35, neu bum gan wyr keluydon, gan uath hen gan gouannon / gan *iewyd* gan elestron. Ond petasai hwnnw i mewn yma, anodd deall y dull swta y dygir Gwydion i mewn *abrupt, curt* yn ll. 20, na pham y disodlwyd ef ganddo mor llwyr.

67 13 *nyeint*, ll. *nai*; gw. W.G. 209 ar y ffurfiad.

meibon y chwaer. Yn ôl Rhys, H.L. 90, gan y gelwir Aranrot ferch *Don* yn ferch *Beli*, rhaid mai enw ei mam oedd *Dôn*, a honno oedd chwaer Math. Ar *Don*, gw. H.L. 89; Duwies Geltig ydoedd; gelwid hi *Danu*, *Donu* (cyfl. enw. *Danann*, *Donann* (cyfl. medd.), y dduwies *dea* (y cyfl. medd. oedd *dé*, *déi*, *déa*). Gelwir ei hil ddwyfol yn *Tuatha Dé Danann*, "the Tribes of (the) Goddess Danu"; felly Rhys. Yn ôl I.M.C. 81, "folk of the god whose mother is called Dana". *

[**a aei.**] Rhois hyn i mewn i gael cystrawen i *y gylchu*. Ni allai Math *gylchu*'r wlad (cf. ll. 6), ond âi ei neiaint ar *gylch* drostaw. Ni fedraf ddilyn Gruffydd, *Math*. 2 (=M. isod), a derbyn y testun fel y saif.

treulio to wear (away), consume, spend, expend; digest

Td. ll.

- 67 18 **atueilaw**, bellach am adeiladau yn bennaf, "fall into ruins", ond gynt yn lletach; am olau dydd, 84, 24; am bobl, cf. M.A. 182a Yn chuetyl *atveilyau* yt *atveilya* paup / O'r pobloed ny bara; B.B.C. 41, Crist, nid *adweil* y teilygdaud; R.P. 55 a 10; am gyrr yfed, R.P. 54b, 9; 63b, 40; am lys; W.M. 196b; dillad, 197a. Golyga wywo, nychu, treulio, darfod, "decay". *to languish, pine*
- 68 4 **kynedyf**: gw. ar 34, 20, hynodrwydd.
- 5 **ba hustyng bynnac**: gw. R.M. 94, am y Coranneit, "A chymeint oed eu gwybot ac nat oed ymadrawd dros wyneb yr ynys yr isset y dywettit or kyuarffei y gwynt ac ef nys gwypynt".
- 6 **o ry kyuarfo** (cf. *or kyuarffei* yn y dyfyniad ar ll. 5). Cam rannwyd yn *or y* yn W.M. ac R.M.
- x | 10 **dromhaf**. Anaml y ffurfir graddau cymhariaeth o'r ansoddair benywaidd; cf. 4, 21, *dissymlaf gwreic*, ond R.M. *disemylaf*.
- 12 **dygyuori**: gw. ar 1, 9; M. "mustering".
- 14 **mi a'y paraf**, sef Goewin, "I will get her for thee"; felly E.-Ll., ct. G. ac M.
- 17 **pryuet**, anifeiliaid; cf. S.G. 319, gelwir "anuicil . . . mwy ychydic noc ysgyuarnawc" yn bryf; A.L. i, 448, Tri phryf . . . llostdydan a beleu a charlwg; gw. C.L.Ll. *hane* xvi—xviii. *mantle* *brine* *stout*
- 18 **pwy eu henw?** Beth yw eu henw? Gw. W.G. 289.
- 20 **guell eu kic**: gw. Buckle, *Hist. of Civil.* I, 288, "In the sacred books of the Scandinavians, pork is represented as the principal food even in heaven"; cf. O'Curry, M.C. i. 369, am hoffter y Gwyddyl ohono.
- * | 21 **symudaw**, newid, cf. S.G. 289, 292; R.B.B. 179, B.T. 75, 6, *symudant* eu hareith (=newidiant eu hiaith); Pen. 3, 33; C.Ch. 61; Pen. 7, 92, yna *ssymvdaw* gwisc a oruc; Y.C.M. 42, ny *symudassant* hwy y *enw* ef namyn y alw Otuel ual kynt.

gwybot to write, fade

I will bring it about for thee?

heaven (cf. Gc los leathan)

Td. II.

68 22 **Pwy biewynt wy:** yn ôl W.G. 357-8, *piewynt* (*pieu-ynt*) yw'r pres. 3. llu. o *piaw*, a chyfieithir "who [is it] to whom they belong?" Er mai pres. 3ydd. un. o *bod* yw *eu* (=yw), edrychwyd arno fel bôn berf; a chan fod *eu* yn affeithiad o *aw* (cf. *tereü*, *trawaf*; (g)*edeu*, (g)*adawaf*) a bod berfau yn *-aw* yn ffurfio'r amherff. 3. llu. yn *-ewynt* (*tarewynt*, *gadewynt*) ar ddelw hynny, mi dybiaf, gellid ffurfio *piewynt*, fel amherff. 3. llu. Neu gall *-wynt* fod yn derfyniad y pres. dib. 3. llu., W.G. 329; cf. A.L. i, 116, ac e sef nasset e dely e gwyr henny vot ydaw val e *dylewynt* kymryt galanas y gyt ac ef; 152, a oes breint yr rei hinny [mal e *delywynt* vot en destyon], h.y. fel y *dylliont* fod yn dystion. Neu gellid darllen yma, *pwý biewynt wy* (cf. 70b, *wynte*; W.M. 247b, *hwyntwy*; Y.C.M. 14, *kanys ti biy wynt*). Ond gan fod cymaint o ffurfiau'r ferf gymysglyd hon yn cynnwys rhannau o'r ferf *bod*, a rhai ohonynt yn bur afreolaidd (megis W.M. 61a, *biewoed*; cf. 84b, *biewoed*), gwell deall *biewynt* yn gyffelyb fel *-ynt*, pres. 3. llu. *bod*, gyda'r bôn dychmygol *biew*, neu *biaw*.

23 **Annwn:** gw. ar 2, 25; cf. hefyd W.M.L. 81, Bonhed gwenyn o *paradwys* pan yw.

Ac etwa, glos neu esboniad y cyfarwydd. Tipyn yn gymysglyd yw'r darn, a gwêl M. los arall yn ll. 20-21. Ail adroddir *bychein* yno; ac nid yw *weithon* yn addas yn ll. 21, fel rhan o'r ymddiddan. Eto cf. y modd diniwed y dywed Pryderi pwy yw ei wraig, td. 49, 22; a'r modd y dyfynnir y Trioedd yn anamserol. Yn ôl y Trioedd, R.M. 307, yr oedd Pryderi yn wrfeichiad, "wrth uoch penndaran dyuet y datmaeth. Ac ys ef moch oedynt y seithlydyn a duc pwyll penn annwnn. Ac ae rodes y pendaran dyuet . . . ac ys ef y lle y katwei yglynn cuch yn emlyn. Ac ys ef achaws y gelwit hwnnw yn wrueichat, kany allei neb na thwyll na threis arnaw".

harmless,
innocent

x

pl. of llawdu
young of
animals etc.

Td. ll.

Eto, medd B.T. 36, "Gwydyon ap don . . . A dyduc moch o deheu", a thwyllwyd y gwrfeachiad.

68 24 **hanner hob**, "fitch"; yn Arfon byrhawyd i *nerob*;
 X | yn Ninbych clywais *norob*. Sylwer fod *hwch* gynt yn
 golygu mochyn, nid "sow" yn unig fel heddiw.

28 **ef a ry eill**: cf. Strachan, I.E.W. 60, "With the present indicative, *ry* may express possibility", lle cyfeirir at B.B.C. 89, 2, *ryseiw* gur ar vn conin; ac at y testun; gw. ymhellach nodiadau llawn Loth yn R.C. xxix, 55.

necau: cf. W.M. 310b, *naccav*. Daw o *nag-ha-u*, tair sillaf, â'r acen ar yr ail. Dyna barodd yr ansicrwydd am y llafariad yn y gyntaf, cf. 70, 1, *nacaha*.

69 1 **trawsewyd**: cf. 70, 5, pa *drawsewyd* y keir wynteu; G. "journey"; L. "imagination", 70 "artifice"; E.-Ll. "powers of bargaining"; M. "bargaining". Deallaf ef yma ac yn 70, 5, fel "cynllun, plan", cf. A.L. i, 690, Naw Affeith Lledrat, Kyntaf yw bot yn *trawsgwyddwr*=416, Kyntaf yw *amcanu* vrth getymdeith yr hynn a geisser yn lletrat=238, *mynegy* y ll.=ii, 83S, Primum est, machinari furtum et socium querere. Y *trawsgwyddwr*, felly, yw'r un a gynllunio'r drwg i gychwyn, ac a'i mynego i gyfaill. Yr ail weithred sy'n cydio wrth *trosglwyddo* yn iaith heddiw. Am yr *-l* yn hwnnw, cf. *rhisg*, *rhisgl*; *diosg*, *diosgl*; gw. W.M. 197b ar *trawsglwyd* goreu a ellych o uwyd a llynn, par dyuot yma ac ef . . . Ny elleis i, heb hi, *drawschwyd* well no hwnn, h.y. dyma'r *darpar* gorau o twyd a llyn a allai Enid ei bwrcasu, a'i ddwyn yno (cf. *darpar*, 15, 21; ct. 32, 21, yn un, darpariaeth at wledd, yn y llall "amcan, bwriad", yr hyn yr oedd yn paratoi i'w wneud); R.P. 24b, 21, M.A. 229a, Credadun yn ef yn eithaf *drausgluyd* / Crist Arglhyd culwyd; R.P. 106, 31, Arglwyd nef tref *trawsglwyd*; M.A. 248a, trosglot *trawsglwyd* vwyhaf / Dothwyf eithyr Gwyned; D. *trawsgwydd*, *trosglwydd*, "transportatio"; T.W. *transportatio*, "trawsglwydd,

bwrcasu purchase,
buy

Td. ll.

dygiad trosodd", *traductio*, "trowsglwydd"; Nehemiah ii, 7, fel y *trosglwyddont* fi nes fy nyfod i Judah (V. ut *traducant* me). Sylwer mai alltud hefyd a ganodd M.A. 248a. Anodd dosbarthu'r enghreifftiau, na deall y tarddiad, ond cf. R.P. 43 a 12, *tramglwyd* am *tramgwydd*.

69 4 **Rudlan Teui:** gw. Lloyd, H.W. i, 260, "Pentre Rhuddlan, near High Mead, indicates the site"; ii, 597, ger Llandysul yn Ne Ceredigion.

9 **gwreinc:** gw. B. i, 15-18, gwŷr ieuainc. cf. p. 82

11 **Penkerd,** prif fardd y llys; gw. G.M.L. 242.

18 **Na well,** heddiw *nid gwell*, ond cf. W.M. 229b, *Na wir*, nid gwir, "that is not true"; 213, *Ae drwc gennyt ti . . . Na drwc*. Negyddir ansoddair bellach â *nid, nad*; eto cedwir *ni dda, ni wiw, ni waeth* mewn brawddegau cyffredin.

R.M.? 19 **tauawt lawn da** (R.M. *t. llawnda*). Prin y gellir derbyn darll. W.M. fel prawf bod *t* yn *wrywaidd*; haws credu bod *-t l-* wedi twyllo ei glust, fel *ll*. Ar y defnydd o *llawn* i gryfhau, cf. Ch.O. 16, *oe lawnllef*, a'r Ll. *plenus* am y llais "loud". }

20 **ymadolwyn,** berf enw *ymadolygaf*; gw. B. ii, 125.

22 **by na bei** (R.M. *pa ny bei*): gw. ar 64, 4.

70 1 **nacaha** (R.M. *nacaa*); gw. W.G. 321 ar *-ha*. Yma dyblir yr *a* i ddangos hyd, gan fod yr acen yn dilyn yr *c* (nid *naca* fel heddiw, ond *nacā*, o *nag-ha-a*); cf. Ll.A. 170, *gnottaa* (ct. *bwyta*), B.T. 40, *mwynha, parha* (ct. *para*, 71, 1).

7 **celuydodeu,** llu. celfyddyd; W.G. 213.

8 **dechreuawt,** *t* am *dd*.

hudwys deudec emys: meirch, cf. B.T. 36, Gwydyon ap don . . . A dyduc moch o deheu . . . A rithwys *gorwydawl* yar plagawt lys. ac enwerys kyfrweu.

18 **cyfnewit:** gw. E.-Ll. 104 n, "The distinction between sale and 'exchange' was not understood clearly before

Td. ll.

the tenth century, a natural enough phenomenon when transactions were by barter and not for cash. The Welsh Laws use the same word 'cyfnewid' for both transactions"; cf. R.B.B. 40, amryvael *gyfnewityeu* [commercia] or gwladod tramor; 121; 330, y llogeu a *newidyeu* yndunt; 283, llong . . . a *chyfnewit* yndi; 146, = "coinage", Ef a holltir furyf y *gyfnewit*. Haner crwn a vyd; A.L. ii, 62, ae o rod ae venffyc ae o *gyfnewit*.

toadstool 70 23

madaleh, caws llyffaint yn Arfon; gw. nodyn Gruffydd, *Y Beirniad* v, 61-2, lle cf. Gw. *bolg*, *bélcheo*, C.I.L. 194 *bolca belcheo*, puff balls; 237, *bolgan* (belca), a puffball. Ceir *-alch*, ac *-arch* yn y gair; cf. R.P. 122 a 36, penn mydwl pwenn *madarch*; *Cefn Coch MSS.* 112; R.P. 141b, gwnai helmeu yn *vedeilch*; D.W.S. *madarch*, "Tode stooles"; D., "fungus"; T.W. *fungus*, bwyd ellvllon, caws y llyffaint, *madarch*. Awgrymwyd tarianau crwn i Wydion gan ffurf y *madarch*.

*

1 **pryssur**: yng Nghwm Tawe o *brysur* yw "o ddifri"; cf. B.B.C. 71, 9, am weddiö "in *prissur* pop pilgeint" (=constantly?); cf. R.P. 22 b 34; 31 b 31, *bryssur donyeu*; 36 a 27, pob nenn ym presenn yn *ampryssur*; 38 a 31; 41 a 24. Ond D.W.S. "Besy"; D. "sedulus, operosus, festinans", fel yng Ngwynedd heddiw.

2 **or pryt pwy gilyd**, o un dydd i'r llall. Am y defnydd o *pryd*=dydd, cf. R.P. 23a, dyrwest duw bu *deugeinpryt* (=ympryd y deugain *niwrnod* yn yr anialwch); M.M. 42, a pheidaw a bwyd . . . hyt ym penn y naw *pryt*; A.L. i, 328, kany byt maru un lludyn yr y guarchae or *pryd buy kylyt*; M.A. 353a, Ar tradoeth gyfod y *pryd trydydd* (=yr Atgyfodiad ar y trydydd *dydd*); Gw. on *trath co'role*, R.C. xii, 70-1, n; Windisch, W. 844, on *trath sa co alaile*. Ar *pwy gilydd* gw. W.G. 306, 410.

*

3 **Mochtref**: ni wn am yr un yn ucheldir Ceredigion,

toadstool, fungus
(ellvll, -on: ghost,
spectre, elf, folk-⁷¹
friend, demon)

Td. ll.

ond ceir *Nant y Moch* rhyw ddwy filltir i'r gogl. orll. o Ysbyty Cynfyn.

- 71 5 **Elenit.** Cyfeiria L. at syniad G. mai *Maelienydd* a feddylir; cynnig yntau *Mefenydd*, ond nid oes angen newid y testun. *Elenit* yw mynydd-dir Pumlumon; gw. Lloyd, H.W. 513 n. 100; Owen, *Pemb.* i, 203; Leland, 58, Teifi'n codi "in the montaines of *Elennith*"; Ger. Camb. i, 117, *Procedens . . . de Strata Florida*, et per montana de *Elenit* versus Cumhir accelerans, et inde apud *Keri* Angliam intrans; vi, 119, montanis de Moruge magnis et immensis, quae Kambrice dicuntur *Elennith*; 170, *Elennyth*; 138 per *Elennyth* ac *Mailennyth* usque Radenoram; 171, 173, oddiyno y tardd Hafren, Wy, Teifi. Aeth yr Archiagon i gyfeiriad Ceri dros *Elenit* ar hyd yr un ffordd a'r moch. Dengys L.G. Cothi, 184, lle'r odlir *Elenid* ag *osodid*, *anelid*, *veiid*, mai *-id*, nid *-ydd*, yw'r sillaf olaf. Cadarnheir hyn gan M.A. 258b, myn y ret redyawl (Afon Rheidol?) o *elenit* (odli ag eddewit), a chan W.M. ac R.M. yma; gw. ymhellach Rhys, W.P. 45.

Archdeacon
(= ddiagon)

- 6 **Keri**, cwmwd bychan yn ne ddwyrain Sir Drefaldwyn, y gongl eithaf (H.W. 253).

Montgomery

Arwystli, cantref pwysicach (H.W. 249), yn cyrraedd o Bumlumon i Geri. Yn ôl O. Jones, *Cymru*, saif plwyf Mochdref yng nghwmwd Ceri, ger Hafren, ar derfyn Siroedd Trefaldwyn a Maesyfed, dair milltir i'r de orll. o'r Drefnewydd.

Radnor

- 8 **ystyr hwnnw**: amrywia'r tafodieithoedd ar genedl y gair heddiw.

- 9 **Mochnant**: hysbys yw'r enw yn Llanrhaeadr ym *Mochnant*, ar derfyn gogleddol Sir Drefaldwyn, ar ffin Sir Ddinbych. Ceisia E.-Ll. droi'r *moch* yn yr enw yn ansoddair "winding" neu "rapid"; ceir *moch*, "buan, boreol", yn y beirdd, ond ni wn amdano fel "cyflym".

Td. ll.

- 71 10 **Ros**, yr ardal orllewinol i Sir Ddinbych, a cheir Mochdref o hyd ym mhlwyf Llandrillo yn Rhos, ger Bau Colwyn (gw. *Survey of Denbigh*, 306).
- 14 **Arllechwoed** (R.M. *arllechwed*), y cantref o Fangor i Gonwy, gan gynnwys y mynydd-dir (H.W. 235-6). Gelwid ei ddau gwmwd, Uchaf ac Isaf; y cyntaf yw'r arfordir, a'r llall yw dyffryn Conwy o Ddolgarrog i lawr, pob un gyda'i lechwedd o fynydd (cf. R.P. 78, Aber . . . yngkymwt pennaf *arllechwed uchaf* . . . Yn sirydaeth *don* yn sir gaer aruon); Brit. Mus. 3, R. ii, 944, *Arlelechwet*; R.B.B. 407, *Arllechwed*; M.A. 735, y *Llechwedd* Uchav. Am *-woedd*, *-wedd*, cf. yr enwau yn L.L. 402, lle'r amrywia *Guoid-* a *Guid-*; 150, *Eluoid*, ac *Elgued*, ar yr un tudalen; hefyd *Iorwoerth*, *Iorwerth* (*Cy.* viii, 88, etc.; R.M. 144); mynyddoedd, mynyddedd.
- 16 **Creuwryon**. Ceir ffarm a llyn ger Tregarth, uwchlaw Bangor, yn cadw'r enw; ysgrifennir *Cororion*, ac yngenir *Cwrion*, *Clwrion*, ond yn *Rec. Carn.* 12, ceir *Creweryon*. Disgwylid *Creu Wydyon*, ond cf. *gwryon* B.T. 34, 2, kymry yn vn vryt gwrhyt *wryon*; 61, 7, marchawc mwth molut *gwryon*, ll. 8, *don!* Tybed fod *Gwrion* yn amrywiad ar *Gwydion*? Eto yng Nghlynnog ceir *d* yn glir yn yr enw Bryn *Gwdion*, ger Pont Lyfni.
- 22 **hwyret**, "how slow".
- 24 **y cantref arall**, sef *Arllechwedd*.
- 26 **utkyrn**. Dengys hyn mai canu corn y gad oedd y dull o gasglu gwŷr i ryfel.
guiscaw, ymarfogi.
- 27 **Pennard**, *Pennardd*; yn ôl 72, 11, *Maenor Bennard*. Heddiw erys fel enw ffarm, *Pennarth*, rhwng Clynnog a Llanllyfni; ond *Pennardd* sydd gan Wynne, *Hist. of Gwedir*, 1770, td. 143. Cymysgwyd *ardd*, "ucheldir"; *garth*, a *gardd* mewn enwau lleoedd, gw. ar 90, 4; B. iii, 128, ar *Gogerdd*, *Gogarth*, etc. Ond cf. A.L. i, 104,

Td. ll.

Penart; ii, 50, o achaws Maelda hynaf y kauas *Pennard* y breint ae bot yn hynaf kyghelloryaeth; 584, *Pennaf* cynghellawr dref yn Ghymry yw Penardd yn Arfon. Maeldaf bioedd honno. Am Bennardd ym Maesyfed y cant L.G.C. 357, Bryn *Pennardd* mor *hardd* yw hwn; 358, odliŕ â *bardd*; C.C. 189, y *Menarth*, odli â *hardd*! Ceir amryw leoedd o'r enw trwy'r wlad.

- 72 1 **yguely**, yng ngwely. Yn W.M. *yguelei uath*; R.M. *y guelei uath uab Mathonw*. I wneud synnwyr rhaid newid rhywbeth. Meddyliais i gychwyn am newid *uath* i Gwydion; cynnig Gruffydd yw newid y stori, bod Math yn hen ffurf y chwedl yn chwarae rhan Gwydion ynndi yn ei ffurf bresennol, ac felly bod cadw *Math* i mewn yma yn llithriad o eiddo'r golygwyr, a newidiasai Math yn Wydion ymhobman arall ynndi; felly goroesiad yw *Math* yma o'r ffurf gyntefig. Ar bwys y cyfeiriad, td. 74, 14, *i'th wely*, cynigiodd Loth gyfnewidiad symlach, darllen *y guelei* fel *yguely*; yr oedd G. eisoes wedi deall *guelei* fel "gwely". Y peth a barodd i mi wrthod hyn gynt oedd y treigliad ar ôl *gwely*, gair gwrywaidd; gellir cyfarfod hynny trwy dybio i'r copïwr droi *guely* yn *guelei*, ac yna iddo newid *Math* i *Fath* yn ôl ei reol i dreiglo'r goddrych ar ôl yr amherff. 3ydd. un. Felly i gael yr hen destun rhaid newid dau air. Neu ynteu, gan fod 74, 14 yn enwi'r *ystafell* hefyd, gair benywaidd, a ddilynid gan y treigliad meddal, gellid ail-lunio'r hen destun fel *yguely* [*ac yn ystauell*] *uath*, neu yn orgraff Pen. 6 *egwele* [*ac en estauell*] *uath*. Rhais yn y testun y newid lleiaf, a'r symlaf.
- 2 **Goewyn**: cf. 74, 6; gw. ar 68, 8. Rhydd R.M. *goewin* yma, ond *goewyn* yn 74, 6. Diau mai *-in* oedd yn yr hen destun, a gallai hynny olygu *-in* neu *-yn*. Yma meddyliodd y copiwr am *go-ewyn*.
- 8 **ba tu**: E.-Ll. "what side", h.y. pa ochr i'r mynydd-

Td. ll.

oedd ; G. "what district" ; M. "what place" ; cf. W.M. 242a, ny wys *py tu* y mae na pheth yw ae byw ae marw ; R.M. 149. Aeth *pa du* mor ddi-liw a *pa le*.

72 10 **kedernit**: cf. 71, 12 ; W.M. 99, 9, y lle *kadarnhaf* ; ll. 41, y lle *diogelaf*. Weithiau ni olyga fawr fwy na chanol ; cf. W.M. 225b, *yghedernit* y daryan.

11 **Maynawr**. Yng nghyfraith Gwynedd, *maenawl* yw'r ffurf (cf. *Y Faenol*, ger Bangor). Yn ôl A.L. i, 186, yr oedd 4 tyddyn mewn rhandir ; 4 rhandir mewn gafael ; 4 gafael mewn tref ; 4 tref "ym pob maynawl" ; 12 "maynawl a duy drew" ym mhob cwmwd ; felly dau gwmwd = *cant-tref*. Rhy beiriannol yw hyn ; gw. H.W. i, 297, n. 70. Yn ôl Dr. Lloyd, H.W. 313, *Maenor* (*maenol*) "is a word of undoubted native origin, occurring in the marginalia of the Book of St. Chad (L.L. xlvi). It has nothing to do with the English manor, but is connected with "maen" (stone) ; probably it was first applied to the stone-girt residence of the chief, so as to distinguish it from the ordinary tref. Thence were derived the later meanings—(1) group of villein trefs (Lat. A. ii, xiii, 9) ; (2) a division of the cymwd in Gwynedd, scarcely to be distinguished from the ordinary tref (Ven. ii, xvii)". Cyfeirir at *Cy. xi, 32-4, 57-8 ; W. People*, td. 218-9, am drafodaeth lawnach. Gan fod yr uchelwr yn ôl ei arfer yn sicr o ddewis tir bras y dyffryn, daeth i olygu dyffryn ; gw. D.W.S. *dol ne vaynol*, a dale, vale ; cf. R.P. 90 b 18, Y vynet o *vaenawl dyvynder*, y vyny y vynynd oliuer ; M.A. 291a, llechwed *maenawl*.

= rich

12 **Coet Alun**: am yr afon a Chaernarfon. Tuedda rhai i newid yr enw i Goed *Helen*, dan effaith chwedl Elen Luyddawg, ond deil llafar gwlad at yr hen ffurf.

16 **Nant Call** (ar y mapiau, *Nant Cyll!*): heddiw fe'i seinir *Nancall*, yn enwau ffermydd ger Pant Glas, yn y

Td. ll.

Pres. Imper.
of ab, 'Spo'

bwlch mawr (a roes enw i'r mynydd ar ochr orllewinol y bwlch), yr eir drwyddo o Arfon i Eifionydd, ar y ffordd tua'r De. Ceir yr enw yn siartr Llywelyn Fawr i Faenan; gw. *H. Aberconwy*, 165; "*Nankall . . . de Abercall per fluvium Kall . . . per aquam Dwynech (=Dwyuech, Dwyfech, hen ffurf Dwyfach) usque Aberkall*". Rhed y nant hon i lawr i Afon Ddwyfach.

- 72 18 **Dol Penmaen**, ar y ffordd rhwng gorsaf Bryncir a Phorthmadog, heddiw *Dolbenmaen*. Y pellter o Nancall hyd yno yw 4 milltir.

clymu: G. "halted"; M. ac E.-Ll., "rallied"; L., se concentrèrent". Gair disgrifiadol yw am ffoaduriaid yn lle dal i ffoi ar chwâl, yn ymuno yn fyddin drachefn i ail frwydro. Ceir enghraifft dda yn Y.C.M. 23, ll. 24.

scattered

- 20 **Gwrgi Gwastra**. Ceir amryw wŷr o'r enw *Gwrgi*, R.M. 134, 301, 303, L.L. 403a, pump. Ceir yr ansoddair yn B.T. 51, am yr Amasoniaid, "bron loscedigyon gwyled *gwastra*"; R.P. 20 b 38, ym gweithret *gwastra gweilit*.

- 21 **pedwryd**: gw. 35, 26.

- 23 **Y Traeth Mawr**, y traeth llydan a sychwyd pan godwyd clawdd Porthmadog: y tu draw iddo y mae'r Traeth Bychan, ac ar y trum rhyngddynt, Penrhyndeudraeth.

ridge, height

- 23 **ac ual y gyt ac**: ac oherwydd na ellid cadw'r gwŷr traed rhag saethu ei gilydd cyn gynted ag y daethant hyt . . .

- 24 **y Uelen Ryd**, y Felenrhyd, heddiw *Lenthryd* (enw ffarm y tu draw i'r Traeth Bychan, i gyfeiriad Maentwrog) gyda'r un *th* wedi tyfu rhwng *n* ac *r* ag a glywir yn *Penthryn*, *cynthron*; weithiau *Lendryd*, *Lentryd*, fel *Pendryn*, *cyndron*; gw. B. i, 107.

- 25 **y deulu**: gellir darll. "ei deulu" neu "y ddeu-lu". Gwell gennyf yr olaf, gan fod y gennad, yn ôl ll. 27; 73, 1, yn mynd at Fath hefyd; cf. 73, 6. Y genadwri yw fod y ddau lu i adael yr ymladd i Bryderi ei hun a

Td. ll.

Gwydion ei hun. Cytuna Math, os cytsynia Gwydion, ond nid yw am ei gymell i ymladd ar ei ben ei hun, *dros* (cf. ll. 8, *drossof*), h.y. yn lle iddynt hwythau wneud eu rhan. Pwysa'r cenhadau arno mai ornest sydd deg, ac nid brwydr. Tyr Gwydion i mewn i'r drafodaeth yn y fan yma, a dywed nad oedd am i wŷr Gwynedd ymladd *drosto* (yn ei le), ac yntau'n cael cyfle i ymladd ei hun â Phryderi: ei fod yn barod i ornest. Felly y deallaf yr adran: ni raid rhoi dim i mewn ond *heb y Gwydyon* yn ll. 7, a chollir cymal felly yn barhaus; cf. y modd y gadewir *heb yr escob* allan yn W.M. 65, 8; ct. R.M. 58, 12.

- 73 1 **cenhat**, enw unigol benywaidd; yma=*kennadeu*, ll. 4.
- 3 **dros**, yn lle; cf. D.W.S. Iohannes *yn lle* Iochanna, ac Isaac *dros* Iitshack; I.G.E. 8, ll. 67.
ohanam: gw. W.G. 400, am ffurfiau *ohonof*. Deallaf *o-han-af* fel cyfansoddair, *o* a'r ardd. *han-* a welir fel rhagddodiaid yn *han-fod*, cf. *gwa-han*; gw. B. iii, 258.
- 6 **dodi y gorf**, h.y. "ordeal by combat"; cf. *Amlyn ac Amic*, 14, 17; gw. A.L. ii, 622, lle'r enwir y tair poen, "hayarn twymyn, y dwfyr brwt, trydydd oedd *gornest*", fel rhan o gyfraith *Dyfynewal* (Moelmud), ond "Hywel dda ae yneit a weles nat cyfyawn hynny". Arferid y profion hyn pan gyhuddid o *ladrad*, yn un peth, a dyna'n ddiau oedd sail Pryderi yn awr.
- 7 **segur**: gw. ar 5, 16.
- 15 **angerd**: cyfystyron yw nerth, grym, ac angerdd yma; cf. hud a lledrith. Weithiau golyga angerdd yr un peth a *cynneddf* (gw. ar 9, 5). Seinid gynt fel *an-gerdd*; cf. y gynghanedd yn D.G. lvii, 3 ag *ungof* (Pen. 49, *iaungof*); lxxi, 24, *iaungais*. Am yr ystyr o *nerth*, cf. R.B.B. 58, a chymeint y *angerd* ac y tynnei derwen oe gwreid megis gwialen uechan; C.Ch. 87, gwrthwynebu y *angerd* ef=

*hand-to-hand
encounter, duel*

Td. ll.

Y.C.M. 84, pylu ruthur oe *allu* ef; C.Ch. 105; S.G. 276, gan *angerd* (=“force”) y dyrnawt; gw. ymhellach ar 90, 6; D.B. 75.

- 73 16 **Maen Tyuyawc:** gan ei fod *uch y Uelen Ryd*, rhaid ei fod yn nhueddau Maen Twrog. a chytunaf â G., M., ac E.-Ll. yn erbyn Loth, mai *Maen Twrog* a olygir, ond bod copïo wedi ystumio’r enw; gw. Rhys, H.L. 244. *distert*
 Dywedodd Syr John Morris-Jones wrthyf yn lled ddiweddar, ei fod yn credu mai’r un un oedd *Mwrog* a *Twrog*, ond bod y rhagddodiad parch yn wahanol. (*My*, fy; cf. R.C. xi, 374, *Aidanus*, alias *Moedoc*, xxvii, 276, *Maedoc*, Ll. A. 110, aydan sant, 111, *maydawc*; *Ty*, dy, cf. Cai, *Dy-gai*, neu *Ty-gai* yn Llan-dygai; acennir ar *-gai* o hyd; *Tysilio*, *Tyfriog*, *Tyfrydog*, etc.). Yr hen ffurf, felly, fuasai Maen *Ty wr-awc*, neu *Ty-wr-iawc*; cywasgiad diweddarach o *Ty-wr-* yw *Twr-* yn yr enw; cf. *Gwynnawg*, *Ty-wynnawg*, *Twnnog* (Botwnnog). Yn y testun gall *Tyuyawc* fod yn waith Deheuwyr a wyddai am Villa sancti *Tyuauc* L.L. 90; neu’n firwyth camgopïo *Tyurauc* fel *Tyuiauc*; hawdd yw darll. *ia* am *ra* (gw. y llun yn B.T. 54, 12, *tra*). I’r gwrthwyneb ceir *ra* am *ia* yn *Cy*. vii, 133, *tybrani* am *Tybiawn*. Daw’r cyfeiriad at M. *Tyuyawc* yn Pen. 283, a M. *Tyngawc* yn Add. MS. Aber. 436 B. o’r Mabinogion, yn ôl pob tebyg. Ceir pwynt newydd yn B.B.C. 63, En *aber gwenoli* y mae bet pryderi; ond yn anffodus nid yw’r enw wedi aros.

- 18 **argan:** cf. R.P. 3 a 1, gwnawt ef gan *argan* kyngrein. a wledych ar dir prydein. (? *arganneu*, 77 a 24); cf. Pen. 3, B. iv, 114, gwnawt man *ar gran* kyngrein. Ond gan fod y testun yn amrywio yn y rhain, cf. Gw. *arcanaim*, “I sing, recite”, C.I.L. 115. Ceid yr ystyr o *
 “lament”, trwy gydio *truan* ag ef. a phrin bod angen diwygio’r testun i rywbeth fel *ac [al]argan* neu *a g[al]argan*.

Td. ll.

- 74 7 **weithon**, yma "bellach"; cf. 83, 3, lle daw ar y diwedd fel yma. Cymer M. ef gyda *gwreic*.
- 8 **kyrch**: cf. 32, 24; A.L. ii. 839; E.-Ll. 110n. (1) act of assault, (2) the "gang" assaulting.
- 9 **diargel**: ymosodiad "agored", nid *dirgel* fel R.M.
- 10 **Sef a doeth** (R.M. Sef *kyrch* a doeth).
- 21 **guahard bwyt a llyn**: cf. A.L. ii, 720, Pwy bynnac a ddyfynner yn cyfreithyawl, ony ddaw yr orsedd . . . yna y dily yr ynat roddi brawt *bwyt wahardd* arnaw; ar neb ae gwelo y ddwyn wrth cyfreith, a chosb ar y neb ae portho, ac ae lletyo, a chwbyl or a gaffer oe dda yr arglwydd
- 25 **ewyllus, ewyllwys** (R.M. *ewyllys*); cf. ar 42, 2. Ar *bei, collwn*, gw. ar 9, 9; cyfystyr â'r gorberffaith.
- 27 **heb**: heb sôn am, heb gyfrif.
- 75 2 **yny uyd daran ewic** (R.M. *yn daran*); cf. B.T. 45, 26. Rhydd Pughe (1832) y testun, ac esbonia *taran* fel "of goodly size or magnitude"; E.-Ll. "large"; M. "full-grown". Nis gwelais yn unman fel enw nac ansoddair, ond ceir *taran* fel adferf, os yr un yw; cf. D.W.S., lle dywedir am *g a ch* yn Saesneg "ynt *daran debyc* eu sain, ie *mor debyc* i son yw gilydd", nes bod Sais ni bo dra dysgedig yn ysgrifennu'r naill am y llall, e.e. *churge* am *church*; hefyd ar y, "llythyren *taran debyg* i y". Dengys hyn fod *taran* fel adferf yn golygu *tra*. Rhydd R. "*Taran*, and by contraction *Tran*, somewhat, as *Taran oer*, somewhat cold; also very. *Taranfrwd*, pretty hot". Cyffelyb yw'r ystyr i *cryn*; gw. ar 76, 3; ac ni ddylid anghofio'r defnydd o *thundering* yn Saesneg am "very great or big"; gw. N.E.D. am enghreifftiau cyn gynhared a 1618, datblygiad cyfochrog yn y ddwy iaith? Petasai *daran*, neu *taran*, yn digwydd yn ddi-amheuol fel ansoddair, "mawr, bras", cawsid esboniad

Td. ll.

newydd wedyn ar *Pendaran Dyfed*, h.y. penfras, nid pen-derw ydoedd, na phen taran !

75 2 **achub**, gafael ynddo.

4 **canys ywch yn rwymedigaeth**, "since you are allied together, I will make you live together, and be mated together". Ar *canys* gw. 5, 28 ; 27, 2 ; *ywch*, ych, ydych, cf. ll. 6 ; ct. ll. 5 *ywch* i chwi (fel yn *Nos-da-iwch*, *Nos dawch*). Y rhwymedigaeth oedd yr undeb rhwng y ddau i gyflawni'r trosedd. *commit the crime*

8 **ywehwithheu** (R.M. y chwithau).

10 **godorun**, twrw. Ceir *godor*, *godorin* (M.A. 217b), *godorun*, *gorun*, i gyd yn golygu twrw ; cf. Llyd. *kurun*, *gurun*, *kudurun*, taran ; cf. B. i, iii ; R.C. xxii, 422 ; xxix, 208 ; xxxviii, 164, am drafodaeth arnynt, a'u perthnasau.

adan, o dan ; cf. ll. 24, y *dan*.

11 **am benn y godorun**, y cŵn yn cyfarth y *peth* a barai'r twrw ; cf. y defnydd o *twrwf*, td. 22, ll. 23.

v.p. 82

15 **trillydyn**, llu. *llwdn*, "anifail" yw *llyd(y)n* ; gw. ar 20, 7 ; cf. 76, 19, *tri meib*, *trywyr*, *tridiau*.

| X

17 **yrlyned** (R.M. *yr llyned*, ll. 18 *yr llned*).

19 **carnen**, am air perthnasol, er nad o'r un ffurf yn hollol, cf. Gw. *cráin*, "the female of several animals, a sow", C.I.L. 504.

| *

22 **y lleill**, y naill ; gw. W.G. 300.

27 **y am hynny** : clywent y cŵn yn cyfarth, a heblaw hynny, y rhai oedd yn y llys yn rhedeg at ei gilydd i weld beth oedd ar y cŵn.

76 3 **crynlldwyn** : gw. Loth, i, 398 ; *D. Nanmor*, 163 ; *D. cryn* mediocris, *crynddyn*, parvulus, homo mediocris staturae, etc. Gan fod *llwdn* yn golygu "anifail", nid yw *cryn*, er ei fod yn tueddu i leddfu'r ystyr, yn gwneud y porchell yn borchell bychan ; *cryn llwdn* ydoedd, nid *cryn borchell* ; gw. ll. 4, a *breisc* oed. Heddiw cf. grym

tone down moderate!

Td. ll.

cryn yn *cryn dipyn*, a *cryn* lawer, ac ystyron *taran* uchod, ar 75, 3, "somewhat" a hefyd "very". Ceir *crymffast* ar lafar am *glamp* o fachgen; cf. S.G. 364; R.P. 128 a 39; W.M. 311b; Llyd. *krenn-baotr*, "adolescent"; *krennejenn*, *bouvillon*, *jeune boeuf* (Troude) Y mae'r tri etifedd yn rhai braf o faint, fel na fethem wrth gymryd crynllwdn yma fel *clamp* o fochyn bach!

76 7 **braswineu**: *bras* o faint; *gwinau* o liw ei wallt.8 **Hychdwn** (R.M. *hychtwn*).

17 **crubothon cryf**, "a fine wolf cub". Rhydd D. *pothan* a *pothon* am *genau* blaidd, a cheir *Rhosbothan* fel enw lle yn Llanedwen, Môn. Erys *cru-* yn dywyll (? cf. C.I.L. 522, Gw. *criun*; A.C.L. i, 57, *criun*, *cruin*, "a wolf"); cynnig L. yn betrus fod *cru* am *crin* = *cryn* (fel yn *crynllwdn*).

21 **enwir**. Yr oedd *gwir* yn golygu "iawnder, hawl, cyfraith", nid "gwirionedd" yn unig (cf. L.L. 120, hay *gwir* hay *braut* dy lytu yr ecluys ygundy teliau), a chyda'r negydd *an-* (a wyrodd i *en-* o flaen *i* yn y sillaf nesaf), ceir *en-wir*, "*drygionus*" (nid "celwyddog" yn unig).

22 **cenryssedat**, "champion". Englyn milwr o'r hen ddull sydd yma (7, 7, 7), ac mewn hen orgraff gall hyn fod am *cynrysseddiad*, gweithredydd yn *-iad* o *cynrysedd* (*cynt-*, a *rhysedd*; cf. *rhyswr*, "champion", *edrysedd*, etc.; gw. Cy. xxvi, 141-2). Neu gall fod am *cyf-rysedd-iad*, neu *cywryseddiad* (darll. *cen-* fel *ceu-*); ceir *cyf-rysedd*, ochr yn ochr a *cy-wrysedd*, "contention" (un o *rhys-* a'r llall o *gwrys*); gw. D. Gwell gennyf, fodd bynnag, weld *cynt-* yn y gair: ni olygai hynny newid dim ar y testun, ond yn unig ddeall *e* fel hen orgraff am *y*; cf. *cynran*, "tywysog, pendefig".

23 **Bleidwn, Hydwn, Hychdwn**, o *Bleidd-ddwn*, etc.; gw. Lloyd-Jones, B. i, 4. Etyb *dwn* meddai ef i'r Gw. *donn*, "pregnant", A.C.L. i, 77. Ond nid ymddengys

clamp lump

cruau cub, whelp

*

bad, wrecked

greatgr
lad, low

Td. ll.

hynny yn addas am y meibion; felly cf. Gw. *donn*, "uchel, noble", etc., Windisch, W., 499; M. 320; neu gan fod *Annwfn*, wedi rhoi *Annwn*, gellid tybio mai *dwfn*, "byd", sydd yma. Perthynai *Bleiddwfn* i "fyd" y blaidd, etc.; cf. *Bleddyn* o *Bleidd-gynt*, "teulu'r blaidd" (cf. *gynt* a'r Ll. *gent-is*). Rhydd Holder, A.C.S. i, 1307, *Donnotaurus* fel enw dyn: un amrywiad arno yw *domno-tauro*. Ond gwell gennyf *dwn* "noble".

77 1 **enneint**: gw. ar 18, 11.

2 **eu kyweiraw**, darparu dillad iddynt, "array, equip", cf. ll. 3, *ymgueiraw*.

perit, parwyd; gw. ar 38, 29; 46, 5.

7 **Aranrot**: gw. M. 187-96. Anodd dweud beth yw elfennau'r enw, *Aran* ai ynteu *Arian*; *rhod* ai ynteu *rhawd*. Tuedda Gruffydd (M. 189) i'w gydio wrth hen enw Strassburg, sef *Argentoratum* neu *Argentorate*, gan gymryd bod *rât-* yn cynnwys *a* hir (nid *a* fer fel Holder, A.C.S., 211); os felly, *Arian*, a *rhawd* fel yn bedd-*rawd*, Gw. *râth*, "mound". Rhaid tybio mai enghraifft gynnar sydd yma o droi *-aw* yn *o* yn y sillaf olaf, os derbynnir hyn; cf. 38, *Edeirnon*; 5, *achos*. Yn erbyn hynny, y mae absenoldeb enghraifft o'r ffurf *Arianrawd* yn unman; ond profir *-rot* gan yr odl cyn gynhared, beth bynnag, ag oed y gân yn B.T. 36, *aranrot* drem *clot*. Hyd yn oed pe delid mai flugiant yw'r gân, er hynny dengys mai *-rot* oedd terfyniad yr enw i'r ffugiwr: ni chlywsai ac ni welsai *-rawt* ynddo yn yr hengerdd a gymerai fel patrwm i'w dwyll, neu'n sicr rhoesai'r ffurf honno yn ei ddynwardiad. Anos yw yr elfen gyntaf: "*Silver-wheel*", medd Rhys, H.L. 284, ac yn wir ceir amryw enwau'n cynnwys *arian* yn ddiamedheuol; gw. Loth, Ch.B. 107, am hen enwau Llydewig, *Argent-hael*, *Argent-louuen*, etc.; L.L. 82, am enw merch mewn hen Gymraeg, *Arganhell*; cf. *Ariannell*, yn

imitation

more difficult

Td. ll.

Pentref *Ariannell* ym Môn (R. i, 840, ceir amryw ffurfiau arno), yr *Annell* yn L.G.C. 208, enw afon, trwy gamddeall y sillaf gyntaf fel y fannod, ond ni roid bannod o flaen enw afon gynt; cf. L.L. 75 am enw afon, *Arganhell*. Hefyd cf. L.B.S. i. 167, lle ceir S. *Aranwen*, ond dyfynnir *Arganwen* fel hen ffurf, h.y. *Arianwen*. Yn R.M. 298, rhoir y tri *aryanllu*; "ar trydyd a aeth gan gasswallawn uab beli, a gwennwynwyn a gwanar veibon lliaw uab nwyfre ac *aryanrot* verch veli eu mam". Ymhobman arall yn R.M. ceir *aranrot*, cf. hefyd 301, Ac *aran* uagyl y was. Rhaid, felly, ystyried y posibilrwydd mai *aran* yw'r elfen gyntaf, ac nad yw *Arianrod* ond ffrwyth cydweddiad. Yn y cyswllt hwn ystyrier yr enwau a rydd Holder, megis *Arandis*, *Aranni*, *Arani*, *Arandumum*, *Arania*, *Aranto*, etc. Hefyd enwau'r mynyddoedd, *Yr Aran*, *Yr Aran Fawr*, *Aran Benllyn*, a'r bychanigyn *Aren(n)ig*. Ni chollir i gytsain yn Arfon a Meirionnydd, a phrofa'r rhain y ffurf *Aran*. neu *Garan*; cf. M.A. 339b, eiry . . . pen *Aran*; gw. ar *garanfys* uchod, td. 177. Ond y mae cymaint o ystyron yn bosibl i *Aran* fel enw mynydd, fel na rydd help i ni gydag *Aranrot* ar hyn o bryd. (Tybed na ddylid darll. *aranllu* yn R.M. 298 ?); gw. ymhellach ar 78, 20.

Yn wyneb yr ansicrwydd hwn, cf. R.M. 112, *Eurokwen* merch *wdokwyn* gorr; 123, *gwidokwyn* gorr; W.M. 235a, *Eurokwyn* merch, 241b, *guidokwyn*. Dengys *Eurokwyn*, beth bynnag, fod *Arian-rhod* yn bosibl fel enw merch.

77 12 **camu**: gw. M. 17 n; 224-5. Gall olygu plygu, neu gerdded, ond yn yr enghreifftiau eraill, *camha dros*, ll. 13 *camawd dros*, ll. 14, *cam*, golyga "step over". Gan nad yw *dros* gyda *camu*, gellir ei ddeall yma fel "plygu".

17 **y ryw bethan**, rhywbeth bychan; gw. M. 228, "caul". Gwrywaidd yw *pethan*, fel *dynan*, *mudan*; cf. ll. 18 *arnaw*.

Td. ll.

- 77 17 **ohonei**: gydag *adaw* i nodi'r goddrych, y defnydd arferol gyda'r berfenw, gadael ohoni rhyw bethan, h.y. (g)adawodd. Yn ôl M. "of her" neu "from her". Prin bod angen hynny. Yr un gystrawen sydd yn dilyn yn syth, *cael o neb guelet*.
- cael**. Sylwer ar yr ystyr: nid "cyn i neb weld", ond "cyn i neb *gael* gweld".
- 18 **arnaw**, sef y pethan. Camddeallodd R.M. a rhoes *arnei*, ond cf. ll. 19, yn y *gylch* (nid *chylch*).
- 19 **sef y** (R.M., *sef lle y*).
- 20 **llaw gist** (R.M. *llawr* (!)). Ar *llaw*, "bychan, isel", gradd gysefin *llai*, *lleiaf*, gw. *Y Beirniad*, vii, 187; viii, 259, cf. *llaw-ffon*, *lla(w)-frwyn*.
- 22 **bedydyaw . . . sef enw a baraf**: gw. ar 23, 15.
- 23 **Dylan**. Gwêl Gruffydd berthynas rhwng ei enw a'r Gw. *delg*, "draenen", M. 214-5; ond pe felly, yn rheolaidd |*
disgwyliid i gytsain i ateb i'r *g*. Nid oes sôn yma am ddim ynglŷn â Dylan ond ei hoffter o'r môr, a'i farwol-aeth; a'i gyswllt â'r môr roir fel achos o'i alw Dylan Eil Ton. Heblaw hynny, ceir *dylan* yn rhan o'r enw priod *Cynddylan* (cf. hefyd L.L. 200, *Eudolan*). Cedwir ei enw ym *Maen Dylan*, carreg anferth ar y traeth lle rhed y Pwynt i'r môr rhwng Aberdesach a Phontlyfni, tua dwy filltir a hanner o Glynnog. Yn y beirdd, anodd gwahaniaethu rhwng y person a'r defnydd arall o'r enw am y môr, neu'r don, cf. B.T. 27, Pan yw gofaran twrwf tonneu wrth lan, yn dial *dylan*; 35, 11, tir d; 26, neu bum yn yscor gan *dylan eil mor*; 67, Marwnat d. eil ton. tal[yesin] ae cant; ll. 12, gwenwyn [=creulon] a wnaeth . . . gwanu *dylan*. adwythic lann; M.A. 250a, O du llanw a llif a *llef dylann*, 286a; 307b, 308a, 309a, Daeth croes o wial Moesen A delw ar frig *mor dylan*; 154b, gleisiad d.; R.P. 39a, dilleinw *llyr* didetkyr d. Felly rhydd D. Dylan fel enw priod, a hefyd "mare,

Td. ll.

aequor, pontus", cf. ll. 25. Yn ôl B.B.C. 63, Bet dilan llan beвно (sef Clynnog); cf. Pen. 98b, 49, Bedd llovan llaw ddivo yn arro Venai / yn y gwna tonn tolo / bedd dylan yn llan feuno.

77 27 **Eil Ton:** gw. ar 44, 26; cf. B.T. 35, d. *eil mor*. Hefyd cf. *Llyr*, tad Brân, a *llyr* am y môr, yn y Gogynfeirdd.

78 1 **Gouannon**, enw o *gof*, *gofan*; cf. Teyrnnon, Rhiannon, Amaethon, etc. Un o'r "anoethu" a ofynnid i Gulhwch oedd "Gouannon uab don y dyuot y penn y tir y waret yr heyrn [gw. A.L. i, 322, ll. 5], ny wna ef weith oe uod namyn y urenhin teithiawc", R.M. 121; B.T. i, 36; 3, 2, kaer ofanhon.

2 **hwnnw:** heddiw benywaidd yw *ergyd*. Yn R.M. 303-4; *Cy.* vii, 127-8, enwir y tair mad [lwcus] gyflafan; yna'r tair anfad *gyflafan* (gw. ar 21, 14), sef lladd Urien, Afaon fab Taliesin, ac Aneirin Gwawdrydd; yna'r tair *bwyellawd*; R.M. 301; *Cy.* 123, y tair "gwith" *balfawd*; ond nid yw'r tri anfad *ergyd* ar gael.

7 **rwyuaw y ureicheu**, lluchio ei freichiau o gwmpas. Dywedir o hyd am ddyn mewn clefyd, ei fod yn *ymrwyfo*, "turning and tossing".

10 **ymobryn**, cf. 23, 23.

12 **hof oed gantunt**, buasent yn canmol, cf. ll. 18; gw. ar 27, 10; cf. R.C. xii, 63.

18 **yn gynureisket:** gw. ar 43, 10.

20 **Caer Aranrot:** cf. G.B.C. 7, Mi fum dri chyfnod yng Nghaer Arianrhod: L. Môn, (Mar. E. Bwlclai, Glyn Llifon), Yng nghaer Arianrhod y bu'r gwybodaeth/A gwin yn nhir Don gan hir ordeiniaeth; gw. Lhwyd, *Parochialia*, iii, 51, "*Caer Anrhad* was a Town, for certain Anrhad was Son of Dôn who lived here. This Don was an usurper Seisyllt ap Don . . .". Gwelir fod *Ar-* yn *Aranrot* wedi colli yn yr *-r* yn *Caer* erbyn amser Lhwyd (c. 1700). Wedyn tyfodd *d* neu *th* rhwng yr *n* a'r *r*, a

a thing hard to obtain

sickness

to thro

Td. II.

heddiw gelwir rhes o gerrig a welir yn y môr ar drai (rhyw filltir allan o Dinas Dinlle) *Trecanandrag*, *Tregarandrag*, neu *-Anthrag*, y d ar y diwedd wedi troi'n g, ar ddelw *anrheg*, neu enw merch, *Enrydrec* (R.M. 112); cf. *Bodandreg*; *Rec. Carn.* xxii, *Botandreke*; 19, *Bothanrek*; *Hist. Aberconwy*, 168, yn *Nanhoenem* (Nant Gwynant bellach) enwir *Hafat Tandrec*. Dengys y testun fod modd cyrraedd y Gaer ar draed y pryd hwnnw, ac mewn llong, 79, 17, 18; cf. 83, 4, lle dywedir fod y llynges "yng kylch y ty". Rhaid bod y môr eisoes i raddau yn cau am dani, ond nid yn hollol, fel heddiw.

78 22 **dilyt**, canlyn, erlid; gw. W.G. 391, berf enw *dilynaf*; cf. *erlid*, *erlynaf*. Cymerodd E.-Ll. ef fel ffurf ar *dilyaf*, a chyfieithu "Is it right?" Ond y pwynt yw fod G. wedi dwyn gwarth ar Aranrot, a'i fod yn dal i ddilyn ar ôl y peth a'i gadw yn fyw, wrth noddi'r mab yn y llys mewn dull mor amlwg.

shame, disgrace

protect, succour

26 **uwy**: gw. ar 2, 14.

79 1 **dy uab dy**, dy fab di. Awgrym mai Gwydion yw'r tad; cf. 79, 11, a chymryt y uab; 81, 5, yd ellyngwys ef y uab yn y bryt e hun (felly R.M.). Oddieithr yn y lleoedd hyn, dilewyd pob cyfeiriad at y llogach gan y cyfarwyddiaid.

incest

6 **yr hwnn yd wyt ti**. Yn ôl M. 21, collwyd rhywbeth o flaen *yr hwnn*, ond cf. R.B.B. 2, "Pelleas vrenhin a orchymynnwys dod i yn y llog *yr hwnn* [=yr hyn] a vei reit vduint hwy". Deallaf felly yma, "A thithau yr hyn wyt ti", "Seeing thou art what thou art", sef merch wedi colli ei morwyndod, a than warth; cf. 46, 23, lle ceir *yr hwnn*=yr uu.

7 **y uorwyn**. Nid *ei* ond *yn* yw grym y yma; gw. ar 9, 16. A hithau'r peth oedd hi, ac eto yn ddig am nas gelwid hi yn forwyn—edliw coeglyd sydd yma; yna

spiteful
sarcastic
w

Td. ll.

daw bygwth, "ac ni chei bellach byth dy alw yn forwyn".
Gofalai ef am hynny.

79 12 **rwng hynny**, rhwng Caer Dathyl ac *Aber Menei*, genau Afon Menai, ger Caernarfon.

* | 13 **delysc**, math o wmon; cf. Dinneen, Gw. *duileasc*, "a kind of edible sea plant; *d. na habhann*, broad-leaved pond-weed; *duilliosc na mbeann*, "mountain laver"; felly Gwyddeleg yr Alban, *duileasg*, *duilliosg*. O'r Wyddeleg y daeth *dulse* yn Saesneg. Cedwir yn yr enw Porth *Delysg*, ym Môn. (Cymysgodd D. â *dylusg*, felly S.E., ond gw. Ped. ii, 19).

morwyal, "laminaria", medd W.G. 101. Yr enw ar lafar yw *myrwials*.

14 **guimon** (R.M. *gwynnon*, trwy gamddarllen?), cf. 80, 26, Rhydd D. y ffurf *gwmmon* (yn y Botanologium, *gwmmon*, *gwimmon*, gwŷg y môr, dylusg y môr, ysnoden y môr); cf. M.A. 324 a *gwimmon*; D.G. lxxv, 5, a'r Llyd. *goemon*, *goumon*, R.C. xxv, 71, 72; Cern. *gwbman* (*Arch. Brit.* 9b, cf. 25b); Gw. *feamain* (Dinneen). Ar lafar Arfon, *gwan*.

* | 19 **y harganuot**, y am y lluosog *eu*; cf. 16, 7; 46, 16; 53, 22. Hefyd ll. 21, *eu* heilyw e hun.

22 **eilyw**, ymddangosiad, "likeness"; gw. D. ar *eiliw*; D.G. xviii, 32, dyn *gwiw*, du *eiliw* dy ael; xxix, 42; R.P. 106, 17 (odli â *wiw*); 111a, Nyt oed *anwiw* vath em *eilyw*, vyth y moli; B.B.C. 25, llu guirin guirion *eiliv* egilion; 50, 8, *hetiv* gan *eiliv* eleirch.

80 9 **nit a ymi**, "nid ânt am fy nhraed"; gydag *ymi* fel y Ll. *Dative of the Person Interested*.

16 **kymedroli**: yma "cadw yn y canol", yn lle bod yr esgidiau un ai yn rhy fawr neu ynteu yn rhy fychan, er ei fod yn honni gweithio *wrth fesur*; gw. B. i, 27; v, 24, Bedrawt . . . or gorwed dyn yndaw na bychan vo na mawr *kymhedrawl* vyd idaw, "it will *fit* him". Gellid anwybyddu chwanegiad R.M. a deall fel "fit".

Td. II.

- 80 19 **y dryw**: hen ddefnydd o'r fannod; rhaid cyfieithu "a wren". Tebyg yw'r defnydd yn Ch.O. trwodd am yr anifeiliaid, ond nid yn hollol; cf. R.M. 112, Clust fab Clustfeinad,—“clywei y morgrugyn”; Medr fab Methredydd “a uetrei y dryw yn esgeir oerfel yn Iwerdon”; Gwiawn Lygad Cath, “a laei onggyl ar lygat y gwyd-bedyd”. cf. Ir.
- 20 **y uwrw a'y uedru**: yn fanwl y *bwrw* yw'r taflu, a'r *medru* yw'r taro. Gan mai gwno yr oedd y bachgen, tybiaf mai'r erfyn a ddefnyddiodd oedd ei nodwydd. Ai honno rhwng y giewyn a'r asgwrn. Itrows, fling, cast
needle
- 22 **ys llaw gyffes**. Deallaf *cyffes* yma fel yn Cy. vii, 143, *Kyffes* pob rwyd, “There is *skill*, wherever a task is done easily”; R.P. 11a, bum *kyffes* eiryawc, “I was *ready* of speech”; M.A. 185a, arawd orawen *gyffes*; 202b, Mal mertin ym marteir *kyffes*; cf. y defnydd o *ffraeth*, “parod, cyflym” am dafor, am law (B.B.C. 87, 15; M.A. 332 a 5), am feirch, am afonydd, etc. Felly *llawgyffes*, “with a skilful hand”. Ni ellir *cyffes*, na *cyfes* fel cyfansoddair o *-mes*, Gw. *mes*, fel y myn M. 63; *cymes* (gw. B. i, 33-4) sy'n tarddu o'r fan honno. Ni raid derbyn cynnig Rhys (H.L. 237 n.) chwaith, mai “hir” yw'r ystyr, fel yn Lug Lám-fada, gan na rydd hynny synnwyr yn yr enghreifftiau eraill o'r gair a ddyfynnwyd uchod. Ond ymddengys yr ystyr “parod, celfydd” yn addas i'r cyfan, yn arbennig felly “llawfedrus” am *Lleu*, oedd yn enwog yn llên Iwerddon a Chymru fel gŵr medrus ar gynifer o gelfyddydau. *
- 23 **y Lleu**. Gwrthyd Loth i, 195, a Gruffydd, M. 235-6, gydio hwn wrth y gair *go-leu*, “light”; cynnig y cyntaf berthynas â'r Gw. *lu*, “bychan”; a'r ail, Gw. *lughu*, “llai”. Gan fod *lleu*, a *goleu* ar arfer am oleuni, a bod yr olaf hefyd weithiau yn ansoddair, fel yn *gwallt goleu*, *pryd goleu*, am “light hair”, “fair complexion”, nid *

weapon, tool

Td. ll.

business
 gorchwyl anodd yw credu bod *lleu* hefyd yn ansoddair ambell dro, "light haired. bright, fair"; cf. B.T. 77, katwaladyr clot lathyr *leu*; R.P. 2a, 26, clot*leu*; 41, kerd *oleu*; a *lleutir* yn gyffredin. Felly yma: gwelodd Aranrod y bachgen bach di-enw yn taro'r aderyn mor fedrus â'i nodwydd, ac meddai, "A llaw gyffes y trawodd y *lleu* ef", gan ddefnyddio y *lleu*, fel "the light haired one, the fair boy". Etyb hyn i'r dim i'r chwedl am enwi Finn yn ôl y Gwyddyl (gw. M. 120-5); nid oedd ganddo yntau enw, ond gwelodd y brenin ef yn gwneud campau fel saethydd, a gofyn, Pwy yw'r bachgen *gwyn* (*find*)? A galwyd ef *Finn* (*Gwynn*) maes o law (M. 119); cf. pâr fel *Lliaw ab Nwyfre* (R.M. 298) a *Gwynn ab Nwyfre* (106, 107).

exact
seen, from the
 * | Yr arwr Gwyddelig a etyb i Llew Llaw Gyffes yw *Lugh Lámhada*, h.y. Llaw-hir (cf. Kadwallawn *llawir*, R.M. 305; cf. *Cy.* ix, 170), a elwid hefyd *Ildánach*, "Aml ei ddoniau, of many crafts". Yr oedd Lugh môr *olau* nes i'w elynion dybio, pan welsant ef yn dyfod i'w herbyn, fod yr haul yn codi y dydd hwnnw o'r gorllewin, ac nid o'r dwyrain. Atega hyn fod ein *Llew* ninnau o bryd golau, yn union fel *Finn*; cf. Arysgrif Ballyneanig, Macalister, S.I.E. i, 50, lle ceir yr enw mewn Ogam, *Luguqrit* (= *Llew pryd* ?), a roes yn ddiweddarach *Lucrith* (Rhys, R.C. vi, 398), a *Luicridh*; yng Nghymru ceir yn L.L. 210, *leubrit* a *loubrit* (ond geill *b* yma fod am *f*; cf. *Sulbrit*, *Sulurit*, 239, 279, gan fod L.L. weithiau yn treiglo, weithiau'n peidio).

Yn Harl. 3859, *Cy.* ix, 176, ceir yn yr achau *Louhen* map *Guidgen* m. Caratauc; B.T. 35, Minawc ap *lleu*; R.B.B. 181, *Llew* nab Kynuarch; dengys hyn nad yw'r enw yn amhosibl ar eraill heblaw y Llawgyffes.

80 23 **aniolwech Duw**, h.y. melltith Duw; cf. y ffordd y melltithir trwy arfer *emendith* (A.L. i, 2).

Td. ll.

- 80 24 **Llew**: mewn llsgr. cynnar ceid *u* am *u* ac *w*, ac *f*, ac nid oedd ond y synnwyr i benderfynu prun ddylid ei ddarllen. Yn ll. 23, cadwodd W.M. *Lleu*; yma rhoes *Llew*; felly 89, 16, *Nantllew*; ond yn 81, 10, *Dinllef*. Profir gan yr odl yn yr hen englynion, td. 89, 90, mai *Lleu* oedd yr enw. Yn Hengwrt 202, *Cy. vii*, 132, ceir *lleu llawgyffes*.
- 81 2 **eur gryd**: gw. ar 54, 18.
- 3 **ni henbydy well**, ni fyddi di ddim gwell (ystyr arall yn W.G. 351, ond gweler y ffurfiau yno); cf. *henffych well*, *hanpych*, *hanbych*, R.M. 106, *hanuot*; Ox. 2, V.V.B. 39, *anbiic guell*, gl. ar *ae*. Ceir amryfal ddulliau o drin *n-b* (*n-p* yn y modd dib.) drwy'r ferf.
- 8 **yny gwiscof** (R.M. *gwisgwyf*), pres. dib. yn *of*, W.G. 328-9. Gan na threiglir y ferf (ct. ll. 11 *yny allwys*), y tebyg yw fod y gwrthrych i'w ddeall fel rhagenw mewnol, *yny y*, *ynyw*, neu *yny eu* (cf. *nwy*, *nyw*, ac yn arbennig, *enyu*, B.Ch. 14, "misprinted *eny* in A.L. i, 32", W.G. 279), "until I put *them* on him".
- 9 **handid**: E.-Ll. "let whatever may come out of your malice"; M. "good luck to your wickedness"; L. "tu peux être aussi perverse que tu voudras". Ond cf. B.B.C. 33, Ban ganhont cogeiv . . . *handid* muy vy llauridet, "When the cuckoos sing, greater is my melancholy"; cf. B.B.C. 107, 12; M.A. 201b 5; 247b (amryw enghreifftiau o'r ferf) *Handid* uyg gystlwn . . . *O* veirt yspydeid . . . *Handid* uy arglwyt kyfrwyt kyfrwys/*O* ryw diamryw diamryuys | . . . *Handwyd* lywelyn . . . *O* lary uab casnar; B.T. 12, 3; 25, 15, *Handit* du muchyd, *handit* crwm mynyd, *h.* kyl coetdyd, *h.* kynt myr mawr er pan gicleu yr awr; 37, 20, lloer yn anlles. *handit* llei y gwres; W.M. 122b, *Handit* gwell itt, arglwydes, "So much the better for thee, lady". Profa'r enghreifftiau hyn mai berf pres. myn. 3ydd. unig. yw

Td. ll.

handid, = "is". Yn ôl y cysylltiadau, gydag *o* gellir cyfieithu "grows, comes (from)"; yn y testun, "*It is through*" neu "*It springs from thy wickedness*". Ei drygioni hi yw'r achos o'r cwbl.

- 81 10 **Dinas Dinllef**, sef *Dinlleu* (ar lafar, *Dinlla*), amddiffynfa fawr o bridd ar lan y môr i'r de o Abermenai, rhyw bum milltir o Gaernarfon. Ysodd y môr ei hanner erbyn hyn. Yn siartr Maenan, *Hist. Aberconwy*, 165, printiwyd *Morua-Duillen*, bai amlwg am *Dinlleu*; Pen. 98 B, 48, Bedd Gwydion ap Don | ym *morfa dinleu* | y dan fain deveillon | Caranawg ei geiffyl meinon. Ceir *Dinlle* / *Ureconn* yn Skene ii, 288; R.P. 16b, yn ardal Pengwern, cf. hefyd *Dinille*, *Dininlle*, *Dinhinlle*, *Dinlle*, *Dinunthley*, yng nghwmwd Wrexham. Palmer, *Anc. Tenures*, 234, 243; cf. *Rec. Carn.* 22, *Dynthle* am un y testun.

- 14 **dihirweh**: cf. 57, 25, tristwch, blinder, "wretchedness"; *kymryt d.* "dihoeni"; cf. ll. 16, byd *lawenach*; gw. S.E. dan *dy-*; "Mae y defaid yn *dyhiro* o eisieu porfa, N.W.", h.y. yn "*dihoeni*". Clywais yn Nyffryn Clwyd bod "gwair yn *dihiro*" (=difetha) ar gynhaeaf gwlyb. Aeth *dihiryn*, "wretch", i olygu "rogue", a *dihirweh* "wickedness".

- 19 **cymryt yr aruordir**: cf. 89, 14, cerdded ar hyd y tir ger y môr (cf. *Ar-fon*, y wlad a wyneba ar Fôn). Ond i ba gyfeiriad o Dinas Dinlleu? Tua Chaernarfon, ai ynteu tua Chlynnog? Y mae y *uynydd*, "i fyny", o blaid yr olaf, ond anodd deall y daith. Nid oes dwy filltir o Ddinas Dinlleu i Dregaranthrag: rhaid tybio mai'r cynllun oedd codi'n fore, cerdded ymhell y tu draw i Gaer Aranrod, i gyfeiriad y De, a dychwelyd wedyn ar feirch a'r rheini'n lluddedig, fel y gweddai i deithwyr o Forgannwg (ll. 26).

weary, tired
hoar-frost, rime

- Brynn Aryen**. Ystyr *arien* yw barrug, llwydrew; cf. R.P. 1a, kyfliw dy benn ac *aryen*; M.A. 143b, bun

- hoar-frost

Td. ll.

balchliw *arién dos*; 323a, R.P. 86 b 2. Nid oes dim yn anaddas yn yr enw, ond deil Gruffydd ac eraill mai Bryn *Aereu* a ddylid ei ddarllen yma, bryn rhyw dri chwarter milltir o Bontlyfni ym mhlwyf Clynnog, a roes enw i gapel, plas, a ffarm. Hawdd fuasai newid *Aereu* yn *Aeren* trwy gamddarllen *u* fel *n*, fel nad yw'r cam cyntaf yn anghredadwy; dichon hefyd ystumio *Aeren* yn *Aren*, *Aryen*, o fynych gopïo, a hynny gan estroniaid i'r ardal; cf. ar *Dinlleu*. Yn erbyn hyn, fodd bynnag, dylid rhoi tystiolaeth y Llyfr Du i'r ffurf yn *-en*; gw. B.B.C. 63, Bet tedei tad *awen*. yg godir *brin aren*. yn yd vna ton tolo. Bet dilan llan beuno; cf. Pen. 98 B. 49, 'Bedd Tydai Tad *awen* / yngwarthaf *bryn arien*. O blaid mai'r un bryn a olygir y mae'r cyplysu sydd yn yr englyn ar fedd Tydai ar Fryn Arien a Bedd Dylan, yn *Llan Feuno*, sef Clynnog. Er bod safle Bryn Aerau yn bur addas, ni fedraf gan hynny gredu mai bai yw *Bryn Aryen* yn y testun; felly rhaid chwilio am fryn arall. Ar y traeth. gyferbyn â Bryn Aerau, ymglyfyd penrhyn go uchel, a elwir bellach Bryn Beddau. Cynigïaf mai hwn yw'r hen Fryn Arien. Rhed i'r môr ym Mhwynt Maen *Dylan* (gw. ar 77, 23); cf. y modd yr enwir Bryn Arien a Bedd *Dylan* yn yr un englyn. Dengys ei enw fod beddau yno gynt; felly B. Arien. I'r neb a deithio ar hyd glan y môr o Ddinas Dinlleu i gyfeiriad Clynnog, dyma'r penrhyn cyntaf ar y traeth. Y mae'n taro ar y llygad, ac yn tynnu sylw, ar ôl milltiroedd o arfordir gwastad; addas yw felly i'r neb a fynno nodi cyfeiriad. Cura'r môr yn ddidostur arno, bellach, beth bynnag am gyfnod y Mabinogion; cf. *yn yd vna ton tolo* yn yr englyn. Nid yw'r môr o fewn hanner milltir i Eglwys Feuno, fel na wedda'r llinell hon am fedd Dylan (nac am Fryn Aerau sydd yntau gryn bellter o'r traeth).

pitiless
merciless

Td. II.

- 81 20 **Ceuyn Clutno.** Ystryw Gwydion yw dychwelyd i Gaer Aranrod fel pe'n dyfod o Forgannwg, a dyma'r lle y troes yn ôl, wedi cael meirch. Gan fod hen ffordd y De yn dyfod o gyfeiriad Nancall (gw. ar 71, 16), hyd lethr y Bwlch Mawr, dyna pam yr ymladdwyd brwydr Bron yr Erw yn yr ardal hon. Wedi colli'r dydd, ciliodd Gruffudd ap Cynan yn ôl i Aber Menai, ar hyd y ffordd y deuai Gwydion yn awr (H.G.C. 120). Gallasai hwnnw adael yr arfordir wrth Fryn *Gwdion*, cyn cyrraedd Pont-lyfni; wedyn rhydio Llyfni lle mae Pont y Cim bellach, yna cymryd yr elitydd i fyny, i *ben uchaf* y cefn sydd rhwng Pant Glas ac ochr Clynnog. Yn anffodus ni chadwyd yr enw, er bod amryw Gefnydd yn y plwy (Cefn Gwreichion, Cefn Ystumllech, Cefn Arth-ô, Cefn Graeanog, Cefn Lleuar). Efallai y dylid darllen *Clytno* (*Clydno*), gan fod "*Clidno Eydin*", yn ôl A.L. i, 104, wedi dial ar Arfon am ladd Elidir Mwynfawr yn Aber *Meuhedus* (*Mewedus*, *Moweddus*, heddiw Afon *Wefus*, H.W. 168 n; rhed i Afon Desach o *Fron yr Erw*); cf. M.A. 246b, mal *cludno eiddin*, ond yn R.P. 147a, mal *clytno eiddin*; cf. hefyd M.A. 290a, 291a; Skene ii, 80; B.B.C. 64, 2. Ond rhydd R.M. yn y testun *Clütno* (*Cluntno* ?), a dwg hyn ar gof enw ffarm ar yr un llethr a Bron yr Erw, sef *Coetyno* (*Coed-tyno*, Hen Gymraeg, *tnou*). Os *Coed-Tyno*, pam na ellid *Clun* Tyno? Etyb *clun* i'r Gw. *clúain*, "meadow"; ar *tyno* gw. *Cefn Coch* MSS. 102, dwyn gwen i *dyno* o goed; B.B.C. 102, 6; Loth, Ch. B. 519, *tnou*, bas-fond, vallée; L.L. li, a hollow, *pant*. Ceir *Henbant* Mawr ar yr un llechwedd.
- 23 **either y uot** (R.M. *either bot*).
- 82 2 **chwedleu a chyuarwydyt:** gw. ar 1, 3; 3, 15; 6, 7.
- 5 **a gweirwyt:** cywasgiad o *cyweirwyt*; felly *cweirio* heddiw; cf. *dwedaf*; A.L. ii, 452, *gorchwiro* (*gorchwyro*); *tragwyddol* (*tragywydd-ol*), etc.

slope, declivity, steep

pl. of allt hillside, hill

x

* |

Td. ll.

- 82 5 **hir bylgeint**, yn gynnar yn y plygain ; gw. ar 56, 21 ; cf. M.A. 655 a 42. Dengys ll. 7 nad oedd y wawr wedi torri.
- 6 **gelwis attaw** : gw. W.M. 199b, 4 o'r g.
- 8 **yn gynghan**. M. "all sounding together" ; E.-Ll. "a loud *resounding* wailing", fel pe o *con-*, a *can* (cf. Gw. *concanim*, Ll. *concino*) ; cf. *cynghanedd*. Ond daw'r ystyr "yn gyflawn, i gyd" i'r amlwg mewn enghreifftiau fel *Hen Gwndidau*, 71, crea yn plith / dduwiol wenith / ymhob rhyw vann / oll yn *gyngan*; *Cannwyll y Cymry*, 47b, Ym mhob man o'r holl fyd yn *gynghan*; 11a, Cofia'r ifangc y dielir / Ar y plant sydd ddrwg weithredwyr / Anwireddau'r tadau 'n *gyngan* / Gyd a'u hanwireddau eu hunan ; T. Penllyn, Pelican yn *gyngan* a gar / Fod o'i waed fwyd i'w adar. Cf. hefyd y ferf *kyngthanei*, td. 40, 10 ; *genni*, 31, 12. Yn y Cyfreithiau, digwydd y ferf drosodd a throsodd, yn y 3ydd. pres. un. *cyngain*. Ni chyngain hyn a'r llall, "It is not permissible, admissible, allowed, provided, found", cf. A.L. ii, 238, am bob hawl ni *chyghano* raith vuriedic nev geidwait amdanai, ac ni *chygayn* keidwait am dda onyt yn lle y *kygano* damdwg, ac ny *chygayn* damdwg onit lladrat . . . ny *chygayn* raith namyn yn erbyn gyr gyffreithiol ; gw. hefyd A.L. i, 96, 398, 458, Tri pheth ny *chygein* yg kyureith ; ii, 22, 182, 290, 306 ; *Cy*. vii, 125, 137 ; R.P. 10 a 21, 49a, 41 ; 151 b 15 ; B.T. 29, 9 ; 42, 26, Dinas diachor . . . gogyfarch ty prydein kwd *gygein* hyn, "where is it to be found ?" ; G.M.L. 94 ; Llan. 116 (Lewis), 53, 11, 33 ; 54, 20 ; 62, 33 ; 66, 14 ; 67, 11 ; R.C. xxix, 61n. Deallaf y testun i olygu bod mawr gyffro, dynion yn rhedeg, cyrn yn canu, a bloeddio drwy'r wlad *i gyd*.
- 15 **llyw**, lliw ; cf. 79, 22, *eilyw*.

T*d.* ll.

- 82 15 **ar torr y gilyd** (cf. ar *gefnau*'i gilydd), yn dynn yn ei gilydd. Ystyr arall sydd yn A.L. i. 136, ni eill e mab gneuthur amod *ar tor* e tat ar tat en beu [=byw]; 612, Ny dily neb gwnneuthur amot *dros* y gilyd heb y gannyat; na that *ar tor* y vab, na mab *ar tor* y tat.
- 16 **yn gyntaf a allont**: cf. 19, *yn oreu a allom*.
- 26 **Mi a glywaf**, etc., cyffyrddiad celfydd! *a skilful touch*
- 83 3 **diodwn**, o *diod*, "tynnu ymaith, taflu i lawr"; cf. Llan. 2, 325, *diot* temyl duw ae hadeilyat yn y tridieu o newyd; Pen. 4, 88 (Crist), e *dyot* y ar e pren; M.A. 488b, 491b, 733a.
- 6 **pa ryw dygyuor**, paham y casglwyd hi ynghyd?
tenacious, diligent, 18 **glutaf**, gradd eithaf *glud*, "dyfal, diwyd, taer".
fervent, earnest 21 **gwreic o'r blodeu**: cf. B.T. 36, Gwydyon ap don dygynuerthen. A hudwys gwreic o vlodeu; gw. ll. 23-4, E.-Ll. 122, "Oak for strength and constancy; broom for fairness; meadowsweet for gentleness"; cf. B.T. 25, O naw rith llafanat [cf. B.B.C. 23, 9], o ffrwyth . . . o vriallu a blodeu . . . o vlawt gwyd . . . o vlawt danat, o dwfyr ton nawvet, am swynwys i vath . . . am swynwys i wytyon.
- 24 **asswynaw**. Gan fod *aswyno*, *aswynwr* yn derm cyfreithiol cf. A.L. ii, 42, ot a treftadawc yn wr y dref-tadawc arall, a mynnu mynet y wrthaw yw dref tat ehun, ef a dily talu trugeint idaw; a hwnnw a elwir yn *asswynwr*; W.M. 230b, Ae *hasswynaw* a wnafr ar dy uilwyr. *Asswynaw* y gyuarws ohonaw ar kei a bedwyr, etc.; 231b, nyd *asswynwys* eiroet yn llaw arglwyd; R.P. 176 b 26; B.B.C. 78, *Assuynaw* naut duv ar dy guir ar dy gulad; L.G.C. 226. Felly, cyf. E.-Ll. yw "invoked"; cf. hefyd ystyron *cyswyn*, *cyswyno*, A.L. i, 418, 434, 444; ii, 600, 602, 628, 676; cf. 564, 877, *cyswynvab*=putativus filius. Ond cf. B.B.C. 23, 10, O

Td. ll.

seith lauanad bann im se *suinad*; 24, 6, Am *ssuinasseie* douit. Penderfyna'r rhain fod *swyno* yn golygu "creu, ffurfio"; felly'r testun. cf. B.T. 26, 1, Am *swynwys* i wytyon.

- 83 25 **yr un uorwyn deccaf**: cf. 84, 3, *yr un cantref goreu*, a'r modd y rhown *un* ar ôl y radd eithaf, e.e. y lle gorau *un*, "the very best of all"; Hwn yw y mwyaf *un*, etc.
- 27 **Blodeued**, felly 85, 7; *Blodeuwed*, 90, 91. Ymddengys y ffurf gyntaf fel lluosog dwbl *blodeuyn* (trebl os cyfrifir *blawd* yn llu.); a'r ail fel *Blodeu-wedd*, "Flower-face, Flower-aspect", o *gwedd*, "golwg"; cf. R. i, 776, *banhadl-wedd?* Yn D.G. td. 365, printiwyd *Blodeuwedd*, ond yn Pen. 76, 198, ceir *blodeyvedd*. Nid oes modd bod yn bendant ar rym *u* ac *w* yn yr hen lsgr., gw. ar *Llew*, 80, 24, ond carwn dynnu sylw at nifer o enwau merched yn *-medd* a roes *-fedd*, *-wedd* yn ddiweddarach; cf. L.L. 130, *Anau/ued*, *Anaumed*; 199, 273, *Tecmed* (L.B.S. iv, 217, *Tegfedd*); L.B.S. iv, 299, *Hajarmé* ("i.e. in Welsh, *Haiarnmed*, now *Haiarnwedd*"), R.M. 304, *haernwed*; Fr. Br. 14, *Banadlinet?* Y mae 91, 15, o blaid *-wedd*, a Pen. 76 o blaid i ni gymryd yr enw fel *Blodeu-fedd*, a gellid cyfieithu hynny "Flower-queen, Queen of Flowers" —neu fel *Blod-eufedd*; cf. enwau yn *Eu-*, L.L. 398, *Eudem*, *Eudom*, *Eudolan*, *Eutigirn*; Loth, Ch.B. 129, *Euboduu*, *Eucat*, etc. Ar *medd*, gw. B. i, 30. Gan fod *f* yn colli ar ôl *u* o flaen *e*, esboniai hynny yr amrywiaeth ffurf, *Blodeufedd*, *Blodeuedd*; cf. *lleufer*, "light", M.A. 167a, 494a; B.T. 35, 24; L.I.A. 5; *lleuer*, Pen. 7, c. 52, *lleuer* yr heul; Pen. 14, 104. D.W.S.; D. *lleuer*, *llefer*, *lleufer*, lux, lumen; *cyfleuer* R.P. 168 a 17; E. Samuel, *lleuerydd* y llygaid; ar feddau yng Nghlynnog, *Lliar* 1609, *Llyar* 1660, *Lleiar* 1667, *Llvar* 1676; enw ffermydd ger Pontlyfni; y sain heddiw yw *Lleuar*, *Lluar*. Tybiais gynt fod yr enw hwn arnynt yn atgo am *Lleu* Llawgyffes,

Td. ll.

neu am ei fam, y *lleu-fer*; ond darganfŷm ar ben y bryn sydd yn ymyl Lleuar Fawr (a elwir Bryn Capel) olion hen gell o'r Canol Oesoedd, a chan fod pen y bryn hwn yn rhoi golwg tra eang ar Arfon, buasai golau lamp yn y capel neu'r gell i'w weld drwy'r wlad i gyd. Buasai *lleufer* yn ei ystyr syml yn addasach na dim arno, *Capel y lleufer*. Trosglwyddwyd yr enw wedyn i blas y Twistletoniaid a'r Glyniaid wrth ei droed; yna i'r fferm. Cf. ymhellach, *rheufedd*, *rheuedd*; *meufedd*, *meuedd* B.B.C. 8, 10; 14, 2; M.A. 207b 23, 32, 33; B.T. 13, 3; B.B.C. 90, 13, etc.). Collir *w* hefyd ar ôl *e*; cf. Pen. 14, 65, *lleot a lleopardyeit*.

- 84 2 **gossymdeithaw**: gw. ar 35, 24.
- 4 **goreu**: "As a rough and craggy region, it tried and disciplined the powers of the budding chieftain", H.W. 238.
- 5 **Dinodig**: yn R. ii. 941, Cantref *dynody*; Com. Eydonyd. Com. Ardudue; R.B.B.408, *Dinodyn*; M.A. 735, *Dunodig*; 738, *Dinodyn*, Pen. 163, *Dvnodic*. Yn ôl H. 3859, *Cy*. ix, 183, *Dunaut* oedd un o feibion Cunedda; ei ran ef o Gymru oedd *dunodyn* (*Cy*. viii, 85). Am y terfyniad, saif *-ig* yn y testun am *-ing*; cf. parau fel *Glywys*, *Glywysing* (Deheubarth Cymru rhwng Tawe ac Wysg, H.W. 273); C.B.S. 22; L.L. *gleuissicg* (190, -1, -5; 204, -6, -9, etc.); *Cy*. ix, 165, *gliuisigng*; Mommsen, *Nennius*, 183, *Gleguissing*; Asser, M.H.B. 488, *Gleguising*. Eto yn Skene ii, 126, odlir *glywyssyg* ag *-yn*, *-ynt*; cf. odlau *Coeling* (o *goelig*, *diedig*, *dychyfyg*, *vnbyn*, *gwin*), 201, -2. Daw *dinodig* yn M.A. 169a, mewn cyfres o odlau yn *-ig=-ing*; yn eu plith *Cynverching* (o *Cynfarch*); *Cadelling* (o *Cadell*); *Maelgyning* (o *Maelgwn*); cf. R.P. 171b, 170a, gwr o *dinoding* gwr *berging* bar. Eto yn Sk. ii, 454, ceir *kynuerchyn*, *coeling*. Amlwg yw fod *-ing* yn dynodi "llwyth", a hefyd "bro",

light, brightness

Td. ll.

fel *Cymry*, *Ffrainc*, etc. Am *Din-* ar ddechrau'r gair, lle disgwyliid *Dun-* (fel yn *Dunawd*), gellid cyfrif am hynny trwy ddylanwad *-ing* yn y sillaf olaf.

Ysgarwyd y ddau gwmwd gan Edw. I (S. Rhuddlan, A.L. ii, 908; L. i, 200 n).

- 84 6 **Eiwynyd**, Eifynydd; gw. *Cy.* ix, 178, *Ebiau* (= *Ebiaun*?, hen ffurf *Eifiawn*) map *Dunaut* map *Cunedu*; 328, *Einonydd* (bai am *Eiuonydd*?); cf. B.B.C. 69, *eiwonit* (*w* am *f*, *t* am *dd*) 74, *ewionit*; Leland, 80, *Hiujonith*; S. Rhuddlan, A.L. ii, 908, *Evionnyth*; H.G.C. 136, *eiuyonyd*; B.A. 25, 7, *eivyonyd*; *Rec. Carn.* 39, *Euyonnyth*; *Cy.* vii, 134, *eidonyd*; M.A. 290a, Oedd eneit pobyl *Eiddionydd*; ar *dd* ac *f* yn ffeirio, gw. R.C. xii, 152; Hafod *Lwyfog*, *Lwyddog*; *eiddil*, *eifil*. Gan fod **monydd* wedi rhoi *mynydd*, gall y ffurf yn y testun fod yn amrywiad dilys ar *Eifonydd* (cf. *Rhufawn*, *Rhufoniog*, *Cy.* viii, 85, *Rywinnyawc*, R.B.B. 259, *rywyn(y)awc*; 303 *rywynawc*) ac nid yn fai copiwr, effaith cydweddiad â *mynydd*; ond amheus iawn yw, oherwydd cysondeb *o* yn yr enghreifftiau eraill o'r enw hwn, ac yn ynganiad heddiw.

Ardudwy: gw. H.W. 238, o ddyffryn Ffestiniog yn y gogledd hyd Abermaw.

- 7 **kyuanhedwys lys idaw**: yno y bu byw, preswylodd yno (nid fel L. "On lui *bâtit* une cour").

- 8 **Mur Castell** (R.M. *mur y castell*), heddiw Tomen y Mur, ger Trawsfynydd. Ceir yno olion hen gaer Rufeinig, a thomen castell diweddarach; gw. *Inventory, Co. Merioneth*, 150-3, "The name Tomen y mur describes what is now the most conspicuous feature of the site, a great medieval castle-mound built within the Roman enclosure which provided a ready-made bailey . . . The mound . . . was probably thrown up by William Rufus . . . in 1095 or 1097"; gw. H.G.C. 140, "e lluestws ac y pebyll-

heap, mound
tumhill, widden

Td. ll.

yws en gyntaf em *mur castell*". Efallai mai ef a gododd y domen, ond nid yw *lluestu* na *phebyllyaw* yn disgrifio hynny, eithr codi *gweryll* dros dro.

*an-campment, camp,
farrison* 84

8 **gwrthtir** (gw. R.C. xxxi, 509), ucheldir; cf. *gwarthaf*, "top", *gradd eithaf gwrth*.

13 **troi**: cf. W.M. 73a, yd ydoed yn *troi* yn y gaer gwedy bwyd, h.y. mynd am dro, cerdded o gwmpas (nid fel M. 267-8); Y.C.M. 51, A phan yttoed . . . merch y brenhin yn *troi* ac yn gware yn y berllan.

19 **Gronw Pebyr**, h.y. *pybyr*, ond y mae R.M. 305 yn darll. *peuyr*; Sk. ii, 460, *Pefyr*; Pen. 76, 198, gronw vab *pefr* gyronir / a r[ig]lwydd penllyn hoywin hir/. *pybyr*, dwy sillaf, cf. R.P. 24 b 4, Caru duw y bawp oed *bybyryaf*; 136a, vn anyan yw myr / ac awyr *pybyr*/; D.G. xxv, 26, Pwy biau'r gwallt *pybyr* gwiw; xciii, 29; D.W.S. *pybyr*, "thryfty"; *pybyrwch*, "thryfte"; D. *pybyr*, "strenuus, robustus, fortis". Ceir *pybyr* yn Ll.A. 166, am bupur, "spices" (Ll. *piper*); cf. B.T. 32, 15 (ct. 55, 10); W.M. 229b, golwython poeth *pebreit*.

pefr yw "disglair, hardd, golau"; D. "pulcher, bellus", ac efallai mai hwn yw'r ansoddair addas i Ronw. Am gymysgu tebyg, cf. Br. Er. Tudual *Flau*; 18, Tutwal *Pefir*; 19, Tutwawl *Beper*. Ar *Gronw* am *Gronwy* (92), cf. R.P. 80a, 32; 95b 40, *berwy*; heddiw *Pentre Berw*; *aswy*, *asw*, W.G. 107, 108; uchod 83, 1, ceir -*yw*, -*w*, *deryw*, *derw*.

Penllyn: gw. H.W. 245, yr ardal rhwng Edeirnion yn y dwyrain, ac Ardudwy yn y gorllewin, o amgylch Llyn y Bala; 246 n., "The mound at Pont Mwnwgl y Llyn anciently bore, it is said, the name of Gronw Befr" (Pennant, ii, 215).

21 **Auon Gynnwael**: *w* am *f*, Afon *Gynfael* (*Gynfal*); yr un elfennau sydd yn yr enw *Mael-gwn*; cf. *Maeldderw*, *Der-fael*, *Derfel*. Y mae Cwm Cynfal i'r dwyrain o Lan Ffestiniog.

X

Td. ll.

- 84 24 **atueilaw**, darfod; gw. ar 67, 18; cf. Mommsen, *Nennius*, 173, dies declinabat ad vesperum et nox appropinquabat.
- 25 **heb**, heibio.
- 27 **prytwn**, pryd-hwn; cf. *dythwn*, dydd-hwn, dwthwn.
- 85 4 **cyuarch well** (R.M. *y gyuarch gwell*); gw. ar 2, 8, cf. *kyuarch guell*, 13, 29, gw. ar 35, 18.
- 7 **edrych** (R.M. *edrychawd*); gw. ar 50, 5.
- 15 **amgen** (R.M. *nyt amgen*); cf. 5, 4, 5. Nid oes raid wrth *nyt*, gan ei fod eisoes gyda'r ferf, *ny bu ohir amgen no'r nos honno*, sef yr amser a nodir yn ll. 14, yr hwyr hwnnw.
- 17 **aroun**: gw. ar 32, 16.
- 20 **furu**, ll. 22; gw. ar 6, 23.
yg kyt: cf. ll. 16, 19, *y gyt*, "i gyd", *gydag i=yn*; ond yma ceir fel heddiw, "*ying nghyd*".
- 28 **a'th ganhadaf** (R.M. *ath ganhataf*), rhoi caniatad iddo; ct. 26, 26; cf. 18, 12; 21, 13; ac ar *gadu*, 22, 8; cf. 84, 27.
- 86 3 **ysmalawch** (R.M. *ysmalhawch*); cf. D.W.S. *ysmala*, "h^oeley [homely], familiar"; *ysmalahwch*, "h^onelynes, famlyarytie". Heddiw "digrif" yw *ysmala*, cf. D. "leuis, inconstans", G.I.L.L. xii; ond nid dyna'r hen ystyron, gw. T.W. *importunus*, rhydaer, *ysmala*, haerllug, taer ddigywilydd. Felly yn y testun, haerllugrwydd a thaerineb cariad sydd i'w ddeall, "importunity" (nid "dalliance" fel M., E.-Ll.: L. "en plaisantant"), cf. Y.C.M. 86, *Nyt reit . . . na blinaw na gwediaw nac ysmalhau o ymadrodyon y neb a vo chwannogach yr peth a archer nor neb ae harcho* (C.Ch. 89, *Nyt reit trablinaw neb o adolwyn*; *Cy.* xx, 186, "to entice with words"); S.G. 157, *ynteu yn ysmala a erchis agori "yn daer, yn hy, yn haerllug"*; L.G.C. 197, 199; H.G.C. 112, ac adolwyn udunt yn *ysmalha* rodi canorthuy

Td. II.

idaw y geissyaw tref y dat. (y bachgen bach yn *clepian yn ddibaid* arnynt ei helpu); C.Ch. 20, namyn oe vot yn *vlin ac yn ysmala* eu hyscrivennu rac meint oed y gweithredoed, h.y. yn flin ac yn drafferthus; Pen. 94, 151, O Gwenddydh dec vy chwaer yrwy fi'n digio gan dy *ysmahalrwydh* di yn ceisiau. Yr ydym yma yn yr eithaf pellaf oddiwrth ystyron D. (Ni roir *ysmala* dan *leuis*, nac *inconstans* gan T.W.) Ond cf. yn y testun, ymdidan yn *lut* ac ef,—wedyn daw *ysmalawch caryat*, "loving persistence", fel enw i ateb i'r ansoddair *glud*—yna *dilyt y gantaw*. Rhaid bod *ysmala* wedi newid ei ystyr mor llwyr a *gwawd*, "praise, mockery"; *Telyn y Dydd*, 89, bachan *bidir*, "funny"; neu *atgas*, "hateful" ("funny" yn Nyffryn Conwy), neu *del*, "pretty"; gynt "saucy, froward, morose, cross", D. ac R. Dengys D.W.S. ef ar hanner y ffordd. Wrth esbonio'r ferf, fodd bynnag, cadwodd D. yn nes i'r hen ystyr, *ysmalhau*, "molestiam facere, leuitate sc. loquendi; stupefacere" (ar Y.C.M. 86 ?).

- 86 12 **goualu**, poeni, ymboeni, "worry", nid yn ystyr *gofalu* heddiw; cf. R.M. 146, gwedy y [=eu] *goualu* or chwein ar annesmwythder.
- 17 **wrth ymoglyt**: *wrth* yn ystyr *i*; *ymoglyt* berf-enw *ymogelaf*, "take care", gwarchod rhag y perigl.
- 20 **bythit**, amherff. amhers. modd dib. *bod*; pan *fyddai pobl* yn yr offeren.
- 21 **duw Sul**: gw. W.G. 59-60, cf. duw-Iau, dyw-Iau, *Difiau*; *heddiw*; Sk. ii, 63, kyn no *diw*, "cyn y dydd"; 189, *duw* sadwrn; 83, *duw* mawrth; yna *diw* bum gwaith, a *divyeu*; 104, *diu* saith gwaith.
- 26 **ennein**: gw. ar 18, 11.
cromglwyd, ffrâm to; o *clwyd*, "hurdle"; *crom*, benywaidd *crom*, "curved". Troes yn *cron-glwyd* trwy gydweddiad â *cron*, oherwydd y ffurf; yna *cronglwyd*

Td. ll.

(gydag ng); cf. *dan-gos*, dangos yn y Gogledd; *an-gerdd*, *angerdd*. Am yr ystyr cf. Gw. *cúa-chléthe*, "having a cup-shaped roof", C.I.L. 541. | *

86 27 **cerwyn**, "tub", neu "vat"; gw. S.E., V.V.B. 70. Ei defnydd oedd pren; cf. A.L. i, 296, Keruyn *estellaut*, "made of staves"; K. *unpren*, boncyff wedi ei gafnu i'r pwrpas; D.G. xlv, 41, cerwyni *crinion*.

cafnu to scoop, hollow out

87 2 **yuelly**: gw. M. 307 ar yr amodau.

5 **noc**. Gad R.M. ac M. yr ail *noc* allan: ond ystyr y frawddeg felly fuasai, "She did not send before hearing". Credaf fod blas *cynt*, "quicker", cyflymach, yma, fel yn 10, 8; nid cynt y clywed na'r anfon. Cyn gytged ag y clywodd, anfonodd.

y hanuones: dengys *h-* fod *y* yn cynnwys y geiryn *y*, a'r gwrthrych, rhagenw'n cyfeirio at *ymadrawd*.

10 **uot yr hynn**. Yn W.M. *uot yn hynn*; cywirodd R.M. i *uot yn wir*. Ond y pwynt yw, nid sut y gallai fod yn *wir*, ond sut y gallai *fod* o gwbl.

12 **o faraf** (R.M. *o pharaf*).

15 **Brynn Kyuergyr**, heddiw Bryn *Cyfergyd* (gw. M. 340 n.), cyfystyr â'r hen air *cyfergyr*; ar hwnnw, ac *ergyr*, "blow", Gw. *erchor*, gw. B. i, 2, lle rhoir enghreifftiau; gw. hefyd B.B.C. 102, 11, lle golyga "ymryson". | *

19 **dywot** (R.M. *dywawt*), dywedodd (nid "came", fel E.-Ll., fel petai am *dyfod*), W.G. 338.

21 **awn eu hedrych** (R.M. *y hedrych*). Ceir *y=i* ei, *i'w*, 8, 4; *yu=i'w*, 35, 24; ac *y=eu*, 16, 7; 46, 16; 53, 22; 79, 19, etc. Gellir darllen *eu* yn W.M. fel hen orgraff am *yu*, a'i ddeall fel *i'w*; neu dybio i'r copïwr, gan ei fod wedi gweld cymaint o *y=eu* yn ei wreiddiol, roi *eu* yma yn ddifeddwl am *y*; gw. ar 53, 23, lle rhoes *yw* am *eu*. am y cymysgu sydd yn yr orgraff.

24 **ymneinaw** (R.M. *ymeneinaw*).

26 **uot bwch arnunt**, fod yr enw *bwch* arnynt.

Td. ll.

- 88 7 **neita**, am *neitya*, neidia, yr *i* gytsain wedi caledu *d yn t*, ac yna colli yn iaith y De ; neu ynteu *neid-ha*; cf. *bwyta*, *bwyd-ha*.
- 8 **bwrw ehewan** (cf. 43, 28 ; 89, 13, ar *bwrw*) ; yma enw fel *ehedfa* (cf. Y.C.M. 4) yw *ehewan*.
- 11 **yn gyn gyflymet** : gw. ar 43, 10.
- 14 **gwreskyn**, cywasgiad o *guereskyn*, ll. 13 (R.M. *goresgyn*) ; gw. ar 6, 12 ; felly *gorffwyssaf*, ll. 19 (R.M. yn llawn, (*g*)*orffowyssaf*) ; cf. 87, 24, *ymneinaw*.
- 22 **yn y theruyn**, i gyd oll ; cf. A.L. i, 620 ; W.M.L. 1, Hywel da . . . can oed eidaw ef Kymry yn y *theruyn*, nyt amgen petwar cantref a thrugein . . . Ac yn y *teruyn* hwnnw . . . "within those boundaries" ; gw. R. i, 721, Pen. 118, 525 ; ct. W.M. 238a yn *theruyn*.
- * | 24 **ty uab eillt**. Ar y treigliad gw. ar 35, 8 ; ar ystyr *eillt*, gw. R.C. xxxix, 64-5, Gw. *alte*, cf. *cyf-aillt*. Yn R.B.B. 235, *meibon eillon* = Ll. coloni. Ar y defnydd o *mab*, cf. *mab uchelwr* A.L. ii, 100, 773 ; *meibion uchelwyr*, A.L. i, 180, 182. Ar *aillt*, *taeog*, *bilain*, fel cyfystyron gw. Lloyd, H.W. 294, arferir am y dosbarth oedd yn gaeth i'r tir, nid caethion tai, ond yr amaethwyr a lafurient y ddaear ; gw. ymhellach ar yr "unfree peasant" yn Vinogradoff, *Survey of the Honour of Denbigh*, lxxxvi ; Seebohm, *Tribal System*, 54, 116, 119.
- 89 2 **cerdet** : gw. ar 12, 13 ; 35, 18.
- 4 **craf**, gafael ; cf. 32, 4.
- 13 **yn braf**, yn gryf, h.y. yn gyflym ; gw. ar 42, 10.
- 14 **cymryt gwrthwyneb auon** : cf. 81, 19, ar *cymryt*. Aethant i fyny'r afon, sef Afon Llyfni, a chan fod *Llain yr Hwch* yn enw ar gwrr cae Eithinog ger Pont y Cim, gall mai oddiyno y cychwynnwyd. (Dr. J. G. Evans a gyfeiriodd fy sylw at yr enw gyntaf.) Nid yw Pennarth ymhell, prin ddwy filltir.

Td. ll.

89 16 **Nantllew** (R.M. *Nant y llew*), camddarllen *u* yn *Nantllew fel w*; cf. Pen. 98 B. 50, Y bedd yngorthir *nanllau* / ni wyr neb ei gynneddau / mabon vab mydrion glau. Gelwir y dyffryn y tu uchaf i Benygroes, Llanllyfni, yn *Nant*; a'r cwrr uchaf ohono (ardal *Baladeulyn*) yn *Nanlla* (*Nantlle*). Sychwyd y llyn isaf bellach, ond erys yr uchaf; gw. ll. 25, *deu lenn*.

17 **y prenn**. Amlwg yw fod rhywbeth fel y *dan dderwen* wedi colli o ll. 16.

24 **englyn**, sef Englyn Cyrch C.D. 323. Sylwer ar hynafiaeth yr orgraff, *e* am *y* yn *lenn*, *glenn*, i odli â *hynn* yn orgraff W.M. Gan fod odl gyrch rhwng *eu* yn niwedd y drydedd linell a *Llew* yng nghanol y bedwaredd, cywirwyd y darll. *Llew* a rydd W.M. Y ddau lyn yw'r rhai a goffeir yn yr enw *Baladeulyn*; am genedl *llyn* gw. ar 35, 8; 40, 14. Rhaid gwrthod cynnig L. i, 400-1.

26 **gorduwrych**, yn ddeuair yn W.M., ond un yn R.M. Yr ystyr yn ansicr: M. "darkly overshadowing"; L. "sombres et agités". Gellir darllen *gordduwrych* neu *gorddufrych* gan fod *w* yn amwys. O blaid yr ail y mae I.G.E. 8, "Diofryd a roddaf (h.y. ni wnaif byth eto) cneifio 'marf, dros [=yn lle] ei gadu i dyfu / i guddio croen y gwddw crych / a'r ddwyfron mor arddufrych (neu oer arddufrych, fel D.). Esbonia D. y gair olaf fel "fuscus, infuscus", o *ar*, *du*, a *brych*; disgrifiad yw o ddwyfron noeth y bardd, y lle oedd wedi duo yn yr haul, "swarthy, dusky-hued". Gan fod barf gneifiedig yn briwo boch Euron, ni chneifia yntau byth moni eto ond ei gadael i dyfu a chuddio ei wddf crych, a'i ddwyfron arddufrych. Cf. ymhellach D.D.G. 99, Dafydd yn edrych yn y drych; os yw hwnnw yn un da, yna *gwifr* (?) *arddifrych* yw ef (rhywbeth digon hyll, "swarthy" ?). *ugly*
Cynigiad, felly, mai "very dark, gloomy, dusky" yw ystyr

Td. ll.

gorddufrych yn yr englyn. Y rheswm bod awyr a glyn mor ddu yw cyflwr *Lleu*; tranc y go-leu.

end, dissolution, death

? gwrych hedge

Pe darllenid *gorddu wrych*, golygai hynny fod y ddâr yn wrych tywyll i guddio'r awyr a'r glynn—ystyr ddigon naturiol. Ond gwell darllen *w* mewn hen orgraff fel *f*.

89 27 **eu**, treigliad o *geu*, "celwydd". Ystyr y llinell yw "Onid wyf yn camgymeryd". *Meddwl* mai *Lleu* oedd yr eryr a wnaeth Gwydion, a chanodd yr englyn i weld a oedd hynny yn iawn; cf. *The Fians*, 228, 232; 267-73.

28 **o ulodeu**, o flodeu (un gair yn y llsg.). Ni fedraf ddilyn M. ac L. a throi hyn yn *aelodeu*. Ni fu'r gair *aelod* erioed mewn unrhyw gyfnod nac orgraff yn *oulod*. Hefyd, wrth ystun io'r testun i *aelodeu* collir yr *o* sydd raid wrthi i gydio yn *ban yw*; cf. R.M. 298, Ar gwyr hynny *o* erch a heled *pann* anhoedynt; B.T. 25, 21, *Nyt o* vam a that *pan* ym digonat . . . *o* prid *pan* ym digonet; B.B.C. 23, *O* seith lauanad *bann* im se suinad. *O* seith creadur *pan* im dodaeth ar pur; W.M.L. 81, Bonhed gwenyn *o* paradwys *pan yw* (llyth. "the origin of bees, it is from Paradise that it is"). Cyfystyr yw *pan yw* ag *y mae*; felly yn y testun, "O Flodeu *Lleu y mae* hynn; ar *Flodeued*, neu *Flodeuwed* *Lleu* (a wnaethpwyd o *flodau*) yr oedd y bai am hyn, sef bod *Lleu* yn ei gyflwr gresynus ar ben y ddâr; cf. *o hynny*, 44, 21, "through that, because of that". (Efallai y dylid deall *or bissei pan diconetent* yn gyffelyb yn y *Computus*, B. iv, 256, ac ail rannu'r brawddegau). Yn M. 341 n., cyfeiria Gruffydd at enw ffarm ger Dinas Dinlleu, sef *Caer Loda*, a'r posibilrwydd mai cof am *aelodeu* *Lleu* fel eryr sydd ynddo. Ymddengys i mi lawn mor naturiol ei gymryd fel datblygiad yn nhafodiaith Arfon o *Caer Flodeu*. Seinir *blodeu* gennym fel *bloda*; collid *f* ar ddechrau'r ail elfen o'r enw cyfansawdd fel yn *Rhiw(f)abon*, *Bod(f)organ*; gw. M. 179 n. 41; cf. hefyd *corlan* (o *cor-dd-lan*, *cor-f-lan*, *cor-ff-lan*)

miserable, wretched

Td. ll.

gan fod *f* ac *dd* yn ymglyfnewid mor aml; felly *car-w-lam*, *carlam*. Buasai'n addas iawn bod cof am wraig Llew mewn enw mor agos i'r Ddinas sy'n atgoffa Llew ei hun.

s tag + leaf

90

3 **englyn arall**, yr anhawsaf o'r tri i'w linellu. Yn y llsg. ysgrifennir fel rhyddiaith, ac ni ellir pwyso ar yr atalnodi i setlo hyd y llinellau, e.e. yn R.M. yn yr englyn o'r blaen rhoir atalnod ar ôl *oulodeu*. Y mae hefyd amryw fathau o englynion o'r hen ganiad, gw. B.B.C. ac R.P., ac nid yw hyd y llinellau bob amser yn rheolaidd. Nid yw'r nodion isod ond cynnig petrus.

4 **ard**, ardd. Y mae dau enw, ac efallai ddau ansoddair *ardd* heblaw modd gorchm. y ferf. Gall yma fod yn fôn *arddraf*, "I plough", neu fel y Gw. *ard*, *ardd* (C.I.L. 118), "high, a height". Ar y cyfan, tueddaf at yr olaf; *
buasai Baladeulyn yn ateb yn iawn i'r disgrifiad o faes gwastad mewn lle uchel. Am enghreifftiau gw. B.B.C. 46, a tyw in *hal art* heb *art* in y chilchyn, =B. iv, 123 (Pen. 3), a dyf yn *halar* heb *ar* yn y chylchyn; R.P. 10b, 11; L.L. td. li; 174, 184, 261, di *ard* ir allt; cf. hefyd yn siartr Aberconwy (H.A. 164) *terra arabilis monachorum* = Arddau'r Myneich (?), cartref T. Williams o Drefriw (Panton 14, 36). Cymysgwyd *ardd*, *gardd*, *garth* yn anobeithiol mewn enwau lleoedd; efallai mai *ardd*, "height", sydd yn *Pennardd*; a *garth*, "height", yn *Peniarth*, *Broniarth*, *Cryniarth*, *Llwydiarth*. Ar *Harddlech*, gw. W.G. 187.

maes, dwy sillaf, fel y dengys yr odl; cf. Sk. ii, 183, Ny *nodes* na *maes* na choedyd; 165, ac ef *digones*, Bud coet a *maes*; B.T. 33, 18.

5 **nis gwlych glaw**. Ai cywir *nis*, ai ynteu a ddylid darll. *neus*? Mewn disgrifiad o'r nef, dywed Casnodyn na bydd *od* yno, "na *glaw nym gwlych*" (R.P. 67a). Ond ai nef neu *Tir na-n Og*, yw'r ddâr, lle pydra Llew? Gellir dal nad oedd Llew na byw na marw y pryd hwn; ond

snow

Td. ll.

prin y dywedid ei fod mewn gwynfyd. Ond yn englynion y beddau, drosodd a throsodd, cyfeirir at y glaw; Sk. ii, 28, E Betev ae *gulich y glav*; ae *gulich kauad*; 32, Bet elchwith *ys gulich glav*=291, Tom elwithan *neus gwlych glav*; cf. hefyd Maes maodyn *neus cud rew*, . . . Ar ued eirined *eiry tew*. Buasai darll. *neus* yn y testun yn lle'r negydd yn cydio'r englyn wrth englynion y beddau, ac yn chwaneu at y darlun o drueni Lleu, fel y gwna *gorddufrych* yn yr englyn cyntaf. Am gymysgu *nys*, *neus*, gw. B.A. 1, 13; cf. 17, 18; 35, 19; 11, 22; ct. 34, 13. Ond gan fod *nis* yn W.M., gadawer iddo yn y testun, rhag newid ond a fo raid, canys gellir synnwyr ohono.

- 90 5 **nis mwy / tawd** (R.M. *nys mw y tawd*). Cytunaf â Vendryes, R.C. xliii, 428, fod yn rhaid gwrthod darll. *mwytawd*; ond ni fedraf ei ddilyn pan gymer *nis mwy* fel *ny mwy* yn B.A. 10. Yno ceir "*noc* ac esgyc carrec vyr . . . *ny mwy* gysgogit wit uab peithan". Darllener *noc y cesgyc* (pres. 3. *cysgogaf*=*ysgogaf*); yr ystyr yw "*nid mwy* yr ysgogid *nag* yr ysgoga carreg fawr yn (*neu gan*) y môr"; yn y gystrawen hon ni welais *nis* o flaen *mwy*, eithr yn unig *ni*, *nid*, a gofynnir am *noc*, *nag*, i ddilyn; gw. D.D.G. 16, *Nid mwy* y glaw, neud mau glwyf, / *no'r* od. Ceir *mwy* heb *noc* mewn nifer o englynion yn R.P. 13b, megis "Yr aelwyt honn *neus clad* hwch / *mwy* gordyfnassei elwch, etc., lle cyferbynnir y presennol a'r gorffennol. Ystyr *mwy* yn y rhain yw rhywbeth fel "yn hytrach o lawer", *nid* cymhariaeth syml, ond cyferbyniad, cf. M.A. 174b, *Nyt* cablaut *ys* molaut *muy* / Moli hael mal y haeduy. Digwydd *mwy* arall hefyd, fel adferf, "mwyach, henceforth" (gw. W.G. 435), heb fod angen *noc* gydag ef.

tawd, pres. 3ydd. un. o *toddi*. Defnyddir am y drwg yn uffern M.A. 287b, "tan ae *tawd*"; 287a, A phob ryw

Td. ll.

distryw trwy distrych *flamdawd*; am fragu cwrw, B.T. 41, 4, 5. ef ae *tawd yn llyn* hyny vo *eginyn*. ef ae *tawd* weith arall hyny vo yn *vall* (cf. "malt, barley or other grain steeped in water, allowed to sprout, and dried in a kiln, used in brewing ale", Chambers. *Dict.*), fel y S. "steep" (Swed. *stöpa*, "to cast metals, steep corn", Skeat); cf. Mal. iii, 2, fel *tân y toddydd*; Lef. xix, 4, duwiau *tawdd*; 2 Pedr iii, 12, a'r defnyddiau gan wir *wres* a *doddant*. O'r un gwr. y daw'r Ll. *tabeo*, "to melt, melt down or away, to waste away"; *tabes*, "a wasting away, consumption, putrefaction"; Gw. *tām*=*tabes*, medd Zeuss, G.C. 1004, Walde 759, Windisch 807. Cyffredin yw'r arfer o *toddi* am "to melt", ond prin y dywedid bod *tes*, neu *wres*, yn *toddi* derwen, yn yr ystyr honno. Gan hynny, sylwer ar yr enghraifft yn B.T., lle golyga "to steep, to soak"; ac ar ystyron y Ll. *tabes*.

bragu to
malt, brew

Os gorrffennir y llinell gyda *tawd*, ni cheir odl, ac y mae sillaf yn eisiau (a thybio mai englyn 7.7.7.7. sydd i fod yma). Cynnig da i wella'r mesur yw darll. *tes* (Vendryes, R.C. xliii, 429); ceid odl felly, a chynghanedd â *tawd*. Ceid odl hefyd wrth ddarll. *gwres*, a chyseinedd â *gwlych glaw*—dyna gynigiais i gynt—ond nid yw'n cydio cystal a *tes*. Pe buasai *tawdd* yn golygu "melt" yn unig, penderfynid mai *tes* a ddylid ei ddarllen yma; ond fel y dangoswyd uchod, y mae ystyr arall yn bosibl. Heblaw hynny, os dechreuir ll. 3 â *naw*, y mae honno'n rhy hir o sillaf. Symuder, ynteu, i ddiwedd ll. 2, a cheir hyd cywir yn y ddwy.

Nis gwlych *glaw* nis mwy *tawd naw*.

Ni welaf fod modd cael englyn wrth odli *glaw* a *naw* a thorri'r llinell yn ei chanol (y peth tebycaf iddo yw R.P. 7 b, 18-19; 12 b 28-9); i gael odl rhaid darll. *nawes*, ac wrth wneud hyn, cawn wared o'r ail *nis* sy'n faen

|*

Tâ. ll.

stumbling - block

tramgwydd i'r synnwyr a'r gystrawen. Ail adroddiad difeddwl yw o'r *nis* ar y dechrau.

Nis gwlych *glaw*. mwy tawd *nawes*.

- 90 5 [**nawes**]. Digwydd fel glos (*naues*) ar *reumas* mewn Hen. Lydaweg (Lux., R.C. i, 348); *cydia Rhys* ef wrth *incedlestneuïom*, gl. ar *tabe*, a *lestnaued* (gl. ar *nausiam*, medd Rhys ac H.F. 27; ar *naues* medd Loth, V.V.B. 173), "llysnafedd" yn Gymraeg. Ar *rheuma* gw. T.W., "llysnafedd a ddifera o'r pen"; Andrews, "a flow, flood (maris i.e. aestus); a catarrh". Cf. Lux. *titonis* (gl. maris), *reumas* (g. *naues*), y ddau air nesaf at ei gilydd. Yr ystyr, felly, yw "rhediad, llif, llysnafedd", ac nid yw *tabes* ymhell. Ar *tabes* rhydd T.W. "nychdod . . . tawdd corph . . . llifiant cnawd"; ar *tabesco*, "nychu . . . llifo ymaith, toddi ymaith"; ar *tabidus*, "llygredig . . . a fo yn *toddi* ac yn darfod ac yn treulio ymaith gan nychdod". Y mae hyn oll yn ymddangos i mi fel darlun cywir o Leu Llawgyffes ar y ddâr. Os bu *tabes* erioed, neu *dawdd corff*, dyma fo, a chig pwr a chynron yn disgyn ohono. *Cydia nawes* i'r dim wrth y ferf *tawdd* i roi'r portread echryslon hwn: nid glaw oedd yn disgyn ar y ddâr, ond yn hytrach cawod o bydredd, nes ei bod hithau yn llygru ac yn pydru. Ceid yr un ystyr wrth ddarl. *ys mwy nawes*, a chymryd *tawd* fel enw, glos uwchben *nawes*, a ddaeth i'r llinell trwy fai copïwr; cf. *kyvoeth*, gl. ar *ryuetev*, B.B.C. 27, 5. Gwelir bôn *nawes* yn *dineu*^x, "llifo, tywallt" (am *-eu*, *-aw*, *-af*, cf. *ceneu*, *cenawon*, *cenafon*; *edeu*, *edafedd*), gair a ddefnyddir am doddi meteloedd, Llan. 2, 329 (y llo aur), *dineuasawch* dinawet elydyn ywch; Pen. 7, 60, delw gwr o lydyn wedy y *rydineu*; am waed yn llifo, B.B.C. 72, *guyar* in *dineu*; am y glaw yn uffern, R.P. 32a, Eiry ayarrew, a ruthyrwynt glew, a *glaw dinev* (cf. hefyd

mucus, slime

horrible, shocking, dire

to pour, shed, spill

x to pour out, shed, effuse, spill, cast

Td. ll.

y gl. *tornouidocion*, R.C. xxxiii, 425 ; A.C.S. ii, 693-5, enwau afonydd fel *Nāva*, *Navia*, *Navissus*).

Os yw'r cynnig hwn yn gywir, i adfer yr hen destun ni raid ond chwanegu *-es* at *naw*, a dileu'r ail *nis* yn ll. 2. Nid yw'n anodd deall sut y bu i W.M. gamddeall ei gopi ; yr oedd *nawes* yn ddieithr iddo, a gwelai synnwyr yn *naw ugein* ar ddelw B.B.C. 96, 15, 16. Os wyf yn iawn ar ystyr *angerd*, fodd bynnag, gwell yw'r synnwyr wrth ddarllen *ugein*.

- 90 6 **angerd**: gw. ar 73, 15. Yr ystyr yma yw "celfyddyd, hynodrwydd, dawn arbennig" ; cf. W.M. 235b, "*angerd* oed ar gei. *naw* nos a *naw* diwarnaw(t) hyt y anadyl y dan dwuyr. *naw* nos a *naw* dieu hyd uydei hep gyscu. Cleuydawd kei ny allei uedyc y waret ; ll. 24, *angerd* arall oed arnaw" ; B.T. 20, 5, teithi *angerd* vardoni. Daw o *cerdd* gyda'r rhagddodiad *an-* sy'n cryfhau (cf. *taw*, *an-daw*, *gwar-an-daw*) ; ac mae'n rhyfedd o debyg i'r Gw. *saincherd*, "special craft" (gw. Thurneysen, *Hand.* ii, 40). Am *cerdd*, crefft, celfyddyd, gw. W.M. 228b, y *gerdawr* a dycco y *gerd* ; 244a A ouynneisti a oed *gerd* ganthunt. gouynneis. ac vn o nadunt a dywawt gallel yslipanu cledyueu . . . gat hwnnw y mywn cans oed *gerd* ganthaw ; Gw. *cerd*, celfyddyd, crefft, "skill, art, craft, feat", C.I.L. 348 ; hefyd crefftwr, bardd, gof (cf. *saer* yn Gymraeg, "mason, carpenter"). Un o enwau'r Llew Gwyddelig (*Lugh*) oedd *Ildánach*, "aml ei ddoniau", am y gwyddai bob crefft ; gw. M. 242-3, Stokes, *The Second Battle of Moytura*, R.C. xii, 77, "wright (*saer*), smith, champion, harper (*crythwr*), hero, poet, historian, sorcerer, leech (*meddig*), cup-bearer, brazier (*cert*, h.y. *cerdd*)". Collwyd y cof am dano yng Nghymru dan yr enw hwn, ond erys yn yr hen englyn frith gof am ei orchest fel *cerdd-or*. Er

|*

excellence

x frith gof faint recollection

Td. ll.

90 6 a **borthes**. Un ystyr i *porthi* oedd dwyn, cludo (Ll. *porto*), "carry"; un arall, bwydo; cf. *ymborth*; R.P. 12b, cluda'r bardd ben ei arglwydd, Urien, "Penn a *borthaf* am *porthes*", gan chwarae ar amwysedd y gair yn ôl arfer ein beirdd hen. Yn y testun, cyfeirir at waith y ddâr yn *cynnal* ar ei changhennau yr eryr dawns; ar yr ystyr ddyblyg, cf. *cynnal*, moddion cynhaliaeth. Deallaf yr englyn i gyd fel hyn: "An oak grows on a high plain. Rain wets it not, rather does corruption steep it. A score of crafts hath it upheld. In its topmost branches, Llew of the Skilful Hand".

X

8 **ymellwng idaw ynteu**, ymollwng ohono yntau, cf. ll. 9, *canu englyn idaw ynteu yna*, canu englyn ohono; gw. Lewis, B. iv, 183, cf. uchod 44, 19.

9 **englyn**, sef englyn cyrch, fel y cyntaf, td. 89.

10 **anwaeret**, llechwedd, cf. B.B.C. 65, 11.

11 **medur**. Y mae *e ac o* yn debyg iawn i'w gilydd mewn un teulu o lsgr., a chredaf mai bai yw hwn am *modur*, "arglwydd, tywysog"; gw. R.P. 63b, geilw'r bardd ei noddwr yno, vy *modur* mat; M.A. 149a, 180b, 203a, 211a, 308b; 285a *modur* beirdd a neuad(d); am feirch (gyda *mirein*!) yn B.T. 40, 17, y gwr am rodes y gwin ar cwrwf ar med. Ar meirch mawr *modur mirein* eu gwed, "proud, stately?"

ymywet (R.M. *ym|ywet*). Ar yr olwg gyntaf, "ymyfed", sef "carousing"; cf. *ym-*, 30, 21; 91, 19. Ond gan nad oes ystyr mewn galw Llew yn "fair lord of carousing" y pryd hwn, gwell chwilio am ddehongliad arall. Mewn orgraff hŷn, ceid *emywet* neu *emiuet*. Troer i B.A. 35, 12, yno darll. Dr. Evans, Ni forthint ueiri molut *muet*; yn y llun ac yn y llsg. darllenais innau *niuet*, ond amhosibl bod yn bendant, heb gymharu 17, 13, lle ceir ffurf arall ar y llinell, sef Dyfforthes meiwyr

Td. ll.

molut *nyuet*. Y gair yw *nyfed*, "sanctuary"; cf. M.A. 243a, *nyned* [nyued] nefawl; Cy. x, 178, *Iut-nimct*, *Ednyfed*; Galeg *nemeton* (gw. Holder, a Rhys, C.I.F. I, 16); Gw. *nemed*, "sacellum". Perthyn i *nef* o ran tarddiad; ei ystyr gyntaf yw llwyn cysegredig, llannerch santaidd yn y coed, wedyn teml; gw. Boisacq ar Gr. *nemos*; R.C. xxii, 242-3, ar Gw. *fidneimed*, fel cyfieithiad o'r Ll. *nemus*. Yr oedd y derw yn gysegredig yn ôl y Derwyddon, a cheir *drunemeton* mewn Galeg (*dru*=derw). Ni ellir coed o un pren, medd y ddihareb, eto ni fedraf lai na gweld yn y dderwen hon, sy'n *lloches* i un o'r hen dduwiau yn ei *adfyd*, weddill *nyfed* oes gyntefig. I gael mesur rhaid darllen yn *nywet*, neu *enywet* (gydag *e*=yn, neu'r *e* a geir wedi tyfu o flaen *n* yn *eneuadd*, *enifer*, etc.; gw. ar 4, 6); neu ynteu gellid tybio mai *einywet* oedd y gwreiddiol, canys ceir y *rhagddodiad ei-* weithiau o flaen *n-*, ac yn aml o flaen *l-*; cf. *eilun*, *eiliw*, *eilenwi*; a'r ffurf *einiwet* yn W.M. 207 (Pen. 6), lle rhydd Pen. 4 *eniwet*=niwed. (Y mae cryn amrywiaeth yn ffurfiau'r gair hwn; gw. M.A. 248a, *eniwet* a *einiwaf*; L.L. 120, *ennuet*; LL.D.W. 63, *enwywet*; A.L. ii, 76, *eniwet*; 138, *einywet*. Gwnai hwn y tro yn yr englyn, o ran ffurf; nid cystal o ran ystyr). Dengys hyn fod modd cael *einywet* yn yr hen gopi, fel ffurf ar *nywet*, *nyfed*; hawdd wedyn fuasai darllen *ein-* fel *em-*, ac yna droi *em-* yn rheolaidd i *ym-* yn orgraff W.M.; cf. B.A. neu Pen. 6 am ddigon o enghreifftiau o hen *em-* = *ym-*.

Cymeraf bod *mirein modur* un ai'n disgrifio'r *einyfed*, neu ynteu yn dibynnu ar *einyfed* (cf. B.B.C. 77, *adaw plant*, plant Addaf), yn ôl yr hen gystrawen. Yr ystyr, felly, fuasai fod Gwydion yn disgrifio'r ddâr fel *einyfed* hardd-deg, neu fel noddfa tywysog hardd, sef Lleu. Gwell gennyf hynny na darll. *Mirein modur yn nyfed*, gan ei fod yn cysylltu ll. 2 yn dynnach wrth ll. 1.

*
*
?
refuge, shelter,
hiding-place,
den, lair

adversity, misery,
distress

prefix

Td. ll.

(Ceir *Nimet* fel enw dyn yn *Cy. ix, 171*, sef *Nimet m. Dimet m. Maxim gulecic*; ct. 172, *Eidinet m. Anthun m. Maxim guletic*; cf. B.T. 45, 22, *Eidywet eidunet*, mewn cân lle'r enwir (ll. 20) cruc *dymet*, ac *aercol*, = *Cy. ix, 171, Aircol*. Atebai hwn i'r Galeg *nemetos*.)

90 12 [eu]. Rhaid chwanegu *eu*; cf. yr englyn cyntaf. Y tebyg yw bod *eu* yn gorffen ll. 3, treigliad *geu*, celwydd; a bod *eu*, ef, yn dechrau ll. 4. Hawdd oedd colli un.

13 ef **dydau**, fe ddaw; cf. B.T. 29, 7, 9, *dydeuho*. Am *ef* fel geiryng rhagferfol, cf. B.B.C. 100, 15, *Ew* kuynhiw: B.T. 62, 24, *ef canet*; gw. W.G. 427.

X

Ystyr yr holl englyn i mi yw, "An oak grows under a slope, the sanctuary of a fair lord. Unless I speak falsely, Lleu will surely come to my lap".

20 **kyuyl**, ymyl, agosrwydd; cf. 74, 19; B.B.C. 84, o *kyuil* dieuil dothuid; A.L. i, 152, eu duin huy [sef ei dystion] en e *heuil* ef, gw. S.E. Yma, cyn ei bod yn *agos i'r* flwyddyn, h.y. mewn llai na blwyddyn. Defnyddir y fannod mewn brawddegau tebyg hyd heddiw, e.e. cyn pen *yr* wythnos, ymhen y mis, etc. Daw'r ardd. y "i" ar ôl *cyfyl*, o gystrawen ei gyfystyr, *agos*.

23 **ymgynhal**: E.-Ll. "withhold himself"; M. "he cannot endure to have on him thy atonement"; L. "il ne peut se maintenir sans te rendre satisfaction". Ar hen ystyron *cynnal* (o *cant-dal*), cf. 82, 19, "hold"; C.Ch. 33, kymenediweu duw a *gynhalywn* ni (= Y.C.M. 12, nini a *gadwn* dedfeu duw); Y.C.M. 34, ony *chynneil* yr amot; 45, ny chawssei eiryoet dyn a *gynhalyei* idaw yn ymwan, "withstand"; 55, na *chynnelis* udunt na chyfrwy na gwarthavyl; 57, y llinynneu oed yn *kynnal* y lluruc; parawt wyfi . . . y *gynhal* yth erbyn di na thal y bedyd, "maintain"; 63, onys dialaf ynheu ef na *chynnellwch* vi o werth vn blewyn, "hold, esteem"; A.L. ii, 364, Pedwar peth a *ganalod* y brenhin yn y law e hun, "has

Td. ll.

kept, reserved"; S.G. 55, velly y *kynhalyawd* y brenhin wynt yngkarchar deugein niwarnawt heb anuon dim or bwyd udunt, "kept". Yma cymeraf *ymgynnal* fel "keep on, dal ymlaen"; cf. *ymaros*. Yr oedd yn bryd i Llew gael iawn, meddai ef: cytuna Math, na allai Gronwy *ddal ati, ymgadw* fel yr oedd, ac iawn Llew ganddo o hyd heb ei dalu. Ac etyb Llew, mai gorau po cyntaf y telir y ddyled.

- 91 2 **llys a oed ar y mynyd.** Cynigiodd Mr. G. J. Williams, yn ei *Hanes Plwyf Ffestiniog*, td. 38, mai Bryn y Castell oedd ei safle, *Inventory*, Merioneth, td. 29, rhif 68.
- 3 **ni wydyn gerdet,** ni wyddent sut, ni fedrent gerdded.
- 5 **y llyn.** Anghofiodd y copiwr y frawddeg, "Ac o achaws hynny y gelwit y llyn hwnnw, *Llyn y Morynyon*", canys i hynny y lluniwyd y rhan hon o'r chwedl, sef i ddehongli'r enw hwn. Am chwedl arall a thra gwahanol, gw. Pennant, *Tours*, ii, 287, *Caniadau Elfed*, 89.
- 6 **gordiwawd,** perff. 3ydd un. o *gorddiweddaf*; gw. 32, 21, *godiwawd*.
- 15 **Blodeuwed, tylluan:** gw. D.G. clxxxiii, am gywydd i'r ddylluan, lle cyfeirir at yr enw hwn arni; mai "merch i arglwydd ail meirchion . . . o von" ydoedd, ac mai "gwdion vab don ar konwy" a'i troes, "am heury ym gary gynt / gronw vab pefr gyronir / a[r]glwydd penllyn", Ceir y testun gan Gruffydd, *Peniarth* 76, td. 144-5; a chyfieithiad, M. 254. Esbonia'r enw "Flowerface" arni fel hyn: "the feathers which surround the eyes of the common owl have a striking resemblance to the flowers of the Composite Order"; a dyfynna o *Untravelled Berkshire*, ix, td. 120, "And if you come to look at the owl, it has more the face of a Christian than a bird"; cf. D.G. clxxxiv, 31. Cofiaf weld Syr John Morris-Jones hefyd mewn dosbarth, flynyddoedd yn ôl, yn tynnu llun wyneb dylluan ar y bwrdd du, gan ddech-

Td. ll.

(=false sum?)

rau gyda dau flodeuyn yn lle dau lygad. Ar yr enw *Twyll-huan*, gw. *Y Beirniad*, iii, 258, M. 198; fe'i ceir yn D.W.S. a *Tylluan* hefyd; R.P. 119a, *tyll|euan*, ond cf. D.G. clxxxiv, 43, Er tarfu o'r *Dylluan*. Gan fod y ffurf dreigledig mor gyffredin gyda'r fannod, anghofiwyd mai *t* oedd y gysefin; lluniwyd y lluosog *dylluanod*, ac unigol newydd, *dylluan* (gw. ar 59, 3; hefyd *cwningen*, *y gwningen*, *y wningen*, llu. *gwningod*); felly D., a gofyn ai o *Dall* a *Huan*, am ei bod yn dallu yn yr haul; gw. hefyd S.E., ac uchod ar 83, 27. Beth bynnag yw tarddiad yr enw *Blodeuwed* ar wraig Lleu, dengys *Blodeuwed*=*tylluan* mai *-wedd* oedd y terfyniad i'r chwedlydd.

- 91 16 **digassawc.** Rhydd D. *digasog*, exosus; T.W. *exosus*, A gassao, cas, atgas, *dygas*. Yn y testun y pwynt yw bod yr adar yn casau'r ddylluan, ac nid i'r gwrthwyneb.
- 19 **ymgyndatau** (R.M. ymgennattau). Anodd gweld grym *ym-* ynddo; yr ystyr yw anfon cenhadau; cf. W.M. 238a, A daw hi yma o *chenneteir* ("if a message be sent her"); mi ae *kennattaaf* . . . y *chenatau* a orucpwyd ("she was sent for").
- 21 **sarhaet**, sarhad; gw. ar 36, 1.
- 24 **ban im byryawd**, *im*, rhagenw mewnlol, gwrthrych y ferf; cf. 92, 10; B.T. 25, 21, 25.
- 92 1 **dir yw.** M., "unavoidable it is"; E.-Ll. "it is right", gw. W.G. 224; cf. C.Ch. 85, mynno na vynno . . . *dir* vyd idaw gwarandaw, "whether he wishes to or not, he will have to listen"; B.B.C. 84, 12, *ystir* [ys *dir*] nithiau ny bo pur, "rhaid nithio yr hyn nid yw bur"; C.Ch. 2, vot yn *dir* idi enwi, "fod yn rhaid iddi enwi". Ystyr *dirio* oedd gorfodi. *to compel, oblige*
- 6 **trydyd Anniweir Deulu:** gw. *Cy.* vii, 129, Tri anniweir teulu ynys brydein: teulu *goronw peuyr* o benlyn a omedassant eu harglwyd o erbyn y gwenwynwaew y

to winnow, sift

v. 92, 15

Td. ll.

gan lleu llawgyffes. A thelu [^]gurgi a pheredur a adawsant eu harglwyd yg kaer greu a chyuoeth ac ymlad vdunt drannoeth ac eda glin gawr. Ac yna y llas ell deu. Ar trydyd teulu *ar lan fergan* a ymadawsant ac eu harglwyd yn lledrat y ar y fford yn mynet gamlan. riuedi pob vn or teuluoed vn kanwr a fugeint; cf. R.M. 305. Cyferbynner ag ystyr ddiweddar anniwair, "unchaste"; gynt golygai fod yn anffyddlon mewn unrhyw ffordd.

^ ?

steallt

